This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

**Usage guidelines**

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

+ *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.

+ *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.

+ *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.

+ *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

**About Google Book Search**

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at http://books.google.com/

Br 7740.7

136

HARVARD COLLEGE
LIBRARY

ET
VE RI
TAS
CHRISTO ECCLESIAE

FROM THE FUND OF
CHARLES MINOT
CLASS OF 1828

FROM THE LIBRARY OF
PROF. T. POWEL, M. A.
UNIVERSITY COLLEGE
CARDIFF.

# ENWOGION

# SIR ABERTEIFI.

TRAETHAWD BUDDUGOL

YN

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL ABERYSTWYTH, 1865.

GAN G. JONES, C.M.,
(GLAN MENAI,)
AWDWR "ENWOGION SIR GAERFYRDDIN."

---

DOLGELLAU:
ARGRAFFWYD, DROS YR AWDWR, GAN W. HUGHES.
M.DCCC.LXVIII.

Br 7740.7
COLLEGE
MAR 15 1921
LIBRARY
Minot fund

# RHAGYMADRODD.

GWELIR fod yn y Traethawd hwn fywgraffiadau amryw bersonau wedi eu geni allan o Geredigion, er esiampl, Dr. Phillips, Neuadd-lwyd, Parch. Ebenezer Richards, Tregaron, &c. Ein hesgusawd dros roddi y cyfryw i mewn ydyw, am mai yn y sir hon y treuliasant y rhan fwyaf a phwysicaf o'u hoes, ac am mai ynddi hi yr ennillasant eu henwogrwydd. Ystyriem felly fod gan y sir y llafuriasant gymaint ynddi, ac ar yr hon y rhoddasant hwythau gymaint o fri, hawl gyflawn i'w rhestru yn mysg ei meibion urddasol ac anrhydeddus ei hun.

Yr ydym hefyd wedi rhoddi yn yr Attodiad fraslun o rai personau fuont feirw yn ddiweddar, a chredwn y caiff eu lluaws cyfeillion galarus yr un mwynhad pruddglwyfus, wrth ddarllen y nodiadau anmherffaith hyn, ag a gawsom ninnau wrth eu hysgrifenu.

ABERAERON, *Ionawr*, 1868.

# ENWOGION SIR ABERTEIFI.

---

AFAN, sant a flodeuai tua dechreu y chweched ganrif. Mab ydoedd i Cedig ab Caredig ab Cunedda, o Tegwedd, ferch Tegid Foel o Benllyn. Efe oedd sylfaenydd Eglwys Llanafan Trawsgoed, yn y sir hon, yn gystal a Llanafan Fawr a Llanfechan, yn Muallt. Claddwyd ef yn Llanafan Fawr, lle mae ei feddfaen etto i'w gweled. Tybir mai efe oedd trydydd Esgob Llanbadarn Fawr. Ei ddydd gwyl yw Tachwedd 16eg.

ARTHEN, fab Sisyllt ab Clydawg, oedd frenin neu arglwydd Ceredigion. Bu farw yn y flwyddyn 804. Tebygol fod Rhiwarthen a Glynarthen, yn y sir hon, yn derbyn eu henwau oddiwrtho ef.

BEVAN, THOMAS, oedd un o'r cenadon Protestanaidd cyntaf i ynys Madagascar. Yr oedd yn enedigol o ardal Neuaddlwyd, ac yn aelod o'r Eglwys Annibynol yno, ac yn un o ysgolheigion yr hyglod Dr. Phillips. Ordeiniwyd ef a'i gydlafurwr, Dafydd Jones, yno, yn genadon i Madagascar, Awst, 1817. Gadawsant Brydain ddiwedd y flwyddyn hòno, a chyrhaeddasant Mauritius yn mis Ebrill y flwyddyn ganlynol. Tiriasant yn Madagascar yn Awst, a chawsant dderbyniad croesawgar gan Fisatra, brenin Tamatave. Daeth mab y brenin yn un o'r deg neu ddeuddeg o ysgolheigion oedd ganddynt yn yr ysgol a sefydlasant yno. Wedi gweled argoelion y llwyddasai y gwaith da, aeth y cenadon drosodd i Mauritius i ymofyn eu gwragedd a'u plant, oblegid yno y gadawsent hwy. Mr. Jones a ddychwelodd yn ol gyntaf, ac yn fuan derbyniodd y newydd prudd, gan un o'r masnachwyr, fod gwraig a phlentyn ei gyfaill Mr. Bevan wedi eu claddu, a'i fod yntau ei hun yn annhebyg iawn i fyw. Effeithiodd y newydd hwn yn ddwys arno, fel y wylodd yn hidl; ac heb golli amser aeth trwodd i'w weled, a chan gydio yn ei law, dywedai, "Y mae fy ngwaith ar ben; ond chwi a fyddwch byw, ac a lwyddwch: ymwrolwch, a chymerwch galon." I'r hyn yr atebai Mr. Jones, "Tewch; myfi sydd glaf, a chwithau sydd iach." "Chwi a gewch weled," ebai Mr. Bevan, "mai gwir a ddywedais; ac fe ddaw un arall i lanw fy lle." Gwiriwyd ei eiriau, oblegid bu farw yn mhen tridiau; a bu ei wraig a'i blentyn farw yn fuan ar ei ol.

BOLD, WILLIAM, Ysw., ydoedd o Dre'r Ddol. Llanwodd y swydd o Sirydd Mon yn y blynyddau 1644, 1649, a 1655. Yn amser y rhyfel

gwladol, cymerodd ran y brenin; ac mor ddewr yr ymladdodd, fel y teilyngodd gael ei urddo â'r teitl o Farchog y Dderwen Freiniol, yr hwn a fwriedid ei roddi yn 1660. Yr oedd ei etifeddiaeth yn werth £1,000. —*Cam. Quart. Mag.* ii., 165—7.

BOWEN, THOMAS, Ysw., boneddwr cyfoethog a haelionus oedd yn byw yn Waunifor, tua chanol y ganrif ddiweddaf. Aeth un tro i wrando Mr. Rowlands, Llangeitho, yn pregethu yn nghapel y Twrgwyn, ac o hyny allan daeth yn wrandawr cyson ar y Methodistiaid, er ei fod o'r blaen yn ymddwyn tuag atynt yn dra charedig a chymwynasgar. Yn y flwyddyn 1760, adeiladodd gapel Waunifor, yn agos i'w balas ei hunan, ac a'i rhoddodd at wasanaeth y cyfundeb; ac yn ei ewyllys trosglwyddodd ef yn llwyr iddynt dros byth. Yr oedd Mrs. Bowen yn cael ei threfnu i gadw y capel mewn cywair da tra y byddai byw. Profwyd yr ewyllys hon yn Nghaerfyrddin, yn y flwyddyn 1806, gan y weddw, yr hon a adawyd yn unig weinyddes i'r llythyr cymun. Heblaw codi yr addoldy yn hollol ar eu traul eu hunain, byddai y teulu haelionus hwn yn arfer llettya a chroesawu yr holl bregethwyr a ddeuent yno. Bu eu merch ar eu hol, yn gystal a'u mab, yr hwn oedd yn offeiriad yn Eglwys Loegr, yn dra haelionus i'r achos yno tra fuont byw.—*Meth. Cymru*, cyf. ii., tudal. 35, 36.

CADIFOR ab Dinawal, yn y ddeuddegfed ganrif. Yr oedd yn ddyn o ddewrder mawr, a chymerodd gastell Aberteifi oddiar Iarll Clare, am yr hyn yr anrhydeddwyd ef gan ei dywysog, Arglwydd Rhys, (yr hwn oedd hefyd yn gefnder iddo), â'r arf-bais, yr hon a welir hyd heddyw yn cael ei gwisgo gan amryw o deuluoedd Ceredigion, sydd yn olrhain eu llinach yn ol iddo ef. Gwobrwywyd ef hefyd âg amryw diriogaethau, a gelwid ef yn Arglwydd Castell Hywel, Pantstreimon, a Gilfachwen, yn mhlwyf Llandyssul. Cymerodd hyn le tua'r flwyddyn 1164. Priododd Catherine, merch y rhagddywededig Arglwydd Rhys.—Gwel *Note in Lewis Glyn Cothi's Works*, Dosb. iv.

CADIFOR, oedd fab Gwaethfoed, Tywysog Ceredigion, a disgynydd o Gwyddno Garanhir. Yr oedd yn byw yn y ddegfed ganrif.

CADWGAN ab Bleddyn ab Cynfyn, a ddilynodd ei dad fel tywysog Powys, yn y flwyddyn 1079. O gylch y flwyddyn 1094, darfu iddo ef a Gruffydd ab Cynan orthrechu y Saeson yn Nyfed a Cheredigion, trwy ba fuddugoliaeth yr adennillodd y Cymry lawer o'u tiroedd. Ar ol hyn, ymddengys i Cadwgan sefydlu ei lys yn Aberteifi. Yn Nadolig 1107, gwnaeth wledd ardderchog yn y Castell hwnw, i'r hon y gwahoddodd

benaduriaid a phendefigion y wlad o bob ardal yn Nghymru, yn nghyda nifer mawr o feirdd a cherddorion, i ddifyru y gwahoddedigion. Yn mhlith y rhai hyn yr oedd Nest, merch Rhys ab Tewdwr, gwraig Gerald de Windsor, rhaglaw Castell Penfro. A phan gwelodd Owain, mab Cadwgan, Nest, efe "a'i serchawdd yn ddirfawr rhag ei theced o bryd a gwedd, a boneddhicced ei moes." Yn mhen ychydig amser, cynnullodd yn nghyd ychydig gyfeillion, ac aeth i Gastell Penfro, gyda'r dyben o gael meddiant o berson Nest. Llwyddodd yn ei amcan—diangodd Gerald, a chymerodd yntau Nest gydag ef i Powys. Fel y gallesid dysgwyl, dygodd hyn ef i helbul a helynt flin, fel y gorfodwyd ef a'i dad diniwaid a thralloded-ig i ffoi am ddiogelwch i'r Iwerddon. Dychwelodd yr olaf y flwyddyn ganlynol, a chan iddo brofi nad oedd ganddo yr un llaw yn mradwriaeth ei fab, caniatäwyd iddo i adfeddiannu ei diriogaethau yn Ngheredigion, a hyny ar yr ammod o dalu can' punt, a pheidio caniatâu i'w fab i ddychwelyd ato. Amddiffynodd Cadwgan ei hunan yn llwyddiannus yn erbyn galluoedd ei neiaint, hyd y flwyddyn 1110, pan yr ymosodwyd arno yn ddisymwth gan Madawg, yn y Trallwm, a lladdwyd ef cyn iddo allu tynu allan ei gleddyf i amddiffyn ei hun. Mae hen amddiffynfa i'w gweled yn awr, ar làn y môr yn agos i Aberaeron, sydd o hyd yn dwyn ei enw; oblegid iddi, mae'n debyg, gael ei chodi ganddo ef. Tua chwarter milldir oddiwrthi mae dau ffermdy, y rhai a elwir hyd heddyw *Cilgwgan*, hyny yw, *Cil Cadwgan*, sef y man y byddai Cadwgan yn encilio iddo.

Cadwgan ab Owain, tywysog Ceredigion, ac ŵyr Hywel Dda. Lladdwyd ef gan y Saeson, yn y flwyddyn 949.—*Myf. Arch.* i., 488.

Caranog, fab Corun ab Caredig ab Cunedda, sant oedd yn blodeuo yn nechreu y chweched ganrif. Efe oedd sylfaenydd Eglwys Llangranog, yn y sir hon. Ei ddydd gwyl yw Mai 16eg. Mae hanes bywyd Caranog i'w weled yn mysg yr Ysgrifau Cottonaidd yn yr Amgueddfa Brydeinig, ac ysgrifenwyd un arall gan John o Teignmouth. Yn ol hwnw, *mab* ydoedd ac nid *ŵyr* i Caredig. Dewisodd Caranog fywyd neillduedig sant, yn hytrach na dilyn ei dad fel tywysog Ceredigion.—*Rees' Welsh Saints.*

Caredig, oedd fab Cunedda Wledig, ac yr oedd yn byw yn niwedd y bedwaredd ganrif. Hynododd ei hun yn fawr fel rhyfelwr, trwy ymlid ymaith y Gwyddelod, y rhai oeddynt wedi meddiannu amryw ranau o Gymru. Fel gwobr am hyn, derbyniodd diriogaeth y Tyno Coch yn feddiant iddo ei hun, a'r hon a elwid wedi hyny oddiwrtho ef yn Ceredigion.

Caron, esgob, yr hwn a sylfaenodd Eglwys Tregaron, ac a goffeir Mawrth 5ed.—*Rees' Welsh Saints.*

CEITHO, oedd sant yn blodeuo yn y chweched ganrif. Efe oedd sylfaenydd Eglwys Llangeitho, a choffeid ef Awst 5ed. Mab ydoedd i Cynyr Farfdrwch ab Gwron ab Cunedda, yr hwn oedd yn byw yn Cynwil Gaio, sir Gaerfyrddin; a dywedir iddo ef a'i frodyr, Gwyn, Gwynno, Gwynoro, a Celynin, gael eu geni ar unwaith, ac iddynt oll fyw bywyd crefyddol.

CENEANC, CENANC, neu CINOTHEUS, a ddilynodd Dewi Sant fel esgob cyntaf Llanbadarn Fawr.

CERI, SION, neu Sion ab Bedo ab Dafydd ab Hywel ab Tudyr, bardd enwog, yn blodeuo rhwng 1500 a 1530. Mae ei ganiadau ar gael mewn llawysgrifau.

CURIG LLWYD, neu y Bendigedig, oedd sant yn byw yn y seithfed ganrif, ac yr oedd yn hynod am ei ddysgeidiaeth a'i fywyd santaidd. Daeth i Gymru i ymsefydlu, ac ar ol glànio o hono yn Aberystwyth, teithiodd yn mlaen i ganol y wlad, ac eisteddodd o'r diwedd ar gopa mynydd uchel, yr hwn a alwyd wedi hyny oddiwrtho ef yn Curig, neu Eisteddfa Curig. Wrth edrych i lawr o ben yr ucheldir hwn, canfyddai ddyffryn prydferth o'i flaen, yn yr hwn y penderfynodd adeiladu eglwys, yr hon a alwyd oddiwrtho ef, Llangurig. Ennillodd barch mawr o herwydd ei dduwioldeb; ac oddiwrth gân o eiddo Lewys Glyn Cothi, (gwel tudal. 280 o'i waith), ymddengys ei bod yn arferiad yn ei amser ef gan y mynachod i fyned oddiamgylch i werthu delwau o hono ef, fel cyfareddau i'r bobl gyffredin, gan dderbyn yn eu lle gaws, cig, gwlan, ŷd, &c.

"Un a arwain yn oriog
Gurig Llwyd dan gŵr ei glog;
Gwas arall a ddwg Seiriol,
A naw o gaws yn ei gol."

Priodolid hefyd rinweddau iachaol i'w ffon, yr hon oedd, medd Giraldus, i'w gweled yn eglwys St. Harmon yn ei amser ef. Yr oedd hefyd yn esgob ar esgobaeth yn Nghymru, yr hon fel y tybir oedd Llanbadarn Fawr.

CYNFELYN, sant a flodeuai yn y chweched ganrif, a mab Bleiddyd ab Meirion ab Tybiawn ab Cunedda. Efe a sylfaenodd eglwys Llancynfelyn, Ceredigion, ac un arall yn y Trallwng.

CYNGAR, mab Arthog ab Caredig, a brawd Cyndeyrn, oedd sant yn blodeuo yn y chweched ganrif. Mae dau neu dri o seintiau eraill yn dwyn yr enw hwn.—*Rees' Welsh Saints.*

**Cynhudyn**, sant a flodeuodd yn y chweched ganrif. Yr oedd yn fab i Bleiddyd ab Meirion ab Tybiawn ab Cunedda, ac yn ddeon Coleg Padarn yn Llanbadarn Fawr. Credir oddiwrth yr argraff Canotinu, sydd ar gâreg yn mynwent Llanwnws, yn sir Aberteifi, ei fod wedi ei gladdu yno. —*Myf. Arch.* ii., 35.

**Cynllo**, oedd sant yn blodeuo yn y bummed ganrif, a mab i Mor ab Cenen ab Coel Codebawg. Yn yr hen argraffiadau o'r Ffurfweddïau Cymreig, gwelir ei enw yn y blwyddiadur am Gorphenaf 17, lle y gelwir ef Cynllo Frenin, oddiwrth yr hyn y casglwn iddo fod unwaith yn feddiannol ar ei hen diriogaethau, ac iddo wedi hyny gyflwyno ei hunan i achos crefydd. Yn nyhuddiant Elphin, cerdd a briodolir i Taliesin, dywedir am dano, "Ni bydd coeg gweddi Cynllo," yr hyn a brawf yr ystyrid ei eiriolaeth ef yn effeithiol. Efe oedd sylfaenydd eglwysi Nantmel, Llangynllo, a Llanbister yn sir Faesyfed, a Llangynllo a Llangoedmor yn sir Aberteifi. Gwelwn oddiwrth y nodau i ganiadau Lewys Glyn Cothi, fod y coffadwriaethau canlynol o hono yn cael eu cadw yn y lle diweddaf:— 1. Cerwynau Cynllo, sef, ceuleoedd wedi treulio yn ngwely creigiog yr afon, trwy dreuliad parhaus y dwfr. 2. Ol traed march Cynllo wedi eu gadael yn y graig. 3. Ol gliniau Cynllo pan yn gweddïo.

**Dafydd ab Gerald**, neu Fitzgerald, archddiacon Aberteifi. Cysegrwyd ef yn Esgob Ty Ddewi yn 1147, lle yr arhosodd hyd ei farwolaeth yn 1176.

**Dafydd ab Gwilym**, yr Ovid Cymreig, a anwyd yn Mro Gynin, plwyf Llanbadarn Fawr, Ceredigion, tua'r flwyddyn 1340. Hanai o deulu hynafol ac urddasol. Ei ewythr, Llywelyn ab Gwilym, ydoedd Arglwydd Ceredigion y pryd hyny, a phreswyliai yn y Ddolgoch, ar lân Ceri, o fewn tair milldir i Emlyn. Yr oedd hwnw yn fardd medrus, yn wladgarwr gwresog, ac yn noddwr mawr i'r eisteddfod. Gydag ef y treuliodd Dafydd ei ddyddiau boreuol, ac ni fu ei ewythr yn hir heb ganfod ei fod yn feddiannol ar alluoedd meddyliol tuhwnt i'r cyffredin, a dawn prydyddol cryf. Ond pan tua phymtheg oed, dychwelodd at ei rieni i Bro Gynin. Tra yno ymddangosai rhyw duedd barhaus ynddo i wneuthur pobpeth o'i amgylch yn destunau gwawd a chwerthin. Mae rhai o'i duchangerddi a gyfansoddodd y pryd hyn ar gael etto; ac maent yn bobpeth ond yr hyn a ddysgwylid eu gweled oddiwrth fab at ei rieni. Wedi byw ychydig fel hyn yn dra anghydfodus gartref, symudodd i Lys Ifor Hael, yn Masaleg, sir Fynwy, oblegid yr oedd y tywysog enwog hwnw yn berthynas agos iddo o ochr ei dad. Penodwyd ef ganddo yn arolygwr ar ei dŷ, ac yn athraw i'w ferch. Y canlyniad o'r berthynas olaf yma y safai ynddi, fu

i serchogrwydd o natur fwy tyner na *chyfeillgarwch*, i gael ei ennyn yn mynwes y naill at y llall, yr hyn pan ddeallodd Ifor, efe a orchymynodd ei symud hi oddiar ffordd ei hedmygwr, ac a'i gosododd hi mewn lleiandy (*nunnery*) yn Ynys Mon. Ond nid un i gymeryd ei ddigaloni mewn achos o'r fath ydoedd y bardd—dilynodd hi i'r ynys, ac i'r dyben o gael rhyw gyfleusdra i ymddyddan yn achlysurol â gwrthddrych ei serch, cyflogodd ei hunan yn was i Abad mynachlog gymydogaethol, ond ni chyrhaeddodd ei amcan er cymaint fu ei ymdrech. Yn ddigalon dychweliodd yn ol tua llys ei noddwr, lle y parhaodd i dderbyn yr un ymgeledd a'r caredigrwydd ag a brofasai o'r blaen; a rhwng yno a Bro Gynin y treuliodd y gweddill o'i oes. Yn fuan ar ol hyn, gwnaed ef yn Brif-fardd Cadair Morganwg, a dyna yr achos o'i alw yn fynych Dafydd Morganwg. Yr oedd yr anrhydedd yma ar unwaith yn ddigon o drwydded i'r bardd i dalu ymweliadau â phrif lysoedd tywysogion y wlad, ac i rydd-gymdeithasu â hwy yn eu gwleddoedd a'u llawenydd; oblegid yr oedd y tywysogion Cymreig y pryd hyny yn nodedig am eu haelioni i'r beirdd, a'u nawddogaeth i feibion yr awen. O ran ymddangosiad personol, yr oedd Dafydd ab Gwilym yn lluniaidd neillduol o gorff a glandeg yr olwg. Yr oedd yn dàl a hirfain, a'i wallt yn nodedig brydferth, o liw melyn, crych, ac yn hongian i lawr yn llaes fodrwyau dros ei ysgwyddau. Yr oedd y fath gydgyfarfyddiad o brydferthwch a hawddgarwch, yn nghyda'i alluoedd i swyno â'i gerddi, yn peri ei fod yn sefyll yn uchel yn ffafr y rhyw deg. A dywedir fod ganddo ar un adeg, ddim llai na phedair ar hugain o gariadon. Tra ar ymweliad â Mon, cyfarfyddodd â Morfydd, merch Madawg Lawgam, yr hon o herwydd ei glendid anghymharol a lwyr swynodd ei serchiadau. O hyny allan yr oedd holl rym ei awen yn gysegredig i'r swydd o ganu ei chlodydd, a chyfansoddodd saith ugain a saith o riangerddi iddi hi, y rhai sydd yn llawn o'r tynerwch a'r meddyliau mwyaf llednais. Wedi derbyn ei chydsyniad hi i'r weithred, unwyd hwy â'u gilydd gan un Madog Benfras, bardd enwog, yn nghanol encilion coedwig, yn ngwydd cor-geiniaid asgellog y coed yn unig, yr hyn nid oedd yn ddefod anarferedig yn yr oes hòno. Ond gan na thybiai ei rhieni y cyfryw briodas yn gyfreithlawn, llwyddasant o'r diwedd i ddwyn Morfydd yn ol, a gorfodasant hi i briodi un Cynfrig Cynin—hen wr methedig, a'r hwn na feddai ddim ond ei gyfoeth i'w gymeradwyo. Wedi llawer o ymchwil a gwyliadwriaeth ddyfal, llwyddodd y bardd i'w chael yn ol ato drachefn; ond ni fu ei ddedwyddwch ond o fyr barhad, oblegid gwahanwyd hwy yr ail waith gan y priod digiedig; ac nid yn unig hyny, ond dirwywyd y bardd i swm mawr; a chan ei fod yn analluog i dalu, gosodwyd ef yn ngharchar. Ac oni b'ai i garedigrwydd ei hen gyfeillion yn Morganwg yn talu y dirwy drosto, mae yn debyg mai yn y carchar y cawsai ddihoeni hyd ddiwedd ei oes. Wedi marw o'i

noddwr, Ifor Hael, symudodd y bardd i'w blwyf genedigol, lle y treuliodd lawer o flynyddau. Testunau caniadau olaf ei fywyd yn y neillduedigrwydd hwn, oedd marwolaeth ei noddwyr, a'i Forfydd anwylgu, yr hon a orfucheddodd; ac amlygai edifeirwch mawr am afradlonrwydd ei fywyd boreuol, yn nghyda thaer erfyniadau am faddeuant o ffoleddau ei ieuenctyd. Desgrifia deimladau ei fynwes yn y geiriau toddedig—

"Mae Ifor a'm cynghorawdd?
Mae Nest oedd unwaith i'm nawdd?
Mae dan wydd Morfydd fy myd?
Gorwedd ynt oll mewn gweryd!
A minnau'n drwm i'm einioes
Dan oer lwyth, yn dwyn hir loes!"

Claddwyd Dafydd ab Gwilym yn Mynachlog Ystrad Fflur, tua'r flwyddyn 1400. Fel bardd yr ydym yn rhwym o'i ystyried yn mysg y dosbarth cyntaf; ac mae y swyn, y tynerwch, a'r perseinedd sydd bob amser yn nodweddu ei gyfansoddiadau, yn ei ddyrchafu yn mhell uwchlaw ei holl ragflaenwyr a'i gydoeswyr barddonol. Nid oedd chwaith yn llai enwog, fel yr awgrymwyd, am ei allu i wawdio a sènu; ac yr oedd ei duchangerddi yn llawn o'r edliwiadau mwyaf pigog ac awchlym. Fel prawf o hyn, nid oes ond eisieu cyfeirio at yr ymdrech farddol a gymerodd le rhyngddo â Rhys Meigan, yn yr Eisteddfod fythgofiadwy a gynnaliwyd yn Emlyn, yn mhalas Gwilym Fychan. Dywedir i'r saethau llymion o wawd a gyfeiriodd efe at ei wrthwynebydd, Rhys, suddo mor ddwfn i'w galon, ac iddo deimlo mor ddwys o'r achos, fel y syrthiodd i lawr yn farw yn y fan! Cyhoeddwyd argraffiad o ganiadau Dafydd ab Gwilym—dau gant a thriugain a dwy mewn rhifedi, gan Owain Myfyr, a Dr. William Owen Pughe, yn y flwyddyn 1789. Mae llawer, modd bynag, o'i gyfansoddiadau wedi eu cael wedi hyny yn llyfrgell Mostyn. Cyhoeddwyd hefyd gyfieithiad rhagorol i'r Saesonaeg, o rai o'i ddewis ganeuon, gan Arthur J. Johnes, Ysw., yn 1834.

Dafydd ab Ieuan, oedd yn byw yn Llwyndafydd. Croesawodd Iarll Rismwnt pan ar ei ymdaith trwy'r wlad i gyfarfod â'i wrthwynebydd, Risiart III. O herwydd ei lettygarwch, derbyniodd gan yr Iarll y "corn hirlas," yr hwn sydd i'w weled yn awr yn y Gelli Aur.

Dafydd ab Llwyd, neu Dafydd ab Llewelyn ab Gwilym Llwyd, Ysw., o Gastell Hywel, oedd yr aelod cyntaf a anfonwyd i gynnrychioli Ceredigion yn y Senedd a ymgyfarfyddodd yn nheyrnasiad Harri VIII., sef tua'r flwyddyn 1536.—*Meyrick's History of Cardiganshire.*

Dafydd, Shon, Llandyssul, pregethwr gyda'r Bedyddwyr. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1723. Ymunodd â'r eglwys yn y lle hwnw, a dechreuodd

bregethu tra yn bur ieuanc. Teithiodd lawer trwy Dde a Gogledd Cymru i bregethu, ac yr oedd ei enw yn adnabyddus iawn trwy y Dywysogaeth. Bu farw yn y flwyddyn 1805, yn 82 mlwydd oed, wedi treulio oes hirfaith yn ngwasanaeth ei Arglwydd.

DAVIES, BENJAMIN, oedd enedigol o gymydogaeth Castellnewydd Emlyn, a ganwyd ef yn 1825. Gan ei fod o amgylchiadau isel, ac o herwydd marw o'i dad pan oedd efe yn lled ieuanc, ni dderbyniodd fawr o chwareu teg am addysg—tua blwyddyn meddir, a hyny gan mwyaf trwy garedigrwydd rhai o'i gymydogion cyfoethog. O ran *corff* yr ydoedd yn eiddil a gwan tuhwnt i'r cyffredin, er pan aned ef; ond yr oedd *meddwl* treiddgar a chryf yn cyfanneddu oddimewn iddo, a dangosodd hyny yn fuan trwy y cynnydd rhagorol a wnaeth yn yr ysgol. Fel y tyfai i fyny, cynnyddai ei awydd fwyfwy am wybodaeth, a darllenai gyda'r aiddgarwch mwyaf bob llyfr a ddeuai yn ei ffordd. A thra yn cario yn mlaen ei fasnach fechan, trwy ddilyn mèn i werthu nwyddau ar hyd y wlad, caffai gyfleusderau rhagorol i ychwanegu at rifedi cyfrolau ei lyfrgell fechan. Nid elai i mewn i nemawr dŷ heb holi yno am lyfrau, neu hen lawysgrifau, y rhai a brynai; ac felly casglodd yn nghyd luaws mawr o hen lyfrau Cymraeg gwerthfawr a phrin, yn nghyda rhai Seisonaeg a ddygent berthynas â Chymru. Yr oedd llawer o'r rhai hyn mor wael, brwnt, a drylliedig, fel na chadwasai neb ond un o chwaeth goethedig mo honynt yn ei lyfrgell. Dechreuodd ysgrifenu rhestr o honynt, gyda sylwadau arnynt, ond bu farw cyn ei gorphen. Yn y saith mlynedd olaf o'i fywyd, cadwai ysgol yn Merthyr, ger Caerfyrddin, lle bu farw, Hydref 24, 1859, yn 34 ml. oed.

DAVIES, BENJAMIN, ydoedd frawd i'r Parch. D. Davies, Castell-hywel. Bu am ryw gymaint o amser yn gyd-athraw â'r Parch. R. Gentleman, yn Athrofa Caerfyrddin. Ystyrid ef yn ysgolhaig Hebraeg rhagorol, ac yn mysg eraill, bu y Parch. Evan Evans (Ieuan Brydydd Hir), gydag ef am beth amser yn dysgu yr iaith hòno. Aeth wedi hyny i Lynlleifiad, lle y bu yn gydweinidog âg un Mr. Yates. Treuliodd yr ugain mlynedd olaf o'i fywyd fel gweinidog yn Evesham, lle y bu farw, Ionawr, 1811.

DAVIES, DAVID, a anwyd yn Geuffos, Llandysilio. Derbyniodd hyfforddiadau crefyddol gan ei rieni, y rhai oeddynt yn aelodau gyda'r Trefnyddion Calfinaidd. Bwriedid ei ddwyn i fyny i'r Eglwys Sefydledig, ac i'r dyben o'i barotoi at hyny, treuliodd amryw flynyddoedd mewn gwahanol ysgolion, ac weithiau cadwai ysgol ei hunan. Ac er mwyn cwblhau ei efrydiaeth anfonwyd ef o dan addysg yr ysgolhaig rhagorol hwnw, David Jones, Ddolwlff, yn mhlwyf Aberduar, lle y cyrhaeddodd wybodaeth helaeth o'r

Groeg a'r Lladin. Tra yno, elai i wrando y Bedyddwyr, ac o'r diwedd, yn groes i ddymuniad ac amcan ei rieni, ymunodd â'r eglwys yn y lle. Gwelwyd ynddo yn fuan gymhwysderau amlwg i'r weinidogaeth, ac felly urddwyd ef yn weinidog. Yn ychwanegol at ei ddyledswyddau eglwysig, bu am dymmor yn cadw ysgol yn yr ardal. Wedi rhoddi heibio yr ysgol, agorodd fasnachdy yn Glandwr, tua hanner milldir oddiwrth ei annedd-dy, yr hyn a ychwanegodd gryn lawer at ei lafur a'i bryder. Ond nid oedd hyny yn peri iddo laesu dim yn ei sel a'i ymroddiad gyda'r gwaith o gyfranu bara'r bywyd; a theithiodd lawer ar hyd a lled y wlad i'r dyben hyny. Tueddai ei bregethau i agor deall ei wrandawyr, yn hytrach nag i gyffroi eu serchiadau. Pregethai yn ddidderbyn wyneb yn erbyn llygredigaethau yr oes; ac ni adawai neb heb ei geryddu o unrhyw bechod ag oedd yn adnabyddus iddo ef. Yr oedd yn dra deallus yn yr ysgrythyrau, yn gystal ag yn ysgrifeniadau y gwahanol esbonwyr, megys Gill, Henry, Burkitt, Pool, &c. Gadawodd yn ei ewyllys i'r eglwys oedd dan ei ofal Gorff o Dduwinyddiaeth Ridgely, ac Esboniad Mathew Henry ar y Testament Newydd; yn nghyda thyddyn bychan, gwerth tua phedair punt y flwyddyn, at gynnal Ysgol Sabbathol yn Aberduar, dros byth. O ran corff, nid oedd ond bychan ac egwan iawn; er hyny, bu ei fywyd yn un o lafur parhaus, ac o fawr ddefnyddioldeb i achos Duw yn y byd. Bu fyw i'r oedran teg o 88 ml., 60 o ba rai a dreuliodd yn y weinidogaeth. Gorphenodd ei yrfa Hydref 11, 1826.

Davies, David, Castell-hywel, un ag y mae ei enw fel bardd, ysgolhaig, ac athraw, mor adnabyddus trwy Gymru, a anwyd yn y Goitre, plwyf Llangybi, Ceredigion, yn y flwyddyn 1743. Yr oedd ei rieni yn enwog o ran eu duwioldeb, ac yn aelodau o'r Eglwys Annibynol yn y Cilgwyn, yr hon oedd y pryd hyny dan ofal gweinidogaethol Phylip Pugh. Derbyniodd argraffiadau crefyddol dwfn pan yn dra ieuanc, a gwnai arferiad o weddïo, fel y dywed yn un o'i ganiadau, pan nad oedd ond wyth neu naw oed. Tueddwyd ef felly yn foreu at y weinidogaeth. Yr oedd ei rieni yn dra awyddus am ei weled yn troi allan yn ddyn defnyddiol i'w wlad ac i'r eglwys, ac felly nid arbedasant na thraul na thrafferth er rhoddi iddo y ddysgeidiaeth oreu ag oedd yn gyrhaeddadwy yn y wlad y pryd hyny. Anfonwyd ef yn gyntaf i ysgol Llanybydder, ac oddiyno symudwyd ef drachefn i Langeler. Pan yn bymtheg oed, gosodwyd ef dan ddysgeidiaeth ei berthynas, Mr. Joshua Thomas, Leominster, yr hwn oedd yn weinidog duwiol a defnyddiol iawn; a bu cynghorion ac esiampl y gwr da hwnw yn foddion i ddyfnhau ei argraffiadau crefyddol blaenorol. Wedi treulio blwyddyn a hanner yn y lle hwnw, dychwelodd yn ol i Gymru, sef tua'r flwyddyn 1760. Treuliodd wedi hyny ryw gymaint o amser yn Ngholeg Caerfyrddin, yr hwn oedd y pryd hyny dan arolyg-

iaeth y Dr. Jenkins. Yn ystod ei arosiad yno, cafwyd digon o brawf o'i alluoedd fel ysgolhaig, yn gystal ag o'i dduwioldeb. Y pryd hyny y dechreuodd bregethu. Wedi gorphen ei efrydiaeth yno, ymsefydlodd yn Ciliau Aeron, lle y llafuriai fel pregethwr yn mysg yr Arminiaid. Tra yma, unwyd ef mewn "glan briodas" â Miss Ann Evans, Foel-allt, Ciliau. Ar ol ei urddo yn gydweinidog â'r Parch David Lloyd, yn Llwyn-rhyd-owen, &c., efe a symudodd oddiyno i Gastell-hywel, yn mhlwyf Llandyssul; ac wrth y lle yma yr adnabyddid ef byth wedi hyny. Ar ol ymsefydlu yno, agorodd ysgol glasurol, yr hon a ddaeth o'r diwedd i gael ei hystyried yn un o'r sefydliadau addysgawl enwocaf yn y Dywysogaeth. Yr oedd gan Mr. Davies dalent neillduol at gyfranu addysg: yr oedd fel wedi ei ddonio â chymhwysderau arbenig at y gwaith o gario ysgol yn mlaen. Deallai y natur ddynol yn rhagorol; astudiai gymeriad y dysgybl yn fanwl, ac nid hir y byddai cyn dyfod o hyd i'r fynedfa i gelloedd dirgel ei feddwl. Fel y gellid dysgwyl, daeth yn anarferol boblogaidd fel ysgolfeistr; a chyrchai plant a dynion ieuainc, tlawd a chyfoethog, o bob cŵr o'r Dywysogaeth ato am eu haddysgiaeth. Ac yr oedd llawer o wŷr enwocaf y wlad yn ddyledus iddo am osod i lawr sylfaen eu mawredd. Yn yr ysgol hon, cydgymysgai plant Ymneillduwyr ac Eglwyswyr yn ddiwahaniaeth; a dygwyd i fyny ynddi lawer a fuont yn addurn i'r weinidogaeth yn mysg y naill a'r llall. Ond pan ddaeth Dr. Horsley yn esgob Ty Ddewi, ni fynai urddo neb o'r ysgolheigion i'r weinidogaeth heb fyned i ryw sefydliad addysgawl arall. Darfu i hyn, mae'n debyg, effeithio i ryw raddau ar yr ysgol; ond yr oedd enw Mr. Davies bellach wedi ei sefydlu fel un o'r athrawon mwyaf llwyddiannus yn y wlad. Parhaodd yn y swydd yma, yn nghyda'r pregethu, hyd ddiwedd ei oes, yr hyn a ddygwyddodd Gorphenaf 3, 1827, pan oedd yn 83 oed. Fel duwinydd, mae yn anhawdd dweyd dim gyda pherffaith sicrwydd am Mr. Davies, a hyny am y rheswm na chyffyrddai byth yn ei bregethau â phynciau dadleuol; ac felly, nis gellir dweyd beth oedd ei farn, mewn gwirionedd, ar lawer o athrawiaethau Cristionogaeth. Ymddengys mai lled anmhenodol oedd ef ei hunan ar y pynciau sydd yn gwahanu yr Arminiaid a'r Sociniaid oddiwrth eu gilydd; ac felly hawliai y naill blaid a'r llall ef fel eu heiddo hwy. Yr oedd yn hollol ddiragfarn, modd bynag; ac mewn llythyr at gyfaill dywed, "Yr wyf yn berffaith foddhaol yn fy meddwl fy hun fod y Dr. Priestley, ac eraill o'i blaid, yn ddynion da a Christionogion gwirioneddol; meddaf hefyd yr un farn am John Calfin, Dr. Crisp, a dysgyblion eraill. Eisteddwn yn ddedwydd mewn cymundeb gyda hwynt, gyda gobaith gwynfydedig o fod yn eu cymdeithas am byth yn y nefoedd." "Ymddengys," ebai y Parchedig Arthur Mursell, yn *Good Words*, "fod Mr. Davies yn rhyw ryfeddod o ddyn. Yr oedd yn ddyn o faintioli cawraidd. Yr oedd y cymydogion yn ofni rhoddi benthyg eu

*ponies* iddo, rhag ofn iddo dòri eu cefnau; ac yr oedd ei deiliwr yn arfer siarad am dano ar ol ei farwolaeth gyda math o barch ofnadwy." Ni bu erioed ddyn mwy cymwynasgar, caredig, a didramgwydd, na Mr. Davies, Castell-hywel, byw ar y ddaear. Mewn cymdeithas nid oedd neb yn fwy llawen a difyrus nag ef, ac adroddir llawer chwedl ar lafar gwlad, fel enghreifftiau o'i ffraethineb, ond ni chaniatâ ein gofod i ni gofnodi dim yn bresenol. Fel bardd coeth a naturiol, ychydig fu yn fwy enwog na bardd Castell-hywel. Mae y llithrigrwydd a'r ystwythder sydd yn nodweddu holl gynnyrchion ei awen, yn eu gwneud yn hynod ddarllenadwy a phoblogaidd. Cyhoeddwyd ei gyfansoddiadau yn llyfryn, yn y flwyddyn 1822, dan yr enw *Telyn Dewi*, ac mae y gwaith erbyn hyn wedi myned trwy amryw argraffiadau. Gwneir ef i fyny gan mwyaf o gyfieithiadau o waith y prif-feirdd Seisnig, megys Young, Gray, Mrs. Barbauld, &c. Ac fel cyfieithydd barddoniaeth, nid oes neb etto wedi dyfod yn agos ato, ac ystyrir ei gyfieithiad o Alargan Gray yn mawr ragori ar y gwreiddiol, er cystal yw hòno. Yr oedd yn alluog i gyfansoddi englynion Seisnig a Lladin gyda rhwyddineb mawr, fel y gwelir oddiwrth yr enghreifftiau sydd yn ei lyfr. Y mae ei linellau sydd yn cyfeirio at Dr. Priestley, yr hwn a ddaliai allan yr athrawiaeth o fateroldeb yr enaid, yn dra adnabyddus:—

"Yma gorwedd wedi marw, yn dra detheu mewn arch dderw,
Esgyrn, 'menydd, gwaed, gwythienau, corff ac ENAID Doctor Priestley."

Yr oll a wyddis iddo ysgrifenu mewn rhyddiaith ydoedd, cyfieithu *Scougal's Life of God in the Soul of Man*. Gadawodd Mr. Davies ar ei ol ddau fab yn y weinidogaeth gyda'r Undodiaid.

DAVIES, DAVID, a anwyd yn Cilfforch, Henfynyw, tua milldir o dref Aberaeron, ar y ffordd tuag Aberteifi, yn y flwyddyn 1791. Ymunodd â'r Annibynwyr yn Neuaddlwyd pan yn dra ieuanc, a chymeradwywyd ef gan yr hyglod weinidog, y Dr. Phillips, i fyned i Athrofa Caerfyrddin, er parotoi ei hunan at waith y weinidogaeth; buasai am dymmor cyn hyny dan addysg y Parch. D. Davies, Castell-hywel. Ar ei ymadawiad â'r Coleg, yn y flwyddyn 1813, derbyniodd alwad i fyned i gydweinidogaethu â'r Parch. John Griffiths, i Gaernarfon, ac mewn canlyniad urddwyd ef yno. Ni fu ei arosiad yno, modd bynag, ond byr, gan iddo dderbyn gwahoddiad oddiwrth eglwysi undebol Pantteg a Pheniel, ger Caerfyrddin, i ddyfod i'w bugeilio, â'r hyn y cydsyniodd. Wedi i'r Parch. D. Peter ymryddhau oddiwrth lywyddiaeth y Coleg yn Nghaerfyrddin, penodwyd Mr. Davies yn olynydd iddo, a gwasanaethodd yntau y swydd gyda ffyddlondeb a llwyddiant mawr am 21 o flynyddoedd. Yr oedd Mr. Davies yn Drindodwr o'r galon, ac er fod ei ddyledswyddau fel athraw yn ei ddwyn i wrthdarawiad beunyddiol â rhai yn coleddu

egwyddorion gwahanol i'r eiddo ef, etto cymaint oedd rhyddfrydigrwydd ei galon, fel na roddai achos tramgwydd i neb, ond yn hytrach ennillai barch cyffredinol gan bawb a'i hadwaenai. Yn 1840, sef yn nghanol ei nerth a'i ddefnyddioldeb, gafaelwyd ynddo yn ffyrnig gan dwymyn yr ymenydd; ond er iddo ymadferu yn raddol o honi, etto ni chyrhaeddodd byth mo'i nerth a'i yni blaenorol. Yr oedd ei alluoedd meddyliol o radd uwch na'r cyffredin wrth natur, ac yr oedd wedi eu diwyllio eilwaith gyda phob dyfalwch. Cyrhaeddodd enwogrwydd anghyffredin fel pregethwr, ac mae ei enw yn ddigon adnabyddus erbyn hyn trwy y Dywysogaeth. Nid oedd yr un, efallai, y tebygai fwy iddo yn ei ddull o draddodi na'i hen weinidog, yr hybarch Dr. Phillips. Byddai ei eiriau bob amser yn hynod syml a phriodol, yn wastad i'r pwynt; ei brif amcan bob amser fyddai egluro ei feddwl gyda'r nifer lleiaf dichonadwy o eiriau: syrthiai ar ei bwnc ar unwaith, a thriniai ef yn fyr, eglur, ac i bwrpas. Yr *ymarferol* yn hytrach na'r *athrawiaethol* a gaffai fwyaf o le yn ei bregethau; dadleuai yn gryf hefyd y dylai dyn astudio ei *weddi* yn gystal a'i *bregeth*, ac argymhellai hyn i sylw gweinidogion ieuainc ac eraill yn barhaus. Fel dyn, yr oedd yn feddiannol ar synwyr naturiol cryf anghyffredin, a deallai y natur ddynol yn ei holl amryfath agweddau yn neillduol dda. Perthynai iddo lawer o rinweddau gwych, a byddai ei gymeriad crefyddol yn dysgleirio yn barhaus mewn gweithredoedd o haelioni a chymwynasgarwch. Nid oedd dim tebyg i ragfarn na dallbleidiaeth yn perthyn iddo; yr oedd ei enaid yn rhy eang i feddwl fod pob peth rhagorol yn gyfyngedig i gylch yr enwad y perthynai efe ei hun iddo. Estynai ddeheulaw cymdeithas i bawb ag yr oedd achos Mab Duw yn agos at eu calon, ac ni dderbyniai ddim fel prawf o grefydd ond gwir ufudddod i orchymynion Crist. Yr oedd yn hynod ddiariangar; fel prawf o hyn, gellir crybwyll y ffaith ganlynol:—Pan gynnygiodd yr eglwys oedd dan ei ofal wneud ychydig godiad yn ei gyflog, ychydig flynyddoedd cyn ei farwolaeth, dywedai fod cymaint swm yn ormod—y gwnelai llai y tro, rhag troseddu ar gasgliadau eraill, ond ei fod yn ymdeimlo yr un mor ddiolchgar am y cynnyg er hyny. Treuliodd oes hynod lwyddiannus fel gweinidog, ac un o angenrheidrwydd yn llawn gweithgarwch. Teithiodd lawer i gyfarfodydd yr Ysgolion Sabbathol, cyfarfodydd cenadol, a chymanfaoedd, &c., mewn gwahanol ranau o'r wlad. Fel arwydd o'r parch mawr a goleddai yr eglwysi tuag ato, penderfynwyd ei anrhegu ar flwyddyn ei jubili â rhyw gydnabyddiaeth am ei lafur maith yn eu plith; ac er nad oedd yn mysg yr aelodau ond ychydig iawn o rai cyfoethog, etto cyrhaeddodd eu cyfraniadau y swm anrhydeddus o £167! Ni fu byw ond rhyw fis o amser ar ol derbyn hyn o arwydd o ymlyniad yr eglwysi

. Yr oedd y pryd hyny yn bur wael, a phrysurwyd ei ddadfeiliad cwymp a gawsai oddiar ei geffyl, ychydig wythnosau yn flaenorol,

trwy yr hwn y derbyniodd y fath niweidiau mewnol, fel nas gallasai y meddygon goreu wneud un llesâd iddo. Efe a hunodd yn yr Iesu y Sabbath olaf yn Gorphenaf, 1864, yn 73 mlwydd oed, wedi treulio 52 mlynedd yn y weinidogaeth, 50 o ba rai a dreuliodd yn Pantteg. Ysgrifenodd Mr. Davies lawer iawn yn ystod ei oes i'r gwahanol gyfnodolion, ac mae ei ysgrifau ar bynciau duwinyddol yn britho dalenau cyhoeddiadau yr enwad y perthynai iddo. Dygodd yn mlaen trwy eu cyfrwng amryw ddadleuon poeth ar wahanol bynciau, a gorfodid ei wrthwynebwyr i gyfaddef mai nid dyn cyffredin yr oeddynt yn ymwneud âg ef. Bu yn golygu y *Tywysydd* a'r *Cronicl Cenadol* am flynyddoedd meithion. Cyhoeddodd hefyd y llyfrau canlynol:—1. *Sylwadau ar Sefyllfa Prawf Dyn dan yr Efengyl.* Achosodd y llyfryn hwn gryn gynhwrf ar y pryd trwy y Dywysogaeth, a bu yn bwnc dadl frwd am amser maith yn y gwahanol gyhoeddiadau. 2. *Traethawd ar godi yn foreu.* 3. *Pregeth ar Ffurf yr Athrawiaeth Iachus*, yr hon a draddodwyd ganddo yn agoriad addoldy Ebenezer, Llansadwrn, yn y flwyddyn 1831. 4. *Cyfarwyddwr Duwinyddol*, sef math o holwyddoreg. Efe hefyd yw awdwr y *Sylwadau ar y Dadguddiad*, yn Meibl y Parch. D. Davies, Abertawe. Gadawodd ar ei ol, mewn llawysgrifen, draethawd a fwriadai ei gyhoeddi, dan yr enw *Gwinllan y Gweithio*, neu *Gorff o Dduwinyddiaeth.* Gobeithio y bydd i ryw un gymeryd at y gwaith o ddwyn hwn, yn nghydag ysgrifau gwerthfawr eraill yr hen weinidog parchus, trwy y wasg, oblegid byddai yn golled fawr i ddim o honynt i fyned ar ddifancoll.

Davies, David (Syr), K. C. H., M. D., oedd unig fab Robert Davies, Ysw., o'r Llwyn, Ceredigion, lle y ganwyd ef yn y flwyddyn 1793. Ei fam ydoedd ferch ieuangaf John Price, Ysw., Rhosybedw. Priododd yn 1819 â Mary Anne, merch y Parch. John Williams, Ystradmeurig. Meddyg ydoedd wrth ei alwedigaeth, ac ymddengys iddo enwogi ei hunan yn fawr o herwydd ei wybodaeth eang a'i fedrusrwydd. Dygai yn mlaen ei broffeswriaeth ar y cyntaf yn Hampton; ond gadawodd y lle hwnw ar ei benodiad i fod yn Physygwr i Gwilym IV. a'r ddiweddar Dywysoges Waddolog. Buasai yn gweinyddu yn achlysurol iddynt er's pum' mlynedd cyn eu hesgyniad i'r orsedd Derbyniodd urdd y *Guelphic Order* gan y teyrn hwnw ychydig ddyddiau cyn ei farwolaeth; a gwnaed ef yn Farchog gan y Frenhines Victoria yn fuan ar ol ei hesgyniad. Bu farw yn Lucca, Itali, Ebrill, 1865, yn 72 oed.

Davies, David, oedd frodor o gymydogaeth Horeb, Ceredigion, lle y ganwyd ef yn y flwyddyn 1811. Derbyniwyd ef pan yn bur ieuanc yn aelod o'r Eglwys yn y lle hwnw, yr hon oedd dan ofal gweinidogaethol y

diweddar Barch. S. Griffiths, a bu gyda'r gwr hwnw am dymmor yn yr ysgol. Aeth wedi hyny i Athrofa y Neuaddlwyd, dan ofal yr hybarch Dr. Phillips. Wedi gorphen ei amser yno, derbyniodd alwad oddiwrth Eglwys Gynnulleidfaol Taihirion, Morganwg, lle yr urddwyd ef yn y flwyddyn 1838; ac yno yr arhosodd am dymmor i weinidogaethu. Tra yno, priododd ferch henaf y Parch. S. Griffiths, Horeb, o'r hon y bu iddo saith o blant. Symudodd o'r fan hòno drachefn i Glyn Taf, Morganwg, lle yr ymsefydlodd hyd ei farwolaeth, yr hon a gymerodd le Gorphenaf 16, 1851. Yn ystod y ddwy flynedd olaf o'i fywyd, lluddiwyd ef gan afiechyd i gyflawni ei ddyledswyddau gweinidogaethol; ond darfu i'r Eglwys, er nad oedd mewn un modd yn gyfoethog, gyfranu yn haelionus tuag at ei gynnaliaeth yn ystod yr amser hwnw. Yr oedd Mr. Davies yn bregethwr da, yn gymydog cariadlawn, yn dad tyner, yn briod serchog, ac yn weinidog llafurus.

Davies, Evan, Hwlffordd, a anwyd yn agos i Lanbedr, tua'r flwyddyn 1694. Cafodd ei ddwyn i fyny yn Athrofa Hoxton, o dan ofal yr enwog Dr. Ridgley a Mr. John Evans. Wedi gorphen ei efrydiaeth, ordeiniwyd ef yn weinidog Eglwys y Bedyddwyr yn Hwlffordd. Yn 1741, penodwyd ef yn athraw ar Athrofa yr enwad, yr hon yn flaenorol oedd yn agos i'r Gelli, yn sir Frycheiniog; ond yn awr a symudwyd ato ef i Hwlffordd, lle y mae hyd heddyw. Symudwyd hi am dymmor, modd bynag, i Gaerfyrddin yn 1743, a'r pryd hyny yr oedd Mr. Samuel Thomas, gweinidog yr Annibynwyr yn y dref hòno, yn gydathraw âg ef Gweinidogaethai Mr. Davies ar yr un pryd yn yr Eglwys Ymneillduedig yn Llanybri. Ond o herwydd rhyw anghydfod neu gilydd rhwng y ddau athraw, ymadawodd Mr. Davies am Loegr, a chymerodd ofal Eglwys Billerica, yn Essex. Bu yn offeryn i sefydlu achos yn Bwlchnewydd, ac efe fu'r gweinidog cyntaf yno; ac yno arhosodd hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le Hydref 16eg, 1770, pan yn 76 mlwydd oed. Ymddengys ei fod yn ddyn dysgedig a doniol iawn.

Davies, Evan, Richmond, a anwyd yn Hengwm, plwyf Lledrod, yn y flwyddyn 1805, o deulu tra chrefyddol. Collodd ei fam pan oedd tua thair oed, ac ar hyny symudodd ei dad gyda'r gweddill o'r teulu i Gaerludd, gan ei adael yntau ar ol dan ofal ei fodryb. Ar ol gwasanaethu ei dymmor fel egwyddorwas gyda thrafnidiwr yn y gymydogaeth, aeth yntau ar ol ei dad i'r brif-ddinas. Perthynai yr oll o'i berthynasau gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, ond o herwydd rhyw amgylchiadau neu gilydd bwriodd ef ei goelbren gyda'r Annibynwyr, ac ymunodd â'r Eglwys yn Little Guildford Street, Southwark, yr hon oedd o dan ofal y Parch. D. S. Davies. Bu gweinidogaeth y gwr hwnw, yn nghydag eiddo y Parch.

John Breese, Llanbrynmair, yr hwn a ddeuai yno yn achlysurol, yn dra bendithiol iddo. Hyn, yn nghyda'r addysg grefyddol dda a dderbyniasai yn moreu ei oes, fu yn foddion ei dröedigaeth. Wedi ei dderbyn i'r eglwys, teimlai cyn hir awydd mawr am fod o wasanaeth i'r achos mewn modd cyhoeddus. Ond gan ei fod yn anadnabyddus, ac yn fyr o'r moddion angenrheidiol er ei gymhwyso i waith y weinidogaeth, ymddangosai ei achos am dro yn hynod dywyll. Yn yr amser priodol, modd bynag, agorodd Rhagluniaeth y ffordd iddo. Cymerodd y Parch. Daniel Evans, Mynyddbach, yr hwn am dymmor a wasanaethai yr eglwys yno, ddyddordeb neillduol ynddo, a gosododd ei achos o flaen yr eglwys. Y canlyniad o hyn fu iddo gael ei anfon i Athrofa Neuaddlwyd, o dan ofal yr hybarch Dr. Phillips. Wedi treulio blwyddyn a hanner yno, cafodd dderbyniad i'r *Western Academy*, Exeter, yn y flwyddyn 1829. Bu ei gynnydd yno yn mhob cangen o wybodaeth yn dra chyflym, a choleddai y llywydd, y Parch. Dr. George Payne, feddwl mawr o hono fel ysgolhaig a Christion. Ar ol gadael y Coleg, ymsefydlodd yn Great Torrington, North Devon; ond ni fu ei arhosiad yno yn faith, oblegid gosodasai ei feddwl ar fod yn genadwr. Felly yn Ebrill, 1835, urddwyd ef yn nghapel Wycliffe, yn genadwr i'r Chineaid, ac efe a anfonwyd i Penang. Llafuriodd yno yn ddiflino, gan gadw ysgol Gristionogol ar gyfer y plant brodorol, yn gystal a'r milwyr Seisnig oeddynt yn aros yn y lle, ac ar yr un pryd astudiai y Chinaeg er mwyn cymhwyso ei hunan yn mhellach i waith y genadaeth. Ar ol bod yno yn llafurio gyda graddau mawr o lwyddiant am bedair blynedd, gorfodwyd ef o herwydd methiant ei iechyd i ddychwelyd i Loegr. Yno bu am ddwy flynedd yn ngwasanaeth y Gymdeithas fel dirprwywr i amddiffyn a dadleu ei hawl trwy'r wlad. Yn 1842, efe a benodwyd yn arolygydd y *Boys' Mission School* yn Walthamston. Yn 1844, derbyniodd alwad oddiwrth yr Eglwys Gynnulleidfaol yn Richmond, Surrey, i ddyfod i'w bugeilio, â'r hyn y cydsyniodd, a bu yno yn gweinidogaethu am 13 o flynyddoedd, gyda pharch a chymeradwyaeth gyffredinol. Ac fel arwydd o hyny, anrhegodd yr eglwys ef â phwrs yn cynnwys £200, ar ei waith yn rhoddi i fyny ei bugeilio. Ar ol hyny, bu yn byw yn Heywood, Caerludd, a Dalston. Yn y lle olaf hwn, agorwyd ysgol rïanod gan ei wraig a'i ferched, a chymerai yntau ei hunan ryw gymaint o'r gwaith; a phregethai yn achlysurol yn Hackney a'r gymydogaeth. Yn 1863, ymfudodd i Hornsey; ac yno cyfarfu â phrofedigaeth chwerw, sef colli ei unig fab oloesawl *(surviving)*. Effeithiodd hyn yn fawr arno, ac ar y 18fed o Fehefin, yr un flwyddyn, sef 1864, hunodd yntau yn yr Iesu. Claddwyd ef a'i ddau fab yn nghladdfa y teulu yn Abney Park, a gadawyd ei wraig a'i ddwy ferch i alaru ar ei ol. Dyoddefodd Mr. Davies lawer y flwyddyn olaf o'i fywyd oddiwrth y gewynwst; ac, yn ol cyfarwyddyd ei feddygon, talodd ymweliad â Chymru, er mwyn newid awyr,

a threuliodd beth amser yn Llanstephan. Ond ni fu y cyfnewidiad hwnw o nemawr les iddo. Dechreuodd waethygu yn gyflym; ac ni chafodd ond prin ddychwelyd yn ol i Loegr, cyn i'w ysbryd ehedeg i wlad nad oes yr un o'i phreswylwyr yn dywedyd mai claf ydyw. Bu ei fywyd yn ddiargyhoedd, ac yr oedd duwioldeb yn ymddysgleirio yn danbaid yn mhob gweithred a gogwyddiad o'i eiddo. Anfynych y ceid neb yn meddu ar galon mor haelfrydig; yr oedd yn hollol anfydol—yn gymaint felly a bod yn niweidiol iddo ei hun. Yr oedd o dymher addfwyn a gostyngedig, ac yn hollol ddiymhòngar. Fel awdwr, nid oedd Mr. Davies yn anenwog, ac mae yr hyn a adawodd ar ei ol yn profi y gallasai ragori llawer yn ychwaneg, pe caniatasai amgylchiadau iddo droi ei sylw yn fwy at lenyddiaeth. Dyma restr o'i weithiau:—*China and her Spiritual Claims; Memoirs of the Rev. Samuel Dyer; An Appeal to the Reason and Good Conscience of Catholics; Rest—Lectures on the Sabbath.* Efe hefyd oedd cyhoeddwr y gweithiau canlynol:—*Letters of the Rev. Samuel Dyer to his Children; Lectures on Christian Theology, by the late Rev. Dr. Payne; and The Works of the late Rev. Dr. Edward Williams, Rotherham.* Efe a ysgrifenodd y nodiadau ar *Bechod Gwreiddiol* a *Bedydd*, y rhai a welir yn ngwaith y Dr. Williams.

Davies, Evan, ydoedd enedigol o Landyssul. Enw ei dad ydoedd Mr. James Davies, Cilgwyn; ac enw ei fam oedd Mary, yr hon fu byw flynyddau yn Nghlynair, plwyf Llanllwni, ar ol claddu ei phriod. Anfonwyd ef i ysgol Caerfyrddin, dan ofal y Parch. Jenkin Jenkins; ac wedi gorphen ei efrydiaeth yno, urddwyd ef yn 1776 yn weinidog ar yr Eglwys Annibynol yn Llanedi. Bu ar hyd ei oes yn hynod lafurus, a bendithiwyd ei weinidogaeth yn neillduol, fel y profir oddiwrth y nifer mawr o eglwysi a sefydlwyd trwy ei offerynoliaeth ar hyd a lled y wlad. Yn mysg eraill, gellir enwi y rhai canlynol:—Penbre, Bethania, Cross Inn, a Chydweli. Hefyd y mae Eglwys ac addoldy Capel Als, Llanelli, yn ddyledus iddo ef am eu bodoldeb cyntaf. Meddai ragoriaethau mawr fel dyn, fel pregethwr, ac fel gweinidog. Yr oedd yn ddyn deallus, ac o synwyr cyffredin cryf; a mawr berchid ef fel dyn gonest a chywir. Mewn achosion o anghydfod rhwng cymydogion â'u gilydd, appelid yn fynych at ei farn ef; a chymaint oedd ei ddylanwad, fel y boddlonent yn rhwydd i'w ddedfryd ef. A dywedir mai ychydig o achosion a ddygwyd i'r llys cyfreithiol yn y gymydogaeth tra y bu efe byw. Yr oedd hefyd yn dangnefeddwr heb ei ail yn yr eglwys—casäai o'i galon bobpeth a dueddai yn y gradd lleiaf i fagu ysbryd dadleuaeth rhwng yr aelodau. Er y cyhoeddai o'r pulpud rai o athrawiaethau mawrion yr efengyl, a hyny gyda grym ac eglurdeb neillduol, ni chyffyrddai nemawr ddim â rhai pynciau eraill ag y mae Cristionogion yn gwahaniaethu yn eu barn arnynt; ac

felly, wrth geisio bod yn ddiwyd i gadw "undeb yr Ysbryd yn nghwlwm tangnefedd," syrthiodd i'r amryfusedd o beidio, mewn rhan, draethu "holl gynghor Duw" i'w wrandawyr. Gwelwn yma, ei fod yn fyr o'r gwroldeb moesol hwnw ag sydd yn angenrheidiol i ddysgawdwyr cyhoeddus y bobl—y cyfryw wroldeb ag a alluoga un i gyhoeddi yr hyn a ystyria yn wirionedd, yn annibynol ar olygiadau y rhai a'i gwrandawent. Esgorodd y diffyg yma ynddo ar ganlyniadau dinystriol i heddwch a chysur yr eglwys ar ol ei farwolaeth. Yr oedd Mr. Davies yn bleidiol neillduol hefyd i ryddid cydwybod, a dadleuai yn wresog dros hawl dyn i farnu drosto ei hun, a bod yn rhydd-ymofynydd am y gwirionedd. Ac yma drachefn, nid oedd wedi bod yn ddigon gochelgar, oblegid gwelid tuedd yn fuan yn yr eglwys i ddefnyddio eu rhyddid yn y fath fodd ag oedd yn ymylu ar benrhyddid. Beth bynag a ystyriom yn ddiffygion ynddo, rhaid i ni gydnabod ei ragoriaethau fel pregethwr syml, eglur, a phrofiadol, ac agos at ddeall a theimladau ei wrandawyr. Anfynych y pregethai heb dywallt dagrau, ac ennillai y gynnulleidfa i'r un teimladau. Hoff bwnc ei bregethau fyddai, cariad Duw yn anfon ei Fab i'r byd i farw dros bechaduriaid, a'r angenrheidrwydd am santeiddrwydd calon a buchedd. Bu farw Mr. Davies o'r darfodedigaeth, Ebrill 12, 1806, yn 55 mlwydd oed, ac wedi bod yn llafurio yn y weinidogaeth am 30 mlynedd.

DAVIES, HUGH, a anwyd yn sir Aberteifi, yn y flwyddyn 1665. Derbyniwyd ef yn aelod o eglwys y Bedyddwyr yn Rhydwilym, sir Benfro, pan yn 30 oed, ac urddwyd ef yn weinidog arni. Symudodd oddiyno i Abertawe, o ba le yr ymfudodd, yn 1711, i Pennsylfania, America. Dewiswyd Mr. Davies yn weinidog yno ar yr eglwys yn Great Valley, lle yr ymsefydlasai. Parhaodd i lafurio yno yn ffyddlon hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le yn y fl. 1753, pan yn 88 oed. Yn mlynyddau olaf ei fywyd, dyoddefai boenau dirfawr oddiwrth ei fraich, fel yr oedd ei einioes wedi myned yn faich iddo. Mewn cysylltiad â hyn, adroddir hanesyn hynod, sef iddo ar ol defnyddio amryw foddion a hyny yn hollol aneffeithiol, anfon am henuriaid yr eglwys i'w eneinio âg olew, yn ol Iago v. 14, &c. Y canlyniad o hyn fu, iddo dderbyn iachâd llwyr, ac ni ddychwelodd y poen mwyach. Ymddangosodd hyn yn hanes y Bedyddwyr yn Mhennsylfania, mewn llyfr a argraffwyd yn y fl. 1770, o waith un Morgan Edwards. Derbyniasai yr ysgrifenydd y ffaith gan Mr. John Davies, yr hwn fu yn fugail ar yr eglwys am amryw flynyddau ar ei ol, ac yr oedd efe yn un o'r henuriaid a gymerasant ran yn yr eneiniad.

DAVIES, JAMES, a anwyd yn Mlaenhoffnant-isaf, plwyf Penbryn, Ceredigion, Rhagfyr 22, 1800. Ymddengys iddo gael manteision addysg gwell na'r cyffredin yn ei ieuenctyd, oblegid fod ei dad yn cadw ysgol, ac

yn cael ei ystyried yn ysgolhaig rhagorol. Bu yntau ei hunan wedi hyny yn cadw ysgol yn Mhenmorfa a manau eraill gyda gryn lawer o lwyddiant. Yr oedd, er yn fachgenyn, yn hyddysg iawn yn nghynnwysiad y Llyfr dwyfol, ac wedi dysgu rhanau helaeth o hono ar ei gof; ond yr oedd hyd yn hyn yn hollol ddyeithr i awdurdod y gwirionedd ar ei feddwl, nes y cyrhaeddodd ei unfed flwyddyn ar hugain, pryd yr argyhoeddwyd ef, ac yr ymunodd â'r Methodistiaid yn y Cei Newydd. Gwelwyd ynddo yn fuan gymhwysderau at y gwaith o bregethu; ond er derbyn cymhelliadau parhaus i ddechreu, ni theimlodd ei hun yn rhydd am rai blynyddau i anturio yn mlaen yn gyhoeddus, sef hyd y flwyddyn 1831. Yr oedd y pryd hyn newydd symud o ardal y Cei Newydd i Benmorfa, lle y treuliodd y gweddill o'i oes. Y bregeth gyntaf, mae'n debyg, o'i eiddo a draddodwyd yn Blaenanerch; a bendithiwyd ei weinidogaeth mewn modd neillduol, fel y daeth unarbymtheg i ymofyn lle yn yr eglwys yno. Urddwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth yn Llangeitho, yn y flwyddyn 1841. Nid oedd Mr. Davies yn un o'r pregethwyr hyny a ystyrir yn boblogaidd, ac yr oedd ei ddull o draddodi yn hollol dawel a digyffro. Ei amcan mawr yn ei holl bregethau oedd, cael y gwirionedd i'r meddwl, a hyny trwy guro wrth borth y deall. Yr oedd yn ddarllenwr mawr, a gwelid hyny yn amlwg yn ei holl bregethau. Hunodd yn dawel yn yr Iesu, Ebrill 14, 1853, ar ol cystudd maith a blin.

DAVIES, JAMES, (*Iago ab Dewi*), a anwyd yn Llandyssul, yn y flwyddyn 1648; a threuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn Pencader. Derbyniwyd ef yn aelod o'r Eglwys Annibynol yno o dan weinidogaeth yr enwog Stephen Hughes. Yr oedd yn feddiannol ar wybodaeth tra eang, ac yn fardd a chyfieithydd rhagorol. Cyhoeddwyd amryw ddarnau o'i waith o bryd i bryd, ac mae amryw lawysgrifau yn aros etto ar ei ol. Yn mysg eraill, ysgrif-lyfr yn dwyn y dyddiad 1716—17; ond nid yw ei ddechreu na'i ddiwedd ar gael. Ymddengys mai cyfieithiad ydyw un o'r traethodau sydd ynddo, a'i fod wedi ei fwriadu i gael ei argraffu yn yr Amwythig, gan Shôn Rhydderch. Y mae ynddo un traethawd dammegol am y chwil, yr eryr, y llew, y cadnaw, y fran, y ddafad, a'r llygoden, wedi ei ysgrifenu mewn dull hynod ddyddorol ac addysgiadol. Y dyddiad wrth hwn ydyw, Mai 24, 1711; ac ysgrifenwyd ef o blwyf Llanllawddog, lle y treuliodd y bardd y gweddill o'i oes. Y mae traethawd arall ynddo, i'r hwn y mae Shôn Rhydderch wedi ysgrifenu rhagymadrodd wedi ei ddyddio Medi 23, 1717. Y mae un tudalen hefyd wedi ei ysgrifenu gan Shôn Rhydderch, a'r teitl sydd uwch ei ben ydyw, *Ymddyddan rhwng Cardotyn a Difinydd.* Ar ran wen o dudalen sydd yn nghanol y llyfr, y mae llythyr etto gan Shôn Rhydderch, yr argraffydd, fel pe byddai yn dychwelyd y llawysgrif hon, gan ddymuno cael un arall. Ceir yma hefyd awdl o waith Lewis

Glyn Cothi i Syr Thomas ab Syr Rosser Fychan o Dreytwr. Cyfieithodd chwech neu saith o lyfrau defnyddiol o'r Saesonaeg i'r Gymraeg: yn mysg pa rai, y mae *Meddyliau Dirgelaidd Beveridge*, 1717; a *Thyred a Groesaw*, gan Bunyan, 1719. Darlunir ei nodwedd gan ei gyfaill a'i gymydog, Christmas Samuel, gweinidog Pantteg, fel y canlyn:—"Iago ab Dewi, y cyfieithydd enwog, a fu farw ar ol deunaw wythnos o gystudd, a chladdwyd ef yn Llanllawddog, ar y 27ain o Fedi, 1722. Yr oedd yn ddyn nodedig iawn; yn ddyn o ychydig eiriau, ond o wybodaeth dra helaeth; yn ddyn o fuchedd dda, ac yn hen Gristion profedig. Nid oes rhaid i mi ddweyd ychwaneg am dano—ei weithredoedd a'i canmolant yn y pyrth."

DAVIES, JAMES, oedd weinidog Eglwysi Annibynol Abermeurig a Chiliau Aeron, ar ol marwolaeth yr hybarch Phillip Pugh; ac mae yn debyg ei fod yn enedigol o'r gymydogaeth hòno. Urddwyd ef yn 1743, a chydweinidogaethai yn y Cilgwyn ac Abermeurig gyda Mr. Pugh, hyd farwolaeth y gwr hwnw. Bu am dymmor yn Pencader, yn cydlafurio â'r gweinidog yno, sef Mr. John Lewis. Dychwelodd drachefn i ardal Abermeurig, a bu farw yn Plas, Cilcenin, yn lled fuan wedi hyny. Yr oedd yn dad i Mr. Evan Davies, Llanedi; a Mr. Daniel Davies, a fu gynt yn weinidog yn Ynysgau, yn Merthyr Tydfil.

DAVIES, JENKIN, Twrgwyn, oedd bregethwr enwog yn mysg y Methodistiaid Calfinaidd, a ganwyd ef yn Penysarn, yn y flwyddyn 1797. Cafodd y fraint o'i ddwyn i fyny mewn teulu crefyddol iawn. Yr oedd ei fam yn hynod am ei duwioldeb, a'i dad yn ddiacon parchus yn y cyfundeb. Ymddangosai yn Jenkin Davies ragoriaethau neillduol yn dra ieuanc, yn gymaint felly, fel ag i dynu sylw pawb a'i hadwaenai. Gofynai y Parch. Ebenezer Morris i'w rieni yn fynych, oddiar ryw hynodrwydd a ganfyddai ynddo, "Beth fydd y bachgenyn hwn, debygech chwi?" Cafodd fanteision addysg yn foreu, y cyfryw ag na fwynheid ond gan ychydig iawn yn yr oes hòno. Anfonwyd ef yn gyntaf i ysgol a gedwid yn Llwyn Dafydd; wedi hyny i Aberteifi, ac yna i'r Cei Newydd. Yr oedd ei syched am wybodaeth yn fawr iawn—arhosai ar ei draed yn fynych trwy y nos i astudio. Y Beibl oedd prif wrthddrych ei efrydiaeth, a thrwy ei ddarlleniad cyson o hono, yn nghyda'i gof cryf, daeth yn hyddysg neillduol yn ei gynnwysiad. Gwnelai ddefnydd mynych eilwaith yn ei bregethau o ymadroddion a chyffelybiaethau yr Ysgrythyr. Derbyniwyd ef yn aelod pan yn 16 ml. oed, ac yr oedd y pryd hyny yn llafurio yn ffyddlon iawn gyda'r Ysgol Sabbathol. Annogwyd ef yn fuan i ddechreu pregethu, ond yr oedd yn bur hwyrfrydig i ddechreu ar y gwaith pwysig hwnw, gan y teimlai yn barhaus ei annigonolrwydd ei hun at y gorchwyl; ac ni

wnaeth chwaith nes oedd yn llawn 28ain oed. Yn mlynyddau cyntaf ei weinidogaeth, yr oedd yntau, fel llawer o'i gydlafurwyr, dan lawer o anfanteision wrth geisio cyflawni ei swydd, gan ei fod yn cael ei rwystro gan negeseuau y bywyd hwn. Gweithiai yn galed ar hýd y dydd ar ei fferm, a'r unig amser a allai ei hebgor i ddarllen a myfyrio oedd y nos. Neillduwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth yn y fl. 1833, ac wedi hyny, ymgysegrodd yn fwy llwyr i waith y weinidogaeth. Ar ol marwolaeth y Parch. E. Morris, yn 1825, daeth gofal yr eglwysi cymydogaethol bron yn llwyr ar Jenkin Davies; ac ni fu yntau mewn un modd yn anffyddlon i'r ymddiriedaeth a roddwyd ynddo. Hyn fu'r prif achos iddo symud, yn mhen rhai blynyddoedd, o Bensarn i'r Twrgwyn i fyw. Yr oedd gofalon bydol a phryder teuluaidd yn peri llawer o anhwylusdod iddo yn ei yrfa weinidogaethol. Yr oedd ei deulu erbyn hyn yn lluosog, a'r plant yn ieuainc, ac yn sefyll mewn mawr angen am ddysgeidiaeth, yr hyn oedd bron allan o'r cwestiwn iddynt byth ddysgwyl ei gael, tra y cedwid hwy i gynnorthwyo eu tad yn ngwaith y fferm. Wedi ei lwyr argyhoeddi nas gallasai pethau fyned yn mlaen fel hyn yn hwylus, gwelai nad oedd yr un feddyginiaeth yn ymgynnyg ond rhoddi heibio naill ai y pregethu neu y ffermio. Yn y cyfyng-gynghor yma, gosododd y peth at farn ei wraig, yr hon a'i hatebodd, "Na roddwch heibio y pregethu er dim, rhag i chwi, wrth hyny, ddigio yr Arglwydd. Hwyrach y gwna yr eglwys ystyried a gwrando ein cwyn." Wedi cael yr un annogaethau drachefn gan ei gyfeillion, yn nghyda thystiolaeth ei gydwybod ei hun fod a fynai yr Arglwydd âg ef fel cenad at ei waith, daeth i'r penderfyniad o roddi i fyny y fferm, ac ymgysegru yn llwyr i wasanaeth ei Arglwydd, gan ymddiried i haelioni yr eglwysi, ond yn benaf i'w Feistr nefol, am foddion ei gynnaliaeth ef ei hun a'i deulu. Ac felly, yn Mihangel, 1838, ymryddhaodd oddiwrth ei orchwylion bydol, a symudodd gyda'i deulu, ar ddymuniad taer trigolion Twrgwyn a Salem, i fyw i'r ardal hòno, ac yno y treuliodd y gweddill o'i oes yn ddefnyddiol iawn. Ni fu, modd bynag, byw ond ryw bedair blynedd ar ol ei symudiad; oblegid yn nechreu y flwyddyn 1842, dadfeiliodd ei iechyd i gryn raddau. Ond er y pregethai er hyny yn achlysurol, ni theimlodd yn iach byth mwy; ond prysurwyd ei ddiwedd gan lucheden, yr hon a'i cymerodd ymaith, Awst 10fed, o'r fl. hòno. Yr oedd ei lafur yn mlynyddau olaf ei fywyd, ar ol ymgysegru yn gyflawn i'r weinidogaeth, yn fawr iawn. Teithiai Dde a Gogledd, gan ymweled yn achlysurol â threfydd Lloegr, gan bregethu y gair yn ddiwyd "mewn amser ac allan o amser." Dywedir iddo bregethu 315 o weithiau yn ystod y flwyddyn 1840, a 400 o weithiau yn y flwyddyn 1841. "Prif ragoriaethau ei bregethau ydoedd sylweddolrwydd eu materion, a thlysni eu cyfansoddiad. Ac er nad oedd yn ei ymddangosiad ddim i dynu sylw y gwrandawyr, ac er nad oedd ei lais ond gwanaidd, ac ond

anfynych yn cynhyrfu y teimladau; etto, yr oedd ei bregethau yn un gadwyn fawr o feddylddrychau wedi ei goreuro â phur air Duw."

DAVIES, JOHN, Daventry, ydoedd weinidog defnyddiol gyda'r Annibynwyr; a ganwyd ef mewn pentref bychan ger Aberystwyth. Symudodd ei rieni i fyw i Woolwich, tra yr ydoedd ef yn bur ieuanc. Ymddengys iddo dderbyn argraffiadau crefyddol dyfnion a pharhaus o dan weinidogaeth y Parch. Dr. Jones, Bangor; ac ymunodd â'r eglwys tra nad oedd etto ond tua phedairarddeg oed. Aeth yn fuan wedi hyny i Goleg Llanfyllin, yr hwn oedd y pryd hyny dan ofal y Dr. Lewis. Bu yn athraw wedi hyny am ryw ychydig amser i blant un — George, Ysw., yn sir Gaerfyrddin. Derbyniodd alwad gan Eglwys Deptford i ddyfod i'w bugeilio, â'r hyn y cydsyniodd, a bu yno bedair blynedd. Yn Hydref, 1826, cafodd annogaeth i fyned oddiyno i Daventry, lle yr arhosodd i weinidogaethu gyda graddau mawr o lwyddiant hyd ddiwedd ei oes. Yr oedd Mr. Davies yn bregethwr o safle uchel iawn, ac yn meddu galluoedd areithyddol anghyffredin. Yr oedd yn dduwinydd rhagorol, yn ysgolhaig clasurol gwych, ac yn feddiannol ar stôr helaeth o wybodaeth gyffredinol. Yn ei ddull o draddodi y gwirionedd, yr oedd yn rymus a dylanwadol—ergydiai yn uniongyrchol at y galon, a hyny, yn gyffredin, gyda llwyddiant mawr. Gydag ef yr oedd crefydd a duwioldeb yn bethau gwirioneddol, a gwelid hwy yn dysgleirio yn danbaid yn mhob gogwyddiad a gweithred o'i eiddo. Perchid ef yn fawr gan gylch eang ei gyfeillion, o herwydd diffuantrwydd a serchogrwydd ei galon; yn neillduol felly gan yr ieuenctyd, ar y rhai yr oedd ganddo ddylanwad anarferol. Pregethai i'r rhai hyn unwaith bob blwyddyn; ac ar y pedwerydd o Ionawr, 1857, traddododd y gwirionedd am y tro olaf i'w clywedigaeth, wedi gwneud hyny yn gyson am un mlynedd ar ddeg ar hugain. Yr oedd ei iechyd wedi dechreu dadfeilio er's blwyddyn neu ddwy; ond ymadferodd ychydig yn ngwanwyn y flwyddyn uchod. Ni fu hyny, modd bynag, ond o fyr barhad; ac er pob ymdrech o eiddo ei gyfeillion, suddodd yn raddol, a bu farw y mis Mai dilynol. Yr wythnos olaf o'i fywyd, ymwelwyd âg ef gan ei hen gyfaill a'i dad yn yr efengyl, y Dr. Jones, Bangor, yr hwn a bregethodd yn ei gapel y Sabbath olaf iddo ef ar y ddaear.

DAVIES, J. P., ydoedd fab i'r Parch. D. Davies, offeiriad Bangor a Henllan; a ganwyd ef yn y lle blaenaf, Mawrth 12fed, 1786. Yr oedd ewythr iddo, brawd ei dad, yn weinidog gyda'r Annibynwyr yn Aberhonddu; ac yr oedd y Parch. Daniel Davies, Talgoed, gweinidog gyda'r Bedyddwyr, hefyd yn ewythr iddo. Gyda'r blaid olaf y bwriodd ef ei goelbren, ac ymunodd â hwynt yn y Drefach. Yn fuan ar ol ei dderbyn, tueddwyd ef at waith y weinidogaeth. Cyn pen hir, cymerodd daith

trwy y Gogledd, ac ymwelodd â sir Fflint, lle y bu yn llwyddiannus neillduol—casglodd yn nghyd gynnulleidfa fechan yn Nhreffynnon, ar yr hon yr urddwyd ef yn weinidog. Hon oedd yr eglwys gyntaf a ffurfiwyd gan y Bedyddwyr yn y sir hòno. Symudodd oddiyno yn lled fuan i Lynlleifiad, ac oddiyno drachefn i Gaerludd. Ond gan ei fod mor awyddus i fod o wasanaeth i'w gydgenedl, dychwelodd yn ol i Gymru; a bu yn gweinidogaethu yn olynol yn Glanyferi a Chydweli, ac yn ddiweddaf yn Nhredegar, lle y gorphenodd ei yrfa, Awst 23, 1832, yn 46 oed. Bu trwy ei ymdrechion diflino yn offeryn i sefydlu eglwysi yn Rumni, Peny-cae, Sirhowi, a Glan Ebwy. Fel pregethwr, yr oedd Mr. Davies yn dra phoblogaidd a chymeradwy; ac fel gweddïwr, yr oedd yn nodedig iawn. Byddai ei nodiadau eglurhaol ar ranau cyntaf ei bregeth yn neillduol briodol ac addysgiadol, ac amlygent wybodaeth eang a chyffredinol. Yr oedd ei ddull o draddodi yn hyawdl ac yn hollol naturiol, a meddai berffaith reolaeth ar ei lais. Diweddai ei bregeth bob amser yn dra disymwth, pan y byddai y gwrandawyr yn llawn bywiogrwydd ac yn orawyddus i dderbyn ychwaneg, gan eu gadael i raddau yn siomedig, am na pharhasai ychydig yn hŵy. Yr oedd y swyn oedd yn ei weinidogaeth, a'r dylanwad oedd yn cydfyned â hi yn fynych, bron yn annysgrifiadwy. Fel ysgrifenydd ac awdwr, mae i Mr. Davies le nid anenwog yn mysg llenorion ei wlad. I'r ieithoedd Cymraeg a Saesonaeg yr ymddengys iddo dalu fwyaf o sylw; a thrwy astudiaeth ddyfal, daeth yn dra hyddysg yn y flaenaf. Fel cadarnhad o hyn nid oes angen gwell prawf na'i araeth arni yn *Seren Gomer*, yn y flwyddyn 1825, a'i amddiffyniad iddi yn 1826. Ymddengys mai y Dr. W. O. Pughe a ddilynai fel cyfarwyddyd yn ei efrydiaeth o'r iaith. Bwriadai ddwyn allan *Eiriadur Cymraeg oll*, fel y gwelir oddiwrth ei gynllun o'r cyfryw yn y *Seren*, yn 1824. Ysgrifenodd oddeutu ugain llen o hono; ond pa beth ddaeth o'r llawysgrif ar ol ei farwolaeth nid yw yn hysbys. Cyhoeddwyd cyfrol, gwerth pum' swllt, o'i weithiau duwinyddol. Fel dyn, yr oedd ei wynebpryd yn dra siriol a hawddgar, ei drwyn yn eryraidd, a'i lygaid yn llawn bywiogrwydd. Pan y codai yn y pulpud i ddechreu yr addoliad, nid ymddangosai ynddo ryw lawer a dueddai i beri i'r gwrandawyr ddysgwyl dim anghyffredin oddiwrtho.

Davies, John, ydoedd fab i'r hyglod ysgolhaig, y Parch. D. Davies, Castell-hywel, lle y ganwyd ef, Mehefin 5ed, 1787. Derbyniodd elfenau ei ddysgeidiaeth gan ei frawd, y Parch. D. Davies, Castellnewydd Emlyn. Dysgodd rifyddiaeth wedi hyny gydag un Mr. Parry, yn Nghaerfyrddin. Yn y flwyddyn 1804, rhwymwyd ef yn egwyddor-was meddygol gyda Mr. Morgan, Ddolgoch, ger y dref hòno; ac wedi hyny bu gyda llawfeddyg enwog o'r enw Williams, yn Nghaerfyrddin. Wedi hyny, yn

1808, aeth trwy yr Ysbyttai fel efrydydd Bydwreigiaeth; pasiwyd ef yn *Hospital Mate*, a phenodwyd ef i ymuno â'r fyddin: ac felly aeth ar fwrdd agerlong yn ynys Walcheren. Ond ni fu iddo orfyw ei ddyrchafiad ond ychydig amser—daeth adref wedi anmharu ei iechyd, a bu farw yn y Llwyn, sir Aberteifi, Hydref 27, 1810, yn 23 oed.

DAVIES, JOHN LLOYD, Ysw., a fu am beth amser yn A.S. dros fwrdeisdrefi Ceredigion, sydd yn un esiampl etto o'r hyn y gellir ei gyrhaedd mewn amser gyda diwydrwydd, ymroddiad, a phenderfyniad, yn enwedig os bydd galluoedd meddyliol cryfion yn cydfyned â hwy. Ganwyd Mr. Davies mewn tafarndy bychan, sef y *Black Lion*, yn nhref Aberystwyth, lle y bu ei rieni am beth amser yn byw. Yn ei ddyddiau boreuol, arferai yru *post chaise* yn y dref; a chyflawnai orchwylion cyffredin eraill, y rhai ni fyddai cywilydd ganddo eu harddel mewn amser wedi hyny. Yna aeth i Gastellnewydd Emlyn, yn ysgrifenydd at gyfreithiwr cyfrifol. Yn mhen enyd o amser, priododd Mrs. Lloyd, gweddw Mr. Lloyd, Gallt yr Odyn, o'r hon y bu iddo un mab, yr hwn a fu farw yn Llundain tra yn dilyn ei efrydiaeth o'r gyfraith. Yr oedd Mr. Lloyd Davies yn ddyn o synwyr naturiol cryf iawn, yn meddu ar wybodaeth eang, ac yn ymadroddwr hyawdl; ac felly, penodwyd ef yn fuan wedi hyny yn ynad yr heddwch dros sir Gaerfyrddin yn gystal a Cheredigion. Yr oedd hefyd yn dra hyddysg yn y gyfraith, yr hon a efrydodd yn ddiwyd. Bu am dymmor yn cynnrychioli bwrdeisdrefi Ceredigion yn y Senedd; ac nid gormod yw dweyd ei fod yn un o'r aelodau goreu a anfonwyd erioed o Geredigion i Neuadd St. Stephan. Cymerai y dyddordeb mwyaf yno yn wastad yn mhob peth a ddygai berthynas â Chymru, ac yn enwedig â'i sir ei hun; a gwyliai gyda'r dyfalwch mwyaf dros ei hiawnderau a'i manteision. Traddododd un o'r areithiau mwyaf hyawdl a glywyd gan un o gynnrychiolwyr Cymru erioed, pan yn dwyn yn mlaen y cynnygiad o wneud Aberteifi yn borthladd diogelwch. Ymdrechodd hefyd yn fawr dros gael y reilffordd o Gaerfyrddin i Landyssul. Ceidwadwr selog ydoedd o ran ei olygiadau gwleidyddol. Bu farw yn ddisymwth yn nechreu 1860. Ei oed oedd 59 mlwydd.

DAVIES, LEWIS, oedd fab i John Davies, Ysw., o'r Crygie, yn mhlwyf Llanbadarn Fawr, lle y ganwyd ef yn y flwyddyn 1777. Yr oedd ei frawd, John Maurice Davies, yn gadben yn y fyddin ar y 31 gatrawd; ac ymunodd yntau â hi fel banerwr, pan yn bedairarddeg oed. Yr oedd yn bresenol pan gymerwyd St. Lucia, yn yr India Orllewinol, yn 1796, gan Syr Ralph Abercrombie, a'r pryd y gwnaed ef yn rhaglaw. Yn ystod ei arhosiad yno, dyoddefodd lawer oddiwrth y cryd melyn; ac analluogwyd ef i ddilyn y fyddin am ddeuddeng mis. Yn 1799, dyrchafwyd ef i

fod yn gadben, a gwasanaethodd dan Dug Efrog, yn Holland; a chymerodd ran yn mrwydrau Bergen, y flwyddyn hòno. Gwasanaethodd wedi hyny ar dueddau Ffrainc; a chyda Syr J. Pulteney, yn Ferrol, a dwy waith i fyny yn Môr y Canoldir. Yn 1804, prynodd y swydd o uchgadben y 36 gatrawd. Bu yn gwasanaethu wedi hyny yn Holland ac yn Penrhyn Gobaith Da, a gorfodwyd ef gan afiechyd i ddychwelyd o'r lle olaf. Cymerodd ran eilwaith yn mrwydrau Brillos, Rolica, a Vimiera, yn yr Orynys, o dan Syr Arthur Wellesley; ac yr oedd gyda Syr John Moore yn mrwydrau Lugo a Corunna. Yr oedd yn bresenol yn ngwarchaead Flushing, a chymeriad ynys Walcheren. Ionawr 7, 1812, dyrchafwyd ef yn rhagfilwriad y 36 gatrawd; a chyda'r gatrawd hòno, cymerodd ran arbenig yn ngwarchaead Salamanca, lle yr enwogodd ei hunan yn fawr. Yn y frwydr boeth a ymladdwyd yno wedi hyny, llywyddai y dosbarth isaf yn y 36 gatrawd, am yr hyn y derbyniodd fathodyn. Yr oedd yn y gwarchae ar Burgos, ac wrth ddychwelyd oddiyno i Portugal, ymaflodd y crydcymalau mor llym ynddo, fel y llwyr analluogwyd ef o hyny allan i wasanaeth cyhoeddus. Yn Medi, 1806, gwnaed ef yn Gydymaith o Anrhydeddus Urdd Milwrol Caerbaddon; ac yn fuan cyrhaeddodd y gradd o Uwch-Faeslywydd. Treuliodd y gweddill o'i oes yn Tanybwlch, ger Aberystwyth, lle bu farw, Mai 10, 1828, yn 51 ml. oed. Perchid ef yn gyffredinol, ar gyfrif ei garedigrwydd ac uniondeb ei ymddygiad. Yr oedd yn briod â Jane, ail ferch Mathew Davies, Ysw., Cwmcynfelyn, o'r hon y cafodd dri mab a merch.

Davies, Rees, oedd aelod o Eglwys y Bedyddwyr yn y Coedgleision, yn agos i Lanbedr, lle hefyd yr oedd ei rieni yn aelodau. Yr oedd y Parch. David Davies, Castell-hywel, yn ewythr iddo, a chydag ef y derbyniodd elfenau cyntaf ei ddysgeidiaeth. Symudodd oddiyno eilwaith i Athrofa y Fenni; ac wedi gorphen ei dymmor yno, urddwyd ef yn weinidog ar eglwys yn Nghaerwent. Bu wedi hyny am beth amser yn genadwr yn sir Henffordd. Sefydlodd eilwaith yn nhref Mynwy; ond o herwydd tlodi yr eglwys yno, gorfyddwyd ef i fyned drosodd i'r America, lle y bu farw mewn amgylchiadau cysurus. Ystyrid ef yn meddu dysgeidiaeth helaeth, ac yn bregethwr sylweddol.

Davies, Reuben, a adnabyddid wrth yr enw barddonol, *Prydydd y Coed*, oedd enedigol o Tan yr Allt, Cribyn, Ceredigion. Mae yr hyn a gyfansoddodd yn profi yn ddiymwad ei fod yn feddiannol ar alluoedd awenyddol o'r fath uwchaf. Yr oedd yn awdwr lluaws o emynau rhagorol, y rhai sydd yn dangos y gallasai gyrhaedd enwogrwydd mawr, pe cawsai iechyd a hir oes. Yr oedd yn ysgolhaig rhagorol, a bu am dymmor yn cadw ysgol mewn gwahanol fanau gyda llawer iawn o lwyddiant. Bwriadai

fyned i'r weinidogaeth yn mysg yr Undodiaid, gyda pha rai yr oedd yn aelod dichlynaidd. Ac i'r dyben hyny, aeth i Goleg Caerfyrddin, ac aeth trwy ei arholiad cyntaf yn llwyddiannus yno; ond ymaflodd y dyfrglwyf ynddo, a gorfodwyd ef i roddi i fyny ei efrydiaeth. Bu farw Ionawr 8, 1833, yn 25 ml. oed. Yr oedd yn gyfaill mynwesol i'r diweddar Daniel Ddu, gyda'r hwn y treuliai lawer o'i amser; a choleddai y bardd enwog hwnw feddyliau uchel iawn am dano, a gwelir englynion o'i eiddo ar ei farwolaeth yn *Ngwinllan y Bardd.*

DAVIES, RICHARD, oedd weinidog Eglwys Penbryn yn amser Siarl II., o ba un y trowyd ef allan mewn canlyniad i roi mewn grym Ddeddf yr Unffurfiad, yn y flwyddyn 1662; ond efe a gydffurfiodd wedi hyny.

DAVIES, RICHARD, ydoedd weinidog enwog yn mysg yr Anghydffurfwyr, tua diwedd yr eilfed ganrif ar bymtheg. Ganwyd ef yn sir Aberteifi, yn y flwyddyn 1659. Ei wraig ydoedd ferch i un Henry Williams o'r Ysgafell, ger y Drefnewydd, yr hwn oedd yn Anghydffurfiwr selog yn amser Siarl II.; ac mewn canlyniad, dyoddefodd erledigaethau chwerwon. Sefydlodd ei fab-yn-nghyfraith hwn yn Lloegr, a bu yn bugeilio yr eglwys yn Rowell, sir Northampton, am 25 o flynyddoedd, sef hyd derfyn ei oes, yn 1714. Yr oedd yn bregethwr tanbaid a gwresog anghyffredin—yn llawn o'r un ysbryd a'r diwygwyr Whitfield a Wesley, a godasant i fyny flynyddau ar ei ol. Cyhoeddwyd o'i waith ef—"*Faith, the Grand Evidence of our interest in Christ, or the nature of faith and salvation opened, from John* vi. 40. *By Richard Davies, of Rowell, in Northamptonshire. London*, 1704." Cyhoeddodd hefyd Farwnad i'w dad-yn-nghyfraith.

DAVIES, RODERICK, a fwriwyd allan o Lanllwch-haiarn trwy Ddeddf yr Unffurfiad, ond efe a gydffurfiodd eilwaith.

DAVIES, TIMOTHY, oedd fab y Parch. D. Davies, Castell-hywel, a ganwyd ef yn y Plas Bach, Ciliau Aeron, Tachwedd 20fed, 1779. Symudodd ei rieni pan oedd ef tua phedair oed, i Gastell-hywel, ac yn yr ysgol hòno, o dan addysg ei dad, y treuliodd efe dair blynedd ar ddeg yn astudio y clasuron, a hyny gydag ymroddiad a llwyddiant mawr. Gorfodwyd ef wedi hyny i roi yr ysgol i fyny er mwyn cymeryd gofal o'r fferm oedd gan ei dad. Ond er i Timothy roddi yr ysgol heibio ni adawai mewn un modd ei efrydiaeth ar ol, oblegid cymaint oedd ei syched am wybodaeth fel y myfyriai yn ddiwyd ar ol i lafur a lludded y dydd fyned drosodd, a chadwai yn mlaen gyda y rhai hyny ag oeddynt yn myfyrio'yn rheolaidd yn yr ysgol. Pan tua 19 oed, cyfododd awydd disymwth yn ei feddwl am fyned i'r weinidogaeth, ac i'r dyben o gymhwyso ei hunan at y gwaith,

penderfynodd fyned yn uniongyrchol i Gaerfyrddin i geisio derbyniad i mewn i'r Athrofa. Priodolai efe y cam yma, a gymerodd mor annysgwyliadwy, i argyhoeddiad dwys a dderbyniodd wrth wrando ar ei frawd Dafydd, a chyd-ysgolhaig iddo, yn pregethu am y waith gyntaf yn Llwynrhyd-owen. Ond ymddengys, oddiwrth nodiadau a wnaeth yn ei ddyddlyfr, fod teimladau tra chrefyddol yn ei lywodraethu yn flaenorol, ac yn ddiau ni fu yr addysg grefyddol a dderbyniodd gan ei dad, heb effeithio yn ddaionus arno. Dechreuodd ar ei ysgol gyda'r Parch. David Peter, (yr hwn y pryd hyny a gadwai ysgol Ramadegol mewn cysylltiad â'r Athrofa) ar y trydydd o Ionawr, 1798, a derbyniwyd ef i'r Athrofa y mis Awst dilynol. Ar y 19eg o Fai, 1799, dechreuodd ar y gwaith o bregethu. Wedi gorphen ei dymmor colegawl, urddwyd ef yn gyd-weinidog â'i dad, a bu yn hynod gymeradwy a derbyniol yn yr eglwysi hyny. Yr oedd ei dymher fwyn, ei rodiad hardd, ei lais swynol, a'i ddull syml a difrifol o bregethu, yn sicrhau iddo barch a derbyniad cyffredinol. Cynnyddodd yr eglwysi yn fawr o dan ei weinidogaeth, ac yr oedd y cariad a'r serchogrwydd mwyaf yn ffynu rhyngddo ef a phobl ei ofal. Derbyniodd amryw o alwadau oddiwrth eglwysi cyfoethog yn Lloegr i ddyfod i'w bugeilio, ond yr oedd yn anhawdd iawn ganddo dòri y cysylltiad oedd rhyngddo a'i luaws cyfeillion crefyddol yn Ngheredigion. Wedi hir betruso, modd bynag, penderfynodd mai ei ddyledswydd oedd ufuddhau, ac felly ymadawodd â'r Dywysogaeth am Loegr. Dechreuodd ar ei weinidogaeth yn Coventry, Medi 9, 1810, fel cydweinidog âg un Mr. Emaus. Ar y 19eg o Fai, 1811, priododd â boneddiges ieuanc o Evesham. O herwydd i ryw anghydfod dòri allan yn y gynnulleidfa, rhoddodd Mr. Davies ei swydd i fyny yno, a phregethodd ei bregeth ymadawol yn Coventry, Mehefin 20fed, 1818. Maes nesaf ei lafur ydoedd Evesham, lle y treuliasai ei ewythr brawd ei dad, sef y Parch. B. Davies, ugain mlynedd fel gweinidog; ac yno hefyd y treuliodd yntau y gweddill o'i fywyd, sef deugain mlynedd, mewn parch ac anrhydedd cyffredinol, 35 o ba rai a dreuliodd fel gweinidog. Cyn, ac wedi ymadael â Chymru, rhoddodd Mr. Davies ran fawr o'i amser i gyfieithu Esboniad Dr. Coke i'r Gymraeg. Yn ystod y pum mlynedd olaf o'i fywyd, o herwydd ei henaint a'i lesgedd, rhoddodd heibio ei ddyledswyddau cyhoeddus. Bu farw ar yr 28ain o Dachwedd, 1860, ar ol dihoeni mewn cystudd am tua hanner blwyddyn; a hebryngwyd ei ran farwol i dŷ ei hir gartref gan dorf o wŷr parchus o'r dref a'r gymydogaeth. Ei oed oedd 81 mlwydd.

Davies, T. L., oedd enedigol o Aberdeuddwr, yn sir Aberteifi. Bu am dymmor yn weinidog ar Eglwys y Bedyddwyr yn Victoria, sir Fynwy, ac wedi hyny yn Nghaersalem Newydd, ger Abertawe. Ymfudodd i'r America yn haf y flwyddyn 1848, a bu yn weinidog eglwys yn Nghaer-

efrog Newydd hyd ei farwolaeth yn 1856, gan adael ar ei ol gymeriad uchel fel gweinidog cymhwys y Testament Newydd. Ei oed oedd 42 ml.

DAVIES, WILLIAM, ydoedd enedigol o ardal Penrhiwgaled, Ceredigion, lle y ganwyd ef, Rhagfyr 31, 1792. Cafodd ei ddwyn i fyny mewn teulu crefyddol, y rhai oeddynt yn dra gofalus i'w "hyfforddio yn mhen ei ffordd." Er fod Mr. Davies yn wrthddrych argraffiadau crefyddol er yn blentyn, er hyny ni wnaeth broffes gyhoeddus o'i ffydd nes oedd tuag 20 oed, pryd yr ymunodd â'r Eglwys Annibynol yn Penrhiwgaled. Y gweinidog yno y pryd hyny ydoedd yr enwog Mr. Evans o'r Drewen, cynghorion a hyfforddiadau yr hwn fuont o fawr gynnorthwy iddo ar ei yrfa grefyddol. Ar y 27ain o Fedi, 1815, efe a dderbyniwyd i Athrofa y Neuaddlwyd; ac yn Rhagfyr, yr un flwyddyn, dechreuodd bregethu. Wedi cyrhaedd gwybodaeth elfenol o'r Groeg a'r Lladin, symudodd oddiyno i Athrofa Llanfyllin, Gorphenaf 11, 1818. Ar ol gorphen tymmor ei efrydiaeth yno, urddwyd ef yn y fl. 1822, yn weinidog yn Llangollen, o'r lle y symudodd, yn 1826, i Rhydyceisiaid, ac yno y terfynodd ei yrfa. Yn y lle olaf hwn, cadwai Mr. Davies ysgol yn ychwanegol at ei ddyledswyddau gweinidogaethol, yr hon a fwriadai i barotoi gwŷr ieuainc ar gyfer yr Athrofeydd, ac yn hyn bu yn hynod lwyddiannus. Yr oedd Mr. Davies yn ysgolhaig Cymraeg rhagorol, ac ychydig ddeallent yr iaith yn well nag ef. Prif bwnc ei bregethau fyddai croes Crist; ac yr oedd yn dra iach yn y ffydd ar brif athrawiaethau Cristionogaeth. Os nad oedd yn ei bregethau ryw lawer o addurniant a chelfyddyd, yr oeddynt bob amser yn eglur a sylweddol—ei brif amcan fyddai gwneud ei hun yn ddealladwy i'w wrandawyr. Meddai ar galon hynaws a dysyml; yr oedd yn "Israeliad yn wir, yn yr hwn nid oedd dwyll." Gyda'r eithriad o'r pum' mlynedd diweddaf o'i fywyd, lled wasgedig fu o ran ei amgylchiadau tymmorol, yr hyn a gyfodai oddiwrth y ffaith ei fod yn feddiannol ar fwy o ddiniweidrwydd y golomen nag o gallineb y sarff. Yr oedd yn un o'r dynion tawelaf a llareiddiaf a sangodd ar y ddaear erioed. Bu ei symudiad o'r byd yn golled fawr i'r achos yn y lle, ac yn destun galar i gylch eang o gyfeillion a pherthynasau. Cymerodd hyn le yn sydyn ac annysgwyliadwy iawn. Bwriadai ef ac Ysgol Sabbathol Rhydyceisiaid fod mewn Cymanfa Ysgolion yn St. Clears y diwrnod hwnw; ond er ei fawr awydd, ni chaniatawyd iddo y fraint—gwysiwyd ef i "gymanfa a chynnulleidfa y rhai cyntafanedig." Bu hyn Mehefin 17, 1861. Dywedir i farwolaeth Mr. Davies effeithio yn ddwys ar luaws mawr o'i hen wrandawyr, llawer o ba rai, mewn canlyniad, a ymunasant â'r eglwys yno.

DAVIES, WILLIAM, oedd fab y Parch. David Davies, offeiriad Bangor a Henllan; a brawd i'r Parch. J. P. Davies, Tredegar. Yr oedd ewythr

iddo, brawd ei dad, yn weinidog gyda'r Annibynwyr yn Aberhonddu; ac ewythr arall iddo oedd y Parch. Daniel Davies, Talgoed, gweinidog y Bedyddwyr. Gyda'r blaid olaf hon yr ymunodd yntau, a dechreuodd bregethu yn y flwyddyn 1819. Aeth i Athrofa Bradford, lle y treuliodd bedair blynedd. Urddwyd ef yn 1826 yn weinidog yn Portsea; ond ni fu yno yn hir cyn iddo gael ei dueddu i fyned allan yn genadwr i Affrica. Ac felly cychwynodd ef a'i wraig tuag yno, a bu y peryglon yr aethant trwyddynt yn y wlad hòno yn fawr iawn—yn anhygoel braidd. Ni wyddis yr amser y bu farw.

DEIO AB IEUAN DDU, ydoedd fardd genedigol o blwyf Llancynfelyn, ac yn blodeuo rhwng 1460 a 1500. Mae awdl i *Foredydd ab Llywelyn o Uwch Aeron* o'i eiddo, a chywydd i *Ddafydd ab Tomos o Is Aeron*, i'w gweled yn *Meyrick's Cardiganshire.* Y mae y llinell gyntaf o wyth cân ar hugain o'i eiddo yn *Ngreal Llundain*, am 1807. Canodd hefyd *Awdl y Caws*, o'r hon y mae amryw gopïau ar gael. Yr achlysur o'i chyfansoddi, meddir, sydd fel y canlyn:—Clywsai ganmoliaeth uchel gan rywun i Madawg, Abad Enlli, am ei haelioni; ac ar hyny, canodd yntau iddo awdl o folawd, a chan logi cwch, cychwynodd un diwrnod tua'r ynys hòno, ar fedr cyflwyno y gân yn bersonol i'r Abad. Ond yn lle y croesawiad a'r moethau a ddysgwyliasai gael, ni roddwyd o'i flaen ond ychydig fara a chaws, a llaeth enwyn; ac felly, yn lle yr awdl o folawd a ddarparasai, efe a ganodd iddo gerdd duchan, dan yr enw, *Awdl y Caws.*

DEWI SANT. Mae hanes Dewi yn gydweuedig â hanes yr eglwys yn Mhrydain yn y cyfnod hwnw; ond mae ei gysylltiad â Cheredigion yn hawlio iddo ryw faint o sylw oddiwrthym. Mab ydoedd Dewi i Sandde ab Ceredig ab Cunedda, o Non, ferch Gynyr o Gaer Gawch yn Mhenfro, penaeth a berchenogai diriogaeth Pebydiog, lle yn awr y saif Ty Ddewi. Yn ol y *Trioedd*, Cunedda oedd y cyntaf a roddodd diroedd a breiniau tuag at gynnaliaeth yr eglwys, a darfu i Gynyr wneud yr un peth. Fel hyn, yr oedd Dewi yn disgyn, nid yn unig o deulu urddasol, ond hefyd o rai crefyddol ac enwog am eu duwioldeb. Cafodd ei eni yn Rhos, a alwyd wedi hyny, Mynyw, (Ty Ddewi); a bedyddiwyd ef yn Mhorth Clais, gan Albeus, esgob Munster, yn yr Iwerddon. Dygwyd ef i fyny a derbyniodd egwyddorion cyntaf ei ddysgeidiaeth yn Hen Fynyw (*Vetus Rubus*), yn sir Aberteifi. Wedi hyny, rhoddwyd ef yn Athrofa Tygwyn ar Daf, o dan ofal y clodwych Pawl Hen, lle y treuliodd ddeng mlynedd yn efrydu yr Ysgrythyrau, ac yn ymbarotoi ar gyfer y weinidogaeth. Wedi gadael y lle hwn, ymneillduodd Dewi i ddyffryn Rhos, ac yno sefydlodd gyfeillach grefyddol; ac yn mysg ei ddysgyblion, yr oedd Teilo a Phadarn —dynion enwog am eu duwioldeb, a sylfaenwyr amryw eglwysi. Y modd

y treuliai y gymdeithas grefyddol hon ei hamser oedd fel y canlyn:—"Codent y bore ar ganiad y ceiliog, a pharhäent mewn gweddïau a myfyrdodau hyd y dydd. Yna wedi cydgyfarfod ac addoli Duw yn gyhoeddus, pob un a âi allan at ei orchwyl; ar ol treulio yr amser gosodedig wrth eu gorchwylion, dychwelent i'r Athrofa, a threulient weddill y dydd mewn gweddïau, darllen, ac ysgrifenu. Yn y prydnawn, cyfarfyddent i addoli Duw, a pharhäent yn yr addoliad hyd dywyll nos; yna swperent yn nghyd ar fara a llysiau. Ar ol swpera, treulient dair awr mewn myfyrdod a gweddi; ac wedi hyny aent i orphwys hyd y bore." Yn y flwyddyn 519, mewn canlyniad i gynnydd Morganiaeth, gwysiodd Dyfrig, yr archesgob, gymanfa er amddiffyn athrawiaethau yr eglwys, yr hon a gynnaliwyd yn Llanddewi Brefi. Daeth gwŷr o'r enwogrwydd mwyaf i'r gymanfa hon, a bu dadl faith rhwng y ddwy blaid, yn yr hon yr ymddangosai pleidwyr Morganiaeth fel yn cael y tir uchaf. Yn y cyfyngder hwn, meddyliodd Pawl Hen am anfon i ymofyn un o'i hen ddysgyblion, sef Dewi, o ddysgeidiaeth a duwioldeb yr hwn y cawsai ddigon o brofion yn flaenorol. Wedi cryn gymhell, cydsyniodd Dewi â'r gwahoddiad; ac wedi dyfod yno, safodd i fyny, a phregethodd gyda'r fath nerth a dylanwad fel y llwyr orthrechodd ei wrthwynebwyr; ac ni chafodd yr Eglwys Gymreig ei blino gymaint ganddynt ar ol hyny. Cymaint oedd y clod ennillodd Dewi iddo ei hun y tro hwn, fel yr etholwyd ef yn unfrydol i'r swydd o archesgob, o'r hon yr ymneillduodd Dyfrig, mewn canlyniad i'w argyhoeddiad o oruwch deilyngdod Dewi. Ni ddarfu i'r dyrchafiad hwn ond ychwanegu ei lafur, a chyflawnodd ddyledswyddau pwysig y sefyllfa mewn modd mor ffyddlawn a chlodfawr, fel, yn ol geiriau un o'i fywgraffwyr, "nad oedd gan genfigen ei hun ddim i'w gyhuddo o'i blegid." Tua'r flwyddyn 529, galwodd Dewi gymanfa arall gyffelyb yn Nghaerlleon ar Wysg, fel yr ymddengys yn ol yr *Annales Menevenses*, (oblegid yno yr oedd safle yr archesgobaeth). Yr achos o'i galw ydoedd, fod heresi Morgan wedi gwneud ei hymddangosiad drachefn yn yr eglwys; ond cafodd ei dadymchwelyd mor llwyr y tro hwn, fel na flinwyd yr Eglwys Brydeinig ganddi mwyach: a galwyd y cyfarfod hwn yn "Gymanfa Fuddugol." O herwydd fod dinas Caerlleon yn cael ei blino yn fynych y pryd hwnw gan derfysgoedd gwladol, cafodd Dewi ganiatâd gan y brenin Arthur i symud eisteddle yr archesgobaeth i rywle arall mwy tawel a neillduedig. Y dyb gyffredin yw, mai Mynyw, yn sir Benfro, oedd y lle dewisedig hwnw; ond yn ol ysgrifau Iolo, (tudal. 82), dywedir ddarfod i Dewi "symud ei Wyndy o Gaerlleon ar Wysg hyd yn Mynyw Hên, yn Ngheredigion." Os treuliodd Dewi gyfran o'i ddyddiau boreuol yn y lle hwn, fel yr ymddengys iddo wneud, nid yw mewn un modd yn annhebygol iddo ei ddewis fel safle yr archesgobaeth. Ni bu ei harosiad yma, modd bynag, ond byr; oblegid symudwyd hi drachefn i Fynyw,

yn Mhenfro; ac adnabyddid y lle blaenorol wedi hyny fel *Hen* Fynyw, yr hyn yw ei enw hyd heddyw. Treuliodd Dewi y rhan olaf o'i oes i wellhau llywodraeth allanol yr eglwys, gan ranu y wlad i saith o esgobaethau; a thynodd allan restr o reolau er iawn lywodraethiad yr eglwys. Yn ol yr archesgob Usher, bu Dewi farw yn y flwyddyn 544, yn 82 oed. Y mynachod, y rhai a gymysgasant lawer o chwedlau ffol a disail â'i hanes, a haerent iddo gyrhaedd yr oedran anarferol o 147 mlwydd! Nid oes, modd bynag, le i ammheu nad yw y dysgrifiad canlynol o hono a roddwyd gan Giraldus, ddim yn anghymhwysiadol:—"Yr oedd efe (Dewi) yn ddrych ac yn batrwm i bawb, yn addysgu drwy air ac esiampl, yn rhagorol yn ei bregethiad, ac yn fwy felly yn ei weithredoedd. Yr oedd efe yn athrawiaethol i bawb, yn gyfarwyddyd i'r rhai crefyddol, yn fywyd i'r tlodion, yn gynnaliaeth i'r amddifaid, yn amddiffynwr i'r gweddwon, yn rheol i feudwyon, yn gynllun i athrawon, ac yn bob peth i bawb, fel yr ennillai bawb at Dduw." Rhestrir ef yn y *Trioedd* gyda Phadarn a Theilo, yn un o "dri gwesteion gwynfydedig Ynys Prydain;" ac mae hefyd yn cael ei gyfrif yn un o "Tri Seitheu Saint Ynys Prydain," a cheir ei enw yn mlaenaf yn mysg y "Saith Doethion." Mae 50 o eglwysi a chapeli wedi eu cyflwyno iddo yn Nghymru, heblaw amryw yn Lloegr. —"*Buchedd Dewi*" yn y *Cambro British Saints, &c., &c.*

Doged, yr hwn a elwir yn Bonedd y Saint, Doged Frenin, oedd sant yn blodeuo yn y chweched ganrif. Mab ydoedd i Cedig ab Ceredig ab Cunedda, a brawd Afan. Efe a sylfaenodd Eglwys Llanddoget, yn agos i Lanrwst, sir Ddinbych. Ceir ei enw yn *Mabinogi Cilhwch ac Olwen.*

Ednywain, (ab Gwaethfoed Fawr), oedd abad Llanbadarn Fawr, yr hwn a westyodd yr archesgob Baldwyn a Giraldus Cambrensis, pan ar eu taith i bregethu Rhyfel y Groes, yn y flwyddyn 1188. Dysgrifir ef gan yr olaf fel hen wr "wedi heneiddio mewn anwiredd."

Edwards, Lodwick, offeiriad Rhymni, a anwyd yn Pantyrhew, ger Llangeitho, yn y flwyddyn 1800. Addysgwyd ef yn ysgol Ystradmeurig, ac mewn amser dyladwy, urddwyd ef gan esgob Copleston, yn Llandaf. Bu yn gwasanaethu fel curad yn Llangan, ac wedi hyny yn Llangattwg, ger Castellnedd, lle y llafuriodd yn galed am naw mlynedd. Yn y flwyddyn 1843, penodwyd ef gan yr esgob i fywoliaeth Rhymni, yr hon a ddaliodd hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le Tachwedd 27, 1855. Ar ei ymadawiad â Llangattwg, dangosodd y plwyfolion eu parch tuag ato trwy ei anrhegu â llestri arian ysplenydd, gwerth £50. Yn ystod y tair blynedd ar ddeg y bu yn gweinidogaethu yn Rhymni, llafuriodd yn

ddiorphwys, a bendithiwyd ei ymdrechiadau â graddau anghyffredin o lwyddiant, fel y gellir barnu oddiwrth y ffaith ganlynol, yn mysg eraill, sef, nad oedd yn y lle hwnw pan aeth efe yno gyntaf ond tri chymunwr yn yr Eglwys; ond yn fuan iawn cynnyddasant i tua 400. Yr oedd yn anarferol boblogaidd fel pregethwr, a cherid ef yn fawr gan bob dosbarth o'i blwyfolion. Nid oes dadl na fu ei ymroddiad i'w swydd weinidogaethol, a'r llafur gorfawr yr aeth trwyddo yn achos o fyrhau ei ddyddiau ar y ddaear. Diau mai "yr hyn a allodd hwn, efe a'i gwnaeth." Mab iddo ef ydyw y Parch. C. S. Edwards, Cwmbrân.

Einion ab Dafydd Llwyd o'r Wern Newydd, yn mhlwyf Llanarth, oedd yr un a groesawodd Iarll Rismwnt, pan ar ei daith o Aberdaugleddyf tua maes Bosworth. Derbyniodd yr Iarll yr un arddangosiad o serchogrwydd a charedigrwydd yma ag a dderbyniasai y noson flaenorol yn nhŷ Dafydd ab Ieuan, yn Llwyndafydd.

Eleri, oedd ferch Brychan Brycheiniog, a gwraig Ceredig ab Cunedda. Hi oedd mam Sandde, tad Dewi Sant.

Elffin, fab Gwyddno, oedd sant o goleg Illtyd, ac yn blodeuo yn y chweched ganrif. Yr oedd gan ei dad, Gwyddno, ored bysgota ar y traeth rhwng Aberdyfi ac Aberystwyth, yr hon oedd yn dwyn mawr elw iddo. Ond ymddengys mai hynod anffodus oedd Elffin—ni lwyddai dim yn ei law, er mawr ofid i'w dad, yr hwn a gredai ei eni ar awr anffodus. Yn awyddus, modd bynag, i roddi un prawf teg i dynged ei fab, cytunodd roddi iddo holl ennillion y gored am un flwyddyn gyfan. Tranoeth, ymwelodd Elffin â'r gored; ond nid oedd yno ddim i'w weled ond hen gwd lledr wedi ymgylymu am un o'r polion. Ar hyn, dechreuodd ei gymdeithion ddannod iddo ei anffawd; oblegid yr oedd wedi dinystrio ffawd y gored, yr hon fyddai arferol o gynnyrchu elw o gan' punt cyn y cyntaf o Fai. "Na," ebe Elffin, "gall fod rhywbeth cyfwerth â chan' punt yn y cwd, er hyny." Dattodwyd y cwd, a daeth talcen hardd plentyn i'r golwg, yr hyn a barodd i un o'r dynion waeddi allan, "Llyma Dal Iesin." "Taliesin, ynte, boed ei enw," ebe Elffin, a chan gymeryd tosturi arno, efe a'i cludodd yn ofalus i'w wraig, yr hon a'i magodd yn dyner; ac o'r dydd hwnw allan, cynnyddodd Elffin mewn cyfoeth yn barhaus. Y cyfryw ydyw y chwedl am blentyndod Penbeirdd Cymru. Fel ad-daliad am hyny, cyfansoddodd Taliesin awdl pan yn blentyn i'w noddwr, sef *Dyhuddiant Elffin*, yn yr hon y ceisiai gysuro Elffin, a throi ei feddwl oddiwrth ei anffodion blaenorol. Wedi hyny, pan oedd Elffin yn garcharor yn Nghastell Dyganwy, gan Maelgwyn Gwynedd, llwyddodd Taliesin, trwy ddylanwad ei awen, i gael rhyddhad i'w hen ymgel-

eddwr.—Gwel *Mabinogi Taliesin* yn y *Cambrian Quarterly Magazine*, v. 200; a'r *Myf. Arch.*, i. 17.

ENOC, JOHN, ydoedd fab i John Enoc o Aberarth-fechan, a gorŵyr i Dafydd Hywel o Droed yr Aur. Ymunodd â'r fyddin, a daeth mewn amser yn Filwriad y *Royal Welsh Fusileers.* Cymerodd ran yn mhrif frwydrau yr Orynys, o dan Wellington; ac wedi hyny yn Waterloo, ac enwogodd ei hunan yn fawr ynddynt. Yn mrwydr Salamanca, Gorph., 1812, saethwyd ei geffyl dano, a chlwyfwyd yntau yn drwm. Ei ddyrchafiadau oeddynt, Is-raglaw, Mawrth 9, 1809; Rhaglaw, Awst 15, 1811; Cadben, Gorphenaf 22, 1830; Uwch-gadben, Ebrill 14, 1846; Is-filwriad, Chwefror 1, 1851; Milwriad, Tachwedd 28, 1854. Bu farw yn Llundain, tua'r flwyddyn 1855, gan adael un ferch yn briod â Dr. Lewis, Piccadilly, Llundain.

EVANS, CHRISTMAS. Ganwyd y gwr enwog hwn ar ddydd Nadolig, yr hyn fu'n achos iddo gael ei alw felly, yn y flwyddyn 1766, mewn lle o'r enw Ysgarwen, yn mhlwyf Llandyssul, sir Aberteifi. Enw ei dad oedd Samuel—crydd wrth ei alwedigaeth; ac yr oedd ei amgylchiadau y cyfryw fel na chafodd ei blant ond ychydig neu ddim dysg. Collodd Christmas ei dad pan yn naw oed, ac felly gorfodwyd ef i droi allan i wasanaethu ar hyd y gwahanol ffermydd yn y gymydogaeth. Pan yn ddwyar-bymtheg oed, cawn ef yn gweini yn Nghastell-hywel, gyda'r enwog Barch. D. Davies; a chydag ef y cafodd y cyfleusdra cyntaf i ddysgu darllen, oblegid yn flaenorol i hyny nid oedd yn *medru gair ar lyfr.* Ymunodd âg Eglwys Llwyn-rhyd-owen, pan oedd tua deunaw oed; ond yr oedd wedi teimlo argraffiadau crefyddol dwfn pan yn dra ieuanc. Ac yn fuan wedi hyny dechreuodd bregethu. Mae hyn yn dangos pa mor ddiwyd y rhaid ei fod wedi llafurio i gyrhaedd gwybodaeth yn ystod y flwyddyn flaenorol, gan na wyddai "air ar lyfr" yn ei dechreu. Gwahoddid ef i bregethu gan y Bedyddwyr, yr Annibynwyr, a'r Trefnyddion Calfinaidd, yn y gymydogaeth, yn gystal ag yn mysg yr Arminiaid Presbyteraidd yn ei eglwys ei hun—Llwyn-rhyd-owen—yr hyn sydd yn profi ei fod yn gymeradwy o ran ei fuchedd yn gystal ag o ran ei ddawn pregethwrol. Ychydig cyn hyn, pan ar ymweliad â sir Henffordd, i weithio'r cynhauaf, (fel mae yn arferiad etto yn y Deheudir), cyfarfyddodd âg anffawd lled drom, sef colli ei lygad, yr hyn a ddygwyddodd trwy i bump neu chwech o ddynion ymosod arno yn llechwraidd, a'i daro ar ei lygad, fel y collodd ef yn y fan. Yn y flwyddyn 1788, ymunodd âg Eglwys y Bedyddwyr yn Aberduar, gan adael Eglwys Llwyn-rhyd-owen; er hyny, gydag ewyllys da a pharch pawb o'r aelodau. Y flwyddyn ganlynol, ar gais yr enwog John Jones o Ramoth, cymerodd daith trwy y Gogledd, ac urdd-

wyd ef tra yno yn fath o genadwr, i ofalu am yr eglwysi yn Lleyn, sir Gaernarfon. Yn Lleyn y cafodd hyd i gydmares ei fywyd, sef un Catherine Jones, yr hon a fu yn gysur mawr iddo yn ystod ei fywyd gweinidogaethol llafurus. Bu ei lafur yno mor fawr nes y bu agos iddo a cholli ei iechyd; pregethai yn fynych bum' waith ar y Sabbath, heblaw cerdded ugain milldir. Dilynodd llwyddiant mawr ei ymdrechion yn Lleyn, am yr yspaid o ddwy flynedd y bu yn aros yno; a bedyddiodd o "gylch hanner cant yn y flwyddyn gyntaf yn Ty'nydomen yn unig." Cymerodd daith unwaith oddiyno i'r Deheudir, a'r pryd hyny y daeth ei ddawn anarferol fel pregethwr i'r golwg; oblegid yr oedd rhyw effeithiau anghyffredin yn dilyn ei weinidogaeth i ba le bynag yr elai. Yn y flwyddyn 1791, derbyniodd wahoddiad taer i fyned i ymsefydlu i sir Fon, â'r hyn, wedi cryn betrusder, y cydsyniodd; ac yno, yn Llangefni, y treuliodd bymtheng mlynedd ar hugain, gan lafurio yn ffyddlawn. Ei gyflog am tuag ugain mlynedd o'r amser y bu yn Llangefni, ydoedd £17 y flwyddyn; ac mae hyn yn rhyfeddach fyth pan y cofiom fod y swm yma yn cael ei wneud i fyny gan ddeg o leoedd pregethu yn yr ynys! Teg, modd bynag, yw hysbysu fod yr amaethwyr yn rhoddi rhoddion gyda hyny o wahanol fathau o ymborth, &c. O herwydd yr amgylchiadau anghysurus a ddygwyddasant yn Mon mewn cysylltiad â'r corff o Fedyddwyr, megys dyfodiad Sandemaniaeth i mewn i'r eglwysi, a'r dadleuon a'r ymraniadau a achoswyd trwy hyny, penderfynodd Mr. Evans ymadael â'r ynys, yr hyn a wnaeth yn y flwyddyn 1826. Yr ydym yn ei gael, yn ol ei eiriau ei hun, "yn awr yn ymadael heb feddu dim o'r byd hwn, ond y ceffyl oedd o danaf, ac ychydig arian oedd yn fy llogell; a phrin y gallaswn ddywedyd fod y rhai hyny yn rhydd genyf." Dealler, ei fod wedi claddu ei hoff briod yn flaenorol i hyn. Sefydlodd wedi hyny yn Nghaerffili, ac yno y priododd ei ail wraig, sef Mary Evans o sir Fon, yr hon a fu yn wraig ffyddlon a gofalus iddo am y gweddill o'i oes. Symudodd oddiyma drachefn yn Hydref, 1828, i Gaerdydd, oblegid i ryw anghydfod dori allan yn yr eglwys. Bu yn hynod lwyddiannus yno er hyny, oblegid derbyniodd tua saith ugain o aelodau yn ystod ei arosiad o ddwy flynedd yn y lle. Maes nesaf ei weinidogaeth oedd Caerdydd; ond ymadawodd oddiyno drachefn yn 1832. Yn y flwyddyn hòno, aeth i Gymanfa Le'rpwl; a chan ei fod wedi rhoddi Eglwys Caerdydd i fyny, derbyniodd annogaeth wresog yno i ddyfod i fugeilio yr Eglwys yn Nghaernarfon. Felly, ymsefydlodd yn y lle hwnw hyd ddiwedd ei oes. Pan ar ymweliad â'r Deheudir, yn 1838, lle y daethai i gasglu at dynu dyled ei gapel yn Nghaernarfon, cymerwyd ef yn glaf yn Abertawe, ac yno y bu farw, Gorphenaf 19. Sabbath olaf ei fywyd, pregethodd yn nghapel y Parch. D. Davies; a nos Lun eilwaith yn nghapel Seisnig y Parch. D. R. Stephen, gan deimlo mor iach a hwylus ag arferol. Ond wrth ddyfod i lawr o'r pulpud,

dywedodd, "Dyma y bregeth olaf i mi." Cymerwyd ef yn glaf y noson hòno, gwaethygodd yn raddol hyd nos Iau; a tua dau o'r gloch boreu Gwener, gorphenodd y gwr hynod hwn ei yrfa ddaearol, yn 72 mlwydd oed, wedi treulio 53 mlynedd yn y weinidogaeth. Bellach, ni gawn sylwi ychydig iawn yn fyr arno fel *dyn* a *phregethwr.* Yr oedd Mr. Evans o dymherau cyffrous a bywiog dros ben; ac er i hyn, efallai, fod o ryw fantais iddo yn yr areithfa, etto, parodd iddo gryn lawer o ofid a helbul fwy nag unwaith; oblegid arweinid ef yn fynych, pan gyffroid ef, i nwydau drwg, ac i golli yr hunanfeddiant hwnw a ddylai pob dyn, ac yn enwedig gweinidog yr efengyl, fod yn wyliadwrus yn ei gylch. Byddai y byrbwylldra oedd yn nodwedd ynddo, yn achos o ofid mawr iddo ef ei hun, fel pan y deuai i'w le, byddai yn edifeiriol i'r eithaf. Yn mysg ffaeleddau eraill y gwr mawr yma, gellid nodi ei anwadalwch, ei ddiffyg gwroldeb, a'i ddiffyg barn. Yr oedd y pethau hyn, o ganlyniad, yn milwrio yn bur gryf yn erbyn ei gymeriad o lywodraethwr yn yr eglwys, gan ei fod yn bur ddiffygiol o'r cymhwysderau hyny sydd yn angenrheidiol i *lywodraethu.* Mae hyn yn rhoddi goleuni ar ei fynych symudiadau gweinidogaethol. O'r ochr arall, perthynai i Christmas Evans ragoriaethau neillduol. Un nodwedd neillduol ynddo ydoedd *gonestrwydd* a *didwylldra,* ac yr oedd yn ddidderbynwyneb hollol—ceryddai fai lle bynag y canfyddai ef. Yr oedd yn dra didwyll—a'i holl enaid yn y gwaith, nid fel "boddlonwyr dynion," ond fel un yn gyfrifol i'w Arglwydd am y cyfan. *Haelioni* hefyd ydoedd un o'i ragoriaethau. Mae ei holl gofiantwyr yn nodi y gallai unrhyw grwydryn o Wyddel, neu o ryw genedl arall, dynu oddiwrtho y tamaid olaf o fara yn y tŷ, a mynych y gorfodid ei wraig i guddio peth o'r bara, rhag mai ei ranu a gawsai yn llwyr. Yr oedd yn cyfranu yn gyson at y Feibl Gymdeithas, Athrofa y Fenni, &c.; a hyny pan nad oedd ei gyflog ond tua £17 yn y flwyddyn. *Duwioldeb* hefyd oedd yn nodwedd o'r fath gryfaf ynddo. Yn ystod ei fywyd gweinidogaethol maith, ni chynnygiwyd dwyn un math o gyhuddiad yn erbyn ei gymeriad moesol, hyd yn nod gan ei elynion. Yr oedd yn weddïwr mawr, a mynych yr ymneillduai i'w ystafell i weddïo gynnifer a deuddeg gwaith yn y dydd. Yr oedd hefyd yn *llafurus* nodedig. Nid oedd byth yn segur; ac yr oedd wedi dwyn ei hunan i'r fath arferiad o ddiwydrwydd, fel yr oedd yn ail natur iddo. Gwelir hyn yn amlwg oddiwrth y ffaith iddo gyrhaedd gryn wybodaeth o'r Hebraeg, Groeg, a Lladin, tra na chafodd ond tua hanner blwyddyn o ysgol i gyd, ac na wyddai lythyren ar lyfr cyn bod yn ddwyarbymtheg oed. Yr oedd yn feddiannol ar wybodaeth hanesyddol, wladol, a chrefyddol, hen a diweddar, pur fanwl a chyffredinol; ond duwinyddiaeth oedd ei hoff bwnc. Cyfansoddodd, digon tebyg, filoedd o bregethau; ac mae rhai cannoedd o honynt, a ysgrifenodd yn Nghaerffili, ar gael yn awr mewn ysgrif-lyfr, a'r rhai hyny wedi eu hysgrifenu

bron yn llawn. Yr oedd tua 70 mlwydd oed pan yn parotoi ei Ddarlithiau ar y Datguddiad, yn Nghaernarfon. Efe oedd un o gyfieithwyr Esboniad Dr. Gill ar y Testament Newydd. Cyfansoddodd amryw o emynau rhagorol, a chyhoeddodd lawer o draethodau ar bynciau dadleuol a buddiol, heblaw y lluaws ysgrifau o'i eiddo yn y gwahanol gyfnodolion. Cyhoeddodd lyfryn ar Ddirwest, pan yn Nghaernarfon; a dadleuodd ac areithiodd lawer iawn yn ei flynyddau olaf o blaid y Gymdeithas Ddirwestol. Ei brif ragoriaeth fel *pregethwr* oedd yn gynnwysedig yn ngrym a bywiogrwydd anghyffredin ei ddychymyg, ac yn ei allu i bortreadu a dysgrifio gwrthddrychau. Enghreifftiau nodedig o'i allu yn y ffordd yma ydyw ei bregeth ar y "Mab Afradlon" a "Chyfodiad Lazarus." "Ni buasai Christmas Evans," ebe un, "yn fwy poblogaidd na llawer eraill o'r Bedyddwyr, na chymaint a rhai oedd yn fyw yn ei oes ef, oni b'ai nerthoedd a chyflymdra ei ddychymyg, ei ymroad, a galluoedd creadigol ei feddwl. Yr oedd ei feddwl yn gallu esgor mewn ychydig fynydau ar yr hyn a fuasai yn ddigon o *fortune* i lawer un am ei oes."

EVANS, DANIEL, B.D., *(Daniel Ddu)*, un o brif awenyddion Cymru, a anwyd yn Maes Mynach, plwyf Llanfihangel Ystrad, Ceredigion, yn y flwyddyn 1792. Amaethwr cyfrifol ydoedd ei dad, ac yntau oedd yr ail o dri mab. Gan iddo gael ei fwriadu i fod yn weinidog yn yr Eglwys Sefydledig, anfonwyd ef i ysgol Ramadegol Llanbedr, yr hon a gedwid y pryd hyny gan y Parch. Eliezer Williams, mab yr hybarch Peter Williams. Mewn amser, danfonwyd ef i Rydychain, lle y dewiswyd ef yn Gymrawd, ac ei graddiwyd yn B.D. Urddwyd ef, a pharhaodd i fwynhau ei Gymrodoriaeth am flynyddau lawer. Enwogodd Daniel Ddu ei hun fel llenor Cymreig, ac fel un o'r beirdd mwyaf coeth a chlasurol; ac ychydig o feirdd sydd yn Nghymru wedi ennill y fath boblogrwydd ag ef. Anfarwolodd ei hunan mewn cysylltiad âg Eisteddfod fawr Caerfyrddin, yn y flwyddyn 1823. Efe ydoedd arwr yr Eisteddfod hòno, ac yr oedd ei ymddangosiad disymwth ac annysgwyliadwy fel bardd a llenor o'r dosbarth cyntaf, yn destun syndod ac edmygedd i holl bleidwyr llenyddiaeth eu gwlad. Yn ychwanegol at yr anrhydedd o ennill ar y prif destun, sef Awdl ar Goleg Dewi Sant, trwy yr hwn yr aeth a'r Gadair, bu hefyd yn llwyddiannus ar y testun, "Buddugoliaeth y Groegiaid ar y Tyrciaid;" ac hefyd ar y testun, "Ifor Hael." Yn ystod yr Eisteddfod, traddododd anerchiad yn llawn o goethder a dichlyndra ieithyddol, ac yn llawn o deimlad gwir wladgarol. Cyhoeddwyd ei weithiau barddonol, neu yn hytrach gyfran o honynt (oblegid gwelsom rai cannoedd o linellau o'i eiddo na wnaethant erioed eu hymddangosiad mewn argraff) dan y teitl o *Winllan y Bardd*, yn gyfrol drwchus o 410 o dudalenau, yn y flwyddyn 1831. Ac yn wir, *Gwinllan* mewn gwirionedd ydyw, oblegid mae yn llawn o rawnsypiau

mwyaf dewisol a phereidd-flas. "Ystyrir nodweddau ei awen yn dlws, a phrydferth, a choeth—afon yn ysgogi ac yn ymddolenu hyd y ceulanau, trwy ddyffryn llydan, gwastadlyfn, meillionog—yn ysgogi bob amser yn nerthol, ac weithiau yn chwim drochionog, ond nid yn rhaiadrog. Mae yr *aw* ufelaidd yn rhoddi bywyd i bob brawddeg o'i eiddo; ac ymdoddai y meddylrithiau yn ddidwthian a hollol naturiol i'r cynghaneddau. Ac nid ymddengys fod yr odl gaeth yn un hual i'w awen ef." Heblaw y lluaws o awdlau a chywyddau, a llawer o honynt yn gyfansoddiadau gwobrwyedig yn y gwahanol Eisteddfodau, cynnwysa y *Winllan* lawer o emynau a phennillion yn mysg y rhai mwyaf coeth a phrydferth yn yr iaith. Dyfynwn y ddau bennill canlynol, ar "Ddychweliad y Mab Afradlon," fel enghraifft:—

"Dos yn mlaen, bererin egwan,
  Trwy'r diffaethwch, dos yn mla'n;
Er mor athrist yw dy olwg,
  Try dy alar etto'n gân:
Llygaid nef sydd ar dy gamrau,
  Teithia 'mlaen, bererin gwan;
Ronyn etto, ffrydiwch ddagrau,
  Chwi a sychir yn y man.

Pwy a wela'i'n d'od a gwisgoedd
  Hardded a goleuni'r wawr—
Yn cusanu'r crwydryn eiddil—
  Ar ei wddf yn syrthio i lawr?
Uwch ac uwch yn awr dyrchafa
  Tannau'r nef eu sain yn nghyd;
O! a ydyw'th werth di gymaint,
  F'enaid bach, a wyt mor ddrud?"

Bu farw Mawrth 28, 1846, yn 54 mlwydd oed; a chladdwyd ef yn mynwent Pencareg, sir Gaerfyrddin.

EVANS, DANIEL, Capel Drindod, gweinidog parchus gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, a anwyd yn y flwyddyn 1744. Dechreuodd bregethu yn 1777, a pharhaodd wrth y gwaith hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le Mehefin 17, 1845, pan yn 71 mlwydd oed. Teithiodd fwy na'r rhan amlaf o'i frodyr yn y weinidogaeth, a bu yn dra llafurus yn y winllan tra parhaodd ei ddydd. Yr oedd yn un a fawr garai dangnefedd yn ei fywyd, ac felly bu ei ddiwedd; canys "efe a aeth i dangnefedd." Claddwyd ef yn mynwent Eglwys Llangynllo.

EVANS, THOMAS, oedd fab David Evans, Ysw., Llechwedd Deri, yn mhlwyf Llanwnen. Yr oedd ei dad yn sirydd Ceredigion yn y flwyddyn 1641, ac efe a brynodd ystad Ffynnon Bedr, ac a adeiladodd y palasdy a ddaeth wedi hyny mor enwog mewn cysylltiad â hanes y Llwydiaid. Yr

oedd teulu Ffynnon Bedr yn bleidiol i achos y Senedd yn amser y Rhyfel Cartrefol; a dywedir fod Thomas Evans a'i fab yn ngwasanaeth Cromwell fel math o ddirprwywyr yn y rhan hòno o'r wlad; a'u bod, yn rhinwedd y swydd hòno, wedi casglu yn nghyd gyfoeth mawr. Nid yw ei enw, modd bynag, yn mysg y Dirprwywyr er Lledaenu yr Efengyl, (gwel *Scobell's Arts and Ordinances)*; ond crybwylla Walker *(Sufferings of the Clergy)* am un Thomas Evans fel yn meddu rhyw awdurdod mewn materion eglwysig yn siroedd Aberteifi a Maesyfed; ac mae lle i gasglu mai gwrthddrych y cofiant hwn ydoedd ef. Hysbysir ni, ar awdurdod dda, ei fod yn gadben ar gorff o wŷr meirch, o dan y *Pwyllgor Diogelwch.* Mewn ysgrif a gyfansoddwyd tua'r flwyddyn 1661,* rhoddir y cymeriad canlynol iddo, yr hwn nid yw mewn un modd yn siarad yn ffafriol am ei egwyddorion moesol:—"Thomas Evans, passionately violent in anything —first a covenanter, then an eager advocate for the negative oath; afterwards most impetuous against a single person, especially the Family of his now Majestie; an active captain of horse, and his son David of foote, under the late Committee of Safety; passing an oath upon others for their fidelity to the said Committee; endeavouring to incite men, about the beginning of April last, to take arms against General Monke; impatient without an office, and tyrannical in it." Bu Thomas Evans yn dal y swydd o sirydd Ceredigion yn y flwyddyn 1653. Yr oedd yn briod âg Elizabeth, merch Ieuan Gwyn Fychan, Moelifor, o ba un y bu iddo blant, un o ba rai ydoedd—

EVANS, DAVID, at yr hwn y gwneir cyfeiriad yn y dyfyniad uchod, oddiwrth yr hyn y gwelir ei fod yntau, fel ei dad, yn cymeryd rhan neillduol a chyhoeddus yn helyntion gwladol ei oes; ac yn gadben ar gorff o wŷr traed, o dan y Pwyllgor Diogelwch. Priododd Jane, merch William Herbert, Ysw., Hafod Ychdryd. Yr oedd mam y foneddiges hon yn chwaer i wraig Jonathan Lloyd, Ysw., Llanfair Clydoge; ac i Syr John Vaughan, Trawsgoed, Prif Farnwr Llys y *Common Pleas.*

EVANS, DAVID, a anwyd yn agos i Aberporth, sir Aberteifi, yn y flwyddyn 1744. Pysgotwr wrth ei alwedigaeth oedd ei dad, a chan fod ganddo deulu lluosog yn ymddibynu arno am foddion eu cynnaliaeth, gorfu i wrthddrych ein cofiant droi allan i "wasanaethu" pan yn ddeg oed, a dilynodd y gwaith hwn mewn gwahanol fanau am tuag ugain mlynedd. Pan o gylch saith ar hugain oed, unodd â'r Bedyddwyr yn Nghilfowyr, ac yn fuan wedi hyny dechreuodd bregethu yn y gwahanol

* "A true character of the Deportment for these eighteen years last past, of the principal Gentry within the counties of Carmarthen, Cardigan, and Pembroke, in South Wales." (See *Cambrian Register*, vol. i., p. 166).

fanau y gelwid am ei wasanaeth. Yn y flwyddyn 1774, priododd a chymerodd dyddyn bychan o'r enw Newgate, gerllaw Eglwys Troed yr Aur. Yn 1778, neillduwyd ef i'r swydd weinidogaethol yn addoldy y Graig, gerllaw Castellnewydd Emlyn. O herwydd ei fod yn hynod boblogaidd fel pregethwr, ac yn meddu cymhwysderau neillduol eraill, penodid ef yn flynyddol i fyned ar daith drwy y Gogledd. Yn ystod y teithiau hyn, cyfarfyddodd âg erledigaethau chwerwon, a bu ei fywyd amryw weithiau mewn perygl. Yn 1787, dewiswyd ef yn weinidog ar Eglwys Maesyberllan, Brycheiniog, lle y bu yn llafurio yn ddiflino am ddeg ar hugain o flynyddoedd. Bu yn foddion i sefydlu achos yn Aberhonddu a Cherygcadarn, a chwanegwyd llawer at yr eglwysi o dan ei weinidogaeth. Er nad oedd wedi mwynhau nemawr o fanteision dysgeidiaeth yn ei ieuenctyd, ni allasai fod ei wybodaeth feirniadol a chyffredinol mor helaeth a'r eiddo llawer; ond gwneid y diffyg hwn i fyny i raddau mawr gan ei ddeall goleuedig, ei gof gafaelgar, a'i synwyr cryf a threiddiol. Parhaodd yn ei iechyd a'i fywiogrwydd i bregethu yn ddidor hyd oni tharawyd ef gan y clefyd a derfynodd yn ei farwolaeth, Hydref 24, 1821, pan yn 77 mlwydd oed, ar ol bod yn llafurio yn ffyddlon yn ngwinllan ei Arglwydd am yn agos i ddeng mlynedd a deugain.

Evans, David, oedd enedigol o Lwyncelyn, plwyf Llanddewi Brefi, a ganwyd ef ar yr 16eg o Ragfyr, 1811. Efe oedd yr ieuangaf o naw o blant. Anfonwyd ef yn ieuanc i'r ysgol, a gallai ddarllen pan yn bump oed. Yn y flwyddyn 1824, torodd diwygiad grymus allan yn Llangeitho a'r ardaloedd, yn mysg y Trefnyddion Calfinaidd, ac unodd yntau â hwy. Pan tua unarbymtheg oed, anfonwyd ef i'r ysgol Ramadegol i Neuaddlwyd, ac yn fuan ymunodd yno â'r Annibynwyr. Tua blwyddyn ar ol hyny dechreuodd bregethu. Bu dan ofal yr hybarch Dr. Phillips am bedair blynedd, a gwnaeth gynnydd mawr mewn gwybodaeth o Saesonaeg, Lladin, a Groeg, fel ag y dywedai ei athraw am dano, na bu neb yn fwy diwyd a llafurus nag ef erioed o dan ei ofal; ac na chafodd un gofid oddiwrtho dros yr holl amser y bu gydag ef. Yn 1831, symudodd i Athrofa Caerfyrddin, lle y bu eilwaith bedair blynedd. Ar derfyn yr amser hwnw, cafodd alwad gan yr Eglwys Annibynol yn Mhenygraig, ger Caerfyrddin, ac urddwyd ef yn weinidog yno, Ionawr 15, 1835; a Gorphenaf 16, 1837, cymerodd ofal Eglwys Philadelphia. Medi 28, 1838, ymunodd mewn priodas â Miss Eleanor Thomas, unig ferch Mr. William Thomas, Wernwen. Yn ystod yr amser y bu yn gofalu am yr eglwysi hyn, gwnaeth Mr. Evans lawer o ddaioni i'r gymydogaeth yn gyffredinol; a bu yn offerynol i roi terfyn ar lawer o arferion ffol ac annuwiol, megys y cwrwau bach, dulliau anweddaidd yr angladdau, halogi y Sabbath, &c. Llafuriai yn ddiwyd iawn gyda'r Ysgol Sabbathol, ac yr

oedd yn un o'r holwyr goreu ar bwnc ysgol yn Neheudir Cymru. Pregethai yn fywiog ac argyhoeddiadol iawn. Yr oedd yn hollol gydwybodol —traethai "holl gynghor Duw" yn ddidderbynwyneb. Meddai ar lawer o dân ac ysbryd yr hen bregethwyr, yn nghyda dysg a choethder ei gydlefarwyr ieuainc yn y weinidogaeth.

EVANS, DAVID, Aberaeron, ydoedd weinidog gyda'r Trefnyddion Calfinaidd. Mab oedd i Benjamin a Catherine Evans, Penygareg Isaf, ger y dref hon. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1768, ac efe ydoedd yr ieuangaf o bump o blant. Yr oedd ei rieni yn aelodau yn Ffosyffin, gyda'r Parch. Thomas Gray. Cafodd David Evans ysgol dda pan yn ieuanc, ac wedi hyny cafodd ei anfon i ysgol Ystradmeurig, gyda'r bwriad, mae'n debyg, o'i ddwyn i fyny yn offeiriad. Ond cyn ei fod yn ddeunaw oed, cafodd anaf bychan ar grimog y goes ddeheu, yr hwn a waethygodd i'r fath raddau fel ag i droi yn fanwynau (*king's evil*), a gwnaed ef yn gloff iawn. Aeth ei fraich chwith hefyd yn hollol anhyblyg (*stiff*). Gan ei fod yn ysgolhaig gwych, dechreuodd ar y gwaith o gadw ysgol yn ei gartref, a chyrchai lluaws yno ato. Pan yn 30 ml. oed, priododd âg Elizabeth Davies o blwyf Llanina, a bu iddynt unarddeg o blant, tair o ferched ac wyth o feibion. Yn y flwyddyn 1805, bu farw y plentyn ieuangaf trwy ddamwain ddisymwth, a darfu i'r amgylchiad hwn effeithio cymaint ar ei feddwl, nes ei ddwyn i ystyriaeth ddifrifol am ei ddiwedd; ac mewn canlyniad, taflodd ei goelbren i fysg y dysgyblion yn Ffosyffin, gan y rhai y derbyniwyd ef yn llawen. Yr oedd yn flaenorol i hyny yn meddu cymeriad difrycheulyd, ac yn wrandawr cyson o Mr. Gray, dan weinidogaeth yr hwn yr ymddangosai fel yn teimlo yn ddwys yn fynych. Ffaith hynod yn nglŷn â'i yrfa grefyddol ydyw iddo, ar annogaeth Mr. Gray a'r eglwys yn gyffredinol, ddechreu pregethu yn mhen tri mis ar ol dyfod i'r *society*. Mae hyn ar unwaith yn profi eu bod yn coleddu y meddyliau uwchaf am dano fel dyn ac fel crefyddwr, ac yn wir ni chawsant erioed yr achos lleiaf i feddwl yn wahanol am dano. Pregethodd yn y Cyfarfod Misol cyntaf yr aeth iddo, yr hwn a gynnelid yn Blaenanerch, a hyny gyda medrusrwydd mawr, ac er boddhad cyffredinol. Wedi hyn, yr oedd ei yrfa weinidogaethol yn un o lwyddiant parhaus, fel ag y daeth i gael ei gydnabod yn "dywysog ac yn wr mawr yn Israel." Yr oedd Mr. Gray cyn ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le yn y flwyddyn 1809, yn awyddus iawn am ei weled yn cael ei ordeinio yn olynydd iddo ef fel bugail ar yr eglwys hòno, yn nghyda Abermeurig a Llwynpiod; ond gan nad oedd y fath beth ag ordeinio yn mhlith y Trefnyddion yr adeg hòno, ni chafodd ei ddymuniad ei sylweddoli. Yn 1815 y cafodd ef ei ordeinio, a hyny yn Llangeitho. Gyda golwg ar ei fywyd cyhoeddus o'r adeg hon yn mlaen, nis gallwn wneud yn well na dyfynu a ganlyn o ysgrif o eiddo ei fab,

Mr. Benjamin Evans o'r dref hon, i'r hwn yr ydym yn ddyledus am ddefnyddiau hyn o gofiant:—"Gallesid meddwl cyn hyn fod yn anmhosibl iddo fod yn fwy ffyddlawn a llafurus nag y buasai cyn hyny; ond yn awr cafodd ysbryd arall, fel rhyw ail ras, ac eneiniad oddiwrth y Santaidd hwnw, nes ydoedd braidd yn angherddol mewn sel, llafur, ac eiddigedd duwiol dros ogoniant Duw, ac achubiaeth eneidiau. Yr ydoedd yn ymboeni ddydd a nos yn y gair a'r athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb. Ei hoff awduron oeddynt Dr. Owen, Charnock, Henry, Poole, Charles, Gurnal, Bunyan, a Baxter. Er ei fod yn ysgrifenydd buan ac eglur iawn, nid ydym yn meddwl iddo ysgrifenu pregeth erioed yn hanner cyflawn, a hyny, efallai, am fod ei gof mor anarferol o dda." Yr oedd Mr. Evans yn fugail eglwysig yn Lledrod, Llangwyryfon, Rhiwbwys, Llanon, Penant, a Ffosyffin, a chadwai bregeth a *society* yn fisol yn mhob un o honynt tra fu byw. Byddai yn bresenol hefyd yn mhob Cymanfa Ysgolion Sabbathol bron trwy y sir; ac nid ystyrid un Gymanfa yn gyflawn os na byddai ef yn bresenol, ac anfynych iawn y byddai hyny yn dygwydd. O ran ei berson, meddai gorff cryf, gwrol, a chadarn iawn, a mwynhai iechyd rhagorol. Yr oedd yn hynod ffraeth a chyfeillgar mewn cwmni, ac yn ddyn o ymddiried a pharch cyffredinol yn ei ardal. Mynych iawn y gelwid arno i benderfynu dadleuon rhwng gwahanol bleidiau mewn gwlad ac eglwys; ac nid rhyfedd hyny gan ei fod yn feddiannol ar ddeall cyflym a synwyr cyffredin cryf, ac o duedd heddychol ei hun. Bu farw mewn canlyniad i yfed dwfr oer ar ol chwysu yn drwm wrth bregethu ar brydnawn gwresog yn Llangwyryfon, Awst 14, 1825, a gorphenodd ei yrfa y Sabbath canlynol, sef yr un wythnos a'i gyfaill a'i gydlafurwr, y Parch. Ebenezer Morris.

Evans, David, oedd weinidog enwog yn mysg y Wesleyaid, ac a anwyd yn y sir hon yn y flwyddyn 1789. Yr oedd yn un o ddychweledigion cyntaf y Wesleyaid yn Nghymru. Wedi ei argyhoeddi, teimlodd yn fuan awydd cryf i ymgyflwyno i waith y weinidogaeth; ac felly wedi gwasanaethu am dymmor fel pregethwr lleol, urddwyd ef yn weinidog rheolaidd yn y flwyddyn 1810. Yr oedd yn ddyn o feddwl cryf, o farn gywir, yn ddarllenwr mawr, ac o gyrhaeddiadau uchel; ac yn ychwanegol at hyn, yr oedd yn hynod ostyngedig a diymffrost. Yr oedd yn uchel iawn ei gymeriad fel gweinidog yn mysg y bobl y llafuriai yn gystal ag yn mysg ei gydweinidogion. Gwirioneddau mawrion yr efengyl fyddai hoff destunau ei bregethau, ac ymgadwai yn ofalus rhag pynciau dyeithr, ammheus, a thywyll. Ystyrid ef yn un o'r pregethwyr mwyaf enwog a berthynai i'r cyfundeb, a bu yn dra llwyddiannus yn ngwaith ei Arglwydd. Yn ystod y tair blynedd olaf o'i fywyd, dyoddefodd gryn lawer oddiwrth wendidau a llesgedd corfforol; ac yn Ionawr, 1854, cafodd ergyd o'r parlys, pryd y

cynghorwyd ef gan ei feddyg i roi i fyny bregethu. Parhaodd, modd bynag, gan faint ei awydd i wasanaethu ei Arglwydd, gyda'r gwaith; ond gorfyddwyd ef i'w roddi heibio yn fuan. Gyda pherffaith ymostyngiad i ewyllys ei Dad nefol, bu farw, Mai 11, 1854, yn 65 mlwydd oed, wedi bod yn gweinidogaethu am 44 mlynedd. Ei eiriau diweddaf oeddynt, "Mae'r Iesu yn dyfod! Cymer fi Iesu, cymer fi Iesu!"—*Min. of Conference*, 1854.

Evans, David, a drowyd allan o Eglwys Llandyfriog, gan y Prwywyr, am anfoesoldeb a Simoniaeth.

Evans, Evan Griffith, Pen y Wenallt, oedd yn hanu o Wynfardd Dyfed, yn ol tystiolaeth Theophilus Jones, *Hanesydd Brycheiniog*, yr hwn oedd y pummed âch o Evan Gruffydd Evans. Yr oedd yn byw yn amser Siarl I., ac yn deyrngarwr o'r gwraidd; ac "ymladdodd a gwaedodd" yn ei achos. Ei fab, Samuel Evans, fu athraw teuluaidd y Parch. Mathew Henry, yn y *Broad Oak*. Mab arall iddo oedd Charles Evans, yr hwn a enwyd ganddo o barch i'w frenin, Siarl I.; ac efe ydoedd tad yr hyglod Theophilus Evans, awdwr *Drych y Prif Oesoedd*. Ymfudodd cangen o'r teulu hwn i'r America, lle y dyoddefasant lawer o golledion, o herwydd eu hymlyniad wrth Loegr, yn amser Rhyfel America. (Gwel *Jones' History of Brecknockshire; Meyrick's History of Cardiganshire*, 130).

Evans, Evan, Aberffrwd, oedd weinidog ffyddlawn a llafurus gyda'r Trefnyddion Calfinaidd. Ymunodd â chrefydd pan tua 23ain oed, ac yn mhen tua pum' mlynedd wedi hyny dechreuodd bregethu; ac yn y flwyddyn 1822, cafodd ei urddo i gyflawn waith y weinidogaeth. Ystyrid ef yn bregethwr da, a bu yn hynod ffyddlawn gyda'r gwaith, a hyny yn wyneb lluaws o anfanteision ac anhawsderau. Teithiodd lawer trwy Dde a Gogledd, a mawr berchid ef gan ei frodyr yn y weinidogaeth gartref ac oddicartref. Tua diwedd y flwyddyn 1855, goddiweddwyd ef gan lesgedd, a chlywid ef yn amlygu ei ddymuniad yn fynych am gael "myned adref;" ac nid hir y bu cyn cael yr hyn a ewyllysiai, oblegid ar foreu Sadwrn, yr 2il o Chwefror dilynol, aeth i fwynhau yr orphwysfa nefol. Yr oedd wedi cyrhaedd yr oedran teg o 73 mlwydd.

Evans, Evan, (*Ieuan Brydydd Hir*), y bardd a'r hynafiaethydd rhagorol, a anwyd yn Cynhawdref, yn mhlwyf Lledrod, yn y flwyddyn 1730. Addysgwyd ef yn ysgol Ramadegol enwog Ystradmeurig, yr hon oedd o dan arolygiaeth yr ysgolhaig a'r bardd gwych Edward Richard, yr hwn, mae'n debyg, a fu yn foddion i ddwyn allan gyntaf i weithrediad ei alluoedd awenyddol. Efe fu unig ddysgybl a chydymaith ei athraw yno

am ddwy flynedd. (Gwel Edward Richard). Yn 1751, symudodd oddiyno i Goleg Merton, Rhydychain. Yr oedd yn meddu etifeddiaeth fechan yn agos i'w gartref, yr hon a drosglwyddodd i'w frawd, i'r dyben o'i alluogi i ddwyn traul ei efrydiaeth yn y brif Athrofa. Ar ol ei urddo, bu yn gwasanaethu fel curad yn olynol yn Nhowyn Meirionydd, Llanberis, Llanllechid, a Llanfair Talhaiarn. Daethai yn gydnabyddus er yn ieuanc â'r hynafiaethydd, Lewis Morys o Fon, ond y pryd hyny a drigai yn Penbryn, Ceredigion; a choleddai y gwr hwnw, yn gystal a Goronwy Owain, farn uchel iawn am dano fel bardd a llenor. Ymroddodd gydag egni anghyffredin i astudio llenyddiaeth, ac i olrhain hanes ei wlad. Ymwelai â gwahanol lyfr-gelloedd y Dywysogaeth, lle y gwyddai fod hen lawysgrifau i'w cael, y rhai a adysgrifenai gyda'r diwydrwydd a'r gofal mwyaf. Casglodd felly luaws mawr o hen ysgrifau gwerthfawr a dyddorol. Bu am dymmor yn derbyn blwydd-dalion bychain oddiwrth Syr Watkin W. Wynn, a'r Dr. Warren, esgob Bangor, er ei gynnorthwyo yn y llafur hwnw; y rhai a attaliwyd o'r diwedd, o herwydd, fel y tybir, afradlonedd y bardd. Yn 1764, cyhoeddodd gyfrol o Hen Farddoniaeth Gymreig, gyda chyfieithiadau Lladin, i'r hon yr ysgrifenodd ragymadrodd dysgedig—"*Dissertatio de Bardis.*" Dywedir mai o'r gwaith yma y tynodd Gray ddefnyddiau rhai o'i ganiadau mwyaf gorchestol, ac ennillodd i'w awdwr le uchel yn mysg hynafiaethwyr a beirdd ei wlad. Gohebai yn fynych â'r Esgob Percy, ac yr oedd y gwr dysgedig hwnw yn meddwl yn uchel iawn o hono. Yn 1772, cyhoeddodd gân Saesonig, yn dwyn y teitl, "*The Love of our Country,*" yn nghydag amryw ganeuon Cymreig, yn y llyfr a elwir *Blodau Dyfed.* Yn 1776, cyhoeddodd ddwy gyfrol 12plyg—un yn 280 a'r llall yn 326 o dudalenau—o bregethau Cymreig, wedi eu cyfieithu o waith Tillotson ac eraill; a dywedir mai y rhai hyn oedd y pregethau cyntaf a gyhoeddwyd yn gyfrolau yn y Gymraeg. Yr unig ystaen ar gymeriad y dyn enwog yma ydoedd anghymedroldeb, yr hyn fu yn achlysur iddo i golli nawdd amryw o wŷr mawr a dylanwadol ei wlad. Derbyniodd yn mlynyddau olaf ei oes flwydd-dal o £20 gan Paul Panton, Ysw., Mon, ar yr ammod fod ei holl ysgrifau i gael eu trosglwyddo yn eiddo i'r gwr boneddig hwnw pan y byddai efe ei hun farw. Ac felly aeth yr holl gasgliad, yn cynnwys cant o gyfrolau, i lyfrgell y Plas Gwyn; ac maent yn awr yn meddiant yr etifedd, sef Barton Panton, Ysw. Bu farw Mr. Evans yn Cynhawdref, ei le genedigol, yn Awst, 1789.

Evans, Griffith Thomas, oedd fab Thomas a Magdalen Evans, Pontbrendu, Llanarth, lle y ganwyd ef Awst 15, 1825. Yr oedd ei rieni yn aelodau yn y Neuaddlwyd gyda'r Dr. Phillips, a derbyniwyd gwrthddrych ein cofiant yno pan yn ddeng mlwydd oed. Dechreuodd bregethu Mawrth 22ain, 1845; ac yn mis Gorphenaf dilynol aeth i'r ysgol Ramadegol yn

Aberteifi, lle y treuliodd yn agos i ddwy flynedd. Oddiyno aeth i Ffrwdyfal, ac oddiyno drachefn i Aberhonddu, lle y derbyniwyd ef, Rhagfyr 1, 1847. Wedi treulio pedair blynedd yno, ymadawodd wedi ennill parch a chymeradwyaeth ei athrawon a'i gydfyfyrwyr. O herwydd gwaeledd ei iechyd, nid ymgymerodd â gofal yr un eglwys yn uniongyrchol, er iddo dderbyn galwad i'r perwyl; ond treuliodd ddeufis yma a thraw, er ceisio cryfhau ei iechyd. Urddwyd ef yn Mhenygraig, ger Caerfyrddin, Medi 24, 1851. Bu yno yn llafurio yn galed am tua phum' mis, pryd y gorfodwyd ef, o herwydd llesgedd a gwendid, i roddi y weinidogaeth i fyny, a dychwelyd i dŷ ei rieni; ac yno y bu yn dihoeni am rai misoedd, sef hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le Mehefin 29ain, 1852, pan yn 29 mlwydd oed. Nid meddwl o radd gyffredin oedd gan Mr. Evans; ac er nad oedd yn ddysgwr cyflym, nac yn meddu ar gof gafaelgar, etto, pobpeth a astudiai, mynai ei ddeall yn drwyadl. Meddai dalent neillduol at rifyddiaeth yn ei gwahanol ganghenau, ond prif ogwyddiad ei feddwl ydoedd at athroniaeth foesol a meddyliol, a duwinyddiaeth. Yr oedd yn dra gochelgar yn ei ddewisiad o gyfeillion; ond wedi unwaith ffurfio cyfeillgarwch, gellid ymddibynu arno. Pwyllai a phetrusai lawer cyn gwneud ei feddwl i fyny ar unrhyw bwnc; ac wedi y gwnelai, nid yn hawdd y gellid ei droi yn ol. "Yr oedd ei bregethau yn llawn sylwedd, y materion wedi eu trefnu yn gelfydd, a thraddodai hwy yn bwysig a difrifol, fel y dywedai rhai o'i wrandawyr yn Mhenygraig, fod yn rhaid iddynt naill ai peidio ei wrando neu newid eu cymeriadau. Canmoliaeth ardderchog! Nid ei amcan oedd difyru ei wrandawyr â phregethau bach, melus, tyner, digyfeiriad, a gwenieithol; ond ymdrechai gynhyrfu y meddwl ac anesmwytho y gydwybod. *Ymresymwr* ydoedd, ac nid *clebryn*. Byddai yn fedrus iawn i argyhoeddi ei wrandawyr o wiredd ei osodiadau; ond ni feddai ar ffrwd o hyawdledd, yr hwn sydd bob amser yn fanteisiol i berswadio. Yr oedd ei nerth fel pregethwr yn ardderchogrwydd ei faterion, ac yn nifrifoldeb eu traddodiad. Yn yr ystyr yna, daethai yn bregethwr gwir fawr; ond nid oedd ei ddawn areithyddol ond o radd ganolig. Yr oedd meithder ei bregethau, yn nghyda gwendid ei gorff, yn peri iddo golli ei nerth cyn gorphen; fel cyflegr, gollyngai ei gynnwysiad cyn dyfod yn ddigon agos at y gelyn. Yr oedd duwioldeb Mr. Evans o radd uchel. Yr oedd yn anmhosibl bod yn hir yn ei gyfeillach heb weled ei fod yn ofni Duw ac yn parchu dyn."

Evans, Griffith, a drowyd allan o Lanrhystyd, gan y Prwywyr, am feddwdod, anfoesoldeb, Simoniaeth, a chadw tafarndy cyffredin.—*Walker's Sufferings of the Clergy.*

Evans, James, neu *Iago Glan Ceri*, oedd enedigol o Gapel Gwnda, yn

mhlwyf Troed yr Aur. Yr oedd yn hynafiaethydd rhagorol, yn fardd lled dda, ac yn hanesydd campus. Nid oedd nemawr lyfr Cymraeg a'r nad ydoedd yn lled hyddysg yn ei gynnwysiad. Bu farw yn y flwyddyn 1851, yn 38 oed.

EVANS, JOHN, gweinidog gyda'r Annibynwyr yn y Borth, Amlwch, a anwyd yn agos i Benrhiwgaled, tua'r flwyddyn 1753. Derbyniwyd ef yn aelod yn Penrhiwgaled, a dechreuodd bregethu pan yn ieuanc. Urddwyd ef yn weinidog yn nghapel y Graig, Machynlleth, lle y bu yn llafurio am flynyddau gyda llwyddiant mawr. Yn ei amser ef y sefydlwyd yr Eglwys yn Aberhosan, a Phennal hefyd, mae yn debyg. Symudodd oddiyno i Amlwch, lle y bu am ddwy flynedd ar bymtheg ar hugain yn dra ymdrechgar, a llwyddiannus hefyd. Claddodd yno ei unig fab yn ddeunaw mlwydd oed, yr hwn oedd wedi dechreu pregethu, ac yn debyg o fod yn seren ddysglaer ar faes y weinidogaeth. Claddodd hefyd ei briod yno; a chan y teimlai ei amddifadrwydd, a gwendid a henaint yn ei orddiwes, rhoddodd i fyny ei ofal gweinidogaethol yn Amlwch, a symudodd i fyw at ei ferch i Dremadog. Ond parhaodd o hyd i bregethu y Sabbathau lle y gelwid am ei wasanaeth, a hyny hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le ar y 7fed o Ragfyr, 1849, pan yn 95 mlwydd oed, wedi bod yn gweinidogaethu am oddeutu triugain a deg o flynyddoedd! Yr oedd yn ddyn lluniaidd iawn ei gorff, ac o faintioli mwy na'r cyffredin, ac yn un o'r dynion hawddgaraf yn ei gyfeillach, yn gwbl ddiddichell, ac yn llawn cymwynasgarwch a charedigrwydd. Fel pregethwr, yr oedd yn dra hyawdl, ac yn meddu llais peraidd a soniarus; ond, fel llawer o'r hen bregethwyr, defnyddiai rai ymadroddion lled drwsgl a dichwaeth, y rhai a swnient yn lled arw ar glustiau y rhan goethedig o'i wrandawyr.

EVANS, JOHN, a anwyd yn Blaenplwyf, yn y flwyddyn 1796. Dangosodd pan yn dra ieuanc duedd neillduol at rifyddiaeth. Wedi treulio rhyw gymaint o amser yn yr ysgol, gosodwyd ef yn egwyddorwas gyda gwehydd yn y gymydogaeth, ond gan nad oedd hyny yn cydfyned â'i archwaeth, rhoddodd y grefft i fyny, ac aeth i Lundain. Bu yn llwyddiannus yno cyn hir i dynu sylw y rhifyddwr enwog Griffith Davies, yr hwn gan weled ynddo y fath dalent ryfeddol at rifyddiaeth, a'i cynnorthwyodd yn haelionus yn ei efrydiaeth. Gwnaeth gynnydd mawr yno yn fuan mewn Mesuregaeth, Alsoddeg, Trionglaeth, &c., ac yna dychwelodd yn ol i wlad ei enedigaeth gan ymsefydlu fel ysgolfeistr yn Aberystwyth, pan tua 25ain oed, ac yno y treuliodd y gweddill o'i oes, gan lafurio gyda llwyddiant mawr. Yn ychwanegol at ei wybodaeth eang o rifyddiaeth yn ei gwahanol ganghenau, yr oedd ganddo chwaeth neillduol at wyddoniaeth, ac at ddyfeisio peiriannau ac offerynau gwyddonol. Ac yn mysg pethau eraill,

dyfeisiodd offeryn er dangos symudiadau y ddaear a'r planedau, &c.; un arall i bwyntio at unrhyw seren ddydd neu nos; ac hefyd haul-ddeial hynod gywrain. Ystyrid ef yn dra hyddysg mewn morwriaeth (*navigation*), ac ato ef ar un adeg y cyrchai holl forwyr y dref a'r gymydogaeth er derbyn hyfforddiant yn y gangen hòno. Mae lluaws mawr o'i ysgolheigion yn llenwi swyddi o bwysigrwydd ac ymddiried mewn gwahanol fanau. Ar gyfrif ei lafur mawr gydag addysgiad gwŷr ieuainc y dref a'r gymydogaeth, anrhegwyd ef gan drigolion Aberystwyth gyda thysteb hardd. Yr oedd yn ddyn hynod wylaidd a dirodres, ac yn Gristion didwyll. Bu farw Ebrill 2, 1861, yn 67 oed, wedi bod dros 40 mlynedd yn ysgolfeistr.

EVANS, JOHN, oedd brydydd o Lanarth, tua diwedd y ganrif ddiweddaf. Cyhoeddwyd o'i waith, "Y Maen Tramgwydd, neu Ymofyniad mewn perthynas i Faterion dadleugar mewn crefydd," &c. Caerfyrddin, 1799.

EVANS, JOHN, M.A., oedd frodor o gyffiniau Llanarth, lle mae yn debyg y gweinidogaethai fel offeiriad y plwyf. Cyfieithodd *Deddfau Cristionogol*, gan esgob Gastrel; ac, fel y tybir, *Ymarferiadau a Myfyrdodau Sacramentaidd Dr Earle*, 1735. Cyhoeddodd hefyd, "*Cysondeb y Pedair Efengyl*, gydag agoriad byr, a nodau athrawus, ar yr hyn a dybir dywyllaf ac anhawsaf ynddynt, &c. Argraffwyd yn Bryste, gan E. Earley, 1765." Hwn oedd yr Esboniad rheolaidd cyntaf yn y Gymraeg, ac ymddangosodd felly 15 mlynedd o flaen eiddo Peter Williams. (Gwel *Llyfryddiaeth y Cymry*, *Traethodydd* 1852).

EVANS, JOHN, oedd frodor o Geredigion, ac yn un o'r "Ddwy Fil" a drowyd allan mewn canlyniad i basiad Deddf yr Unffurfiad. Dywedir iddo gael ei dröedigaeth mewn modd nodedig. Ar ol bod yn halogi y Sabbath yn y bore, aeth i wrandaw pregeth yn yr hwŷr, yr hon fu yn foddion i'w argyhoeddi. Ymunodd â'r Presbyteriaid, ac urddwyd ef yn weinidog yn eu plith. Er nad oedd ei dalentau yn fawr, etto, yr oedd yn ddiwyd a llafurus neillduol yn ngwaith y weinidogaeth, a choronwyd ei ymdrechion â llwyddiant. Bu yn gweinidogaethu am flynyddau yn mhlwyf Cellan, yn agos i Lanbedr. Cynnygiwyd iddo barsonoliaeth gyfoethog os cydymffurfiai, ond ni feiddiai ei derbyn. Mewn canlyniad, trowyd ef allan o Fangor, gerllaw Castellnewydd Emlyn; a bu farw yn fuan ar ol rhoddi Deddf yr Unffurfiad mewn grym.

EVANS, MORGAN, a drowyd allan o Llillue, (fel y sillebir ef gan Walker), neu Ciliau, mae yn debyg, am feddwdod.

EVANS, OWEN, a anwyd yn sir Aberteifi, tua'r flwyddyn 1808. Yr

oedd ei rieni yn gwerthfawrogi addysg dda yn fawr; ac ar ol rhoddi iddo addysg ragarweiniol o'r fath oreu o fewn eu cyrhaedd, anfonasant ef i Goleg Presbyteraidd Caerfyrddin. Ymddengys iddo wneud cynnydd rhagorol yno; ac wedi gorphen y tymmor arferol, urddwyd ef yn weinidog gyda'r Undodiaid. Bu am ychydig amser yn gwasanaethu fel cynnorthwywr i'r diweddar Barch. Timothy Davies, mab y Parch. David Davies, Castell-hywel, yn Evesham. Ond wedi ail ystyriaeth bwyllog, teimlodd mai ei ddyledswydd oedd ufuddhau i'r appeliadau oddiwrth yr eglwysi Cymreig am ei wasanaeth; ac felly, gyda chydwybodolrwydd na cheir ond anfynych ei ragorach, gadawodd sefyllfa dda, a daeth i lafurio am tua £30 y flwyddyn, i Eglwys anghysbell Blaengwrach, yn Nghwm Nedd. Gadawodd y lle yma eilwaith am Cefncoedycymmer, yn agos i Ferthyr Tydfil, lle y treuliodd y gweddill o'i yrfa weinidogaethol a'i oes, sef 28 mlynedd. Cymerodd ran neillduol a chyhoeddus iawn yn mhrif gyfarfodydd yr Undodiaid yn y Deheudir, ac ysgrifenodd lawer iawn er amddiffyn y golygiadau a goleddid gan y cyfundeb hwnw. Fel ysgolhaig, yr oedd yn berffaith hyddysg yn y Groeg a'r Lladin, a chyrhaeddodd wybodaeth lled helaeth o'r Hebraeg a'r Syriaeg; a rhoddai le arbenig yn ei efrydiaeth i feirniadaeth Feiblaidd a duwinyddiaeth. Fel pregethwr, yr oedd yn fynych yn ystyrlawn ac argraffiadol, a phob amser yr oedd yn llawn bywiogrwydd. Bu hefyd yn dra llafurus a llwyddiannus fel ysgolfeistr—yr oedd yn barod bob amser i roddi addysg glasurol i ddynion ieuainc o bob enwad, ar yr unig delerau eu bod yn ymgyflwyno i waith y weinidogaeth. Yr oedd Mr. Evans yn aelod o'r *Board of Guardians*, ac fel y cyfryw, ennillodd barch cyffredinol y rhai hyny yr ymwnelai â hwy yn nghyflawniad ei swydd. Cymerodd ran yn nghyfarfod y *Guardians* y dydd Sadwrn cyntaf o'r flwyddyn 1865, pryd y cymerwyd ef yn glaf, a chludwyd ef adref. Y Sabbath canlynol, bu eilwaith yn pregethu yn y boreu; ond yr oedd yn analluog i wneud hyny yn yr hwyr. Tranoeth, modd bynag, yn hollol annysgwyliadwy, tra yn y gwaith o ddarllen newyddiadur, heb ond un ochenaid wanaidd, ehedodd ei enaid i fyd yr ysbrydoedd. Ymddengys fod ganddo fath o ragfeddwl fod ei bererindod ddaearol bron ar ben; oblegid ar ddydd Calan, cymerodd yn destun, Jer. xxviii. 16: "O fewn i'r flwyddyn hon y byddi farw." A chyfeiriai yn fynych at ei ddiwedd agosaol ei hun. Yn ystod y mis diweddaf o'i fywyd, clywid ef fwy nag unwaith yn datgan ei ddymuniad i gael ei gymeryd ymaith yn ddisymwth, heb boen na chystudd, gan nad oedd yn ofni marw; ac yn hyn cafodd ei ddymuniad. Gwnaed cyfeiriadau parchus iawn ato, yn nglŷn â hysbysrwydd am ei farwolaeth, yn holl newyddiaduron yr ardal; a thalent y *compliment* uchaf iddo fel dyn a Christion cydwybodol. Claddwyd ef yn mynwent y capel, pryd y pregethwyd ar yr achlysur gan y Parch. Thomas Thomas, Pant y Defaid, yn hynod

bwrpasol, ar y geiriau, "Meddyliwch am eich blaenoriaid," &c. Ei oed oedd 57. Gadawodd weddw a thri o blant bychain i alaru o herwydd colli gwr caruaidd a thad serchog.

EVANS, THEOPHILUS, awdwr *Drych y Prif Oesoedd*, ydoedd bummed mab Charles Evans, Pen y Wenallt, Ceredigion, o'i ail wraig. Bu ei hanner brawd, John Evans, yn athraw yn nheulu y Parch. Philip Henry, tad Mathew Henry. Ganwyd Theophilus yn 1694, ond ychydig wyddis o'i hanes boreuol. Urddwyd ef yn ddiacon yn 1718, ac yn offeiriad yn 1719, gan esgob Ty Ddewi. Ei guradaeth gyntaf oedd Tir yr Abad, yn Nghantref Buallt, Brycheiniog. O Dir yr Abad, neu Llanddulais, fel hefyd y gelwir y lle, fe symudodd i Lanlleonfel, yn agos i Langamarch. Yn 1728, rhoddodd esgob Ty Ddewi iddo fywoliaeth fechan Llanynys, yr hon fu yn ei ddwylaw am ddeng mlynedd—hyd nes y cafodd Langamarch. Yn 1739, cafodd Eglwys Sant Dewi, Llanfaes, Aberhonddu, yr hon a ddaliodd hyd ei farwolaeth. Yn 1763, rhoddodd fywoliaeth Llangamarch i fyny i'w fab-yn-nghyfraith, Hugh Jones. Mab i'r Hugh Jones yma ydoedd yr enwog Theophilus Jones, *Hanesydd Brycheiniog*. "Wrth bob hanes yr oedd Ficer Llangamarch yn enwog am y rhinweddau hyny sydd yn gwneud dyn yn anwyl i'w gymydogion a'i gyfoedion, yn gystal ag am ei ddysg a'i ddoniau. Yr oedd yn hynod, mae'n debyg, am ei garedigrwydd cyffredinol; ac mewn diniweidrwydd a symlder diddichell, yr oedd yn berffaith blentyn. Arian ni phrisiai fawr. Ei drysorau penaf ef oedd ei lyfrau, gyda pha rai y treuliai lawer iawn o'i amser." Dywedir yn gyffredin mai Mr. Theophilus Evans fu'r cyntaf i ddarganfod rhinweddau iachaol Ffynnon Llanwrtyd, a hyny tua'r flwyddyn 1732. Ymddengys ei fod ar y pryd yn dyoddef yn fawr oddiwrth y *scurvy*, yr hwn oedd wedi gwreiddio yn ddwfn yn ei gyfansoddiad. Ymddengys iddo fyned un diwrnod ar ei hynt tua'r ffynnon *wenwynig*, fel y tybiai y trigolion y pryd hyny am dani; ac wedi syllu enyd uwch ei phen, gwelai lyffant yn neidio yn wisgi o honi, yr hyn ar unwaith a'i hargyhoeddodd nas gallai dim gwenwynllyd fod yn y dwfr—cymerodd galon ac yfodd ddracht da o hono, a pharhaodd i wneud hyny am rai diwrnodau. Ni fu ond ychydig amser cyn teimlo effeithiau iachaol yn dilyn, ac o'r diwedd llwyr adferwyd ef. Ond yr hyn sydd yn gwneud ei enw yn fwyaf adnabyddus ydyw y ffaith mai efe yw awdwr *Drych y Prif Oesoedd*. Ymddangosodd y gwaith yma yn y flwyddyn 1715, ond ail argraffwyd ef ganddo gyda llawer iawn o ychwanegiadau yn 1740. Ennillodd y gwaith yma enw uchel i'w awdwr fel hynafiaethydd ac ysgrifenydd Cymreig; a dygwyd allan amryw argraffiadau o hono o hyny hyd yn awr. Math o hanes byr o'r hen Frutaniaid, fel y gwyddis, yw y llyfr hwn, wedi ei seilio yn benaf ar chwedlau Sieffre o Fynwy, a

Chronicl Caradog o Lancarfan. Ac felly, ni ddylid rhoddi rhyw lawer o bwys ar y gwaith fel *hanesyddiaeth;* ond y mae ei ddullwedd hollol Gymreigaidd, ystwythder y cyfansoddiad, a phurdeb yr iaith, yn ei wneud ar unwaith y cynllun perffeithiaf i'w ddilyn a'i efelychu gan bawb a fynant ymenwogi fel Cymreigwyr ieithweddiadol. Yn nghylch yr un amser, cyhoeddodd lyfr arall o dan yr enw, *Pwyll y Pader*, sef esboniad ar Weddi yr Arglwydd, mewn amryw bregethau. Yn 1752, cyhoeddodd *A History of Modern Enthusiasm*, yn nghydag ail argraffiad o hono yn 1759. Mae y gwaith hwn yn awr yn gystal a'r un blaenorol yn hynod anhawdd eu cael. Yn y gwaith hwn y mae yn trin yr Anghydffurfwyr yn bur chwerw; ond y mae yn dyfynu o'u hawdwyr hwy eu hunain yn bur onest, ac yn nodi y pethau a ystyriai efe yn fwyaf gwrthwynebus yn egwyddorion eu prif arweinwyr. Heblaw y gweithiau uchod, y mae awdwr llafurus a dysgedig *Llyfryddiaeth y Cymry* yn ychwanegu atynt y rhai canlynol:—1. *Galwedigaeth ddifrifol i'r Crynwyr, i'w gwahawdd hwy i ddychwelyd i Grist'nogaeth.* Cyfieithiad. Mwythig, 1715, 8plyg. Mae yn gysylltiedig â'r *Meddyliau neillduol ar Grefydd,* gan yr Esgob Beveridge, o gyfieithiad Iago ab Dewi, "Bedwar Englyn o Folawd i'r Llyfr," gan Theophilus Evans, 1717.—2. *Prydferthwch Sancteiddrwydd yn y Weddi Gyffredin,* mewn pedair pregeth, o waith y Parch. Thos. Bisse, D.D. Cyfieithiad. Mwythig, 1722.—3. *Llythyr Addysc Esgob Llundain at y Bobl o'i Esgobaeth.* Cyfieithiad. Caerloew, 1740. Yr argraffydd oedd Raikes, sylfaenydd y gyfundrefn o Ysgolion Sul. Llyfryn yn erbyn Whitfield a'i ganlynwyr oedd hwn.—4. *Gwth i Iuddew.* Pregeth. Mwythig, 1752.—5. *Drych y Dyn Maleisus.* Pregeth. Mwythig, 1752.—6. *Y Gwir Ddoethineb.* Pregeth. Mwythig, 1751. —7. *Y Pechod yn erbyn yr Ysbryd Glan.* Pregeth. Mwythig, 1760. Dywed Theophilus Jones, ei ŵyr, fod ei dadcu yn bregethwr grymus ac effeithiol; a phe na buasai genym y dystiolaeth hon, gallasem yn rhwydd gredu fod y gwr a ysgrifenodd *Ddrych y Prif Oesoedd* yn areithiwr rhwydd a naturiol. Bu yn briod âg Alice, merch Morgan Evan o'r Gelli-galed, yn sir Forganwg, o'r hon y bu iddo dri mab a dwy ferch. Priododd un o'r merched â Hugh Jones, a grybwyllwyd yn barod, a hi oedd mam *Hanesydd Brycheiniog.* Bu Theophilus Evans farw yn y flwyddyn 1767, a chladdwyd ef yn mynwent Llangamarch, lle hefyd y claddwyd ei ŵyr yn 1812.

Evans, Thomas, oedd un o'r gweinidogion a fwriwyd allan o Eglwys Llanfihangel Ystrad, mewn canlyniad i roddi mewn grym Ddeddf yr Unffurfiad; ond efe a gydffurfiodd drachefn mewn rhyw gymaint o amser.

Evans, Thomas, (*Telynog*). Ganwyd y bardd ieuanc awenyddol hwn

yn Neppool, Aberteifi, Medi 8, 1840. Saer llongau oedd ei dad, ac efe oedd yr ieuangaf o bedwar o feibion. Ni chafodd nemawr ddim ysgol, ond yr oedd ei awydd am ddysgeidiaeth yn fawr iawn. Pan nad oedd ond 11eg oed, rhoddwyd ef ar fwrdd un o'r mân longau a hwylient o Aberteifi i wahanol borthladdoedd Cymru. Ond o herwydd derbyn camdriniaeth a gorfod dyoddef caledi, penderfynodd o'r diwedd roddi y gwaith o forwra i fyny yn gwbl, yr hyn a wnaeth ar ol bod yn gwasanaethu ar ddwy long, yr olaf o ba rai a adawodd yn ddirybudd yn mhorthladd Aberdaugleddyf. Heb brin geiniog yn ei logell, cyfeiriodd ei gamrau tua gweithfeydd Morganwg, ac ymsefydlodd yn Cwmbach, ger Aberdar. O'r lle hwn anfonodd lythyr at ei fam ar *gân* yn hysbysu pa le yr ydoedd, a hwn, mae yn debyg, oedd cynnyrch cyntaf ei awen. Gweithiai yma yn y pwll glo, ac wrth y gwaith hwnw y parhaodd o hyny allan; a chyn pen hir, symudodd ei rieni ato i fyw. Yn ei oriau hamddenol, ymroddodd yn llwyr i astudio llenyddiaeth, awenyddiaeth, a cherddoriaeth Gymreig. Yr oedd er yn ieuanc yn gerddor medrus, yn lleisiwr gwych, ac yn deall y gelfyddyd yn dda. Darllenai awduron hen a diweddar gyda diwydrwydd a manylrwydd mawr. Y wobr gyntaf a ennillodd ydoedd yn Nghyfarfod Llenyddol capel y Bedyddwyr, Cwmbach, lle yr oedd yn aelod, sef am y Bryddest oreu ar "Ostyngeiddrwydd." Ennillodd tua deunaw o weithiau ar ol hyny mewn gwahanol gyfarfodydd ac Eisteddfodau. Yn mhlith ei ddarnau goreu, gellir enwi ei Bryddest ar "Yr Afon," buddugol yn Eisteddfod Ffynnon Taf; a'i ganau ar "Yr Iesu wrtho ei hun," a'r "Darfodedigaeth," y rhai a gynnwysant rai darnau yn mysg goreuon yr iaith. Pan y cymerwn dan ystyriaeth ei ieuenctyd, a'i anfanteision, yn nghyda'r ffaith ei fod yn gorfod gweithio yn galed bob dydd er cynnal ei hunan a'i fam, mae yn syndod iddo gyfansoddi cymaint, a hyny mor dda hefyd. Diau pe cawsai hir oes y buasai yn cael ei restru yn nosbarth blaenaf beirdd ei wlad. Am y chwe' blynedd olaf o'i oes yr oedd mewn brwydr barhaus â'r darfodedigaeth; ac yn ystod ei gystudd nychlyd, cyfansoddodd lawer o ddarnau swynol a melus iawn. Er ei holl ragoriaethau fel bardd a Christion, ac er yr holl obeithion a goleddid gan ei gyfeillion am ei adferiad, symudwyd ef gan angeu, Ebrill 29, 1865, yn 25 oed; a chladdwyd ef yn *cemetery* Aberdar.*

EVANS, TIMOTHY, gweinidog perthynol i'r Eglwys Sefydledig yn Llanddewi Brefi, ond ar y dechreu gyda'r Annibynwyr. Brodor oedd o Cilcenin, ac yr oedd ei dad yn perchen fferm yn y plwyf hwnw, ac yn byw arni. Cafodd T. Evans fanteision addysg yn gyntaf o dan Dr. Phillips, Neuaddlwyd, ac wedi hyny yn Athrofa Caerfyrddin. Urddwyd

* Cyhoeddwyd cyfrol ddestlus o'i weithiau yn ddiweddar, dan olygiaeth Dafydd Morganwg, a Mr. Hywel Williams, Pantygerddinen.

ef yn weinidog ar yr Eglwys Annibynol yn y Plough, Aberhonddu, tua'r flwyddyn 1826; a bu yn gweinidogaethu yno hyd y flwyddyn 1838, pryd yr ymadawodd, ac yr ymunodd â'r Eglwys Sefydledig. Wedi hyn gwasanaethodd fel curad yn Llanddewi Brefi, lle y bu farw. Mae yn ffaith lled hynod fod rhagflaenydd Mr. Evans yn Aberhonddu, sef y Parch. Evan Davies, wedi ei ddwyn i fyny i'r Eglwys Sefydledig, dan olygiad Mr. Baker, yn Ngholeg yr Eglwys yn Nghaerfyrddin, ac iddo newid ei farn am natur a threfn llywodraeth eglwys Crist, a chael ei urddo yn weinidog ar yr Eglwys Annibynol yn Aberhonddu, tra y darfu i'w olynydd adael yr olaf ac ymuno â'r blaenaf.

EVANS, TITUS, gweinidog gyda'r Undodiaid yn yr Onenfawr, ger Llandeilo; ac athraw yr ysgol yn Mharc y Velvet, Caerfyrddin, oedd frodor o gymydogaeth Aberaeron, lle y ganwyd ef yn y flwyddyn 1809. Derbyniodd ei addysgiaeth yn Athrofa Caerfyrddin, dan ofal y Parchn. Dr. Lloyd, a D. Davies, Pantteg. Wedi gorphen ei amser yno, urddwyd ef yn weinidog yn Rhydyparc; ac agorodd ysgol Ramadegol yn Nghaerfyrddin, yr hon fu yn dra defnyddiol er cymhwyso dynion ieuainc i'r Athrofa. Gan fod ffordd faith ganddo i fyned i weinidogaethu o'r naill gynnulleidfa i'r llall, mynodd geffyl pren i'w gludo; a chan nad oedd y cyfryw anifail yn gofyn ceirch na phorfa, ac felly yn hawdd i'w gadw, ymddengys iddo roddi mawr foddlonrwydd i'r amaethwyr yn ardal Rhydyparc. Ymfalchïai Mr. Evans yn fawr yn ei anifail; ond un diwrnod, wrth ddyfod i lawr y rhiw yn agos i'r dref, collodd bob llywodraeth arno, a thaflwyd ef i lawr gyda'r fath ffyrnigrwydd nes derbyn niwaid mawr. Y canlyniad fu, na welwyd ef yn ei farchogaeth ond hyny. Bu Mr. Evans yn dra defnyddiol fel gweinidog yn gystal ag yn mhob cylch y troiai ynddo. Ystyrid ef yn ddyn cydwybodol, yn gymydog cymwynasgar, ac yn gyfaill serchog a ffyddlawn; ac fel y cyfryw, perchid ef yn fawr gan bawb a'i hadwaenent. Bu farw boreu dydd Llun, y 29ain o Chwefror, 1864, ar ol byr gystudd, a chladdwyd ef yn y *cemetery*, ger y dref, a gosodwyd maen coffadwriaeth hardd ar ei fedd. Gellid barnu y parch cyffredinol oedd iddo oddiwrth y lluaws dynion parchus y dref a'r gymydogaeth, a'r nifer fawr o weinidogion o wahanol enwadau, ag oeddynt wedi dyfod yn nghyd, rai o bell ffordd, er gwneud y gymwynas olaf iddo trwy gludo ei ran farwol i "dŷ ei hir gartref."

GAMBOLD, WILLIAM, a anwyd yn Aberteifi, Awst 10, 1672. Derbyniodd ei addysg elfenol yn ysgolion goreu ei wlad ei hun, a gorphenodd ei yrfa efrydol yn Ngholeg Exeter, Rhydychain. Yn mhen rhyw dymmor ar ol ei urddo, penodwyd ef i ficeriaeth Puncheston a Llanychaer, yn sir Benfro. Oblegid iddo gael ei analluogi i gyflawni dyledswyddau y wein-

idogaeth, trwy dderbyn niwaid i'w fron, cysegrodd flynyddau olaf ei oes bron yn llwyr i wasanaeth llenyddiaeth ei wlad. Gwaith mawr y pymtheg mlynedd hyn o'i fywyd oedd crynhoi yn nghyd ddefnyddiau i gyfansoddi Geiriadur Saesonaeg a Chymraeg. I'r dyben yma, chwiliodd yn fanwl bob llyfr a gyhoeddasid yn Gymraeg, yn nghyda phob hen lawysgrifau y gallai ddyfod o hyd iddynt. Yn yr ysgrif gyntaf o'r gwaith yma, dodasai i lawr y Lladin gyda'r ddwy iaith eraill. O ddiffyg cefnogaeth briodol, ni chyhoeddwyd y gwaith mawr cenedlaethol yma. Gorphenwyd ef yn y flwyddyn 1722, a daeth o'r diwedd i feddiant y Parch. John Walters. Cyhoeddodd Mr. Gambold hefyd, yn 1727, *Ramadeg o'r Iaith Gymraeg,* yn Saesonaeg; o'r hwn y cyhoeddwyd ail argraffiad yn Nghaerfyrddin, yn 1817; yn nghyda thrydydd argraffiad, wedi ei helaethu, yn y Bala, yn 1833. Bu farw Medi 13, 1728. Mab iddo ef ydoedd yr enwog Barch. John Gambold, A.C., y gweinidog Morafaidd, ac awdwr amryw weithiau dysgedig.

Gray, Thomas, oedd frodor o Dreforris, ger Abertawe; ond y mae ei gysylltiad â'r sir hon yn ei gwneud yn angenrheidiol i ni roddi rhyw fyr grybwylliad am dano. Glowr ydoedd wrth ei alwedigaeth, ac ymddengys mai marwolaeth ddisyfyd ei gydweithwyr, y rhai, fel yntau, oeddynt yn hynod annuwiol, fu yn foddion i'w ddwyn gyntaf i feddwl yn ddifrifol am ei ddiwedd. Mewn canlyniad i hyn, bwriodd ei goelbren yn mysg y dysgyblion yn y Mynyddbach. Wedi gweled ynddo ddoniau gweinidogaethol, annogwyd ef i ddechreu pregethu; ac anfonwyd ef i ysgol y Fenni, er ei gymhwyso yn mhellach at y gwaith. Yn ystod ei arosiad yno, cafodd gyfleusdra i glywed yr enwog Daniel Rowlands, Llangeitho, yn pregethu; a theimlodd y fath argraffiadau dwys o dan y bregeth hòno, fel y bu am ddyddiau yn methu bod gyda'i lyfrau, a mynych yr âi allan i'r caeau i weddïo, ac erfyniai ar yr Arglwydd ei arwain i'r lle y caffai gyfleusdra i glywed yr offeiriad hwnw drachefn. Nid oedd ef, y pryd hwnw, yn gwybod pwy ydoedd, nac o ba le yr ydoedd yn dyfod. Wedi gorphen ei amser yn yr Athrofa, cymeradwywyd ef gan ei athraw i sylw Eglwys Llwynpiod, yr hon oedd ar y pryd yn wag o weinidog; ac felly urddwyd ef yn fugail ar yr Eglwys hòno ac Abermeurig. Yr oedd yn arferiad gan y cynnulleidfaoedd hyny, y pryd hwnw, i fyned ar y Sabbath pen mis i Langeitho, i wrando ar Mr. Rowlands. A hyn, er yn lled anfoddlon ar y cyntaf, y cydsyniodd Mr. Gray; a'r tro cyntaf yr aeth yno, mawr oedd ei syndod wrth ganfod yn y pulpud yr offeiriad hwnw a glywsai yn pregethu gynt yn ymyl y Fenni, ac a wnaethai y fath effaith ar ei feddwl. Yn fuan, ffurfiwyd cyfeillgarwch gwresog rhwng y ddau weinidog; a phregethai Mr. Gray unwaith bob mis yn Llangeitho tra bu Mr. Rowlands byw. Hyn fu yn foddion i ddwyn yr Eglwysi uchod i ryw fath o undeb

â'r Trefnyddion Calfinaidd, ac a arweiniodd o'r diwedd, sef ar ol marwolaeth eu gweinidog, i gyflawn uniad. Heblaw gwasanaethu yr Eglwysi hyn, sefydlodd rai yn y Ceinewydd, Llanarth, Ffosyffin, a Llanddewi Aberarth, yn y rhai y parhaodd i lafurio tra y bu byw. Yr oedd yn boblogaidd iawn fel pregethwr, ac yn dra pharchus; a phregethai yn aml yn addoldai y Trefnyddion heblaw yn Llangeitho, ac arferai gweinidogion y Trefnyddion bregethu yn ei addoldai yntau. Ond tra y bu ef yn gweinidogaethu yn eu mysg, cadwodd yr Eglwysi hyn at drefn yr Annibynwyr, gyda golwg ar ddysgyblaeth eglwysig a dewisiad eu gweinidogion; ond ar ol ei farwolaeth ef, ymostyngasant, er yn lled hwyrfrydig, i awdurdod cymanfa y Trefnyddion yn y pethau hyn. "Yr oedd Mr. Gray yn sefyll ar dir cyffelyb i Mr. Richard Tibbot—pregethai y ddau yn nghapeli y Trefnyddion Calfinaidd, a chymerent ran yn eu holl gyfarfodydd cyhoeddus fel y pregethwyr eraill, pryd yr oeddynt yn gweinyddu i gynnulleidfaoedd Annibynol fel gweinidogion sefydlog. Trwyddynt hwy y lefeiniwyd eu heglwysi â'r un ysbryd i fesur mawr, nes yr ymhoffent yn ngweinidogaeth y Trefnyddion, ac y carent gymdeithasu a chydweithredu yn fwy â hwynt nag y mae yn arferol rhwng eglwysi o wahanol enwadau. Llafuriodd Mr. Gray yn y modd hwn am yn agos i hanner canrif. Yn yr yspaid maith hwn, bu feirw y tô cyntaf o aelodau yr eglwysi dan ei ofal, y rhai, gellid meddwl, oedd fwyaf gwrthwynebol i Drefnyddiaeth, fel erbyn marwolaeth Mr. Gray, yn y flwyddyn 1810, nad oeddynt yn ystyried eu bod weithian yn perthyn i neb arall, gan fod y pregethwyr mor fynych yn mhulpudau Mr. Gray ag oedd ef yn eu pulpudau hwy; yn unig hônent eu dull gwreiddiol o gymuno a dysgyblu."

GREEN, THOMAS, oedd fab i William Green, masnachydd cyfrifol yn Aberaeron, lle y ganwyd ef, Chwefror 22, 1815. Yr oedd ei rieni yn aelodau dichlynaidd gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, a dangosasant bob gofal i ddwyn eu mab i fyny yn "athrawiaeth ac addysg yr Arglwydd." Pan nad oedd ond tua saith oed, cymerai ran yn y ddyledswydd deuluaidd, a gwelid arwyddion amlwg iawn o dduwioldeb ynddo yn yr oedran ieuangaidd hwn. Cyrchai i'r cyfeillachau crefyddol, a chyfarfodydd da eraill yn gyson; a gwnai hi yn arferiad i ysgrifenu y pregethau a wrandawai o bryd i bryd. Pan tua thairarddeg oed, anfonwyd ef i'r ysgol i Gaerodor, at y Parch. G. Pococke, lle yr ennillodd gymeriad uchel yn ngolwg ei athraw ar gyfrif ei ymddygiad hardd a dichlynaidd. Ionawr 19, 1836, priododd â chwaer o'r eglwys yr oedd efe ei hun yn aelod o honi, yr hon a brofodd yn mhob ystyr yn gydmares anrhydeddus iddo. Yn fuan ar ol hyn dechreuodd bregethu. Ond nid oedd iddo ond byr amser gyda'r gorchwyl hwn, oblegid tua dechreu Gorphenaf, 1837, ymosodwyd arno gan anhwyldeb, yr hwn yn fuan o drodd yn dwymyn boeth,

a bu farw yr 20fed o'r mis hwnw, yn ddwy ar bugain oed. Claddwyd ef y Llun canlynol, yn mynwent Eglwys Hen Fynyw. Yr oedd Mr. Green yn hynod am ei ffyddlondeb gyda'r Ysgol Sabbathol, y cyfarfod gweddi, y Gymdeithas Gymedroldeb, ac achosion daionus eraill. Yr oedd ei sirioldeb, ei addfwynder, a'i dueddfryd garuaidd, yn ennill iddo serch pawb y deuai i gydnabyddiaeth â hwy. Yn ystod ei glefyd trwm, dywedai, "Y mae crefydd yn talu ei ffordd yn dda heddyw. Gogoniant, gogoniant." Y boreu y bu farw, dywedai gyda llais dyrchafedig, "Pethau tragwyddol cyn amser, a phethau tragwyddoldeb wedi amser ydynt yn eiddo i mi—mi a'u piau!" Yn orfoleddus fel hyn yr 'hunodd yn yr Iesu."

GRIFFITHS, GRIFFITH, oedd enedigol o Ty Nant, plwyf Llanfihangel-geneu'r-glyn, Ceredigion. Wedi treulio peth amser yn ei gymydogaeth ei hun, anfonwyd ef i ysgol Ramadegol Llanbedr, dan ofal yr hybarch Archddiacon Williams, lle y treuliodd bedair blynedd yn dra llafurus fel efrydydd. Ordeiniwyd ef yn ddiacon gan Esgob Llundain, i fyned yn genadwr i India'r Gorllewin, o dan y "Gymdeithas er Dychweliad y Caethion Negroaidd." Cyrhaeddodd Jamaica yn 1825, ac urddwyd ef yn offeiriad gan Dr. Lipscombe, esgob y drefedigaeth hòno. Gweinidogaethai am dymmor yn nghapel Marchioneal Bay, wedi hyny yn Portland, fel cynnorthwywr i'r Parch. Mr. Humphreys; ac ar farwolaeth y gwr hwnw, yn 1833, penodwyd ef i'r fywoliaeth hòno. Bu ei lafur yno yn llwyddiannus neillduol, a chynnyddodd y cymunwyr o ychydig o rifedi i wyth neu naw cant cyn ei ymadawiad. Yr oedd y gwrandawyr mor lluosog fel yr aeth yr Eglwys yn llawer rhy fach i'w cynnwys, ac felly adeiladwyd un helaeth yno yn ei lle. Ar farwolaeth Mr. Fraser, person Trelawney, penodwyd ef i ofal y plwyf mawr a phwysig hwnw. Cofir ef yn hir yno; canys yr oedd ei weinidogaeth, er o fyr barhad, yn neillduol o nerthol. Ond yn nghanol ei fawr ddefnyddioldeb, gwelodd yr Arglwydd yn dda ei symud o faes ei lafur i dderbyn ei wobr. Ni chafodd ond byr gystudd, yr hwn a ddyoddefodd gyda'r tawelwch a'r ymostyngiad mwyaf; a bu farw Rhagfyr 8, 1845. Yr oedd Mr. Griffiths yn un o'r cenadon mwyaf llwyddiannus ag ydoedd ar y maes y pryd hyny. Yr oedd ei lafur yno mewn amseroedd tra therfysglyd, pryd yr oedd rhyddhad y caethion yn destun dadleuaeth barhaus; a llawer iawn yn erbyn eu haddysgu o gwbl. Ond bu Mr. Griffiths yn hollol-ffyddlawn i'r hyn yr ymgymerodd âg ef—llafuriodd "mewn amser ac allan o amser." Ei amcan oedd gwneud daioni i bawb yn mhob sefyllfa, yn annibynol ar eu lliw a'u safle gymdeithasol. Ennillodd barch yn mhlith pob gradd, fel y gallesid gweled wrth y nifer anghyffredin, yn filwyr, swyddogion, a dynion cyhoeddus eraill, a ddaethant i dalu y gymwynas olaf i'w ran farwol, trwy ei hebrwng i dŷ ei hir gartref.

GRIFFITHS, J. R., diweddar beriglor Llangeler, a anwyd yn Llwynbedw, plwyf Brongwyn, yn y flwyddyn 1802; ond treuliodd ei febyd yn Eglwyswrw. Ar ol derbyn elfenau ei ddysgeidiaeth yn ei gymydogaeth ei hunan, anfonwyd ef i Goleg Dewi Sant, Llanbedr. . Ar ol ei urddo, gwasanaethodd fel curad yn Morfil, sir Benfro; ac wedi hyny yn Llandeilo Fawr. Oddiyno penodwyd ef i beriglor iaeth Cwmaman; ac ar symudiad y Parch. John Griffiths, ficer presenol Llandeilo, o Langeler, penodwyd ef yn olynydd iddo yno. Yr oedd Mr. Griffiths yn weithiwr diflino yn ei blwyf; ac yn fuan ar ol ei ddyrchafiad i'r fywoliaeth, adeiladodd Eglwys newydd yn y lle; a bu yn ymdrechgar iawn i gael capel yn y rhan dde-ddwyreiniol o'r plwyf, ac ysgoldy mawr yn agos i'r Eglwys. Un o brif elfenau ei nodweddiad ydoedd ei *ddyfalbarhad* a'i *egni* gyda yr hyn a ystyriai yn deilwng o gefnogaeth. Yn ei fuchedd, yr oedd bob amser yn hynod ddidramgwydd, pwyllog, a llawn cydymdeimlad. Fel pregethwr, yr oedd yn meddu ar ddoniau mawrion ac anghyffredin; ac mae ei enw yn adnabyddus trwy y Deheudir fel un o'r pregethwyr mwyaf poblogaidd a feddai yr Eglwys Sefydledig. Bendithiwyd ei weinidogaeth yn neillduol yn Llangeler, a llenwid yr Eglwys fawr yno yn gyson gan gynnulleidfa barchus a defosiynol; ac yr oedd yn perthyn iddi fwy o gymunwyr, ond odid, nag un Eglwys wledig arall yn y sir. Dywedir mai darllen hanes bywyd y Parch. John Newton a dueddodd ei feddwl gyntaf at waith y weinidogaeth. Bu farw y gwas ffyddlon a diwyd hwn i Grist ar yr 28ain o Fawrth, 1865, yn 63 mlwydd oed.

GRUFFYDD, EVAN, Twrgwyn, oedd fardd a flodeuai yn nechreu y ganrif ddiweddaf. Yr oedd yn byw yn mhlwyf Troed yr Aur, yn y Twrgwyn; ac yn berchen y tyddyn yr oedd yn byw arno. Ymddengys iddo gyfansoddi cryn lawer, ac ystyrid ef yn fardd lled dda gan yr hen bobl. Y cwbl o'i waith sydd yn argraffedig, hyd y gwyddom, yw "Carol i'r Haf," yr hwn sydd i'w weled yn *Mlodau Dyfed.* Ceir yn yr un llyfr Gywydd Marwnad iddo, o waith Jenkin Thomas, Cwmdu. Mae ambell bennill o'i waith yn cael ei adrodd gan yr hen bobl yn y gymydogaeth hòno. Yr oedd hefyd yn ysgolhaig da.

GRUFFYDD, THOMAS, un o arglwyddi Llanbedr, yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Yr oedd yn ddisgynydd o Cadifor ab Dinawal a Rhodri Mawr, yn y nawfed ganrif; ac mae y rhan fwyaf o brif deuluoedd Ceredigion yn olrhain eu tarddiad oddiwrtho ef. Yn *Dwnn's Heraldry* gelwir ef, "Thomas Gruffydd, Arglwydd Llanbedr Pont Esteven Mawr, a Saint Kler, ag Aberaeron, a ar Dustus or Pies ar Kwrwm *(Quorum).*" Ac ymddengys oddiwrth hyn ei fod yn berchen ar etifeddiaeth a dylanwad eang iawn; ac yr oedd yn meddu hawl i wisgo dim llai na thairarddeg o darianau

ar ei arf-bais, gan fod y nifer hwnw o ffrydiau o waed tywysogol yn rhedeg trwy ei wythienau. Y rhai hyn ydynt "Arvau Tomas Gruffydd, Ysgwier—1. Pais Kadifor ap Dinawal; 2. Pais Tudwal ap Rodri; 3. Rodri; 4. Gruffydd Gethin o Lystan; 5. Pais yw Gronwy; 6. Elystan; 7. Dinawal; 8. Gruffydd ap Rys Gwynionydd, Elystan; 9. Rys ap Llywelyn Chwith; 10. Meredydd ap Tomas ap Llywelyn Esgwier ap Owen; 11. Ffylib Ivor Gwaethfoed; 12. Llywelyn ap Gruffydd ap Llywelyn ap Iorwerth Drwyndwn; 13. Owain Gwynedd." Prif drigfan arglwyddi Llanbedr oedd Mynydd Hywel, ar ochr orllewinol yr afon Croyddyn, yn agos i Bontfaen, ychydig islaw Llanbedr. Yn amser Tomas Gruffydd, mae yn debyg, y symudasant oddiyno i Faesyfelin.—*Dwnn's Visitations of Wales*, vol. i., 65; *Edmunds' Lampeter*, 5, 7.

GUTTAIN OWEN, achwr, bardd, a hanesydd, oedd yn byw, gan mwyaf, yn Mynachlog Ystradfflur, ac yr oedd yn blodeuo tua'r flwyddyn 1480.

GWAITHFOED FAWR, tywysog Ceredigion, ac arglwydd Cibwyr, oedd fab i Eunydd ab Cadifor ab Peredydd Peiswyrdd ab Encyn ab Eunydd, yr hwn a hanai o Wyddno Garanhir. Blodeuai yn yr 11eg ganrif. Enwir ef yn y *Trioedd* gyda Morgan Mwynfawr ac Elystan Glodrydd, fel y rhai a feddent hawl i wisgo hualau, neu gadwen, o gylch eu harleisiau, yn ol dull yr hen dywysogion Prydeinig, ac nid coronau, fel arwydd o'u hurdd a'u swydd, am ba achos y gelwir hwy yn "dri hualogion teyrnedd Ynys Prydain." Ei blant oeddynt Cadifor, arglwydd Ceredigion; Cynan Feiniad, arglwydd Tefana; Rhydderch, arglwydd Gwynfai; Aeddan, arglwydd Grismwnt; Gwyn, arglwydd Castell Gwyn; Bach, arglwydd Ysgynfraith; Ednywain, abad lleygol Llanbadarn Fawr; Cynddrych, arglwydd Saighenydd; Cynilin, arglwydd y Cwm; a Christian, abades Tal y Llychau.

GWENOG, seintes, yr hon a sylfaenodd Eglwys Llanwenog; ond mae yr amser y blodeuai yn ansicr. Ei dydd gwyl yw Ionawr 3.

GWGAN, ab Morydd ab Llywarch Llwyd, tywysog Ceredigion, yr hwn o foddwyd yn yr afon Llwchwr, yn Browyr, wrth ymlid y Daniaid allan o'r wlad hôno, yn y flwyddyn 870.—*Myf. Arch.*, ii., 480.

GWRTHELI, neu Gartheli, sant, a sylfaenodd gapel Gartheli, yn mhlwyf Llanddewi Brefi, Ceredigion. Mae yr amser y blodeuai yn anhysbys.

GWYDDNO, a gyfenwid Garanhir, oedd fab Gorfyniawn ab Dyfnwal Hen ab Ednyfed ab Macsen Wledig. Yr oedd yn fardd a thywysog, a

blodeuai o 460 i 520. Ei diriogaeth ydoedd Cantref y Gwaelod, yr hon a gynnwysai ddeg ar hugain o drefi mawrion, o ba rai, Caer Wyddno oedd y brifddinas. Gorlifwyd y lle yma gan y môr, a ffurfia yn awr Gulfor Aberteifi. Bu y tywysog hwn fyw dymmor yn Dyganwy, yn agos i Conwy, yn llys Maelgwn Gwynedd; a pherthynai iddo ored yn afon Conwy, yr hon sydd etto yn dwyn ei enw. Gwneir cyfeiriadau mynych yn ngweithiau y beirdd at ored Gwyddno, fel y fwyaf nodedig yn y wlad. Mae tair cân o'i eiddo i'w gweled yn y *Myfyrian*.

Gwynen, seintes, yr hon a dybir a sylfaenodd Eglwys Llanwnen. Ni wyddis yr amser y blodeuai.

Gwynlleu, ab Cyngor ab Arthog ab Caredig ab Cunedda Wledig, oedd sant a flodeuai yn y chweched ganrif; a thybir mai efe oedd sylfaenydd Eglwys Nantgwnlle, Ceredigion.

Harries, John, a fwriwyd allan o Eglwys Tregaron, mewn canlyniad i roddiad mewn grym Ddeddf yr Unffurfiad.

Herbert, David, B. A., diweddar ficer Llansantffraed, a anwyd yn y Rhywbren, plwyf Llanarth, yn y flwyddyn 1762. Yr oedd ei rieni yn bobl barchus—yn byw ar eu hetifeddiaeth eu hunain. Gorphenodd Mr. Herbert ei addysgiaeth yn Ngholeg Wadham, Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn B.A.; a chafodd ei ordeinio, Ionawr 25ain, 1791, gan Esgob Rochester. Bu am rai blynyddau yn gwasanaethu yn mysg y Saeson, naill ai yn Essex neu Sussex; ac ar ei ddychweliad i Gymru, penodwyd ef i guradiaeth Dihewyd, ac wedi hyny Llansantffraed. Awst 8fed, 1812, cafodd ficeriaeth y plwyf olaf, gan y diweddar Esgob Burgess. Ar yr un pryd gwasanaethai Eglwys Llanrhystyd fel curad dan y Parch. Richard Evans, ficer Llanbadarn Fawr. Y ddwy flynedd olaf o'i fywyd yr oedd hefyd yn obrwyad Rhydybryn, yn mhlwyf Llywel, sir Frycheiniog. Priododd ferch Joseph Price, Ysw., o'r Felindre Uchaf, plwyf Llanfihangel Ystrad, o'r hon y bu iddo bump o blant. Cyfododd dau o'r meibion i fod yn weinidogion enwog yn yr Eglwys Sefydledig. Yr hynaf o honynt yw y Parch. W. Herbert, ficer parchus presenol Llansantffraed. Aeth y mab arall yn genadwr i Ogledd America, tua'r flwyddyn 1828; a phenodwyd ef yn athraw cynnorthwyol yn Ngholeg Kenyon, Ohio. Ond ni bu iddo ond byr amser i lafurio yn y maes hwnw, oblegid torwyd ef i lawr gan angeu, a hyny yn mlodau ei ddyddiau, yn y flwyddyn 1830. Priododd Mary, unig ferch Mr. Herbert, â'r pregethwr poblogaidd, y Parch. David Parry, Llywel gynt; ond yn awr ficer Defynog, sir Frycheiniog. "Yr oedd Mr. Herbert yn wr duwiol iawn, yn dduwinydd

rhagorol, ac yn bregethwr poblogaidd a derbyniol tuhwnt i'r cyffredin yn ei oes. Clywsom ef droion pan yn dra ieuanc. Ei bregethau oeddynt bob amser yn llawn o faterion gwerthfawr, wedi cael eu trefnu a'u hastudio yn drwyadl. Yr ydoedd bob amser yn dra bywiog wrth eu traddodi, a thueddai i fod, fel y dywedai yr hen bobl, 'dipyn yn danllyd.' Gwledd gyffredinol ydoedd i gael Mr. Herbert i bregethu yn yr Eglwysi cymydogaethol yn y dyddiau hyny. Edrychid arno gan bawb fel 'gwr Duw.'" Bu farw y 5ed o Ragfyr, 1835, yn 73 oed.

HERBERT, EDWARD, a drowyd allan o ficeriaeth Nantcwnlle, gan y Lledaenwyr, am "ddiffyg doniau, puteindra cyffredin, a gwaradwydd."—*Walker's Sufferings of the Clergy.*

HOWELL, MORGAN, oedd enedigol o blwyf Bettws-bledrws; ac yr oedd yn byw yn amser Cromweliaeth. Dychwelwyd ef at grefydd dan weinidogaeth y dyn hynod hwnw, Walter Cradoc. Ymddengys y byddai y gwr hwnw yn dyfod yn fynych i gymydogaeth Llanbedr i bregethu; ond yr oedd Morgan Howell yn llawn rhagfarn a gelyniaeth tuag ato, ac aeth mor bell a chyfansoddi a chyhoeddi caneuon i'r dyben o wawdio y pregethwr a'i athrawiaeth. Ar un achlysur, dywedir iddo ef a chwmni o oferwyr fyned i'r cae lle y pregethai Mr. Cradoc, er lluchio y bêl droed, i'r dyben o aflonyddu y gwasanaeth, ac iddo ysigo ei figwrn wrth gwympo yn yr ymgais o fwrw y pregethwr â'r bêl; ac felly analluogwyd ef i symud, a gorfu iddo wrando y bregeth. Y canlyniad fu iddo gael ei argyhoeddi yn y fan—daeth yn noddwr caredig i Mr. Cradoc, a throdd allan ei hunan yn bregethwr defnyddiol yn y wlad. Yn Chwefror, 1654, cawn ef yn aelod yn un o Eglwysi Cynnulleidfaol Mr. Rees Powell, Llanbedr; ac yn 1694, yr oedd yn gynghorwr yn Eglwysi Cilgwyn, Caeronen, Crugymaen, &c. Bu farw, mae yn debyg, cyn diwedd yr eilfed ganrif ar bymtheg.—Gwel *Charles and Oliver's edition of Cradock's Works*, pp. 4, 5, 1800; a *Cilgwyn Church Book.*

HUGHES, DAVID, A.C., un o arholwyr cyhoeddus Rhydychain, yn 1810 a 1811, yr hwn a fu farw ddechreu y flwyddyn 1865, oedd enedigol o Drefilau, Ceredigion. Dysgwyd ef ar y cyntaf yn ysgol enwog Ystradmeurig, lle y gwnaeth gynnydd rhagorol. Bu wedi hyny yn ysgol Ramadegol Mr. Barker, yn Nghaerfyrddin, yn astudio Hebraeg; ac ymddengys iddo gyrhaedd gwybodaeth pur helaeth o'r iaith hòno cyn ei fynediad i Rydychain. Mewn perthynas i'r adeg a dreuliodd yn yr Athrofa yno, ysgrifena un o'i hen gydefrydwyr (Parch. E. Morgan, Lyston) fel y canlyn:—"Yr oedd Mr. Hughes yn ddyn o gyrhaeddiadau uchel iawn. Sylwid arno yn y Coleg fel un yn meddu athrylith o'r radd

uchaf. Efrydiai yn galed iawn. Darllenem gyda'n gilydd yn foreu iawn, oblegid yr oedd yn foreu-godwr cyson; ac fel y byddai ef ei hun yn arferol o ddweyd, 'If not up at three, never in bed at four.' Yr oedd felly yn hynod ddiwyd a phenderfynol; ac felly, trwy ddyfalbarhad, yr ymddyrchafodd uwchlaw y rhan fwyaf yn y Coleg, sef Coleg yr Iesu. Rhagorai ar bawb yn y clasuron, ac yn neillduol mewn gwyddoniaeth (*mathematics*). Daeth ei enw mor hysbys fel ysgolhaig, fel y dewiswyd ef yn un o'r athrawon i holi yn yr ysgolion am raddau. Efe oedd yr unig un a adwaenwn i a enwogodd eu hunain felly yn Ngholeg yr Iesu." Perchid ef yn fawr gan Esgob Cleaver—y pryd hyny, penaeth Coleg Brazen Nose, ac Esgob Bangor, fel duwinydd rhagorol, ac ysgolhaig Cymreig gwych. Penododd ei arglwyddiaeth ef wedi hyny i arolygu argraffiad diwygiedig o'r Beibl Cymraeg, yr hwn a wneid y pryd hyny yn Rhydychain. A chymaint y boddheid yr Esgob yn y dull y dygodd y gwaith yn mlaen, a'r diwygiadau a wnaeth yn y gorchwyl pwysig, fel y penododd ef i fywoliaeth Hirnant; ac wedi hyny, ar ei ymadawiad o'r Athrofa, rhoddodd iddo fywoliaeth bwysig a gwerthfawr Llanfyllin. Pregethodd yr efengyl gydag eglurdeb a dylanwad mawr am y blynyddoedd meithion y bu yn beriglor y lle. "Telais ymweliad âg ef yno," ebe yr un gwr, "rai gweithiau, a hyny gyda mawr foddhad. Cefais ef yr un cyfaill caredig a thwym-galon ag yr arferai fod. Yr oedd rhywbeth tra awdurdodol yn ei ddull o lefaru, tuhwnt i'r cyffredin. Efe fyddai y prif siaradwr—tawai y rhan fwyaf pan lefarai ef, hyd yn nod yn mysg dysgedigion Rhydychain, neu yn mysg ei gyfeillion crefyddol. Yr oedd rhywbeth uwchraddol yn ei ymddangosiad—ei lais, ei wynebpryd, ei ddwylaw, a'i symudiadau, yn hawlio y gwrandawiad mwyaf astud. Yr oedd ei wedd yn arddangos yn eglur allu mawr a grymusder meddwl. Meddyliwn bob amser fod ei wyneb yn dwyn tebygolrwydd mawr i eiddo y Dr. Owen—yn neillduol ei ruddiau, ei dalcen, a'i wefusau. Dywedwn hyny wrtho ambell waith, ac ymddangosai yntau fel yn cael ei foddhau, a gwenai gan ddweyd ei fod yn hoff iawn o'i weithiau. Yr oedd yn mawr barchu Rowlands, Llangeitho, ac yr oedd yn sefyll yn uchel yn ei olwg fel pregethwr; a chan ei fod yn frodor o'r un gymydogaeth, clywsai lawer o ymadroddion o'i eiddo, gan rai o'i hen ddysgyblion, a dywedai fod rhai o honynt wedi gwneud argraff ddwys ar ei feddwl. Adroddai ddarnau o'r pregethau hyn, ac ni welais fy hoff gyfaill erioed mor gartrefol a phan yn gwneud hyny. Traethai hwy gyda'r fath deimlad a difrifoldeb, fel ag i ddwyn yn fywiog gerbron yr hen efengylydd ei hunan." Er fod Mr. Hughes yn ddyn dysgedig iawn, ni chyhoeddodd ddim erioed oddieithr Pregeth Ymweliadol, yr hon oedd yn gyfansoddiad rhagorol a grymus. Fel y gellid casglu, perthynai Mr. Hughes, tra yn Rhydychain, i'r dosbarth efengylaidd o'r clerigwyr; a chymerodd ran arbenig yno gyda y Dr.

Simmons, prif athraw Coleg Wadham, ac eraill, i ddwyn y Gymdeithas Feiblaidd i sylw yr efrydwyr. Yr oedd ganddo feddwl uchel o'r Methodistiaid, a chymysgai gryn lawer â hwy. Bu hyn yn achos iddo i gael ei ystyried gan ryw ddosbarth cul-farn a dall-bleidiol, fel yn gogwyddo at egwyddorion y bobl hyny; a bu hyn yn ychydig o attalfa amserol arno i gyrhaedd unrhyw ddyrchafiad yn y Coleg. Ond bu ei fywyd dichlynaidd a'i ymarweddiad diargyhoedd, yn foddion i lwyr ddilëu, mewn amser, bob teimlad rhagfarnllyd ac angharedig a goleddai rhai personau tuag ato. Un arall o'i hen gyfeillion, sef y Parch. Morris Hughes, Pentraeth, a ddywed, "Dechreuodd fy nghydnabyddiaeth â'r Parch. David Hughes, Llanfyllin, pan yn Rhydychain, tua'r flwyddyn 1811. Yr oedd y pryd hyny yn Feistr Annibynol, ac yn mysg ei ysgolheigion yr oedd Archesgob Caerefrog. Yr oedd Mr. Hughes o gorff a meddwl cryf anarferol, a byddai ei dri gydarholwyr yn gyffredin yn rhoddi i fyny iddo ef mewn materion dyrys a thywyll. Yr oedd yn hoff neillduol o'r Hebraeg, a darllenai bennod bob dydd o'r Beibl Hebraeg."

HUGHES, EVAN, oedd offeiriad yn gweinidogaethu yn Llandyfriog, o dan Cromwell; ond trowyd ef allan o'r Eglwys hòno mewn canlyniad i roddi mewn grym Ddeddf yr Unffurfiad. Ordeiniasid ef gan y Presbyteriaid, ac yr oedd yn bregethwr defnyddiol yn eu plith. Wedi ei droi allan, pregethai yn y naill fan a'r llall fel y cai dderbyniad; a dyoddefodd gryn lawer o dlodi a helbulon o achos ei anghydffurfiaeth. Cydlafuriai yn fwyaf neillduol yn ardaloedd Llanbedr, Cilgwyn, Caeronen, &c., â Morgan Howell. Crybwyllir am dano fel "cynghorwr" yn y flwyddyn 1694, yn yr Eglwysi hyn.—*Palmer's Nonconformist's Memorial*, vol. iii., p. 469. *Cilgwyn Church Book.*

HUGHES, JAMES, (*Iago Trichrug*), yr esboniwr tra adnabyddus, a anwyd yn y Neuadd Ddu, plwyf Ciliau Aeron, yn y flwyddyn 1779. Ni chafodd ond ychydig iawn o fanteision addysg yn ei ieuenctyd, oblegid cedwid ef i ddilyn gorchwylion amaethyddol; a phan nad oedd etto ond bachgenyn, rhoddodd ei rieni ef i ddysgu crefft gof. Nid oedd ei rieni yn proffesu crefydd gydag un enwad ar y pryd; ond ymhoffai James er yn blentyn i fynychu moddion gras. Yn haf 1797, un nos Sabbath, aeth i wrando un Dafydd Parry, o sir Frycheiniog, yn pregethu yn y Gelli, yn agos i Dalsarn; a dyma ddywed ef ei hun am y pregethwr a'r bregeth ar ol hyny:—"Y mae genyf barch mawr i goffadwriaeth y dyn gwerthfawr hwnw; oblegid os cefais dröedigaeth a dychweliad at yr Arglwydd erioed, yr wyf yn meddwl mai drwyddo ef y cefais." Yn fuan ar ol hyn symudodd i weithio i ardal Llangeitho, ond ni bu ei arosiad yno ond byr; oblegid pan yn 21ain oed, aeth i Deptford, ger Llundain, lle yr oedd

modryb iddo yn byw. Yn Dock Yards y llywodraeth yn y lle hwn y bu yn gweithio yn galed am bedair blynedd ar hugain. Ennillodd Mr. Hughes yn fuan y fath enw uchel fel gweithiwr medrus, fel y teitlwyd ef o'r diwedd gan ei gydweithwyr yn "*Prince of Wales.*" Nid ymfoddlonai ef un amser ar fod yn *gyfartal* âg eraill, ond mynai *ragori;* ac mae ei holl fywyd yn llawn profion o lwyddiant ei ymgais. Cyn ei fynediad i'r brifddinas, yr oedd wedi bwrw ei goelbren yn mhlith y Methodistiaid; ond ymddengys iddo cyn hir droi ei gefn ar ei frodyr crefyddol yno, o'r hyn lleiaf, ar yr achos Cymreig. Ond tua'r flwyddyn 1806, pan ydoedd yr enwog Elias o Fon yn gweinidogaethu am dymmor yn Llundain, ail ymunodd ef â'i frodyr, gan y rhai y derbyniwyd ac y croesawyd ef yn llawen. Yn mhen pedair blynedd ar ol hyn, sef yn y flwyddyn 1810, dechreuodd bregethu, a hyny mewn ystafell yn Deptford. Ordeiniwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth yn Llangeitho, yn y flwyddyn 1816. Yr oedd Mr. Hughes yn ysgolhaig rhagorol—deallai y Lladin a'r Groeg yn dda, ac yr oedd yn dra hyddysg yn yr Hebraeg. Pregethai yn yr iaith Saesonaeg mor rwydd ag yn ei iaith ei hun; ac mae hyn yn destun syndod, pan y dealler mai prin y gallai ofyn y ffordd o Lundain i Deptford y tro cyntaf yr aethai yno, yn yr iaith hòno. Dylid cofio hefyd, ei fod yn gorfod gweithio yn galed â'i ddwylaw am flynyddau ar ol dechreu pregethu; ac felly nis gallai fod ganddo ryw lawer o amser i'w dreulio ar ei lyfrau. Talai lawer o sylw i lenyddiaeth Gymreig, ac ysgrifenai yn fynych i'r *Seren Gomer*, y *Dysgedydd*, y *Drysorfa*, *&c.* Fel bardd, cyrhaeddodd Mr. Hughes safle nid anenwog; ac mae y lluaws englynion o'i eiddo yn profi ei fod yn dra hyddysg yn y mesurau caethion. Yr oedd hefyd yn awdwr amryw emynau, y rhai sydd yn nodedig am eu hystwythder a'u tlysni—lluaws o ba rai a genir hyd heddyw gyda blas yn nghynnulliadau cyhoeddus y saint. Fel cyfieithydd barddoniaeth rhagorai yn fawr, ac mae ei gyfieithiadau o "*Blair's Grave,*" "*Gray's Bard,*" a "*Byron's Darkness,*" yn dyfod i fyny â'r gwreiddiol, yr hyn sydd ganmoliaeth nid bychan. Yr oedd yn gyfaill mawr i Dr. Owen Pughe, gyda'r hwn y gohebai yn gyson ac y dygai yn mlaen aml ddadl gyfeillgar ar bynciau yn dwyn cysylltiad â'r Gymraeg. Cyfieithodd amryw draethodau gwerthfawr o'r Saesonaeg, ac yn mysg eraill, traethawd y Parch. Thomas Watson ar "Swper yr Arglwydd." Ond yr hyn sydd wedi anfarwoli ei enw, a'i wneud yn anwyl i'w gydwladwyr, ydyw ei esboniad rhagorol ar yr Hen Destament a'r Newydd. Yr oedd y gwaith hwn o werth anmhrisiadwy i'r Cymry yr adeg hòno, pryd yr oedd mawr angen am dano. Dechreuodd ar y gorchwyl clodfawr hwn, gan gymeryd y Testament Newydd yn gyntaf, yn y flwyddyn 1829, a gorphenodd ef yn 1835, mewn dwy gyfrol ddeuddeg plyg, yr hwn a argraffwyd yn y Wyddgrug. Daeth ail argraffiad allan eilwaith yn 1845, yn un gyfrol fawr ardderchog, mewn argraff bras, â

diwygiadau ac ychwanegiadau pwysig, sef sylwadau cyffredinol ac arweiniol ar holl lyfrau y Testament Newydd, &c. Yn mhen tua thair blynedd a hanner ar ol gorphen hwn, dechreuodd gyhoeddi ei waith ar yr Hen Destament, yr hwn a ddaeth allan yn bum' cyfrol. Cyrhaeddodd lyfr Jeremiah, y xxxv. bennod, ac wedi gorphen ei sylwadau ar y 6ed adnod, ymaflodd afiechyd ynddo, a hyny i'r fath raddau fel na fedrodd ysgrifenu yr un sylwad ar ol hyny. Gorphenwyd y gwaith hwn mewn modd teilwng gan y Parch. Roger Edwards, Wyddgrug. Terfynodd yr afiechyd hwn yn ei farwolaeth, Tachwedd 2, 1844, pan yn 65 oed, yn ei dŷ ei hun yn Rotherhithe. Ei eiriau diweddaf oeddynt, "O Dad, i'th ddwylaw di y gorchymynaf fy ysbryd;" ac, "Arglwydd Iesu, derbyn fy ysbryd." Claddwyd ef yn barchus yn hen fynwent enwog Bunhill Fields, Llundain, pryd y dilynwyd ef hyd y bedd gan dorf orfawr o'i gydwladwyr galarus, lle y gwelir heddyw gofadail a gyfodwyd iddo gan ei gyfeillion. Yr oedd Mr. Hughes yn bregethwr sylweddol ac effeithiol, a byddai ei fater, ei iaith, a'i ddull o draddodi, yn neillduol dda. Yr oedd, ar yr un pryd, yn ddarostyngedig i iselder meddwl a llwfrdra ysbryd, yr hyn oedd yn gryn rwystr iddo ar adegau. Safai yn uchel iawn yn ngolwg cynnulleidfa Jewin Crescent, yn mysg pa rai y gweinidogaethai. Yr oedd yn hollol rydd a diragfarn, ac yn barod i gydweithredu â phawb i wneud daioni ac i hyrwyddo achos y Gwaredwr yn y byd. Fel dyn, yr oedd yn hynod o olygus; yr oedd ei ben mawr, a'i goryn moel dysglaer, a'i wallt gwyn, yn rhoddi rhyw olwg hynod o batriarchaidd arno.

Hughes, John, archddiacon Ceredigion, a anwyd yn Llwyn Glas, yn agos i Aberystwyth, yn y flwyddyn 1787. Dangosai awydd cryf at y gwaith o bregethu pan yn dra ieuanc, ac ymhyfrydai mewn cyfansoddi pregethau a'u hadrodd. Anfonwyd ef i ysgol Ystradmeurig, lle yr astudiodd yn galed, a chyda llwyddiant mawr hefyd. Wedi hyny aeth yn athraw clasurol i ysgol fawr yn Putney, Llundain, lle y treuliodd flwyddyn a hanner. Cyn ei urddo yn weinidog, ymddengys iddo deimlo yn ddwys gyfrifoldeb mawr y gwaith yr oedd ar fedr ymgymeryd âg ef, a chydag anhawsdra y cafwyd ganddo anturio o flaen yr esgob. Wedi ei urddo gan Esgob Llanelwy, yn 1811, penodwyd ef yn gurad Llandrillo, yn agos i Gonwy. Bu ei ddull difrifol o bregethu yn y lle hwnw yn achos o adfywiad mawr ar grefydd yn y plwyf hwnw a'r rhai cylchynol. Tra yn aros yno, cyhoeddodd gyfrol o bregethau. Yn 1817, gadawodd Gymru am guradiaeth Foleshill, yn agos i Coventry, a dilynodd yr un llwyddiant ei lafur yno drachefn. Cyhoeddodd yr amser hyn amryw draethodau, un o ba rai a ddygai y teitl, "*The Heathen's Appeal.*" Maes nesaf ei lafur oedd Deddington, sir Rhydychain. Cymaint oedd ei boblogrwydd yn y lle yma, fel y cyrchai lluaws o'r plwyfi cymydogaethol i'w wrando yn

pregethu; ac nid anfynych y deuai amryw o'r myfyrwyr o Rydychain yno. Yn mysg eraill, gwelid yno unwaith y dyn a ddaeth wedi hyny mor enwog yn y byd duwinyddol, sef y Parch. Dr. Newman. Bu Mr. Hughes yn neillduol lafurus tra yno gydag achos y Feibl Gymdeithas, i'r hon y parhaodd yn bleidiwr gwresog hyd ddiwedd ei oes. Yn y flwyddyn 1825, penodwyd ef i ficeriaeth Aberystwyth, a gwasanaethai ar yr un pryd fel curad Eglwys Llanbadarn Fawr. Un o'r pethau cyntaf a wnaeth Mr. Hughes ar ol ei ddyfodiad i'r lle hwnw ydoedd ymgymeryd âg adeiladu Eglwys newydd, yn lle yr adeilad bychan oedd yno yn flaenorol, i gyfarfod anghenion cynnyddol y dref bwysig hòno. Costiodd hyny lafur mawr iddo, a saif Eglwys St. Michael am oesau yn gofgolofn o'i ymdrechion clodwiw. Yn 1833, penodwyd ef gan Dr. Jenkinson, esgob Ty Ddewi, i lanw ficeriaeth wag y fam-Eglwys—Llanbadarn Fawr—yn yr hon y parhaodd i wasanaethu yn ffyddlon hyd ddiwedd ei oes. Cyflawnai ar yr un pryd, gyda chynnorthwy curad, wasanaeth yn y ddwy Eglwys. Gwnaed ef hefyd gan yr un Prelad yn Gorweinydd Eglwys Golegawl Aberhonddu, yr hwn benodiad ydoedd fwy o arwydd o barch nag o elw; oblegid ni dderbyniodd erioed fwy na £10 y flwyddyn oddiwrth y swydd. Ond nid yn ei gylch plwyfol ei hunan yn unig yr oedd Mr. Hughes yn ddefnyddiol; ond newidiai bulpudau yn fynych â'i gydweinidogion, a theithiai lawer trwy wahanol barthau y sir i gyfarfodydd offeiriadol ac eraill, lle y byddai ei bresenoldeb bob amser yn dra chymeradwy. Nis gadawai i erwindeb y tywydd, nac un peth cyffelyb, i'w luddias rhag myned i gyfarfod ei frodyr offeiriadol ar y cyfryw achlysuron. Ar farwolaeth y gweinidog rhagorol hwnw, y Parch. W. Howells, Long Acre, Llundain, cynnygiwyd gofal gweinidogaethol y capel hwnw i Mr. Hughes; ond gan y tybiai y gallai fod o fwy o ddefnyddioldeb mewn lle cynnyddfawr fel Aberystwyth, ni dderbyniodd y cynnygiad. Yn gynnar yn y flwyddyn 1859, anrhydeddwyd ef yn mhellach gan ei esgob, y Dr. Thirlwall, trwy gael ei wneud yn Archddiacon Ceredigion, yr hyn a roddodd foddlonrwydd cyffredinol i bob dosbarth o'i gymydogion—llên a lleyg. Yr oedd y swydd yma drachefn megys yn agor maes newydd o lafur iddo, ac ni fu yntau yn ol o gymeryd mantais o hono. Yn ystod 1859, ymwelodd â rhwng deg a thriugain a phedwar ugain o blwyfydd gwasgaredig, a hyny heb fod ond un Sabbath yn absenol oddiwrth ei gynnulleidfa ei hun. Darllenai lawer iawn bob dydd. Ei hoff awduron oeddynt yr hen dduwinyddion—tadau yr Eglwys Brydeinig. Derbyniai lawer iawn o bleser hefyd oddiwrth ganiadau Cowper, y rhai a ddarllenai yn fynych. Yn ei ofal dros gleifion a thlodion ei gylch, ychydig a geir i'w cystadlu â'r Archddiacon Hughes. Gwnai hi yn rheol i fyned bob dydd i ymweled â rhai o'i blwyfolion tlodion; ac yr oedd ei haelioni a'i barodrwydd i weini i'w cysuron yn ddiarhebol. Crybwyllir, fel ffaith, nad oes nemawr dŷ yn

Aberystwyth a'r na fu ef o'i fewn ar ryw amgylchiad neu gilydd, o alar neu brofedigaeth. Fel yr awgrymwyd eisoes, un o nodweddion ei weinidogaeth oedd difrifoldeb; ac yr oedd ei bregethau bob amser yn neillduol syml a dealladwy. O ran ei olygiadau, yr oedd yn gwbl efengylaidd; ond, o'r ochr arall, yr oedd yn teimlo y parch mwyaf tuag at bawb a wahaniaethent yn gydwybodol oddiwrtho. O ganlyniad, yr oedd yn hynod barchus gan aelodau ei Eglwys ei hun yn gystal a chan yr Ymneillduwyr. Fel y gellir meddwl, treuliodd fywyd llafurus iawn, a dywedir iddo bregethu tua 10,000 o weithiau o gwbl yn ystod ei oes weinidogaethol. Yn y flwyddyn 1840, cyhoeddodd Lyfr Hymnau, at wasanaeth cyhoeddus yr Eglwys, yr hwn a gynnwysai amryw emynau o'i gyfansoddiad ef ei hun. Argraffwyd hefyd amryw bregethau o'i eiddo. Tua dechreu y flwyddyn 1860, gwelid arwyddion amlwg arno fod ei ddiwedd yn cyflym agoshau. Y pryd hyny, gwanychwyd ef gan ergyd o'r parlys; ond gwellhaodd eilwaith fel ag i allu cyflawni ei ddyledswyddau am dymmor byr. Gwanychodd yn raddol tua misoedd diweddaf y flwyddyn; ond trwy y cyfan, yr oedd ei feddwl yn hollol dawel, gan edrych yn mlaen ar ei ymddattodiad agoshaol gyda gostyngeiddrwydd Cristionogol. Y bregeth olaf a ddechreuodd ysgrifenu ydoedd ar y geiriau, "Gorfoleddu mewn gobaith am ogoniant Duw," Rhuf. v. 2. Mynych y clywid ef y pryd hyn yn beio ei hunan na buasai wedi bod yn fwy ymdrechgar gyda gwaith ei Arglwydd; ac yn wir, yr oedd ei ostyngeiddrwydd ar bob adeg yn amlwg iawn. Hunodd y gwr duwiol a defnyddiol hwn, Tachwedd 1, 1860, wedi cyrhaedd yr oedran teg o 73 mlwydd; a chladdwyd ef yn nghanol yr arwyddion mwyaf o barch yn mynwent Llanbadarn Fawr. Yr oedd holl fasnachdai y dref yn nghauad, a'r lleni ar y ffenestri; ac yr oedd tua 40 o offeiriaid yn yr angladd, heblaw lluaws o weinidogion Ymneillduol. Bu Mr. Hughes yn briod ddwy waith, a gorfucheddodd ei ddwy wraig; a gadawodd ar ei ol ddwy ferch a dau fab. Un o'r meibion ydyw y Parch. R. Hughes, A. C., offeiriad St. Catherine, Edge Hill, Llynlleifiad, yr hwn, yn 1864, a gyhoeddodd gyfrol o bregethau, yn nghyda bywgraffiad dyddorol o'i hybarch dad, i ba un yr ydym yn ddyledus am ddefnyddiau hyn o hanes. Yr oedd Mr. Hughes hefyd, fel y gwelir oddiwrth y rhestr ganlynol, yn awdwr o gryn fri. Cyhoeddwyd y llyfrau canlynol o'i eiddo:—1. *Pregeth*, pan oedd yn gurad yn Llandrillo yn Rhos.—2. *Casgliad* o 14 *o Bregethau*, yn 1829.—3. Cyfieithiad o *Henry and Scott's Commentary*, cyn belled a Deuteronomium, 1834, yr hwn a barhawyd gan y Parch. W. Jones, ficer Llanfihangel-geneu'r-glyn.—4. *Y Nabl*, sef Casgliad o Salmau a Hymnau Cymreig.—5 Cyfieithiad o *Fyfyrdodau yr Esgob Hall ar y Testament Newydd.* Cyhoeddwyd hefyd y rhai canlynol o'i eiddo yn Saesonaeg:—1. *The Domestic Ruler's Monitor;* being a Sermon on the much neglected duty of Family Prayer, preached at the

Parish Church of Foleshill, on the 14th of January, 1821.—2. *Pastoral Valediction;* being two Farewell Discourses, preached at Foleshill, 1822. —3. *A Visitation Sermon*, preached at Cardigan, before Dr. Jenkinson, Bishop of St. David's, 1832.—4. *Esther and her people;* being a Practical Exposition of the incidents in the book bearing that name, 1832.—5. *A Sermon*, preached at St. Michael's Church, Aberystwyth; being the day of the coronation of Her Majesty, June 28th, 1838.—6. *Ruth and her Kindred;* being a delineation and practical improvements of the various incidents which befell them, 1839.—7. *Three Volumes of Sermons*, published at different times.—8. *The Self Searcher*, or brief remarks on Self examination, 1848.—9. *A Collection of Psalms and Hymns*, for the use of St. Michael's Church, Aberystwyth.—10. *The Heathen's Appeal.*

HUGHES, WILLIAM GRAY, ficer Mathri, sir Benfro, a anwyd yn y Sychpant, plwyf Nantcwnlle, Awst 5, 1792. Ail fab ydoedd i'r Parch. John Hughes, Llanddeiniol a Nantcwnlle. Gweithiai ar y fferm nes oedd yn 17eg oed, pryd yr aeth i'r ysgol i'r Bettws, ger Llangeitho, yr hon a gedwid gan y Parch. Richard Richards, wedi hyny o Gaerwys. Oddiyno aeth i ysgol Ramadegol Llanbedr, lle y treuliodd bum' mlynedd; ac yr ennillodd gweddeidd-dra ei ymarweddiad barch ei athraw hyglod yn gystal a phawb a'i hadwaenent. Gwnai hi yn arferiad i ddarllen rhanau helaeth o air Duw bob dydd. Ond ymddengys mai lled araf ydoedd ei gynnydd mewn dysgeidiaeth tra yn yr ysgol; ar yr un pryd, yr oedd yn efrydydd dyfal a diflino, ac ymdrechai i lwyr feistroli pob peth yr ymgymerai âg ef. Wedi gorphen ei amser yn Llanbedr, ordeiniwyd ef, a bu yn gwasanaethu fel curad i Mr. Pugh, Trefdraeth. Yr oedd hyn yn y flwyddyn 1815. Ymddengys mai yn Nghilcenin y traddododd ef ei bregeth gyntaf, a hyny i dorf luosog iawn; a dywedir iddynt dòri allan mewn sain cân a moliant o dan ei weinidogaeth danllyd a nerthol. Yr oedd yr un dylanwad grymus yn cydfyned â'i weinidogaeth yn Nhrefdraeth, a chyn pen tri mis ar ol ei fynediad yno, llenwid yr Eglwys, yr hon oedd cyn hyny bron yn wag, â chynnulleidfa luosog o wrandawyr astud. Yn Ebrill, 1819, rhoddodd Esgob Burgess iddo ficeriaeth Llandyssul; ond nid aeth ef yno o gwbl i fyw. Ac yn Ngorphenaf, 1822, dyrchafwyd ef gan yr unrhyw i ficeriaeth Mathri, ac ar yr un pryd gwnaeth ef yn ddeon gwladol. Ond ni bu iddo ond byr amser i fwynhau yr anrhydedd hwn. Bu yn brwydro am amryw fisoedd â'i afiechyd; ond o'r diwedd syrthiodd yn ysglyfaeth iddo, a bu farw yn nhŷ Mr. Jones, Llandudoch, sef y tŷ y cysgasai y noson gyntaf y daethai i sir Benfro. Cymerodd hyn le ar yr 17eg o Fawrth, 1824, pan oedd yn 32 oed. Cludwyd ei gorff i Nantcwnlle, a dodwyd ef i orwedd yno yn meddrod ei dadau. Ychydig ddynion a ennillasant y fath boblogrwydd a Mr. Hughes, yn enwedig pan

ystyriom mor fer fu ei oes; ac yr oedd galar cyffredinol trwy y wlad ar ei ol. Meddai ar ysbryd mwynaidd, tawel, a boneddigaidd iawn, ac yr oedd yn llawn tynerwch. Yr oedd yn feddiannol ar gryn fesur o gyfrwysdra y sarff yn gystal ac o ddiniweidrwydd y golomen. Yr oedd yn llawn o gymhwysderau at drafod pob mater o natur eglwysig, ac ni byddai byth yn absenol o gyfeillachau crefyddol ei frodyr. Tra yn hynod ddifeddwl drwg, a thyner tuag at y gweiniaid yn y ffydd, yr oedd, o'r ochr arall, yn llym a gwrol yn erbyn pechodau pawb o bob graddau, ac yn hollol ddidderbynwyneb. Meddai ar ddull neillduol o bregethu, ac yr oedd yn llawn mor gymeradwy gan bob dosbarth—tlawd a chyfoethog, dysgedig ac annysgedig. Yr oedd ei ddull o draddodi yn dra awdurdodol a grymus, a byddai ei agwedd sobr a difrifol pan yn traddodi y genadwri yn cael dylanwad anghyffredin ar y gwrandawyr. Yr oedd yn hynod fel gweddïwr, ac yn dyfalbarhau mewn gweddi. Gweddïai fwy na mwy wrth gyfansoddi ei bregethau, wedi eu cyfansoddi, ac mewn ysbryd gweddi y traddodai hwynt. Yn hyn yn ddiau yr oedd cuddiad ei gryfder. "Syrthiai y fath nerthoedd weithiau ar ei ysbryd mewn cyfarfodydd gweddi, fel y gellid meddwl fod hyd yn nod rhiniogau a physt y tai yn ymsymud gan rym ei leferydd a'i lais. Pregethai mewn angladdau yn aml, a hyny gyda'r fath sobrwydd a difrifoldeb, fel nad oedd braidd un angladd yn myned heibio heb i rywun neu rywrai gael eu hargyhoeddi a'u dychwelyd at Dduw. Gellir dweyd yn ddibetrus am Mr. Hughes, ei fod yn un o'r dynion goreu, ac yn un o'r pregethwyr mwyaf doniol a nerthol a fu yn Nghymru erioed." Dywedai un o hen bobl Rowlands, Llangeitho, wedi bod yn ei wrando unwaith, "Yn ddiau y mae holl ddoniau Rowlands, John Hughes, a Thomas Gray o'r Sychbant, wedi cydgyfarfod yn y gwr ieuanc hwn." Edrychid gan lawer ar Mr. Hughes fel seren ddydd yn yr adfywiad a'r diwygiad a welir yn yr Eglwys Sefydledig yn y dyddiau hyn.

**Hughes, William**, mab ieuangaf William Hughes, Pantyddafad—tir-feddiannydd parchus yn mhlwyf Llanilar. Addysgwyd ef yn ysgol Ystradmeurig, ac wedi ei ordeinio, gwasanaethodd yn ffyddlawn Eglwys Gwnnws am 44 o flynyddau, sef hyd ei farwolaeth. Yn ystod blynyddau cyntaf ei weinidogaeth, yr ydoedd hefyd yn gurad Lledrod, lle, yn gystal a'i blwyf ei hun, yr oedd yn dra chymeradwy. Priododd Frances, merch ieuangaf y diweddar Mr. Morice, Carrog, o'r hon y bu iddo chwech o blant—tri mab a thair merch; pedwar o ba rai, yn nghyda'i wraig, a'i gorfucheddasant. Priododd ei ferch hynaf â'r Parch. John Sinnett, ficer Bangor-ar-Deifi. Priododd un arall â'r Parch. John Williams, ficer Dinas, sir Benfro; ond mae y ddwy erbyn hyn wedi eu claddu. Bu Mr. Hughes byw am flynyddau ar dir ei dad yn Brynarth, ac wrth enw y lle

hwn yr adnabyddir ef yn fwyaf cyffredin. Wedi hyny symudodd i fyw ar yr eiddo ei hun yn Brynmeheryn. Yr oedd Mr. Hughes yn neillduol lwyddiannus fel gweinidog, a chanddo gynnulleidfa fawr o addolwyr cyson yn ei Eglwys. Yn mysg ei wrandawyr, yr oedd y Parch. Dr. James, Pantteg; Parch. J. Hughes, Llanymddyfri; Carn Ingli; ac eraill, oeddynt ar y pryd yn ysgol Ystradmeurig, y rhai a dystient iddynt dderbyn mawr les o dan ei weinidogaeth. Ystyrid ef yn un o'r offeiriaid mwyaf defnyddiol a duwiol yn Nghymru; ac fel y cyfryw, perchid ef yn fawr, nid yn unig gan ei gynnulleidfa ei hun, ond hefyd gan bob enwad o Gristionogion. Bu farw Awst 14, 1855, yn 68 oed.

Idnerth, oedd yr olaf o esgobion Llanbadarn Fawr, a lladdwyd ef gan y trigolion, pryd y collodd y lle hwnw ei ragorfreintiau esgobol, ac unwyd yr esgobaeth âg un Ty Ddewi. Tybiai yr hynafiaethydd Llwyd mai yr un ydoedd a'r Idnerth y gwelir cof-faen iddo yn Eglwys Llanddewi Brefi, gyda'r argraff canlynol:—

Hic Iacet Idnert Filius I——
Qui Occisus quit proptep p——
Sancti——

Yr hyn a leinw ef i fyny trwy wneud y gair diweddaf yn y llinell gyntaf yn *Iacobi*, yn yr ail *predam*, ac yn y drydedd *Davidi*. Myn rhai o'r trigolion, modd bynag, mai coffadwriaeth ydyw am berson a darawyd yn farw gan Dewi am ollwng yn rhydd afanc dinystriol, a ddaliasid gyda mawr anhawsdra. Yr oedd y gàreg hon ar y cyntaf yn sefyll uwchben drws y ganghell; ond saif yn bresenol uwchben ffenestr, y tu gogleddol i'r ganghell.—*Meyrick's Cardiganshire*, 269, 270, & 378.

Ieuan ab Rhydderch ab Ieuan Llwyd, bardd o gryn fri, yn blodeuo yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Un o wehelyth Llwydiaid, Llanerchaeron, ydoedd; ac ymddengys oddiwrth yr M.A. sydd ar ol ei enw, ei fod yn offeiriad. Ei enw barddonol oedd Ieuan Glan Aeron. Gwelir rhai o'i ganiadau yn yr Iolo MSS.

Ilar, a gyfenwir Bysgotwr, oedd sant o ddechreu y chweched ganrif. Yr oedd yn un o ddilynwyr Cadfan i'r ynys hon. Efe oedd sylfaenydd Eglwys Llanilar, yn y sir hon; ac un arall o'r enw, yn sir Forganwg.

James, David, a anwyd yn Lletty Poeth, Llanddewi Brefi, Ceredigion, yn y flwyddyn 1777, ar y 25ain o Fehefin. Magwyd ef mewn teulu tra chrefyddol, a dangosai yntau er yn ieuanc duedd at fyned i'r weinidogaeth yn yr Eglwys Sefydledig, er nad oedd yr un llwybr rhydd yn ymagor

iddo ar y pryd, na'r un tebygolrwydd y cyrhaeddai ei amcan yn y dyfodol chwaith. Wedi treulio ychydig amser yn yr ysgol a gedwid yn achlysurol yn y plwyf, llwyddodd, yn y flwyddyn 1794, i gael derbyniad i ysgol Ramadegol Ystradmeurig, dan ofal y gwr enwog hwnw, y Parch. John Williams. Yn ystod tymmorau y gauaf, cadwai ysgol ei hunan i blant ei blwyf genedigol. Tra yn yr ysgol, hynodid ef yn mysg ei gydefrydwyr am y wybodaeth eang a feddai o'r Ysgrythyr Lan; a chymerai hyfrydwch neillduol mewn astudio pob peth a ddaliai gysylltiad â'r Beibl. Yn ngwanwyn 1800, aeth yn athraw clasurol i Athrofa Mr. Roy, Old Burlington, Llundain, lle bu yn aros am oddeutu dwy flynedd a hanner. Bu wedi hyny yn yr un swydd yn Deptford a Bromley. Yn y lle olaf hwn, dangosodd yr ysgolheigion eu parch tuag ato, trwy ei anrhegu ar ei ymadawiad âg amryw lyfrau gwerthfawr. Ordeiniwyd ef yn ddiacon ar yr 21ain o Fedi, 1806, ac yn offeiriad yr 20fed o Fedi, y flwyddyn ganlynol, gan Dr. Burgess, esgob Ty Ddewi. Ei guradiaeth gyntaf oedd Ysbytty Cynfyn, lle y bu am tua blwyddyn. O herwydd rhoddi o'i gyfaill, y Parch. D. Rowlands, i fyny guradiaeth Llanfihangel y Creuddyn a'r Eglwys Newydd, penododd ef Mr. James i gymeryd gofal yr Eglwysi hyny, a pharhaodd i weini yno am oddeutu pum' mlynedd gyda chryn lwyddiant. Yn ystod ei arosiad yno, yr oedd Mr. James yn hynod barchus gan y trigolion; ac nid heb lawer o anewyllysgarwch ar eu rhan yr ymadawodd efe oddiwrthynt. Maes nesaf ei lafur ydoedd Llanwnog a Charno, a dechreuodd ar ei ddyledswyddau yno, Hydref 4, 1812. Bendithiwyd ei weinidogaeth yma mewn modd neillduol—gwelwyd cyfnewidiad amlwg yn moesau y trigolion, y rhai oeddynt yn dra chwanog i yfed. Yn Mai, 1819, ymunodd mewn "glan briodas" â Miss Mary Hamer, merch D. Hamer, Ysw., o'r Wig, yr hon oedd yn fenyw bwyllog, synwyrol, a chrefyddol; a bu eu bywyd priodasol yn un tra dedwydd. Bu iddynt 7 o blant—dau fab a phum' merch. Priododd un o'r merched âg Owen Davies Tudor, Ysw., Bar-gyfreithiwr o *Middle Temple;* ac un arall â W. H. Adams, Ysw., Bar-gyfreithiwr, ac yn awr Prif Farnwr yn Hong Kong. Y ddwy foneddiges hyn yw yr unig rai sydd yn fyw o'r plant. Yn ngwanwyn 1822, trwy farwolaeth y Parch. Maurice Anwyl, daeth ficeriaeth Llangurig yn wag, a phenodwyd yntau gan yr esgob yn olynydd iddo. Rhoddodd y lle hwn i fyny drachefn yn 1841, ar ei benodiad gan yr esgob i ficeriaeth Llanwnog, lle y buasai am 28 mlynedd yn gwasanaethu fel curad. Etholwyd ef yn Gapelwr Tlotty Llanidloes a'r Drefnewydd, yr hwn oedd yn ei blwyf ef; a bu yn gwasanaethu ynddo am tua deng mlynedd, trwy gynnal gwasanaeth crefyddol ynddo ddwy waith yr wythnos. Dangosodd y plwyfolion eu serch a'u hymlyniad wrth eu gweinidog, trwy danysgrifio tuag at gael organ harddwech i'r Eglwys, a'i chyflwyno iddo ef, yr hyn a wnaethant, Hydref 19, 1855. Yn 1859,

penodasid Mr. James, gan Esgob Ty Ddewi, yn Ddeon Gwladol yn Neoniaeth Arwystli. Teithiodd lawer ar hyd a lled y wlad i bregethu mewn cyfarfodydd offeiriadol, &c.; ac yr oedd yn selog iawn o blaid y Gymdeithas Feiblaidd, y Gymdeithas Genadol, &c., cyfarfodydd pa rai a fynychai yn gyson yn Llanidloes a'r gymydogaeth. Yr oedd ei haelioni gydag achosion crefyddol neu elusenol yn ddiarhebol, a hyny pan nad oedd ei gyflog ond tra bychan. Dyoddefodd gryn lawer yn mlynyddau olaf ei fywyd oddiwrth wendidau corfforol yn gystal ac oddiwrth amgylchiadau teuluaidd, megys claddu ei blant, &c. Yn Ionawr, 1864, ymosodwyd arno gan y *bronchitis*, o'r hwn y bu farw y 9fed o'r mis hwnw, yn 87 mlwydd oed. Pregethwyd yn ei angladd gan ei gurad, y Parch. Mr. Edwards, oddiwrth 2 Tim. i. 12: "Canys mi a wn i bwy y credais," &c., sef y geiriau a benodasid ganddo ef ei hun ychydig ddyddiau cyn ei farwolaeth.—*Haul*, Ionawr, 1865.

JAMES, JOHN, gweinidog y Bedyddwyr yn Aberystwyth, lle y ganwyd ef yn y flwyddyn 1777. Derbyniwyd ef yn aelod yn 1796, a dechreuodd bregethu yn 1799. Y 12fed o Orphenaf, y flwyddyn hòno, urddwyd ef a Mr. Breese, i fod yn gydfugeiliaid ar yr Eglwys yn Aberystwyth; ac ar ymadawiad yr olaf, yn 1812, syrthiodd yr holl ofal gweinidogaethol arno ef. Yn 1817, symudodd i Bontrhydyryn, sir Fynwy; ac oddiyno drachefn, yn 1827, i Benybont-ar ogwy, sir Forganwg. Bu Mr. James yn hynod lafurus yn y lle hwn yn gystal a'r rhai blaenorol, a phregethai mewn oddeutu ugain o leoedd yn yr ardal. Cynnyddodd yr eglwys yn fawr o dan ei ofal; ac yn 1829, helaethwyd yr addoldy ar draul o £500, yr hyn a dalwyd yn lled fuan trwy ymdrechion dibaid y gweinidog. Bu farw, Ionawr 30, 1848, yn 71 mlwydd oed, wedi bod yn weinidog ffyddlawn am 50 o flynyddoedd.

JENKINS, DAVID, offeiriad yn yr Eglwys Sefydledig, a brodor o ardal Llangeitho. Nid oes sicrwydd pa un a gafodd ei gyflawn urddo ai peidio. Yn y flwyddyn 1741, aeth i sir Gaernarfon, gan feddwl y cawsai bregethu yn yr Eglwysi plwyfol; ond cauwyd y rhai hyny yn ei erbyn, ac nid oedd ganddo yntau wedi hyny ond pregethu yn y mynwentydd, y prif-ffyrdd, a'r caeau, a bu ei weinidogaeth danllyd yn foddion i ddeffroi lluaws o'i gydwladwyr o'u trwmgwsg ysbrydol. Coffheir am un tro neillduol, pan y pregethai oddiar gàreg fedd yn mynwent Tydweiliog, Lleyn, pryd y cafwyd arwyddion nodedig o arddeliad y nefoedd ar ei weinidogaeth. Fel llawer o'i gydlafurwyr, dyoddefodd yntau ei gyfran o erledigaeth. Pan y pregethai unwaith ar brif-ffordd yn rhywle yn Lleyn, ergydiwyd càreg fawr ato gan ryw ddyhiryn; ond methodd ei nôd—aeth heibio y pregethwr, a safodd yn y clawdd y tucefn iddo. Meddai ddoniau anghyffredin fel

pregethwr, a deuparth o ysbryd ei gydlafurwr, yr apostolaidd Rowlands o Langeitho, yr hwn pan glywodd am ei farwolaeth (yr hyn a gymerodd le pan nad oedd ond 25ain oed) a ddywedodd gyda galar dwys, "Wele, fe dòrwyd ymaith fy mraich ddeheu."

JENKINS, JOHN, A. C., *(Ifor Ceri)*, a anwyd yn Cilbronau, yn agos i Aberteifi. Bu am ryw gymaint o amser yn yr ysgol yn Nghaerfyrddin, a phan yn 18 oed, derbyniwyd ef i Goleg yr Iesu, Rhydychain; ac wedi hyny i Goleg Merton. Ar ol ei raddio a'i urddo, penodwyd ef yn gaplan ar fwrdd y llong *Thesus*, yn y llynges freiniol. Treuliodd amryw flynyddau yn yr India Orllewinol; a bu yn llygad-dyst o ddifrod echrydus y dwymyn felen, yr hon a ysgubai ymaith gymaint o'r morwyr Prydeinig. Er mwyn tynu ei sylw oddiwrth y golygfeydd arswydus a'i hamgylchent, difyrai ei hunan trwy chwareu ar y sodd-grwth *(violoncello)* rai o hoff ganiadau ac alawon ei wlad enedigol. Er iddo ddianc rhag ymosodiad oddiwrth heintiau dinystriol hinsawdd boeth y wlad hòno; etto, nid oes le i ammheu na fu ei arosiad yn y wlad, yn achos o fyrhad ei einioes, i raddau, yn y diwedd. Ar ol ei ddychweliad i Loegr, bu yn gurad am amser yn Ynys Gwyth, ac hefyd fel cenadwr neu gaplan St. John, Newfoundland. Trwy ddylanwad ei lyngesydd, Arglwydd Radstock, dygwyd ef i sylw Dr. Burgess, esgob Ty Ddewi, yr hwn cyn hir a roddodd iddo ficeriaeth gyfoethog Ceri, yn sir Drefaldwyn. Cymerodd y penodiad hwn le yn y flwyddyn 1808. Dechreuodd Mr. Jenkins ar ei lafur gweinidogaethol yn y plwyf hwnw gydag ymroddiad teilwng o'r swydd gysegredig; a thrwy ei ymdrechion diflino i lesâu pob dosbarth o'i blwyfolion, yn nghyda'i fywyd dichlynaidd a'i aml rinweddau, ennillodd iddo ei hun barch a serch cyffredinol. Mewn canlyniad, penodwyd ef yn un o heddynadon y sir, ac hefyd yn un o Gorberigloriaid Caerefrog ac Aberhonddu, yn Gaplan i Ddug Clarence, ac yn Ddeon Gwladol Maelienydd. Prioddodd ferch i'r diweddar Barch. Edward Jones, Aber-rhiw—boneddiges yn feddiannol ar luaws o'r rhinweddau hyny a'i nodweddai ef ei hun; a bu yr undeb priodasol a ffurfiwyd rhyngddynt, er nad o faith barhad, yn un o'r rhai mwyaf dedwydd a chariadus. Yr oedd Mr. Jenkins yn mhob ystyr yn un o rai "rhagorol y ddaear," ac nis gallwn yn y fan hon wneud yn well na dyfynu y sylwadau canlynol mewn perthynas iddo:—"Yn y gwahanol ganghenau o'i ddyledswyddau swyddogol, ac yn amrywiol ddyledswyddau bywyd cymdeithasol, efe a roddodd yr esiampl fwyaf teilwng. Fel priod a thad, mab a brawd, yr oedd ei ymddygiad yn unffurf o ran caredigrwydd a serchogrwydd. Yr oedd yn wastad yn barod i wrando cwyn y tlawd a'r trallodus, gan ymhyfrydu mewn gweinyddu cymhorth iddynt yn ol eu hanghenion, a bod iddynt yn gymwynasgar a thosturiol. Gan fod ei holl galon yn ei swydd weinidogaethol, yr oedd ei ymdrech i

gyflawni ei ddyledswyddau yn frwdfrydig a diball; a phan fyddai angen am ei wasanaeth bugeiliol ar y cyfryw o'i blwyfolion a fyddent, trwy afiechyd neu henaint, yn analluog i gyrchu i addoliad cyhoeddus yr Eglwys, pa mor isel bynag fyddai eu hamgylchiadau, byddai yn talu ymweliad â hwy yn eu tai, i weini iddynt addysg a chysur. I lenyddiaeth ei wlad yr oedd yn gefnogwr gwresog a diflin, yn llawn awyddfryd i gyflunio trefniadau tuag at helaethiad y cyfryw, ac yn ddyfal i osod y rhai hyny mewn gweithrediad. Yr oedd efe yn addfwyn yn ei foesau, ac yn dirion yn ei ymddygiadau; yn ddiysgog yn ei amcanion, ac yn ffyddlawn i'w addewidion. Byddai ei dŷ yn agored yn wastad i dderbyn ei gyfeillion, a'i galon yn ddifyrus o'u croesawu. Yr oedd yn ynad anmhleidgar a chyfarwydd, yn weinidog brwdfrydus a chydwybodol, yn anwyl gan ei berthynasau a'i gyfeillion lluosog, yn dra pharchus gan ei holl gydnabod, ac yn enwedig gan drigolion ei blwyf eang ei hun." O dan ei gronglwyd lettygar ef, yn y flwyddyn 1817, y ffurfiwyd y penderfyniadau cyntaf tuag at adfywio yr Eisteddfodau yn Nghymru; ac yr oedd ei dŷ bob amser yn agored i feibion yr awen. Bu farw y gwr teilwng, y gwladgarwr pur, a'r Cristion cywir hwn, yr 20fed o Dachwedd, 1829. Dangosodd trigolion y wlad eu galar o'i golli trwy ddyfod yn finteioedd, o bell ac agos, i'w hebrwng i dŷ ei hir gartref; ac anfynych yn wir y gwelwyd y fath angladd lluosog a difrifol. Y Sul canlynol, ymddangosodd y plwyfolion yn yr Eglwys mewn galar-wisgoedd cyflawn, a thraddodwyd pregeth dra phriodol a phwysig iddynt, gan y Parch. G. A. Evors, yr hon a gafodd effaith ddwys arnynt.

JENKIN, JOHN, neu *Ioan Siencin,* y Bardd Bach o Aberteifi, ydoedd fab i Jenkin Thomas o'r Cwmdu, lle y ganwyd ef, Mawrth 26, 1716; ac fel ei dad, yr oedd yntau yn fardd lled dda. Crydd ydoedd wrth ei alwedigaeth; ac yn y gelfyddyd hòno nid oedd un a ragorai arno yn yr holl gymydogaeth. Ond nid oedd, modd bynag, yn cytuno â'i archwaeth; a chan ei fod yn ysgolhaig lled dda, troes allan i gadw ysgol, a bu wrth y gwaith hwnw am chwe' blynedd yn Cwmgloyn, dan nawdd Thomas Lloyd, Ysw., a boneddigion eraill y gymydogaeth, gyda pha ddosbarth yr oedd yn dra chymeradwy, a hyny o herwydd ei ddawn prydyddol. Gan ei fod yn cymysgu cymaint â'r rhai hyn, daeth o'r diwedd i gael ei ystyried fel bardd teulu gan lawer o honynt; a chysegrodd ei awen bron yn llwyr i ganu clodydd ei noddwyr. Er nad oedd mor wreiddiol, mor deimladwy, nac mor ddesgrifiadol a'i dad; etto, yr oedd yn dra phoblogaidd yn ei ddydd fel bardd, yn rhanau isaf Ceredigion a Chaerfyrddin, a'r rhan uchaf o sir Benfro. Dywedir mai yr unig gyfansoddiad llenyddol oedd mewn bri yno y dyddiau hyny oedd Marwnad Dai y Garddwr. Cyfansoddwyd hòno gan Ioan Siencin bymtheg mlynedd cyn i Dai farw, i'r

dyben, mae'n debyg, i'w argyhoeddi o ddrygedd ei fywyd meddw; a chyfansoddiad digrif ddigon ydyw hefyd. Mae amryw ganeuon o'i waith i'w gweled yn *Diliau'r Delyn* a *Blodau Dyfed.* Treuliodd y bardd y rhan olaf o'i oes yn cadw ysgol yn Aberteifi, lle bu farw, Hydref 28ain, 1796, a chladdwyd ef yn mynwent Llangoedmor.

JENKIN, NATHANIEL, oedd frawd i'r uchod. Ganwyd ef tua'r flwyddyn 1722. Yr oedd yn ddyn o alluoedd cryfion iawn; ond ni wnaeth ond defnydd lled wael o honynt, ar y cyfan. Yr oedd yn brydydd llithrig a ffraeth, a meddai ddawn neillduol mewn modd o sènu a gwawdio, a gwnai ddefnydd mynych o hono hefyd. Arswydai ei gymydogion yn fawr rhag rhoddi achlysur i'w awen bigog i ganu iddynt; a diammheu iddo ffrwyno gryn lawer ar drawsarglwyddiaeth a gormes rhai o honynt ag oedd mewn awdurdod. Medrai hefyd ganmol pan yr ewyllysiai, fel y gwelir yn ei gân i "Gŵn y Crynga"—"Y Gwirfoddoliaid o gylch dwy làn Teifi"—"Mr. Morgans, meddyg, Dolgoch"—"Palas Troed yr Aur," &c. Y ddwy flaenaf o ba rai a welir yn *Diliau'r Delyn.* Taith hynod o ofidus a thrafferthus a gafodd y bardd trwy y byd, fel y tystiai ei hunan mewn tair "Cân *i'r gofid,*" a gyfansoddodd ar wahanol amgylchiadau helbulus ei fywyd. Symudodd cyn terfyn ei oes i Tafarn Ysgawen, lle y bu farw, tua'r flwyddyn 1799. Pregethodd y Parch. D. Davies, Castellhywel, yn ei angladd, a chladdwyd ef yn mynwent Llangranog.

JENKIN S. JENKINS, neu Siencyn Samwel, ydoedd fab i Samuel, mab Jenkin Thomas o'r Cwmdu. Ganwyd ef yn Nanty, plwyf Troed yr Aur, Mehefin.10, 1755. Pan fu farw ei dadcu, symudodd ef pan tua 10 oed gyda'i dad yno i fyw. Ei waith ef yno fyddai bugeilio, a thra yn yr oedran hyny, dechreuodd gyfansoddi dyrifau prydyddol, a'u hadrodd wrth ei gydfugeiliaid; ac yn fuan aeth son am dano fel prydydd trwy yr holl wlad. Dysgodd wedi hyny grefft crydd gyda'i dad; ond ar ol priodi, rhoddodd hi i fyny, a throdd ei sylw at wahanol fân orchwylion, megys glanhau awrleisiau ac oriorau, gwneuthur blychau myglys o gyrn, &c.; a dangosai gryn lawer o gelfyddyd yn mhob cywreinwaith yr ymgymerai âg ef. Bu hefyd yn cadw ysgol am flwyddyn yn Nghwmcau, ger Emlyn. Ond gan fod ei amgylchiadau yn gyfyng a'i deulu yn lluosog, penderfynodd ymfudo i'r America, yr hyn a wnaeth ddechreu y flwyddyn 1801, drwy gael cymhorth gan amryw gyfeillion caredig. Derbyniwyd ef yn aelod yn Eglwys Annibynol Trewen, yn 1781, a gwnaed ef yn henuriad ynddi yn fuan. Cymhellwyd ef wedi hyny i bregethu, yr hyn a wnaeth am dymmor gyda mawr gymeradwyaeth; ond o'i ewyllys ei hunan, rhoddodd y gwaith hwnw i fyny eilwaith. Gan fod Eglwys Philadelphia, y lle yr ymsefydlasai ar ol cyrhaedd America, heb weinidog sefydlog,

cymhellwyd ef drachefn i ail ddechreu i arfer ei ddawn yn gyhoeddus; ac er ei fod y pryd hyny yn 47ain oed, daeth yn bregethwr poblogaidd iawn yn fuan. Parhaodd i weinidogaethu yno am ddeng mlynedd. Cafodd alwad i fyned at Eglwys y Cymry yn Utica, ond methodd ymadael â'i blant i fyned yno. Bu farw yn Pendleton, Carolina Ddeheuol, yn mis Rhagfyr, 1841. Mab iddo ef yw Samuel Jenkins, Ysw., Philadelphia, awdwr llawer o lyfrau Saesonaeg, yn nghyda *Hanes Cymru*, yn Gymraeg, yr hwn a gyhoeddwyd yn Philadelphia rai blynyddau yn ol.

JOHNES, JAMES, o Lanbadarn Fawr, oedd Uchel-sirydd Ceredigion yn y flwyddyn 1586. Priododd Ann, merch John Thomas, Ysw., o Cryngae, yn yr un sir, a Dolau Cothi, sir Gaerfyrddin, a bu iddynt fab a merch. Priododd y ferch â David Lloyd, Ysw., Glansevin. Y mab ydoedd—

JOHNES, THOMAS, Sirydd Aberteifi am y flwyddyn 1618. Priododd Mary, merch James Lewis, Ysw., Abernant Fychan, yn Ngheredigion.

JOHNES, THOMAS, o'r Hafod Uchtryd, boneddwr enwog, yn hanu o Prydain ab Aedd Mawr, a ganwyd ef yn y flwyddyn 1748, yn Llanfair Clydoge. Daeth i feddiant o ystad yr Hafod trwy briodi merch William Herbert, un o hen berchenogion y lle. Addysgwyd ef yn Eton, a Choleg yr Iesu, Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn A.C. Daeth i fyw i'r Hafod yn 1783, a'r pryd hyny yr oedd y lle bron yn anialwch anghyfannedd; a threuliodd ei fywyd a'i eiddo i'w wella a'i addurno. Adeiladodd balas yno yn yr arddull Gothaidd, yr hwn yn briodol a ystyrid yn un o ryfeddodau y Dywysogaeth. Perthynai iddo lyfrgell, yn yr hon y cedwid rhai o lyfrau mwyaf prin a gwerthfawr y wlad, yn nghyda chasgliad rhagorol o hen lawysgrifau, ac yn mysg eraill, holl gasgliad Syr John Sebright, a chroniclau Froissard, y rhai a gyfieithodd Mr. Johnes ei hunan. Argraffwyd y gwaith hwn mewn gwasg o'i eiddo a gadwai yno; ac am beth amser, yma yr argreffid Adroddiadau y Gymdeithas Amaethyddol. Yn anffodus, ar y 13eg o Fawrth, 1807, syrthiodd yr Hafod yn ysglyfaeth i dân dychrynllyd, pryd y llosgwyd yr holl gasgliad ardderchog hwn o lyfrau ac arluniau; a dywedir nad oedd y golled yn ddim llai na £70,000 i Mr. Johnes ei hunan, oblegid yr oedd gwerth tua £30,000, mewn rhan, wedi eu hyswirio. Yr oedd y golled, i raddau, yn anadferadwy; oblegid yr oedd rhai o'r arluniau yn enwedig yn gyfryw ag nad oedd eu rhagorach yn meddiant yr un casglydd arall yn y deyrnas. Ail adeiladwyd yr Hafod drachefn gan ei berchenog anturiaethus, ac adferwyd ef i'w wychder blaenorol. Fel cefnogydd amaethyddiaeth a gwelliantau cymdeithasol yn mysg ei ddeiliadon, gwnaeth Mr. Johnes, yn ddiammheu, fwy na neb arall o'i gydoeswyr. Gwnaeth ffyrdd rhagorol trwy fanau mwyaf

anhygyrch ei ystad; adeiladodd dai cysurus i'w weithwyr a'i ddeiliadon; rhoddodd waith i ugeiniau o dlodion, gan eu dodi i blanu coed wrth y miliynau, ar hyd lethrau creigiau noethion; a throdd y lle o fod yn ddiffaethwch anffrwythlon i fod yn un o'r manau mwyaf cynnyrchiol, yn gystal a harddwych, yn yr holl Dywysogaeth. Sefydlodd Gymdeithasau Amaethyddol yn mysg ffermwyr y gymydogaeth; gan eu cefnogi i wneud gwelliantau yn eu dull o drin y tir, &c., trwy eu gwobrwyo a phrynu ganddynt eu cynnyrchion. Cyhoeddodd hefyd draethodyn buddiol at eu gwasanaeth, o dan y teitl, *"A Cardiganshire Landlord's Advice to his Tenants."* Cadwai hefyd feddyg i ymweled â chleifion y gymydogaeth, yn nghyda *Dispensary* i roi allan gyffyriau i'r sawl a ddeuent i'w hymofyn. Yr oedd Mr. Johnes yn Aelod Seneddol dros y sir, ac wedi hyny dros sir Faesyfed. Daliai hefyd y swyddi o Arglwydd-raglaw y sir, Milwriad Gwirfoddol-lu Caerfyrddin, a Llywiadur Cymru. Bu farw Ebrill 23ain, 1816, yn 68 mlwydd oed.—*Meyrick's History of Cardiganshire; Williams' Eminent Welshmen, &c.*

JOHNS, DAVID, un o'r cenadon cyntaf i Madagascar, oedd frodor o blwyf Llanarth, a mab i J. Jones, Llain. Yr oedd yn aelod yn y Neuaddlwyd; ac wedi dechreu o hono bregethu, aeth i'r ysgol at Dr. Phillips. Pan dderbyniwyd y newydd galarus, yn mis Tachwedd, 1819, fod Bevan, ei wraig, a'i blentyn, a Mrs. Jones a'i phlentyn, wedi marw; a bod Mr. Jones yn glaf iawn, ac wedi ymadael i Mauritius, penodwyd Mr. Johns i fyned allan i ail ddechreu y gwaith cenadol yn yr ynys hòno, at yr hwn waith yr oedd wedi amlygu ei dueddfryd o'r blaen. Cyrhaeddodd yno tua diwedd y flwyddyn 1820, ac aeth i fyw i Antananarivo, sef y brifddinas, dan nawdd Radama. Llafuriodd yma, yn erbyn lluaws o anhawsderau, am bymtheng mlynedd. Coleddid y rhagfarn cryfaf yn ei erbyn gan y brodorion ar y cyntaf—credent mai hunan-les oedd gan y bobl wynion wrth ddyfod yno i'w dysgu, tra yr oedd rhai mor ffol a meddwl mai bwriad y Saeson oedd cael y plant i'w hanfon i Ewrop i'w bwyta! Ond yn raddol, daethant i ddeall yn amgen—ffurfiwyd ysgolion yno, a llwyddwyd i gael nifer mawr o blant iddynt. Yn ystod yr amser yma, cyfieithwyd ac argraffwyd yr Hen Destament a'r Newydd, yn nghyda miloedd o draethodau crefyddol; a chyhoeddwyd *Geiriaduron* D. Jones a D. Griffiths, dan olygiad Mr. D. Johns, yn gystal a llyfrau eraill, megys hymnau, &c. Ond mewn canlyniad i boethder yr erledigaeth ar y Cristionogion, gorfodwyd Mr. Johns, ei deulu, a'i gydlafurwyr, i ymadael â'r ynys am Mauritius, yn mis Medi, 1836. Cyn myned, modd bynag, cyfieithwyd *Taith y Pererin*, gan Mr. Johns, i iaith y wlad. Ysgrifenodd rhai o'r brodorion wyth copi o hono, ac argraffwyd mil o gopïau, gan Gymdeithas y Traethodau Crefyddol, yn Llundain.

L

Talodd Mr. Johns ddau ymweliad â'r ynys wedi hyn, er gwybod hynt y Cristionogion; ac o'r diwedd, cytunodd â chadben llong yn Mauritius i fyned i'w hymofyn, yr hyn a wnaed ar draul o £80, a chasglwyd y swm yn y fan gan gyfeillion Cristionogol. Llwyddwyd i'w cael i'r llong megys yn wyrthiol, a chyrhaeddasant Mauritius yn ddiogel, a hyny er mawr lawenydd i'w cyfeillion crefyddol. Penderfynwyd wedi hyn fod i Mr. Johns, gyda chwech o'r ffoedigion, i fyned i Benrhyn Gobaith Da; a llwyddasant yno i gael deugain punt tuag at ddwyn eu traul i'r wlad hon, yr hon a gyrhaeddasant ddiwedd Mai, 1839. Y flwyddyn ganlynol, cyhoeddodd Mr. Johns hanes erledigaeth y Cristionogion yn Madagascar, yn nghyda diangfa y ffoedigion i Brydain Fawr, yn Gymraeg. Yn 1841, hwyliodd Mr. Johns drachefn i Mauritius, ac oddiyno drosodd i Madagascar, i edrych a fedrai fod o ryw wasanaeth i'r Cristionogion erlidiedig. Daeth yn ol eilwaith i Mauritius, yn mis Chwefror, 1842, lle y bu farw.

**Jones, David**, cenadwr i Madagascar. Mab ydoedd i Mr. Jones, Penrhiw, Neuaddlwyd, yr hwn fu am flynyddau yn flaenor yn yr Eglwys hòno. Derbyniwyd yntau yn ieuanc yn aelod o'r un Eglwys; ac mewn amser, cymhellwyd ef i ddechreu pregethu. Er cymhwyso ei hunan at y gwaith, rhoddwyd ef o dan addysgiaeth yr hybarch Dr. Phillips, yr hwn bob amser a gymerai ddyddordeb neillduol ynddo. Yn mysg ei gydefrydwyr, yr oedd Bevan a Johns, y rhai, fel yntau, a droisant allan i'r maes cenadol. Yr hyn fu yn achlysur uniongyrchol i gyfeirio eu meddyliau at waith y genadaeth oedd a ganlyn. Un boreu, wedi cyfarfod o'r Dr. â'i ddosbarth duwinyddol, adroddodd iddynt, a'r dagrau ar ei rudd, iddo gael rhywbeth ail i "weledigaeth" y nos flaenorol pan yn ei wely, yr hyn a effeithiodd yn ddwys ar ei feddwl. Dychymygai ei fod yn gweled ynys eang Madagascar, er ei holl brydferthwch naturiol, yn gruddfan dan bwys cadwynau trymion eulunaddoliaeth a choelgrefydd, ac yn drigfan gorthrymder a thrueni dygn; ac yna tybiai glywed llef yn galw yn uchel, "Deuwch drosodd, a chynnorthwywch ni." Cafodd hyn y fath effaith arno, fel y methodd fwyta ei foreufwyd y boreu hwnw; ac yr oedd y difrifwch, gyda yr hwn yr adroddai yr hanes, y fath fel nad oedd un llygad sych yn yr holl ddosbarth. O'r diwedd, gofynodd iddynt, "A oes neb o honoch a deimla dros eu sefyllfa, ac a aiff drosodd i geisio eu llesoli, a'u goleuo am eu cyflwr tragwyddol?" David Jones, yr hwn oedd yn nghongl bellaf yr adeilad, a ddywedodd yn wylaidd, "Myfi a âf yno." Dilynwyd ei esiampl gan Bevan, yr hwn, yntau, a ddywedodd, "Minnau a âf hefyd." Hyn fu yn ddechreuad y genadaeth i Madagascar. Ordeiniwyd y ddau yn y Neuaddlwyd, yn mis Awst, 1817; gadawsant Brydain ddechreu y flwyddyn ganlynol; cyrhaeddasant Mauritius

yn Ebrill; ac yn Awst, aethant drosodd i Madagascar. Derbyniwyd hwy yn roesawgar gan Fistara, brenin Tamatave, yr hwn a ddanfonodd ei fab ei hun, yn nghyda deg neu ddeuddeg o blant, atynt i'r ysgol. Wedi gweled fod y maes yn agored iddynt, aeth y ddau yn ol i Mauritius i gyrchu eu gwragedd a'u plant. Yn fuan ar ol dychweliad Mr. Jones, cymerwyd ef a'i deulu yn glaf o'r dwymyn, a bu farw ei wraig a'i blentyn; a chyn diwedd Ionawr, 1819, yr oeddynt oll, ond ef ei hunan, wedi meirw; ac yr oedd yntau yn glaf ac analluog i ymsymud o'r naill fan i'r llall. Ond, er gwaned oedd, llwyddodd i fyned i'r llong gyntaf a ddaeth yno; a chyrhaeddodd ynddi i Mauritius yn mis Mai, 1819. Yma derbyniodd garedigrwydd mawr oddiar law C. Talfair, Ysw., ysgrifenydd i Syr R. Forgan, y llywydd, a chyfaill mawr i'r cenadon, yr hwn a'i cymerodd i'w dŷ ei hun, ac a'i hymgeleddodd dros 14 mis. Wedi adferu o'i iechyd, dychwelodd i'r ynys i ail ddechreu y genadaeth; ac yn mis Tachwedd, 1820, efe a agorodd ysgol i ddysgu plant y teulu brenhinol. Y flwyddyn ganlynol, dychwelodd i Mauritius i ail briodi. Yn 1822, dechreuodd ef a'r Parch. D. Griffiths, bregethu yn rheolaidd ar y Sabbathau, bob yn ail —Mr. Jones ar y greadigaeth, a Mr. Griffiths ar y Deg Gorchymyn; yna ar wahanol athrawiaethau a dyledswyddau. Ar gais y brenin, unwyd y tair ysgol oedd yn y ddinas; a rhanai y ddau y gwaith o'u harolygu cydrhyngddynt. Treulient y gweddill o'u hamser i gyfieithu yr Ysgrythyrau, i holwyddori, a pharotoi erbyn y Sabbathau, &c. Tra pregethai y naill yn y ddinas, âi y llall allan i'r wlad; a chyrchai miloedd o'r trigolion i'w gwrando. Cyffrodd eu llwyddiant eiddigedd yr offeiriaid paganaidd, y rhai a achwynasant arnynt wrth y brenin; ond tra y bu efe byw, ni aflonyddwyd arnynt. Ond bu efe farw Gorphenaf 27ain, 1828; a chyhoeddwyd Ranavalona, ei wraig, yn frenhines. Yn fuan ar ol esgyn o honi i'r orsedd, anfonodd genadwri at Mr. Jones a Mr. Griffiths, i'r perwyl nad rhaid iddynt ofni dim, ac y "gwnai hi fwy drostynt nag a wnaeth Radama." Ond ychydig ymddiried ro'i y cenadon yn ei geiriau; ac mae hanes ei hymddygiad tuag atynt wedi hyny yn profi mai iawn y gwnaent felly; oblegid yn y flwyddyn 1829, anfonodd atynt fod yn rhaid iddynt roddi i fyny ddysgu y Beibl yn yr ysgolion. Ar eu gwaith yn dadleu eu hachos, cafodd y cenadon, modd bynag, ganiatâd drachefn i gario yn mlaen y gwaith fel o'r blaen; ac yn fuan, llanwasant yr ysgolion â rhanau o'r Ysgrythyrau. Yn mis Mehefin, 1830, ymadawodd Mr. D. Jones a'i deulu, ac aethant drosodd i Mauritius, ac oddiyno i Brydain. Ar y 18fed o Fehefin, 1840, aeth yn ol drachefn, gan feddwl cael gweled ei hen gyfeillion yn y brifddinas; ond ni chaniatawyd hyny iddo am rai diwrnodau. O'r diwedd, anfonwyd ceffyl i'w gyfarfod ran o'r ffordd; a chan fod yr anifail yn anhywaith, ysigwyd clun Mr. Jones, fel y gorfuwyd ei gludo mewn cadair. Ar ol cyrhaedd y ddinas, cymerai y frenhines arni fod yn

dra charedig wrtho, trwy roddi iddo ei dŷ ei hun i fyw ynddo, a gosod rhai i wylio rhag i neb ladrata na llosgi yr eiddo. Ond yr amcan yn hyn oll ydoedd attal pawb rhag cyfrinachu â'r cenadwr; a gwaharddwyd i'r brodorion oll, ïe, hyd yn nod ei hen gyfeillion, i gymdeithasu âg ef. Yn y sefyllfa hon ar bethau, dychwelodd yntau i Mauritius mor fuan ag y gallai, lle y cymerwyd ef yn glaf ac y bu farw, yn mis Mai, 1841.

JONES, DAVID WILLIAM, gweinidog yr Annibynwyr yn Nhreffynnon. Brodor ydoedd o ardal Llandyssul, a ganwyd ef yn Gwern Newydd, Hydref 14eg, 1809. Magwyd ef i fyny mewn teulu tra chrefyddol, ac addysgwyd ef gyda'r gofal mwyaf. Bu yn yr ysgol gyda y Parch. John Jones, mab y Parch. Jonathan Jones, Rhydybont; ac wedi hyny gyda y Parch. S. Griffiths, Horeb, yr hwn a gadwai ysgol y pryd hwnw yn Bwlchygroes. Yr oedd erbyn hyn tua thairarddeg oed, a thua'r adeg yma y derbyniwyd ef yn aelod yn Horeb. Tua diwedd y flwyddyn 1824, anfonwyd ef i ysgol y Neuaddlwyd, lle yr arosodd yn agos i flwyddyn, a dychwelodd gartref gan feddwl dilyn ei orchwyl ar y fferm, oblegid hyd yn hyn nid oedd ganddo yr un bwriad i ymgyflwyno i'r swydd o weinidog yr efengyl. Yr oedd, modd bynag, wedi cael y fath flas ar ddysgeidiaeth yn ystod ei arosiad yn y Neuaddlwyd, fel nad oedd dim a'i boddlonai ond myned yno eilwaith, yr hyn a wnaeth yn y flwyddyn 1828; ac yn fuan wedi hyn dechreuodd bregethu. Gadawodd y lle hwn yn Awst, 1831, ond nid cyn ennill iddo ei hun barch a serch ei holl gydfyfyrwyr a'i athraw. Y lle nesaf y cyfeiriodd ei gamrau iddo ydoedd Rotherham, lle y treuliodd drachefn bedair blynedd i gyfoethogi ei feddwl â gwybodaeth fuddiol. Ar derfyn ei amser yno, cafodd alwad i fyned i Dreffynnon, ac urddwyd ef ar y 26ain o Awst, 1835. Yn fuan ar ol ymsefydlu yn y lle hwnw, dechreuodd Mr. Jones ysgol i barotoi gwyr ieuainc i'r athrofeydd, llawer o ba rai a ddysgodd efe yn rhad. Yn y flwyddyn 1841, ymddiriedwyd ysgol Dr. Daniel Williams, yr hon oedd yn flaenorol yn Newmarket, i'w ofal; a thystiai Dr. Davidson, un o'r ymddiriedolwyr, nad oedd ganddynt ysgol o'i chyffelyb yn y chwech sir. Ac yn wir, prin y gallai fod yn amgen, pan yr ystyriom ei fod yn ysgolhaig mor dda —yn meddu ar ystôr eang o wybodaeth ar bron bob cangen, ac yn hynod fedrus i gyfranu y cyfryw i eraill. Er hyn i gyd, yr oedd yn hollol hunanymwadol a diymhongar. Gwasanaethodd y swydd o ysgrifenydd y gangen gynnorthwyol o Gymdeithas Genadol Llundain dros Ogledd Cymru, a'r Feibl Gymdeithas, a'r Gymdeithas er taenu gwybodaeth grefyddol yn mysg yr Iuddewon, am flynyddoedd lawer; ac ennillodd oddiwrthynt oll enw uchel fel swyddog ffyddlawn a gofalus; a gwnaeth y cyfan yn rhad. Byddai ei bregethau bob amser yn gryno ac ymarferol,

ond nid oedd ei ddull na'i lais yn cyfateb i'r meddyliau a gynnwysid ynddynt. Bu farw Tachwedd 7fed, 1861, yn 52 mlwydd oed.

JONES, DAVID, oedd un o'r gweinidogion a fwriwyd allan mewn canlyniad i Ddeddf yr Unffurfiad yn 1662. Gwasanaethai ar y pryd yn Llanbadarn Fawr. Derbyniasai ei addysg yn Rhydychain, lle y derbyniwyd ef ar y 10 o Tach., 1654. Dysgrifir ef fel dyn dysgedig a duwiol, a phregethwr doniol a gwresog. Ar ol ei fwrw allan, cynnaliai ei deulu trwy gadw ysgol ramadegol, a phregethai yn awr ac eilwaith fel y caffai gyfleusdra, a bu mewn helbul fwy nag unwaith o herwydd hyny. Bu farw o'r darfodedigaeth, yn llawn gobaith a chysur; ond ni wyddis i sicrwydd pa amser. Cawn ei fod yn byw yn mhlwyf Penbryn yn y flwyddyn 1675, ac oddiwrth gofnodion Eglwys Cilgwyn, gwelwn ei fod yn gweinidogaethu yn y lle hwnw a'r eglwysi cymydogaethol mor ddiweddar a'r flwyddyn 1694.—*Palmer*, vol. iii., p. 469; *Llyfr Eglwys Cilgwyn.*

JONES, EDWARD, gweinidog y Trefnyddion Calfinaidd yn Aberystwyth. Ganwyd ef yn y Rhiwlas, plwyf Llanfihangel-geneu'r-glyn, Medi 11, 1790. Amaethwyr parchus a chrefyddol oedd ei rieni, ac efe oedd yr ieuangaf o wyth o blant. Pan yn ugain oed, aeth i Lundain, lle yr arosodd tua hanner blwyddyn. Yn ystod yr amser hwnw cafodd gyfleusdra i glywed y diweddar Barch. John Elias yn pregethu, oddiar y geiriau hyny, "Na fydd ry annuwiol; ac na fydd ffol: paham y byddit farw cyn dy amser?" Effeithiodd y bregeth hòno yn ddwfn arno fel ag i'w ddwyn i ystyried yn ddifrifol ei gyflwr fel dyn colledig, fel y penderfynodd fwrw ei goelbren yn mysg pobl yr Arglwydd. Wedi symud o hono i Gaerodor, aeth un Sabbath i wrando ar yr efengylwr o Lwynffortun, yr hwn a bregethai oddiar y geiriau hyny, "Pa hyd yr ydych yn cloffi rhwng dau feddwl?" Bu y bregeth hòno yn foddion i dòri ar unwaith y ddadl yn ei feddwl, fel y llwyr gyflwynodd ei hun i wasanaeth ei Arglwydd, a derbyniwyd ef yn aelod o'r Eglwys Galfinaidd yn y ddinas hòno, Tachwedd, 1811. O herwydd gwaeledd ei iechyd gorfu iddo adael y lle hwnw, a dychwelyd i'w fro enedigol; ac yn mhen tua blwyddyn ar ol hyny, sef Gorphenaf 20, 1815, dewiswyd ef yn ddiacon yn Eglwys y Borth. Dechreuodd bregethu Mai 24, 1818; derbyniwyd ef yn bregethwr y Cyfundeb yn Nghymdeithasfa Llangeitho, Awst 19, 1818, a neillduwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth Awst 7, 1829. Priododd ar y 23ain o Fai, 1827, â Miss Davies, chwaer y diweddar Mr. Robert Davies, Aberystwyth. Cafodd Mr. Jones faes helaeth i lafurio ynddo yn y sir, ac ymaflodd yntau yn y gwaith fel un yn teimlo ei bwysfawrogrwydd, a thaflodd ei holl enaid iddo. Iddo ef yr ymddiriedid gweithredoedd ac ysgrif-rwymau yr enwad yn y sir, a gwnaeth lawer iawn tuag at ddwyn holl feddiannau y Trefn-

yddion Calfinaidd i'r sefyllfa fwyaf diogel ag yr oedd yn ddichonadwy eu cael. Efe hefyd yn fwyaf neillduol a ofalai am y casgliadau at y Gymdeithas Genadol Gartrefol a Thramor. Yr oedd yn hynod benderfynol a di-ildio, ac unwaith yr ymaflai mewn unpeth, ni chymerai ei ddigaloni na'i rwystro gan lu o anhawsderau. Fel pregethwr yr oedd yn dra difrifol bob amser, ac weithiau pregethai gydag arddeliad mawr, nes teimlai lluaws rym y genadwri. Yr oedd yn llym iawn yn erbyn pechod, gan nad o dan ba ffurf yr ymrithiai; a cheryddai hyd yr eithaf yr hyn a ystyriai yn feius. Bu hyn yn achos iddo gael cryn lawer o'i erlid a'i ddrwgliwio; ond ymostyngai yn ddirwgnach i'r cyfan, gan "ystyried yr hwn a ddyoddefodd gyfryw ddywedyd yn ei erbyn gan bechaduriaid." Bu farw Awst 29, 1860, yn 70 mlwydd oed, ar ol bod yn pregethu am 45 o flynyddau. Yn gymaint ag yr ystyrid ef yn dywysog yn mysg ei frodyr yn ei fywyd, cafodd gladdedigaeth deilwng o dywysog. Rhoddwyd ef i orphwys yn nghladdfa newydd Aberystwyth, ac efe oedd y cyntaf a osodwyd yno, pryd yr oedd yn wyddfodol tua 35 o bregethwyr, a thua thair mil o gymydogion a chyfeillion galarus. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth angladdol gan y Parchn. E. Hughes; J. Jones, Castellnewydd Emlyn; J. Jones, Penmorfa; J. Rees, Tregaron; T. Edwards, Penllwyn; J. Saunders, Aberystwyth; D. Davies, Aberporth; a J. Jones, Llanbedr Pont Stephan.

JONES, EVAN, mab y Parch. Morgan Jones, Trelech, a anwyd yn Esgairgraig, yn y flwyddyn 1801. Ar ol treulio yr amser arferol yn athrofa Caerfyrddin, neillduwyd ef yn gydweinidog â'i dad, lle y treuliodd dair blynedd, pryd y cafodd alwad oddiwrth yr Eglwys Annibynol yn Ruscombe, yn agos i Stroud, sir Gaerloyw, lle y llafuriodd am ddeunaw mlynedd. Nis gellid ystyried Mr. Jones yn ymadroddwr ffraeth a hyawdl, ond gwnelid y diffyg hwn i fyny gan gyfoethogrwydd a mawredd ei feddylddrychau, cyflawnder o synwyr, a gwybodaeth eang ar bob pwnc yr ymdriniai âg ef. Yr oedd yn hynod wreiddiol bob amser, a phregethai fel y gallai y gwanaf ei amgyffrediad ei ddeall yn hawdd. "Byddai ei enaid yn fynych yn ennyn, a'i dân Cymreig yn tòri allan yn ngwlad y Sais mewn modd disymwth, fel yr oedd yn datguddio yn gyflawn fendithion a thrysorau croes y Prynwr, tu cefn i'r hon yr oedd ei galon yn llosgi a chanu. Modd bynag, nid yn yr areithfa yr oedd ei nerth yn gorphwys fwyaf, ond allan o honi. Yr oedd yn weinidog cymhwys y pentref a'r dref. Ei galon dyner a'i harweiniai i breswylfa gofid, adfyd, a chyfyngder; ac yr oedd ei law a'i gynghor yn wastad yn agored; fel y teimlid ef yn fwy fel tad na gweinidog i'w bobl. Yr oedd yn un o ysbryd hynaws a charedig, fel yr ymddangosai ei fod yn crëu awyrgylch o gariad o'i amgylch ei hun, ac yn byw ac yn ymsymud ynddi.

Arosai bob amser ar ei ffordd i sychu dagrau plant pan y clywai ac y gwelai hwy yn wylo; neu i osod abwydyn yn y glaswellt ar ochr y ffordd, rhag ofn y buasai rhywun yn ei sathru. Yr oedd ei weithredoedd da yn ymddangos yn hytrach fel pethau yn tyfu allan o hono, yn fwy nag fel rhai a gyflawnid ganddo. Dywedai llawer, os bu erioed un dyn gwir dda, mai Mr. Jones oedd hwnw. Yr oedd dirgelwch ei holl ddaioni yn wreiddiedig yn ei gymdeithas â Duw. Yr oedd ei enaid yn debyg i deml heb do arni, bob amser yn agored tuag at Dduw; am hyny yr oedd y gwlith bob amser yn disgyn arno; ac felly yr oedd rhinweddau duwioldeb yn tyfu yn ei enaid megys mewn gardd ddyfradwy; ac am hyny yr oedd arogl ei weddïau yn myned bob amser yn newydd a bywiog i fyny at Dduw drachefn, 'fel arogl maes yr hwn a fendithiodd yr Arglwydd.' Yn ystod y ddwy flynedd olaf o'i fywyd bu yn dyoddef yn drwm oddiwrth afiechyd, fel y gorfodwyd ef i roddi i fyny y weinidogaeth a dychwelyd i'w fro enedigol, lle y bu farw yr 20fed o Fehefin, 1855, a hyny er galar i luaws mawr, ac yn enwedig i'w eglwys yn Ruscombe, gan yr hon y perchid ac y cerid ef yn fawr iawn."

JONES, EVAN, gweinidog perthynol i'r Trefnyddion Calfinaidd yn y Ceinewydd, gynt o Langeitho, ac o Benmorfa cyn hyny. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1809, dechreuodd bregethu yn y flwyddyn 1832, ac urddwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth yn 1841. Er nad oedd yn meddu ar ryw lawer o ddawn ymadrodd, etto yr oedd ei bregethau bob amser yn synwyrol a chymeradwy iawn, ac yn dra effeithiol ac argyhoeddiadol. Yr oedd Mr. Jones yn hynod lafurus gyda phob rhan o waith yr Arglwydd, a cholled fawr oedd ei golli ef oddiar y maes yn nghanol ei ddyddiau a'i ddefnyddioldeb. Gorphenodd ei yrfa ddaearol Gorphenaf 30ain, 1854, yn 45 mlwydd oed.

JONES, EVAN, oedd weinidog gyda'r Bedyddwyr yn Bethania, a genedigol o ardal Llandyssul. Treuliodd bedair blynedd yn Athrofa Caerodor, o dan y diweddar Dr. Ryland, yr hwn a ddywedai am dano, na fu neb erioed o dan ei ofal ef yn meddu cynneddfau cryfach nag E. Jones. Safai yn wastad yn flaenaf yn ei ddosbarth fel ysgolhaig a phregethwr. Urddwyd ef yn weinidog ar Eglwys y Bedyddwyr yn Aberteifi, Tachwedd 5, 1800. Gan ei fod yn feddiannol ar y fath ddoniau ysplenydd fel pregethwr, cynnyddodd yr achos yn fawr iawn o dan ei ofal; ac ymledaenodd ei enw a'i barch trwy holl eglwysi y Bedyddwyr yn Nghymru. Yn wir, nid ystyrid yr un cyfarfod chwarterol na blynyddol yn gyflawn, os na byddai ef yno. Mor fawr yr ystyriai Christmas Evans ef fel pregethwr, fel y gwrthodai yn fynych bregethu ar ei ol. Ond, fel mae yn ofidus adrodd, ymdaenodd cwmwl du dros ei fywyd cyhoeddus.

Syrthiodd i arferion o anghymedroldeb, trwy yr hyn y collodd ei gymeriad a'i ddefnyddioldeb. Collodd ei le yn yr Eglwys fel gweinidog, a diarddelwyd ef o honi yn y flwyddyn 1810. Adferwyd ef drachefn a thrachefn i aelodaeth, ond nid i'w sefyllfa fel gweinidog. Symudodd wedi hyny i fyw yn agos i Eglwys Erw, sir Benfro, lle y bu farw, Rhagfyr 10, 1819, yn 42 mlwydd oed. Cyfieithodd i'r Gymraeg draethawd rhagorol Abraham Booth ar Faddeuant Pechod; a chyfansoddodd draethawd bychan ei hun, ar "Fendithion Rhad, ac nid Prynedig"—hyny yw, na phrynodd Crist fendithion i'r eglwys; ond, yn hytrach, iddo brynu yr eglwys i fwynhau bendithion.

JONES, ISAAC, ydoedd fab i wehydd, yn mhlwyf Llanychaiarn, lle y ganwyd ef Mai 2, 1804. Derbyniodd ychydig hyfforddiant yn ei efrydiaeth o'r Lladin gan ei dad, yr hwn oedd yn alluog i ddarllen yr iaith hòno er yn saith oed Wedi treulio ychydig amser mewn ysgol wledig ragorol yn agos i'w gartref, anfonwyd ef i Aberystwyth, i'r ysgol Ramadegol yno, lle y daeth yn fuan i fod yn athraw cynnorthwyol; ac yn 1828, yn brif athraw. Bu yn y swydd hòno hyd y flwyddyn 1834, pan y derbyniwyd ef i mewn i Goleg Llanbedr. Yno, bu ei lwyddiant yn fawr. Yn 1835, etholwyd ef yn *Eldon Hebrew Scholar;* ordeiniwyd ef yn ddiacon yn 1836; ac yn offeiriad yn 1837, pryd y derbyniodd y wobr gynnygiedig, gan Esgob Ty Ddewi, i'r efrydydd a ddangosai y wybodaeth helaethaf mewn duwinyddiaeth. Penodwyd ef i guradiaeth Llanfihangel-geneu'r-glyn, ac wedi hyny Bangor, yn nghymydogaeth Aberystwyth. Yn Chwefror, 1840, cafodd guradiaeth Llanedwen a Llanddaniel-fab, sir Fon, lle y parhaodd hyd ei farwolaeth i gyflawni ei swydd weinidogaethol gyda ffyddlondeb mawr. Cyhoeddodd *Ramadeg Cymraeg*, yr hwn a argraffwyd yn Aberystwyth, yn 1832, yn nghydag ail argraffiad o hono yn 1841. Efe hefyd yw awdwr yr ail gyfrol o'r *Geirlyfr Cymraeg,* yr hwn a ddechreuwyd gan Owen Williams, Waunfawr. Ond fel cyfieithydd yr enwogodd Mr. Jones ei hunan fwyaf. Yn mysg eraill, cyfieithodd *Eiriadur Gurney*, gyda llawer o ychwanegiadau, yn 1835, yn ddwy gyfrol, ac Esboniad Adam Clarke ar y Testament Newydd, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1847, yn ddwy gyfrol fawr. Yr oedd hefyd wedi dechreu ar yr Hen Destament, ac wedi cyrhaedd cyn belled a Lefiticus iv. 12, pan y cymerwyd ef yn glaf o'i afiechyd olaf. Cymerodd ran hefyd yn nghyfieithiad Esboniad Mathew Henry, yr hwn a gyhoeddwyd gan y Parch. E. Griffiths, Abertawe. Cyfieithodd tua hanner "Hanes ymdrechion cenadol Williams," yr hwn a roddwyd i fyny ganddo, o herwydd i argraffiad arall wneud ei ymddangosiad yr un pryd. Efe hefyd fu yn golygu yr ail argraffiad o Destament Cymraeg William Salisbury, yr hwn a gyhoeddid yn Nghaernarfon yn 1850. Yr oedd yn awdwr amryw draeth-

odau eraill o lai pwysigrwydd. Bu farw Rhagfyr 2, 1850, a chladdwyd ef yn mynwent Llanidan.

Jones, Jacob, oedd frodor o Dalybont, lle y ganwyd ef, Mai 29ain, 1823. Pan yn 15 oed derbyniwyd ef i athrofa y Dr. Brown, Llynlleifiad, a chyn hir daeth yn gynnorthwywr i'w athraw. Yn 1842, astudiai yn Mhrifysgol Glasgow, a'r flwyddyn ganlynol dychwelodd i Dalybont, a chychwynodd ysgol yno, yr hon a ddygodd yn mlaen gyda chryn lwyddiant; ac yn fuan dechreuodd bregethu. Yn 1845 derbyniwyd ef i Athrofa Spring Hill, ac yn 1851 urddwyd ef yn fugail yr Eglwys Gynnulleidfaol yn Melksham, lle y treuliodd dros chwe' blynedd. Gadawodd Mr. Jones ddylanwad anghyffredin ar ei ol, yn enwedig pan ystyriom ei arosiad byr yn y lle. Yr oedd yn weithiwr ffyddlon a di-ildio; cymerai ddyddordeb mawr mewn addysg, a gwnaeth lawer tuag at ei hyrwyddo yn y dref hòno. Yr oedd fel y gellid meddwl yn ysgolhaig rhagorol, a meddai ar fedr mawr i osod o flaen ei wrandawyr egluradaeth ysgrythyrol, yn y fath fodd, ag i beri gras ac adeiladaeth ysbrydol iddynt. Addysgydd ydoedd yn yr areithfa, ac addysgydd o'r radd uchaf; a phorthai ei braidd âg ymborth gwirioneddol a sylweddol. Perchid ef braidd i eithafoedd gan bawb, a cherid ef yn anwyl gan y rhai a ymgyfeillachent âg ef. Yn 1857, trwy appeliad y Parch. J. L. Poore, cenadwr yn Australia, tynwyd sylw Mr. Jones at y drefedigaeth hòno; ac wedi ymgynghori, a chael caniatâd Pwyllgor Cymdeithas Genadol y Drefedigaeth, penderfynodd ar y lle hwnw fel maes ei lafur. Gadawodd ei ddeadell yn Melksham, a hyny er galar cyffredinol iddynt, a mordwyodd tua Sydney ar yr 20fed o Orphenaf, 1857, yn y *Catherine Adamson*, gyda dymuniadau goreu ei luaws cyfeillion hiraethlawn. Ond fel y mae yn ofidus adrodd, ni chyrhaeddodd mo'i le penodedig! Hyrddiwyd y llong gyda rhuthr arswydus ar graig yn agos i'r porthladd y cyfeiriai ato; ac er pob ymdrech, aeth yn llwyr ddrylliad arni. Er i ychydig o bersonau gael eu hachub yn y bywyd-fâd, nid oedd Mr. Jones o'u nifer—boddodd pan megys yn rhoddi ei droed ar faes ei lafur. Dygwyddodd hyn Hydref 24ain, 1857. Traddodwyd ei bregeth angladdol gan ei frawd a'i gyfaill, y Parch. T. E. Fuller, gweinidog y Bedyddwyr yn yr un dref; a chodwyd cofeb iddo gan ei gyfeillion yn y capel y gweinidogaethai.

Jones, Jenkin, ydoedd y cyntaf yn yr oesoedd diweddar a ddechreuodd gyhoeddi golygiadau Arminaidd yn swydd Ceredigion. Aelod ydoedd ar y cyntaf o'r Eglwys Annibynol yn Pantycreuddyn, yr hon oedd y pryd hyny dan ofal Mr. Lewis, Pencadair. Gan y gwelid ynddo gymhwysderau i'r weinidogaeth, anfonwyd ef yn 1721 i'r athrofa yn Nghaerfyrddin. Wedi gorphen ei dymmor yn Nghaerfyrddin, dychwelodd i Geredigion,

ac yn fuan priododd foneddiges gyfoethog yno. Gan yr ymddangosai yn gogwyddo yn gryf at Arminiaeth, gwelai na byddai heddwch iddo yn eglwysi yr Annibynwyr; ac felly cododd addoldy ar ei ystad ei hun yn Llwynrhydowen, lle yr urddwyd ef yn weinidog, Ebrill, 1726. Mae yn ymddangos iddo gelu ei olygiadau am ryw dymmor, sef hyd y flwyddyn 1729, pryd y pregethodd yn gyhoeddus o blaid Arminiaeth; ac efe, am rai blynyddau, oedd yr unig weinidog a wnai hyny. Gan ei fod yn ddyn hynod fwynaidd, yn bregethwr poblogaidd, ac yn berchen cyfoeth, ni fu yn hir cyn casglu yn nghyd gynnulleidfa fawr. Bu farw yn y flwyddyn 1742, a chafodd y boddlonrwydd cyn hyny o weled chwech neu saith o weinidogion dylanwadol a'u cynnulleidfaoedd wedi eu dwyn i gofleidio a phroffesu ei ddaliadau. Dirywiodd y rhai hyny yn mhen ychydig flynyddau ar ol ei farw i Ariaeth. Credir yn gyffredin mai efe oedd awdwr traethodyn dienw a ymddangosodd yn 1729, o dan y teitl, *Cyfrif cywir o'r Pechod Gwreiddiol*, i'r hwn y gwnaed atebiad gan ei hen weinidog, a Christmas Samuel, Pantteg, yn dwyn y teitl, *Y cyfrif cywiraf o'r Pechod Gwreiddiol*, (Gwel *Nonconformity in Wales; Hanes Ymneillduaeth*), *&c.* Cyhoeddodd hefyd *Holwyddoreg*, 108 tudal., yn 1732.—*Llyfryddiaeth y Cymry.*

Jones, John, oedd ail fab Edward Jones, Ysw., Nant Eos, a ganwyd ef yn y flwyddyn 1634. Priododd Mary, merch Jasper Cornelius. Cafodd ei wneud yn Rag-ringyll y fyddin o wŷr traed, a godwyd yn sir Aberteifi i wasanaethu Siarl i. Yr oedd efe yn un a fwriedid ei wobrwyo gan Siarl ii. â'r urdd o Farchog y Dderwen Freiniol, ac yr oedd ei etifeddiaeth yn werth £800 y flwyddyn. Bu farw yn y flwyddyn 1666, a chladdwyd ef yn Eglwys Llanbadarn Fawr, lle gwelir cof-faen hardd iddo. Cynnrychiolir y teulu yn y Rhingyll gan W. T. R. Powell, Ysw., diweddar A. S. dros sir Aberteifi.—*Brython*, Cyf. 1863.

Jones, (Cadben), oedd fab Llwynrhys, sef yr un y cyfeirir ato yn nhudalen 88. Derbyniodd ei ddysgeidiaeth gyda'i frawd, Samuel Jones, yr hwn a gadwai ysgol o gryn fri yn Richmond, yn agos i Lundain. Ymunodd David Jones â'r fyddin, lle yn fuan y cyrhaeddodd gryn enwogrwydd: gwnaed ef yn gadben yr Amddiffynlu yn amser Gwilym iii., a chymerodd ran yn mrwydr y "Boyne." Teithiodd a threuliodd lawer o amser ar y Cyfandir, a gwnaeth ddefnydd o'r cyfleusdra i ddyfod yn hyddysg yn y Ffrengaeg ac ieithoedd eraill. Yr oedd y Cadben Jones yn ysgolhaig rhagorol, fel y gellid casglu oddiwrth y llyfrau canlynol a ysgrifenwyd ganddo:—1. *Secret History of White Hall.* London, 1697, 2 vol. in one, 8vo. *Continuation from* 1688 *to* 1696, 8vo., 1697. New and best Edition of this *Scandalous History*, 1717, 2 vols. 12mo.—2.

*Usury*, 1692, 4to.—3. *History of the Turks*, 1655—1701, 2 vols. 8vo.—4. *Life of King James* II., 1702, 8vo.—5. *History of the House of Brunswick Lunenburgh*, 1715, 8vo.—6. *History of William* III., 1702.—7. *The Wars and Causes of them between England and France*, from William the First to William the Third, with a Treatise of the Salique Law: by D. J.—8. *A Complete History of Europe*, from the year 1600 to the year 1714, 18 vols. 8vo., 1705—20. Mae copi o hwn yn yr Amgueddfa Brydeinig. Yr ydym yn rhodddi y rhestr hon ar awdurdod Mr. Halkett, prif lyfrgellydd Edinburgh, a T. Jones, Ysw., Chetham Library, Manchester. Cyfieithodd hefyd *Pezron's Antiquities* o'r Ffrengaeg, a gwnaeth rai ychwanegiadau ato. Oddiwrtho ef y cafodd teulu presenol y Glynuchaf, gerllaw Llangeitho, y cyfenw Davies. Cymerodd plant y cadben enw eu tad yn gyfenw, yn ol dull mwyaf cyffredin y Cymry; ond o hyny allan cadwodd y gangen hòno o'r teulu at y cyfenw Davies. Mae careg fedd Peter Davies, ŵyr y cadben, a hendaid Mr. Davies presenol o'r Glynuchaf, i'w gweled yn awr yn mynwent Llanbadarn-odwyn, ar y tu deddwyreiniol i'r gangell, ond cymeryd y drafferth i dirio y ddaear sydd wedi tyfu drosti. Yr oedd y Peter Davies hwn yn briod â chwaer Rowlands, Llangeitho. Bu farw pan oddicartref, ger Henffordd; a dygwyd ei gorff adref i'w gladdu.

JONES, JOHN, gweinidog yr Undodiaid yn Aberdar. Ganwyd ef yn Mhantlluest, pwyf Llanarth, Gorph. 20, 1802. Wedi bod am dymmor gyda'i ddau frawd eraill yn ysgol Castell-hywel, aeth yn 1823 i'r Coleg yn Nghaerfyrddin, lle yr oedd y Parchn. D. Peter a D. L. Jones, Clynadda, yn athrawon. Ymadawodd oddiyno yn 1827, a'r flwyddyn ganlynol, cafodd alwad i ymsefydlu yn weinidog yn St. Clears; ond o herwydd rhyw reswm neu gilydd, ni dderbyniodd y cynnygiad. Gwrthododd gyffelyb alwad wedi hyny oddiwrth Eglwys Undodaidd Pantydefaid, Llandyssul. Yn Hydref, 1831, cawn ef mewn cysylltiad â'r Parch. Rees Davies, Capelygroes, yn agor ysgol yn y Cribyn, ger Llanwnen, "lle y gwnai o'r ysgol, a phob peth at eu gilydd, dair a dimai y dydd, ond fod yno lawer na thalasant am eu hysgol hyd heddyw." Chwefror, 1833, aeth yn weinidog i Hen Dŷ Cwrdd, Heolyfelin, Aberdar, ac yn mis Gorphenaf, agorodd ysgol ramadegol yn Heolyfelin; ac yma y bu yn llafurio yn ddiwyd hyd ddiwedd ei oes, sef cyfnod o 31 mlynedd. "Dyn dewr, di-ildio, ymofyngar, cydwybodol, rhydd oddiwrth bob ffalsedd a dauwynebedd, trais a gormes; un yn dymuno ac yn ymddwyn yn well na'r cyffredinolrwydd o blant dynion oedd Mr. Jones. Ceid mwy o swn mewn llawer teml, mwy o hyawdledd, mwy o ehediadau dychymygol a barddonol; ond yr oedd rhyw afael dŷn gan ei lais gwrol, ei ymresymiadau manwl, ei ddywediadau miniog, a'i edrychiad gonest, craff, a'i ffurf gawraidd, ar

ddosbarth lluosog. Er fod ei olwg yn dra llewaidd, a'i iaith yn hytrach yn arw a sarug, etto, meddai ar galon dyner a pharod i dosturio. Yr oedd yn hynod benderfynol ei feddwl, ac nis gallai y gwrthwynebiad llymaf ysgogi dim arno, na'i ddigaloni yn y graddau lleiaf. Cariai allan ei gynlluniau, a dilynai ei amcanion pe yn hollol wrtho ei hun; ïe, pe buasai pob llaw wedi ei chodi i'w erbyn. Nid oedd ef yn gaethwas i ffurfiau, defodau, a dulliau yr oes o feddwl; ond mynai farnu pob peth yn annibynol ar bawb a phobpeth arall." Cyrhaeddodd gryn wybodaeth o'r Groeg, y Lladin, a'r Gymraeg, yn nghyda seryddiaeth ac athroniaeth naturiol; a darlithiai yn fynych ar y canghenau olaf yn nghylchoedd Aberdar a Merthyr. Ac ystyried ei fanteision a'i gyfleusderau, ysgrifenodd lawer, a hyny yn dda. Wele restr o'i weithiau:—1. *Edifeirwch gwely angeu*, 1836; 2. *Y llyfr cyntaf i blant yr Ysgol Sul*, 1839; 3. *Cyfieithiad o lythyr Cogan ar y Drindod;* 4. *Galwad ar yr ieuenctyd i droi at Dduw*, 1840; 5. *Pregeth ar y pechod yn erbyn yr Ysbryd Glan*, 1846; 6. *Crwth Dyffryn Clettwr*, 1848, (sef gwaith ei frawd); 7. *Traethawd ar y Sabbath;* 8. *Casgliad o Salmau a Hymnau*, 1857, sef pigion o Iolo, Thomas Evans, Josiah Rees, a rhai hymnau newyddion o waith ei frawd, yn nghyda dwy o leiaf o'i waith ei hun. Efe oedd un o'r rhai blaenaf i feddwl am gyhoeddiad misol at wasanaeth yr Undodiaid, ac awgrymodd hyny mor gynnar a mis Medi, 1835; er na ddaeth y rhifyn cyntaf o'r cyfryw, sef *Yr Ymofynydd*, allan am ddeuddeng mlynedd wedi hyny. Yr oedd efe yn un o ohebwyr penaf yr hen gyfres. Cyhoeddwyd chwech o'i bregethau yn ddiweddar—rhai a ysgrifenasid pan oedd yr awdwr yn ieuanc, a "dangosant feddwl craffus, galluog, dan ddysgyblaeth, yn gweithio allan ei syniadau yn oleu, yn gystal a theimladau gwir Gristionogol."

JONES, JOHN, Llwynrhys, Llanbadarn-odwyn. Mae y lle hwn yn hynod ar gyfrif mai ynddo y dechreuwyd yr achos crefyddol gan yr Anghydffurfwyr yn y gymydogaeth hon, a hyny yn foreu iawn; ac oddiyma yr hanodd Eglwysi Llwynpiod, Blaenpenal, Abermeurig, Cilgwyn, &c. Cedwid cyfarfodydd yn y tŷ hwn mor foreu, tybir, a'r flwyddyn 1664; a phregethai y Parch. John Jones yn ddirgelaidd i'r cyfryw o'i gymydogion a gyrchent yno i wrando arno. Ond y cyfryw ydoedd enbydrwydd yr amserau, fel yr oedd o dan erledigaeth barhaus o'r achos; a bu o flaen brawdlysoedd, a dirwywyd ef amryw weithiau. Yr oedd teulu Llwynrhys yn dra chrefyddol, ac yn enwog am eu duwioldeb a'u defnyddioldeb—yn gynnwysedig o ddeuddeg o blant, wyth o ferched a phedwar o feibion. Yr oedd un o honynt yn Llundain yn ngwasanaeth y brenin, ac ymddengys ei fod yn sefyll yn uchel yn ffafr ei feistr, yr hwn un tro a ofynodd iddo, a oedd rhyw gymwynas a ewyllysiai efe gael. Atebodd

yntau fod ganddo dad yn Nghymru, yn hen wr, ac yn weinidog Anghydffurfiol, ac y byddai yn ddiolchgar iawn i'w fawrhydi am ganiatâd iddo bregethu. Caniatâodd y brenin hyny, ar yr ammod iddo beidio pregethu yn un lle ond yn ei dŷ ei hun; a rhoddodd iddo freinlen i'w throsglwyddo i'w dad i'w awdurdodi i hyny. Yr oedd y mab erbyn hyn wedi treulio blynyddau meithion oddicartref, a'i rieni heb wybod dim o'i hanes. Un diwrnod, gwelent swyddog yn ei ddillad milwraidd (yr hwn nid oedd amgen na'u mab eu hunain) yn cyfeirio ei gamrau tua'r tŷ, ac nid oedd ammheuaeth yn eu meddwl nad dyfod i ddal y gweinidog yr ydoedd. Ar hyn, rhedodd yr hen wr i'r llofft i ymguddio, tra yr âi yr hen wraig i'r drws i gyfarfod y gwr dyeithr, yr hwn a ofynai iddi am Mr. Jones, gan ychwanegu, fod y rhaid iddo gael ei weled, am fod ganddo genadwri oddiwrth y brenin. Dychrynodd y wraig gymaint wrth glywed hyn, fel y syrthiodd i lawr mewn llewyg. Ymaflodd yntau ynddi i'w chodi. Gwelai y gwr o'r llofft hyn yn cymeryd lle, a chan gredu fod y swyddog yn ei lladd, gwaeddodd allan, "Peidiwch a lladd yr hen wraig, yr wyf fi yn rhoi fy hun i fyny." Ar hyn eglurodd y gwr dyeithr pwy ydoedd, a pheth oedd ei genadwri; ac fel y gallesid dysgwyl, mawr oedd llawenydd a syndod y ddau pan ddeallasant nad oedd y swyddog yn neb amgen na'u mab hir-golledig. Chwanegwyd y llawenydd hwn drachefn pan welsant y freinlen yn caniatâu rhyddid addoliad yn eu tŷ. Mewn canlyniad i hyn, yn gymaint ag nad oedd y tŷ yn ddigon mawr a chyfleus, adeiladwyd ystafell groes o'r tu cefn iddo, lle y cynnelid yr addoliad; a pharhaodd i fod yn lle addoliad ar ol y cofrestriad am dros 60 mlynedd. Y mae'r tŷ hwn yn sefyll etto, ac mae y cwpbwrdd yn awr yn ei dalcen lle yr oedd ffenestr y pulpud. Yr "eglwys yn y tŷ" hwn oedd mam eglwysi boreuaf sir Aberteifi, y rhai a grybwyllwyd yn barod.

JONES, LEWIS, oedd frodor o'r sir hon, lle y ganwyd ef yn y flwyddyn 1701. Teimlodd argraffiadau crefyddol pan yn ieuanc iawn, a dechreuodd bregethu pan nad oedd ond deunaw mlwydd oed, sef un mlynedd ar bymtheg o flaen Howell Harries. Aeth i Athrofa Caerfyrddin, er cymhwyso ei hunan yn mhellach at y gwaith; ac ar ei ymadawiad oddiyno, dewiswyd ef yn fugail ar hen Eglwys Llanedi, sir Gaerfyrddin. Symudodd oddiyno wedi hyny i Benybont, a bu llwyddiant mawr ar ei weinidogaeth yn y lle hwnw. "Yr oedd ei berson, ei ymddangosiad, ei lais, ei ddull, a'i ddwysder, oll yn ffafriol iddo er dylanwadu ar feddwl ei wrandawyr. Yr oedd y boneddigion coethedig, a'r werin anwybodus, yn cael eu hennill i'w garu yn ddiarwybod iddynt eu hunain. Nid oedd mesur ar ei ymdrechion a'i lafur. Aberthai esmwythder, cysur, amser, ac iechyd, er ennill eneidiau at Waredwr. Pregethai fynychaf dair gwaith bob Sabbath. Cynnaliai gyfarfod bob prydnawn dydd Sadwrn

yn hen gapel Penybont. Elai trwy y farchnad a'i ŵn du am dano; ac yr oedd y fath swyn gan ei fynediad, fel y gadawai gwŷr y dref eu masnachdai, a gwŷr y wlad eu hŷd a'u hanifeiliaid, er myned i'r capel i wrando Lewis Jones; ac âi amryw o honynt adref wedi eu symud o farwolaeth i fywyd. Nid oedd pregeth nos Sadwrn, a thair pregeth ar y Sabbath canlynol, yn ddigon o lafur iddo ef. Tra yr oedd ei Geidwad yn cael ei wrthod, enw Duw yn cael ei gablu, ac eneidiau dynion yn myned i ddinystr, nid oedd amser na thuedd gorphwys yn Lewis Jones. Elai allan ar nosweithiau yr wythnos i'r holl wlad o amgylch Penybont a'r Bettws; ac am lawer cymydogaeth gallesid dywedyd, 'I'r rhai a orweddent mewn tywyllwch a chysgod angeu, y cyfododd goleuni mawr.'" Ymwelai yn fynych â'r Drefnewydd, Llanddiddan, Llanharan, Maendy, a'r Bontfaen; a bu yn foddion i gychwyn eglwysi blodeuog yn amryw o'r lleoedd hyn. Yr oedd Mr. Jones yn dduwinydd rhagorol, a chymerai lawer o drafferth i egwyddori ei wrandawyr yn mhynciau sylfaenol y grefydd Gristionogol. I'r dyben yma, cynnaliai gyfarfod wythnosol i esbonio rhyw gyfran o'r Beibl iddynt; a'r Sabbath canlynol, holai ei wrandawyr yn y pethau a fuont dan sylw. Deallai yr Hebraeg yn dda, a siaradai hi bron mor rwydd a'r Iuddewon eu hunain. Cadwai hefyd ysgol ieithyddol, a bu amryw ddynion o enwogrwydd o dan ei addysgiaeth. Yr oedd Mr. Jones yn nodedig rymus mewn gweddi; ac adroddir llawer o hanesion hynod o lwyddiant ei erfyniadau, y rhai ni oddef ein terfynau, ar hyn o bryd, eu croniclo. Am y tair blynedd olaf o'i oes, bu Mr. Jones yn gweinidogaethu yn Rhosan, sir Henffordd, lle y bu farw, yn y flwyddyn 1772, ar ol bod yn pregethu am dros hanner can' mlynedd. Merch iddo ef, o'i wraig gyntaf, ydoedd priod Mr. Jardine, athraw Coleg Abergafeni, wedi hyny Aberhonddu.

JONES, METHUSALEM, a anwyd yn Pantygwenith, plwyf Llandyfriog, yn mis Awst, 1769. Ni fwynhaodd nemawr fanteision addysgawl yn ei ieuenctyd, ond daeth yn alluog i ddarllen ac ysgrifenu Cymraeg a Saesonaeg yn lled dda. Pan tuag unarddeg oed, collodd ei dad; ond gofalwyd am dano yn dra thyner gan fodryb gyfoethog a chrefyddol iddo, sef Mrs. Parry, Llwyncadfor, yr hon a ddangosodd lawer o garedigrwydd iddo, ac a'i rhoddodd am ychydig amser yn yr ysgol. Pan yn 22ain oed, ymunodd â'r Eglwys Gynnulleidfaol yn Saron, a hyny mewn canlyniad i bregeth o eiddo y Parch. D. Peter, Caerfyrddin, ar y perygl o ddiffodd yr Ysbryd, yr hon a effeithiodd yn fawr arno. Yn fuan ar ol hyn, cymhellwyd ef i bregethu; ac nid hir y bu cyn y cafwyd profion boddhaol ynddo mai "llestr etholedig i Dduw" ydoedd. Ar annogaeth yr eglwysi, elai yn fisol am rai blynyddau i Grugybar, Ffaldybrenin, a'r Mynyddbach; a bu yn lled lwyddiannus yn y lleoedd hyny. Pan yn 25 oed, priododd â Jane, merch

Dafydd a Mary Evans, Felingernos, Ceredigion; a buont fyw gyda'u gilydd dros 44 o flynyddoedd. Bu iddynt wyth o blant, dau o ba rai a aethant i'r weinidogaeth—un yn offeiriad, a'r llall yn weinidog Cynnulleidfaol. Yn y flwyddyn 1800, derbyniodd Mr. Jones alwad gan Eglwysi Llangynwyd a Chymar-glyn-corwg, Morganwg, ac urddwyd ef yn fugail arnynt; a llafuriodd yn eu mysg hyd y flwyddyn 1808, pryd y symudodd i Bethesda, Merthyr Tydfil. Nid oedd rhifedi yr Eglwys yno ond bychan iawn ar y pryd hwnw, sef tua 90; ond cyn ei farw, rhifent yn agos i 500. Efe hefyd a blanodd yr eglwysi yn Rhymni, Dowlais, Troedyrhiw, a Chefncoedycymer, lle yn awr mae cynnulleidfaoedd lluosog a gweinidogion sefydlog. Yn ystod y 39ain o flynyddau ei weinidogaeth—31 o ba rai a dreuliodd yn Bethesda—tybir iddo dderbyn i gymundeb eglwysig yn agos i dair mil, yr hyn a brawf mor llafurus a llwyddiannus y treuliodd ei yrfa weinidogaethol. O ran ei farn, yr oedd yn dra Chalfinaidd. Hoff destunau ei bregethau fyddent cwymp dyn, etholedigaeth bersonol a diammodol, parhad mewn gras, gwynfyd y nef, &c. Meddai ddawn arbenig mewn gweddi, yr hyn, gyda'i ddull difrif-ddwys, a gai effaith fawr ar ei wrandawyr. Hunodd yn yr Iesu, Ionawr 15, 1839, yn 71 mlwydd oed. Ei eiriau diweddaf oeddynt, "Arglwydd Iesu, derbyn fy ysbryd." Claddwyd ef y Sadwrn canlynol yn mynwent Bethesda, yn ngwydd tyrfa fawr o gyfeillion galarus.

JONES, MICHAEL, a anwyd mewn lle o'r enw "Yr Aifft," plwyf Hen Fynyw. Amaethwyr oedd ei rieni, a bu iddynt bump o feibion ac un ferch, y rhai a ddygasant i fyny gyda gofal mawr am eu haddysgiad crefyddol. Yn 1807, ymunodd Michael â'r Eglwys yn y Neuaddlwyd; ac yn fuan, annogwyd ef gan ei weinidog, yr hybarch Dr. Phillips, i ymroddi i bregethu. Er cymhwyso ei hunan at y gorchwyl hwn, rhoddodd ei hunan o dan addysg yr hyglod Davies, Castell-hywel, gyda'r hwn y treuliodd ran o dair blynedd. Yn 1810, derbyniwyd ef yn fyfyriwr i Athrofa y Gogledd, yr hon a gynnelid y pryd hwnw yn Ngwrecsam, o dan lywyddiaeth Dr. Jenkin Lewis, ac wedi hyny o dan y Dr. George Lewis. Yn y flwyddyn 1814, urddwyd ef yn Llanuwchllyn, ac yn y lle hwnw y treuliodd 28 o flynyddoedd. Yn fuan ar ol ei sefydliad yn Llanuwchllyn, aflonyddwyd ar heddwch yr eglwys, mewn canlyniad i waith rhai o'r aelodau yn dal syniadau o Uwch-Galfiniaeth. Yr oedd yn ddadl boeth y pryd hwn rhwng yr Uwch-Galfiniaid a'r rhai hyny a ddalient olygiadau mwy cymedrol, megys y Dr. Williams o Rotherham, ac eraill; a daeth Mr. Jones allan yn ei holl nerth fel amddiffynydd y blaid olaf. Ond llwyddodd y blaid flaenaf yn ei eglwys i daflu capel Llanuwchllyn i'r Canghell-lys, a gorfu iddo yntau a'i ganlynwyr fyned i addoli mewn adeilad arall. Modd bynag, ni pharhaodd yr ymrwygiad yn hir, a chafodd yntau

ail feddiant o'i bulpud drachefn. Yn 1841, symudodd i'r Bala, a phenodwyd ef i arolygu y Coleg newydd a sefydlwyd yno; a pharhaodd yn y swydd hòno am ddeuddeng mlynedd, sef hyd ei farwolaeth. Yn ystod y tymmor hwnw, bu 89 o wŷr ieuainc o dan ei ofal; a chyrhaeddodd amryw o honynt enwogrwydd mawr yn y weinidogaeth. Yn ychwanegol at ei ddyledswyddau fel athraw y Coleg, yr oedd ganddo ofal un o'r ysgolion rhad hyny a sefydlasid yn Ngwynedd, gan ymddiriedolwyr y Dr. Daniel Williams, yn nghyda phedair neu bump o eglwysi bychain i ofalu am danynt. Fel y gellir casglu, yr oedd yn weithiwr mawr. Codai yn wastad rhwng 5 a 6 o'r gloch y boreu, ac unwaith neu ddwy yn yr wythnos rhwng 1 a 2. Yr oedd Mr. Jones yn ddyn o nerth anianyddol anghyffredin; ac yn wir pe yn amgen, nis gallasai byth ymgynnal o dan y llafur gorfawr yr aeth trwyddo. O ran ffurfiad ei feddwl, gwahaniaethai hefyd oddiwrth ei gyd-ddynion Meddyliai yn wahanol i bawb, bron, ar bob pwnc; ac wedi unwaith y gwnelai ei feddwl i fyny, nid oedd dim a ysgogai y graddau lleiaf arno. "Bu trwy ei holl yrfa mor ddiwyrni a'r haul." Gwr am ffeithiau a rhifau oedd efe. Nid oedd dim barddoniaeth yn nglŷn â'i gyfansoddiad, a chredai nad oedd nemawr o feirdd yn feddylwyr dyfnion. Yr oedd ei benderfynoldeb, weithiau, yn gosod arno agwedd erwin a sarug. Ei annibyniaeth, ei hynodrwydd, ei ymorphwysiad ar ffeithiau a gwirioneddau dysyml, a'i gwnaent ef i ymddangos yn sychlyd yn ei weinidogaeth gyhoeddus. Yr oedd ganddo dalent neillduol i gyfranu addysg; ac fel holwr pwnc mewn ysgol, yr oedd bron yn ddiail. Bu farw y "gwr cadarn" hwn, Hydref 27ain, 1853, yn 68 mlwydd oed; a chladdwyd ef yn mynwent capel Ebenezer, Llanuwchllyn. Yr oedd tua 30 o weinidogion perthynol i'r gwahanol enwadau yn ei angladd. Dilynwyd ef yn arolygiaeth y Coleg gan ei fab, y Parch. M. D. Jones, yr hwn sydd yno hyd heddyw. "Safai Mr. Jones," fel y sylwa un, "wrtho ei hun fel pregethwr yn gystal a phethau eraill. Tueddai ei lais i'r cras a'r aflafar, a llefarai yn yr un dôn agos drwy gydol y bregeth. Sefydlai ei olygon ar yr un man drwy yr holl amser, tua dwy lath uwchlaw penau y bobl, os na byddai oriel; neu os byddai, tua'r man y saif yr awrlais yn gyffredin Ni allai droi ei ben tua'r dde na'r aswy, nac edrych am nemawr amser yn ngwyneb neb yn y gynnulleidfa. Nid oedd ei droed o un gwasanaeth iddo, ond i sefyll; na'i law, ond i droi dail y llyfr. Nid oedd dim yn ffugrol, dychymygol, na rhamantus yn ei bregethau; ond ymffrydient yn wirioneddau ac yn ffeithiau diymwad ac anwrthwynebadwy, fel y llifeiriant diattal, a'u hamcan yn eglur i bawb. Gallesid eu hysgrifenu air yn ngair fel y traddodid hwynt, a'u gyru i'r wasg heb unrhyw welliant, yr hyn ni ellir wneud â'r rhan fwyaf o bregethau. Yr oedd ei bregethau yn arddangosiad cywir o amcanion pregethu yr efengyl."—*Yr Annibynwr*, Mehefin a Gorphenaf, 1857.

JONES, REES, awdwr *Crwth Dyffryn Clettwr*, a anwyd yn Nhalygareg, yn mhlwyf Llanarth, ar yr 8fed o Hydref, 1797. Ei dad ydoedd Dafydd Jones o Glettwr, ac efe oedd ail fab ei rieni. Bu farw ei dad pan oedd Rees yn ddeuddeg oed, a'r pryd hyny yr oedd yn yr ysgol gyda y Parch. David Davies, Llwynrhydowen—un o'r Lladinwyr a'r Groegwyr goreu yn ei ddydd, ac un y mae ei enw yn barchus hyd heddyw trwy y Dywysogaeth. Pan yn bymtheg oed, tynwyd ef o'r ysgol; ond yr oedd yn yr oedran anaddfed hwnw wedi cyrhaedd gryn wybodaeth o'r ieithoedd clasurol. Dechreuodd ei awen ddadblygu ei hun pan oedd yn bur ieuanc, ac mae amryw o'i ganiadau boreuol ar gael ar "lafar gwlad" yn ei hen gymydogaeth. Ar yr 22ain o Awst, 1817, sef pan yn brin ugain oed, priododd Mary, unig ferch John a Jane Davies o Nantyrymenyn, yn Llandyssul; ond bu farw hi yn mhen naw mlynedd ar ol yr undeb, gan adael ar ei hol bedwar o blant. Yn fuan ar ol priodi, ymunodd y bardd âg Eglwys Pantydefaid, a pharhaodd yn aelod ffyddlon yno hyd ei farwolaeth. Yr oedd yn hynod selog o blaid yr hyn a ystyriai yn wirionedd, ac ysgrifenodd lawer i *Seren Gomer* ar bynciau dadleuol y dydd. Cymerodd ran yn y ddadl boeth a gymerodd le yn y cyhoeddiad hwnw, ar y "Pechod Gwreiddiol," a "Bodoldeb y Diafol." Ysgrifenai yn gyffredin dan y ffugenw *Amnon*. Yn y flwyddyn 1828, priododd y bardd ei ail wraig, sef Martha Gough o Ffynnon Oer; ond ni bu iddo yr un plentyn o'r undeb hwn. Wedi blynyddau o nychdod blin, ymadawodd Rees Jones â'r fuchedd hon, ar y 15fed o Chwefror, 1844, yn 46 oed. Claddwyd ef yn mynwent Pantydefaid. Casglwyd yn nghyd ei waith barddonol gan ei frawd, y Parch. John Jones, gweinidog hen dŷ cwrdd Undodaidd, Aberdar; a chyhoeddwyd hwy yn y flwyddyn 1848, dan y teitl o *Crwth Dyffryn Clettwr*. Mae ynddo amryw ddarnau ag sydd yn profi tuhwnt i bob ammheuaeth fod yr awdwr yn berchen awen o'r iawn ryw; ac mae ynddo rai caniadau difyrus a ffraeth neillduol. Yn mysg ei "Englynion i'r Gauaf," ceir y rhai canlynol:—

"A gwedd iâ, lle'r oedd gwŷdd îr,—ac wyneb
Y gweunydd yn sychdir;
Un olwg hardd iawn welir,
Gwydr yn toi godre ein tir.

Daw blin wynt gerwin garwach—i ruo,
A rhewi'n galetach;
Y gâd * fwyn red i'r brwynach,
A dyn i ben ei dân bach.

* Ysgyfarnog.

Yr eira dodda mewn deuddydd,—yr iâ
A red yn afonydd;
Ei ddirfawr oerfa dderfydd,
Ac yn y fan egin fydd."

Etto, i'r "Meddwyn"—

"Cofia, ddifrodwr cyfoeth,—anfuddiol
It' feddwi fel annoeth;
Cofia, yn ail, y cefn noeth,
Gwely drain, a gwyl dranoeth."

Yr oedd Rees Jones, heblaw ei fod yn fardd lled wych, yn gerddor da, ac yn deall rheolau canu. Gallai chwareu dau neu dri o offer cerdd yn lled gelfyddgar, ac felly difyrodd lawer cyfaill â'i gân a'i grwth. Trigai y rhan olaf o'i oes yn Pwllffein, Llandyssul; ac wrth enw y lle hwnw yr adnabyddir ef yn fwyaf cyffredin.

JONES, THOMAS, gwr ag y bydd ei enw byth mewn parchus goffadwriaeth mewn cysylltiad â ffurfiad y Feibl Gymdeithas, a anwyd ar yr 2fed o Ebrill, 1752, mewn amaethdy yn agos i'r Hafod, tua 12 milldir o Aberystwyth. Amaethwr bychan oedd ei dad, ac o ochr ei fam yr oedd yn hanu o deulu Seisnig. Bu ganddynt saith o blant, y rhai fuont oll feirw yn ieuainc, oddigerth gwrthddrych y cofiant hwn, ac un mab arall a fu am dymmor yn beriglor Donnington, sir Gaerefrog. Yr oedd ei serch at Gymru a Chymry, yn nodwedd arbenig yn ei gymeriad; ac mewn llythyr at Mr. Charles, yn y flwyddyn 1796, o Creaton, dywed, "Cymro o'r iawn hil wyf fi, a gwir garwr ei wlad; dymunwn fyw a marw ynddi, ac anhawdd i mi ddywedyd weithiau yn y peth hyn, 'Ewyllys y Nef a wneler.'" Y mae lle i feddwl fod Mr. Jones wedi cael ei "santeiddio megys o'r groth," a'i fod yn meddu ar dduwioldeb amlwg er yn foreu iawn. Pan yn dairarddeg oed, anfonwyd ef i ysgol Ystradmeurig, o dan ofal yr hyglod Edward Richard, lle yr arosodd naw mlynedd, hyd oni ordeiniwyd ef. Yn ystod ei arosiad yno, daeth y Parch. Daniel Rowlands, Llangeitho i'r gymydogaeth i bregethu, a chafodd dull hynod y dyn hwnw yn pregethu argraff barhaol ar ei feddwl. Y guradiaeth ar ba un yr urddwyd Mr. Jones ydoedd Eglwys Fach a Llangynfelyn, yn agos i Aberystwyth, a bu yno yn gweinidogaethu o'r flwyddyn 1774 i 1779. Symudodd oddiyno i Leintwardine, yn sir Henffordd; ac oddiyno drachefn i Lognor, yn sir Amwythig. Ni bu rhwng y ddau le ond tua dwy flynedd. Ymddengys nad oedd ei gyflog yn y lle olaf yma ond £40 y flwyddyn, er fod ganddo bedair Eglwys o dan ei ofal—tair o ba rai a wasanaethai bob Sabbath. Felly, ymadawodd am Groesoswallt yn Gorphenaf, 1781. Ond bu ei ddull didderbynwyneb o bregethu yno yn achos tramgwydd i ryw ddosbarth o ddynion, fel y bu gorfod arno roddi y lle i fyny yn mhen tua chwe' mis. Aeth oddiyno i Loppington, yn agos i Wem, lle yr arosodd dair blynedd. Ar gynnygiad yr enwog Romaine, ymgymerodd Mr. Jones â churadiaeth Creaton, ac wrth enw y lle hwnw mae ei enw wedi dyfod mor adnabyddus. Dechreuodd ar ei weinidogaeth Medi

10, 1785, a bu yno hyd y flwyddyn 1833 —48 mlynedd. Curad fu yn ystod yr amser maith yna, oddigerth y pum' mlynedd olaf, pryd y gwnaed ef yn beriglor y plwyf. Bu ei weinidogaeth yn hynod o fendithiol yn Creaton, a chymerodd diwygiadau grymus le yno o dro i dro. Cymaint oedd ei boblogrwydd fel pregethwr, fel y cyrchai dynion o'r holl wlad amgylchynol i wrando arno; a dywedir y byddai rhai o bymtheg o wahanol blwyfydd, ac weithiau o ugain, yn ymgynnull yno bob Sabbath. Byddai hefyd rai o brif enwogion yr Eglwys yn talu ymweliad â Creaton, ac yn pregethu yno, megys Newton, Scott, Romaine, Venn, Robinson, ac eraill. Sefydlwyd Ysgol Sabbathol yno gan Mr. Jones, yn y flwyddyn 1789, yr hon oedd y gyntaf a sefydlwyd yn sir Northampton, a bu o fawr fendith i'r ardal. Yn Ngorphenaf, 1789, aeth Mr. Jones ar ymweliad â Chymru, er mwyn cryfhau ei iechyd; a thra yno, effeithiwyd yn ddwys ar ei feddwl wrth glywed y cwynion parhaus gan ei gydwladwyr am brinder Beiblau, fel y penderfynodd gynllunio rhyw foddion er diwallu eu hanghenion. Mewn llythyr at Mr. Charles, â'r hwn y daeth i gydnabyddiaeth tra yn y Dywysogaeth, ysgrifenai fel y canlyn:—"Mae y bobl yn marw o eisieu gwybodaeth. Ni ddichon yr Indiaid deillion fod mewn mwy o angen am addysg na phobl y wlad hon. Yr wyf yn gwybod hyn, canys ymddyddenais â llawer o honynt; ac mae yn boen i mi fy mod heb draethodau i'w rhanu yn eu plith." Y canlyniad o hyn fu sefydlu y Feibl Gymdeithas. Yn y flwyddyn 1810, cafodd guradiaeth Spratton, yn ychwanegol at Creaton, a gwasanaethodd yno am ddeunaw mlynedd. Cynnygiwyd hefyd iddo fywoliaeth Eglwysig yn sir Ddinbych, ac yr oedd ei awydd yntau yn fawr i wasanaethu ei gydgenedl; ond ar geisiadau taer ei noddwyr yn Lloegr, ni chymerodd hi. Bu farw y gwr enwog a defnyddiol hwn, ar ol cystudd byr o dri diwrnod, Ionawr 7, 1845, yn 93 oed; a chladdwyd ef yn mynwent Spratton, mewn llanerch a ddewisasai ei hun. Ennillodd Mr. Jones enw uchel fel awdwr amryw lyfrau buddiol a gwerthfawr. Yr oedd y llyfrau a gyhoeddodd yn Gymraeg, gan mwyaf, yn gyfieithiadau, y rhai sydd fel y canlyn:—1. *Rhodd i'ch Cymydog*, gan Syr Richard Hill.—2. *Gorphwysfa y Saint*, gan Baxter.—3. *Deuddeg o Bregethau ar Lyfr y Caniadau*, gan Romaine.—4. *Y Byd Cristionogol wedi ei ddadorchuddio*, gan Berridge.—5. *Pregeth ar farwolaeth Thornton*, gan Scott.—6. *Traethawd ar Fedydd Babanod.* Hwn yw yr unig waith a gyfansoddodd yn y Gymraeg, a bu yn achlysur dadl rhyngddo â'r Parch. Christmas Evans.—7. *Cyfaill Pechadur*, yr hwn a gyfieithodd pan yn 83 oed. Cyhoeddodd yn Saesonaeg ddauarbymtheg i gyd, y mwyaf o ba rai oeddynt, y *Scripture Directory*, yr hwn a gyrhaeddodd i ddeg o argraffiadau; *Jonah's Portrait*, ei brif waith, yr hwn a gyrhaeddodd i wyth o argraffiadau. Dau eraill—*Immanuel*, a *The Prodigal's Pilgrimage*—pedwar o argraffiadau. Y llyfr diweddaf a gyhoeddodd

ydoedd un yn erbyn "Heresi Rhydychain," pan yn 89 mlwydd oed.—*Llyfr y Jubili*, gan y Parch. T. Phillips, tudal. 81.

JONES, THOMAS, mab Edward Jones, Nant-eos, lle y ganwyd ef, yn 1618. Derbyniodd ei addysg yn Ngholeg Merton, Rhydychain, a chafodd y radd o A.C. cyn bod yn ddeunaw oed. Yn y flwyddyn 1637, aeth ar daith trwy Ffrainc ac Itali, yn y swydd o athraw teuluol i fab ac etifedd Syr Nathan Brent, a dychwelodd yn ol yn y flwyddyn 1649. Ymroddodd wedi hyny i efrydu y gyfraith, ac yn 1659, derbyniodd y gradd o Ddoethawr yn y broffeswriaeth hòno. Cyfansoddodd amryw draethodau ar bynciau cyfreithiol, y rhai sydd yn profi ei fod yn ysgolhaig Groegaidd a Hebreaidd gwych. Bu farw yn Llundain, o'r pla, yn y flwyddyn 1665.

JONES, THOMAS HUGH, Ysw., y meddyg esgyrn enwog, yr hwn y mae ei enw mor adnabyddus yn Ngheredigion, a rhanau eraill o Gymru, a anwyd yn y Neuadd Fawr, y 9fed o Awst, 1778. Ei rieni oeddynt Thomas ac Anne Jones, ac yr oedd ei dad yn feddyg tra medrus, ac yn hollol hunanddysgol. Derbyniodd elfenau cyntaf ei addysg yn y pentref cymydogol, Llanwnen, mewn ysgol a gedwid gan y Parch J. Harries, wedi hyny periglor Llanthetty, yn agos i Aberhonddu. Bu gyda y gwr hwnw nes oedd tua phedairarddeg oed. Wedi hyny aeth i Bardsey, yn agos i Gaerwrangon, lle y treuliodd dair blynedd eilwaith mewn ysgol gyfrifol, ac yna dychwelodd yn ol i'w fro enedigol, a dechreuodd lwyr ymroddi i'r gelfyddyd feddygol fel ei dad, a buan y cynnyddodd i raddau pell tuhwnt iddo ef. Bu ei yrfa yn hynod lwyddiannus, ac nid gormod yw dywedyd na chyrhaeddodd neb erioed o'r blaen yn y rhan hòno o'r wlad y fath enwogrwydd ac ymddiried cyffredinol. Cyrchid ato o bob rhan o'r Dywysogaeth, yn gystal ac o ranau eraill o'r deyrnas; a bu yn foddion i adferu ugeiniau i iechyd a chryfder—llawer o ba rai a roddasid i fyny fel yn hollol anobeithiol eu hachos gan brif feddygon y wlad. Nid yn unig yr oedd Mr. Jones yn nodedig am ei fedrusrwydd fel meddyg esgyrn, ond yr oedd hefyd yr un mor enwog am ei haelioni a'i gymwynasgarwch. Ni ddychwelai yr un tlawd oddiwrth ei ddôr yn siomedig os gwyddid ei fod yn wrthddrych gwir deilwng o elusen. Ni chodai byth un ddimai o dâl oddiar y tlodion a ddeuent i ymofyn ei gynnorthwy meddygol, ac yn fynych dychwelent yn ol nid yn unig wedi eu llwyr adferu, ond hefyd wedi derbyn yn helaeth o'i haelioni. Fel cymydog, yr oedd yn caru tangnefedd, a bu ei gynghorion doeth a phrydlawn yn foddion lawer tro i derfynu ymrysonau rhwng pleidiau a'u gilydd. Gwrandewid ef mewn materion o'r fath yn mhell tuhwnt i neb ag oedd yn y wlad. Fel meistr tir yr oedd Mr. Jones yn rhagori ar y cyffredin, ac yr oedd tynerwch ei galon a'i gydymdeimlad gwresog â phob achos o galedi yn ei wneud yn

anwyl gan ei ddeiliadon, gyda y rhai y byddai bob amser ar y telerau mwyaf cyfeillgar, a siaradant am dano hyd heddyw yn y modd mwyaf parchus. Er ei fod yn berchen llawer o gyfoeth, ac o ganlyniad yn meddu agoriad i gylchoedd uchaf a mwyaf urddasol cymdeithas, etto yr oedd yn mhell o afaelion balchder a hunanoldeb. "Un o'r bobl" y mynai efe gyfrif ei hun, ac yn eu mysg hwy y dymunai dreulio ei ddyddiau, oblegid—

Myrdd mwy dewisol gan ein cyfaill cun
Oedd llesio ERAILL na mwynhau ei HUN:
Mewn uchel stâd ni wnai anghofio'r tlawd—
Nis gallai lai na'i gyfrif megys brawd.
Yr oll a geisiai ef oedd byw yn mhlith
Ei ddeiliaid, i wasgaru'n gawod flith
Fendithion llawnder a chysuron hedd,
A chael yn at-dâl ddiolch yn eu gwedd.

Mewn gair, yr oedd yn foneddwr yn ngwir ystyr y gair, ac yn Gymro trwyadl—yn caru ei wlad, ei iaith, a'i genedl. Bu farw Ionawr 27ain, 1847, yn 69 mlwydd oed; ac yn ol ei ddeisyfiad ei hun, claddwyd ef mewn llecyn anghysbell o'i dir, yn agos i'r Neuadd Fawr, mewn bedd a barotoisai efe flynyddoedd yn flaenorol.

JONES, THOMAS (*Twm Sion Cati*), oedd fardd, hynafiaethydd, ac achydd enwog, genedigol o Dregaron, fel y tybir. Yr oedd yn byw tua diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg. Ei dad naturiol ydoedd Syr John Wynne o Wydyr. Mae y lluaws chwedlau a daenir am dano yn gwneud ei hanes yn un tra dyrys i'w olrhain. Modd bynag, nid oes dadl nad oedd yn ddyn o alluoedd meddyliol cryfion, ac o fywiogrwydd mawr. Ymddengys ei fod yn ei ddyddiau boreuol yn fath o yspeilydd pen-ffordd, ac mae y castiau a'r pranciau a briodolir iddo yn y cymeriad hwn bron yn anhygoel, fel mae ei enw wedi myned yn deuluaidd trwy y wlad oll. Cyhoeddwyd cyfrol yn ddiweddar o dan y teitl, *The Adventures of Twm Sion Cati*, yn yr hon y cofnodir llawer o'r chwedlau hyn. Ond fel y sylwa un, "Hwyrach fod mil a mwy o driciau yn cael eu gwneud, ac o ladrad yn cymeryd lle trwy offerynoliaeth eraill, a'r bai oll yn cael ei daflu ar gefn llydan Twm." Ond beth bynag fu Thomas Jones yn nhymmor gwyllt ei ieuenctyd, ymddengys iddo arwain bywyd tra gwahanol mewn amser diweddarach o'i oes. Priododd foneddiges gyfoethog, sef etifeddes Ystradffin, sir Gaerfyrddin, a darfu iddo lwyr adennill ei gymeriad mewn cymdeithas, oblegid cawn ef wedi hyny yn dal y swydd o ustus yr heddwch dros sir Frycheiniog, a bu fyw am yspaid yn nhref Aberhonddu. O herwydd ei wybodaeth eang, tybiai y werin ei fod mewn mynych gyfathrach âg ysbrydion drwg. Dygir y dystiolaeth uchel a ganlyn iddo gan y Dr. John Dafydd Rhys, yr hwn oedd yn gydoeswr a

chyd drefwr iddo :—" Pwy bynag a broffeso fod yn fardd achyddol, rhaid iddo wybod llinachau brenhinoedd a thywysogion, a bod yn gyfarwydd yn ngweithiau tri phrif feirdd Ynys Prydain, nid amgen Merlyn ab Morfryn, Merlyn Ambrosius, a Thaliesin Ben Beirdd. Ac am y wybodaeth o achyddiaeth, am wir ddisgyniad, eirfarwyddion, urddasau, a gweithredoedd clodwiw bonedd Cymru, y mwyaf clodfawr, galluog, a chywir, yn ddiammheuol, yw Thomas Jones, Porth y Ffynnon, ger Tregaron. A phan y cleddir ef, y mae yn ammheus iawn y ceir ei gystal am hir amser ar ei ol; ac yn wir, nid tebyg y ceir byth neb a ddaw yn agos ato mewn cyfarwydd-deb yn y wybodaeth hon."—Gwel *Linguæ Cymraecæ Institutiones Accuratæ*, 303. Yn *Meyrick's History of Cardiganshire*, gwelir dernyn a briodolir iddo ef, sef *Cywydd y Gofid*, wedi ei adysgrifio o hen lawysgrif yn meddiant y ddiweddar Mrs. Hughes, Llwynygroes, Llanwnen. Yn Nanteos, gwelir achlen o deulu y Corbet wedi ei lliwio a'i haddurno yn wych, o'i waith ef, fel y tybir.—*Meyrick's Cardiganshire*, 247—251; *Cambro Briton*, ii., 212.

LEWIS, DAVID, D.D., a anwyd yn mhlwyf Llanddeiniol, yn 1778. Wedi treulio rhyw gymaint o amser yn ysgol Ystradmeurig, aeth oddiyno i Rydychain, lle y graddiwyd ef. Wedi ei ordeinio bu yn gwasanaethu yn eglwys St. Iago, Piccadilly, Llundain, o dan Ddeon Caergaint, yr hwn a'i penododd i berigloriaeth Capel Archesgob Tenison. Ar ol hyny daeth yn brif athraw ysgol ramadegol yn Twickenham, yr hon a ddygodd yn mlaen am 18 mlynedd gyda llwyddiant nodedig, gan gadw nifer mawr o athrawon cynnorthwyol. Ar yr un pryd gwasanaethai gapel yn agos i Twickenham mewn cysylltiad âg Archddiacon Cambridge. Bu farw yn Twickenham, Ionawr 4, 1859, yn 81 mlwydd oed. Yr oedd Dr. Lewis hefyd yn dal y swydd o gaplan i *Royal Lodge* y *Free Masons* pan oedd Duc Sussex yn Feistr.

LEWIS, ERASMUS, ydoedd fab ieuengaf John Lewis, Ysw., Gernos, lle y ganwyd ef yn 1662. Ei hen dad-cu ydoedd y Trysorydd Llwyd. Derbyniodd ei addysg yn Ngholeg yr Iesu, Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn B.A. Penodwyd ef i ficeriaeth Llanbedr a Bettws Bledrws yn y flwyddyn 1695, a daliodd hwy am 50 mlynedd, sef hyd ei farwolaeth yn 1745. Gwelir cyfrol o'i bregethau mewn llawysgrif yn yr amgueddfa yn Llanbedr. Ystyrid Erasmus Lewis yn Gymreigiwr a bardd gwych yn ei amser. Yn y *Gwyliedydd*, cyf. ii., tudal. 47, gwneir cyfeiriad at ryw englynion o'i waith. Bu yn cynnorthwyo Shon Rhydderch i barotoi ei Eiriadur Saesneg a Chymraeg, yr hwn a argraffwyd yn yr Amwythig yn y flwyddyn 1725.—Gwel *Traethodydd*, cyf. ix., tudal. 62. Gwelir cofeb iddo yn Eglwys Llanbedr.

**Lewis, James**, a anwyd yn Dinas Cerdin, yn agos i Landyssul, yn y flwyddyn 1674. Cafodd ei ddwyn i fyny mewn teulu crefyddol, a derbyniodd addysg dda, naill ai o dan Mr. Jones, Brynllywarch, neu Mr. Protheroe, Llanymddyfri. Ordeiniwyd ef yn weinidog yn Pencadair tua'r flwyddyn 1706, fel olynydd i Mr. William Evans; a gwasanaethodd yr eglwys hòno a Pantycreuddyn gyda ffyddlondeb a llwyddiant rhyfeddol am un mlynedd a deugain. Bu farw, ar ol pedwar diwrnod o afiechyd, Mai 23ain, 1747, yn 73 mlwydd oed. Cyhoeddodd draethodyn mewn cysylltiad â Mr. Samuel, Pantteg, yn erbyn Mr. Jenkin Jones yr Arminiad, a chymerodd ran yn nghyhoeddiad amryw lyfrau buddiol yn yr iaith Gymraeg.

**Lewis, James**, ydoedd fab i Syr John Lewis, Abernant Bychan, yn mhlwyf Penbryn, Ceredigion. Yr oedd ei fam yn ferch i Syr Risiart Prys, o Gogerddan. Yn ystod y rhyfel gwladol, yr oedd yn swyddog yn myddin Siarl II.; ac ymddengys iddo enwogi ei hunan fel ag i deilyngu i gael ei anrhydeddu âg Urdd Marchog y Dderwen Freiniol. Yr oedd ei etifeddiaeth yn werth £700.

**Lewis, John**, o'r Glascrug, Ceredigion, oedd yn byw yn yr eilfed ganrif ar bymtheg, a chyhoeddodd yn 1646 lyfr o dan y teitl, *Contemplation on these Times, or the Parliament explained to Wales*, yn yr hwn y mae yn dynoethi, yn yr iaith gryfaf, ddifaterwch y llywodraethwyr eglwysig, a'u hesgeulusdra o ofalu am anghenion ysbrydol eu deiliaid.

**Lewis, John**, oedd yn byw yn Llanfychan, Llanwenog, yn y ganrif ddiweddaf. Mab ydoedd i Lewis Williams, yr hwn oedd orwyr i Dafydd ab John, a elwid "Saer y Cwm," yr hwn oedd fab i John Webley o Lanfychan. Ac am fod ei fab yn dilyn y gelfyddyd o saer, gelwid ei deulu mewn achyddiaeth yn "Dylwyth Saer y Cwm."—Gwel *Meyrick's Cardiganshire*, 192. Yr oedd John Lewis yn berchen ar y fferm lle yr oedd yn byw, sef y Ffwrneithin, yn sir Aberteifi, ac yr oedd yn fardd o gryn fri yn ei ddydd.—*Brython* am Alban Elfed, 1863.

**Lewis, John**, mab i Jenkin Lewis o Dalsarn, yn mhlwyf Trefilan. Derbyniodd ei addysg foreuol gan yr hyglod Davies, Castell-hywel, gyda'r hwn yr ymddengys iddo wneud cynnydd rhagorol, a chyrhaeddodd wybodaeth helaeth o'r Lladin a'r Groeg, ac yn enwedig yr olaf. Ymunodd â'r cyfundeb Wesleyaidd yn ieuanc, a thua'r flwyddyn 1812, dechreuodd bregethu yn eu mysg. Yn ngwanwyn 1813, gweinidogaethai yn nghylchdaith Dolgellau, a'r flwyddyn ganlynol, urddwyd ef yn weinidog rheolaidd. Penodwyd ef yn 1815 yn genadwr i'r India Orllewinol, o

dan arolygiaeth y Parch. Thomas Coke, LL.D., o Aberhonddu. Dydd Nadolig, y flwyddyn hòno, cychwynodd am faes ei lafur, a chyrhaeddodd Ynys Barbadoes, Chwefror 1, 1816. Ar ol ymsefydlu yno, ymroddodd yn ddiwyd i ddysgu ieithoedd y Dutsiaid, y Portugïaid, a'r Ffrancod, er gwneud ei hunan yn fwy defnyddiol i'r cenedloedd hyny. Penodwyd ef yn fuan i Spanish Town, Jamaica, lle y bu farw, Gorphenaf 17, 1816.

Lewis, John, diweddar ficer Llanrhystyd, a anwyd yn mhlwyf Llangwyryfon, yn y flwyddyn 1801. Addysgwyd ef yn Ysgol Ystradmeurig, o'r lle yr urddwyd ef gan Esgob Ty Ddewi yn ddiacon yn 1823, ac yn offeiriad yn 1824. Wedi hyny bu yn gweinidogaethu fel curad yn Hen Fynyw, Ciliau Aeron, a'r eglwysi cymydogol; ac yn 1843, penodwyd ef gan yr Esgob i ficeriaeth Llanrhystyd, lle y treuliodd 20 mlynedd, gan lafurio gyda llwyddiant mawr. Bu Mr. Lewis farw yn dra disymwth, Rhagfyr 21, 1862, ar fore Sul, pryd y derbyniodd ergyd gan y parlys, yr hyn a'i hanalluogodd ar unwaith, ac a'i symudodd ymaith er galar i'w deulu lluosog a chylch eang o gyfeillion ac edmygwyr. Nis gallwn wneud yn well na dyfynu y sylwadau canlynol a ysgrifenwyd ar yr achlysur hwnw gan un a fu yn cydweinidogaethu âg ef am flynyddoedd meithion:—"Yn marwolaeth ddisyfyd y Parch. John Lewis, Ficer Llanrhystyd, gellir yn briodol ddweyd, fod "gwr mawr wedi syrthio yn Israel"—un a berthynai i'r dosbarth cyntaf o offeiriaid gweithgar a defnyddiol Deheudir Cymru. Ni fu offeiriad erioed yn cael ei garu yn fwy gan ei bobl, ac feallai na fu yr un chwaith erioed yn teilyngu hyny yn fwy:—un di-ildio yn ei ymdrechion o blaid eu lles ysbrydol, diflino yn ei sel, a diorphwys yn ei ymweliadau gweinidogaethol. Mae yr eglwys ysplenydd, yr hon sydd ar unwaith yn destun edmygedd yr ymwelydd, yn addurn i'r sir, ac yn gartref crefyddol uwchlaw dau cant o gymunwyr, yn ddyledus iddo am ei chyfodiad; ac os bu iddo elynion o gwbl pan yn dilyn ei swydd fugeiliol (a pha waith da a pha ddyn da a fu erioed hebddynt?) y gelynion hyny oeddynt yn mhlith y cyntaf i dystio eu parch a'u hedmygedd o'i nodweddiad pan y bu farw. Ni fu offeiriad yn fwy pryderus am adeiladaeth ei bobl erioed nag ef; a chymerai gweinidogion enwog o'r De a'r Gogledd ran yn fynych yn ei Gyfarfod Offeiriadol blynyddol, pryd y byddai tyrfaoedd anghyffredin o fawr bob amser yn gwrando. Yr oedd ei bregethau yn hynod darawiadol, yn dra efengylaidd, a derbynient y gwrandawiad mwyaf astud yn ddieithriad, ac nid oes brin eglwys o fewn cylch o ugain milldir lle na bu ef yn pregethu i gynnulleidfaoedd lluosog ac astud. Yr oedd yn briod tyner, ac yn dad serchog, a gadawodd weddw a phedwar mab a phedair merch i alaru eu colled anadferadwy. Os gallai rhywbeth ysgafnhau ychydig ar eu gofid, a lliniaru eu hiraeth, feallai y gallai y ffaith hòno, mai ei angladd ef oedd y mwyaf a

welwyd yn myned i eglwys Llanrhystyd yn nghof yr hynaf o drigolion y lle, yr hyn ar unwaith sydd yn brawf o'r parch mawr a chyffredinol a delid iddo gan bob dosbarth o'r trigolion."

Lewis, Morris, a drowyd allan gan y Lledaenwyr dan Cromwell, o Bersoniaeth Rhosdie, yn y sir hon, am "annigonolrwydd i'r swydd."—*Walker's Sufferings of the Clergy.*

Lewis, Thomas, oedd yn byw ar y cyntaf yn Castell-hywel, ac wedi hyny yn yr Ynyswen, Llanegwad. Efe oedd awdwr *Caniadau Duwiol,* cyhoeddedig yn 1796, ac a argraffwyd yn Nghaerfyrddin gan Ioan Daniel. —*Traethodydd,* 1853.

Lewis, William, boneddwr gwladgarol a dysgedig, a anwyd tua diwedd yr ail ganrif ar bymtheg, yn Llwyn Derw, yn agos i Gastellnewydd Emlyn. Dywedai awdwr *Drych y Prifoesoedd* am dano, ei fod yn meddu un o'r llyfrgelloedd goreu yn y wlad. Cyfieithodd Mr. Lewis, yn nghyda Mr Pryce, Rhydybene, y llyfr canlynol:—"*Traethawd ar Ddammeg y Mab Afradlon,* gan J. Goodman. Ac a gyfieithwyd gyda dirfawr boen a diwydrwydd gan y diweddar a'r dysgedig Mr. W. Lewis, o'r Llwynderw, a Mr. Evan Pryce, Rhydybene. Argraffwyd yn Nghaerfyrddin, gan Isaac Carter, y Printiwr, 1725—6." Disgynydd o Mr. Lewis ydyw y Milwriad Lewis, Llysnewydd.

Llio, oedd ferch Rhydderch ab Ieuan Llwyd o Ogerddan, i wallt yr hon y canwyd cywydd gan Dafydd Nanmor. Yr oedd yn fenyw nodedig am ei phrydferthwch.

Lloyd, David, Galltyrodyn, oedd offeiriad a bardd yn byw tua chanol y ganrif ddiweddaf, ac yr oedd yn ddisgynydd o Dafydd ab Llywelyn Llwyd, yr hwn oedd yr aelod cyntaf a anfonwyd o Geredigion i'r senedd yn amser Harri VIII. Ar waith Herbert Lloyd, Ysw., Ffynnonbedr, yn cyflwyno anerchiad oddiwrth fwrdeisdrefwyr Ceredigion i Sior y Trydydd, ar ei esgyniad i'r orsedd, tua'r flwyddyn 1760 neu 1761, pryd y crëwyd ef yn farwnig, cyfansoddodd y Parch. D. Lloyd (yr hwn oedd yn perthyn i'r blaid wleidiadol wrthwynebol i'r barwnig) y llinellau a ganlyn:—

"A would-be-member brought of late
From borough little known,
In an address of early date
His incense to the throne.

Soon tidings came where Teify flows,
Through tyrant harass'd land,

That Lloyd to envied honours rose
  And kissed the Royal hand.

O! had our Sovereign's gracious touch
  But cured him of his evil,
St. George could never boast of such
  A triumph o'er the devil."

Rai blynyddau ar ol hyn, fel math o gydnabyddiaeth am ffraethineb y bardd, darfu i'r barwn ei gymeradwyo i sylw yr esgob i lenwi bywoliaeth werthfawr Llanarth, a ddaethai yn wag y pryd hyny.—*Meyrick's Cardiganshire,* tudal. 150, 209, 210.

LLOYD, DAVID, LL.D., ydoedd weinidog enwog yn mysg yr Undodiaid. Ganwyd ef a threuliodd flynyddau cyntaf ei oes yn Llandyssul. Yr oedd yn aelod crefyddol gyda'r Undodiaid yn Pantydefaid, lle yr oedd eglwys luosog o dan ofal y Parch. John Thomas. Pan tuag ugain oed derbyniwyd ef yn fyfyriwr i Athrofa Caerfyrddin, ac ennillodd yno ryw gymaint o enwogrwydd fel ysgolhaig. Wedi treulio ei dymmor penodedig yn Nghaerfyrddin, aeth drosodd i Scotland—i Brifysgol Glasgow, ac ar ei ymadawiad oddiyno, anrhydeddwyd ef â'r gradd o Athraw y Celfyddydau. Yn 1834, pan aeth y swydd o athraw clasurol yn Ngholeg Caerfyrddin yn wag, etholwyd ef yn unfrydol iddi. Yn mhen rhai blynyddau ar ol hyny, anrhydeddwyd ef yn mhellach â'r teitl o LL.D.—*Doctor of Laws*—gan yr un Brifysgol. Yn ystod yr amser y bu yn benaeth y coleg, bu ei weithgarwch a'i lafur diflino yn foddion i ychwanegu cryn lawer at enwogrwydd yr hen sefydliad hwnw, a throwyd allan o hono o bryd i bryd luaws mawr o weinidogion ag sydd yn addurn hyd heddyw i'r grefydd a broffesant. Fel gweinidog yr efengyl bu Dr. Lloyd yn hynod ymroddgar ar hyd ei oes i daenu ac amddiffyn yr hyn a ystyriai efe yn wirionedd. Efe fu yn offerynol i godi yr addoldy hardd sydd gan yr Undodiaid yn Nghaerfyrddin, lle y pregethai yn gyson, a hyny hyd o fewn deufis i'w farwolaeth. Yr oedd yn dwyn mawr sel o blaid egwyddorion yr enwad y perthynai iddo. Ond nid oedd hyny yn cyfodi mewn un modd oddiar bleidgarwch a phenboethni, ond oddiar ddwfn argyhoeddiad fod yr hyn a bleidiai yn Ysgrythyrol. Ac yr oedd ei gydwybodolrwydd a'i onestrwydd dysyml, yn nghyda'r hynawsedd Cristionogol oedd yn ei nodweddu, yn peri ei fod ar yr un pryd yn uchel ei barch gan y rhai a wahaniaethent oddiwrtho mewn barn. Yr oedd iddo luaws o gyfeillion gwresog yn mysg gweinidogion y gwahanol enwadau. Fel prawf o hyn nid oes eisieu ond cyfeirio at y dorf fawr o honynt a ddaethant o'r dref a'r gymydogaeth, yn nghyda rhanau pellenig y wlad, i'w hebrwng i dŷ ei hir gartref. Cymerai ddyddordeb neillduol yn llwyddiant pob sefydliad elusengar a dyngarol yn y dref a'r gymydog-

aeth, megys y *Lancasterian School*, y Clafdy, y *Literary Institution*, &c.; ac yr oedd yn is-lywydd yn rhai o honynt er pan sefydlwyd hwy. Yr oedd cymwynasgarwch yn un o'r elfenau dysgleiriaf yn ei gymeriad, ac yr oedd ei garedigrwydd a'i haelioni yn ddiarhebol. Profodd llawer o'r myfyrwyr oedd dan ei ofal ei garedigrwydd mewn modd arbenig—ymddygai tuag atynt yn fwy fel tad nag fel athraw; cynnorthwyai hwynt pan yn gyfyng eu hamgylchiadau, dysgai rai yn hollol am ddim, ac estynai foddion cynnaliaeth i eraill o drysorfeydd cyhoeddus a fwriedid i'r perwyl hyny. Ond nid ydym am awgrymu yma, er ei holl ragoriaethau, ei fod yn ddifai. Na, nid ydym yn meddwl am fynyd ei fod heb ei ddiffygion a'i wendidau mwy na rhyw Gristion arall. Un o'r rhai hyn ydoedd ei duedd i adael ffordd i'w dymherau, y rhai oeddynt yn naturiol yn lled gyffrous, yn lle eu cadw o fewn terfynau priodol. Gellid gweled hyn i raddau yn rhai o'i ysgrifeniadau ar bynciau dadleugar, ac yr oedd hyn, yn nghyda'i ddull brysiog a lled anochelgar o draethu ei feddwl, yn rhoddi mantais yn fynych i'w wrthwynebydd. O ran ei gorffolaeth, yr oedd pan yn ieuanc yn deneu ac o faintioli cyffredin, ac yn gloff o un troed er pan yn blentyn; ond yn mlynyddau diweddaf ei fywyd daeth yn lled gorfforol.

LLOYD, DAVID, oedd weinidog tra enwog yn mysg yr Ymneillduwyr yn Llwynrhydowen a'r eglwysi cymydogaethol tua chanol y ganrif ddiweddaf. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn y Coleg Henaduriaethol, Caerfyrddin; ac yn y flwyddyn 1742, pan yn 18 oed, urddwyd ef yn weinidog ar yr eglwys uchod yn nghyda Galltyplaca a Chiliau Aeron. Daeth yno yn ganlyniedydd i'r enwog Jenkin Jones, merch yr hwn a briododd. Er ei fod yn Ariad proffesedig, ac felly yn coleddu egwyddorion croes i fwyafrif ei gydwladwyr, etto o herwydd ei ddysg uchel, ei ddidwylledd, yn nghyda mwyneidd-dra ei dymher, derbyniai barch cyffredinol ganddynt. Ysgrifenodd gryn lawer, ond ni chyhoeddwyd dim o'i eiddo hyd ryw saith mlynedd ar ol ei farwolaeth, sef llyfr yn dwyn y teitl, "Gwaith Pryddawl y diweddar Barchedig Dafydd Llwyd, Gweinidog Eglwys Llwynrhydowen, yn sir Aberteifi. Caerfyrddin, argraffwyd gan J. Ross, yn Heol Awst, 1795." Cymerwyd ei bregethau a'i ysgrifeniadau eraill gydag un o'i berthynasau a ymfudodd i'r America. Bu farw yn y flwyddyn 1788, yn 54 oed. Canlynwyd ef yn y weinidogaeth gan yr hybarch David Davies, Castell-hywel. Yr oedd yn daid i'r Parch. Dr. Lloyd, diweddar benaeth y Coleg Henaduriaethol.

LLOYD DAVID, oedd frodor o Lanwenog, ond ymfudodd oddiyno i'r America tua diwedd yr ail ganrif ar bymtheg, ac ymsefydlodd yn Nhalaeth Pennsylfania, lle yr oedd amryw o'i gydwladwyr a'i berthynasau

wedi ymsefydlu yn flaenorol. Trwy ddiwydrwydd a dyfalbarhad, daeth o'r diwedd yn brif ynad y dalaeth hòno. Iddo ef y cyflwynodd yr anghymharol Abel Morgan ei Gydgordiad neu Fynegair Cymreig, sef y cyntaf a gyhoeddwyd erioed, a'r hwn a argraffwyd yn y flwyddyn 1730.

LLOYD, EDWARD, ydoedd fab Edward Lloyd, Ysw., Llanforda, yn agos i Groesoswallt, o Bridget, ail ferch — Price, Ysw., Glanffraid, yn agos i Fro-gynin, lle y ganwyd ef yn y flwyddyn 1660. Mewn perthynas i'w haniad, dywed ef ei hun, "Nid wyf yn hòni fy hun yn Sais, ond hen Frytwn, ac yn ol yr achau Cymreig yn deilliaw o du fy nhad oddiwrth Elldyr Lydanwyn fab Meirchion fab Ceneu, fab Coel Codebog, yn nhalaeth Rheged yn Scotland, yn y bedwaredd ganrif cyn i'r Saeson ddyfod i Ynys Brydain." Pan yn 22 oed, anfonwyd ef i Goleg yr Iesu, Rhydychain; ac yn y flwyddyn 1684, penodwyd ef yn is-geidwad y Llyfrgell Asmoleaidd, ac yn 1690, yn brif-geidwad. Yn y swydd yma, mwynhai gyfleusderau rhagorol i ddilyn yn mlaen ei hoff efrydiaeth, sef ieithyddiaeth ac anianyddiaeth, ac ysgrifenai yn fynych i'r *Philosophical Transactions.* Yn 1693, casglai ddefnyddiau yn dwyn cysylltiad â Chymru, ar gyfer yr argraffiad newydd o *Camden's Brittania by Gibson.* Yn 1699, cyhoeddodd ei *Lithophylacii Britannica Iconographia*, o ba un yr ymddangosodd ail argraffiad yn 1760. O'r flwyddyn 1696 i 1701, teithiodd trwy Gymru, Iwerddon, Ysgotland, Cernyw, a Llydaw, er cael golwg ar hen lawysgrifau y gwledydd hyny, a chasglu defnyddiau yn nghyd er ysgrifenu ac egluro hanes boreuol Prydain, ac ieithoedd y gwahanol lwythau a'i poblogai. Yn y flwyddyn 1707, cyhoeddodd i'r byd ffrwyth ei ymchwil maith a llafurus dan y teitl *Archæologia Britannica*—cyfrol fawr yn cynnwys deg o brif destunau. Ond nid oedd hon ond rhan fechan o'r gwaith mawr a fwriadai i ddilyn, sef cyfrol arall i gynnwys *Lexicographical History of British persons and places that are to be found in ancient records.* Trwy ei farwolaeth gynnarol amddifadwyd y byd o'r trysor llenyddol gwerthfawr hwn. Yn 1701 graddiwyd ef yn A.C. yn Rhydychain, ac yn 1708 etholwyd ef yn Gymrawd o'r Gymdeithas Frenhinol; a'r gwanwyn dyfodol penodwyd ef i lanw y swydd o "*Esquire Beadle*" mewn duwinyddiaeth yn yr un athrofa. Ond ni orfucheddodd yr anrhydedd hwnw ond ychydig amser, oblegid bu farw yn niwedd Mehefin, 1709, a chladdwyd ef yn mynwent eglwys St. Michael —claddfa a berthynai i aelodau Coleg yr Iesu. Yr oedd ei gasgliad o lawysgrifau ar bynciau hanesyddol a hynafiaethol Cymru a'r Iwerddon yn gynnwysedig o uwchlaw 40 cyfrol unplyg, 10 cyfrol pedwarplyg, ac uwchlaw 100 o rai llai eu maint. O herwydd gwrthod o Goleg yr Iesu eu prynu, gwerthwyd hwy yn 1713 i Syr Thomas Seabright, Beechwood, Hertfordshire, yn llyfrgell yr hwn yr arosasant hyd 1807, pryd yr aethant

i feddiant Syr Watkin Williams Wynne, Barwnig. Rai blynyddau wedi hyny anfonwyd y rhan fwyaf o honynt i Luudain i'r dyben o'u rhwymo; ond yn anffodus hwy a ddyfethwyd yno gan dân a dòrodd allan yn nhŷ y person oedd yn eu cadw, ac felly amddifadwyd y byd o'r cwbl yn mron o ffrwyth llafur y gwladgarwr trylen Edward Llwyd. Dyfynwn y sylwadau canlynol o eiddo Mr. Lewis Morris, allan o luaws o eiddo enwogion eraill, y rhai yn unfrydol a ddygant dystiolaeth uchel iddo fel gwr dysgedig:—" Mr. Edward Llwyd nid oedd islaw i un gwr yn Mhrydain o ran ei wybodaeth o hanesiaeth anianyddol, ac mewn ieithoedd yr oedd ganddo athrylith aruthrol. Nid oedd ganddo ddim gwybodaeth am farddoniaeth Gymreig; canys y mae genym wrth law rai cynnygiadau o'i waith yn y ffordd hòno, oddiwrth y rhai y mae'n eglur nas ganwyd ef yn brydydd mwy na Cicero. Hyn a fu yn attaliad iddo wneuthur dim defnydd o waith y beirdd, canys nid oedd ganddo fawr archwaeth am eu gorchestion na'u tystiolaethau. Ond ei *Archæologia Britannica* sydd yn drysorfa werthfawr o'r iaith Geltaidd, ac a fuasai yn fwy felly oni buasai fod ganddo ormod o heiyrn yn y tân."—*Owens' British Remains*, 8vo., London, 1777. *New and General Biographical Dictionary*, 8vo., London, 1798, vol. ix.

LLOYD, HUGH, D.D., a anwyd yn sir Aberteifi, yn y flwyddyn 1589. Derbyniwyd ef i Goleg Oriel, Rhydychain, yn 1607, lle derbyniodd ei radd yn y Celfyddydau. Bu eilwaith yn Ngholeg yr Iesu, ac etholwyd ef mewn amser yn Gymrawd o hono. Penodwyd ef i fywoliaeth Llangadog, Brycheiniog, ac yn Archddiacon Tyddewi; ac yn y flwyddyn 1638, derbyniodd ei radd o D.D. Gan ei fod yn deyrngarwr mor aiddgar, dyoddefodd gryn lawer o erledigaeth yn ystod y Gwrthryfel mawr, taflwyd ef o'r fywoliaeth, a chrwydrai o'r naill fan i'r llall er mwyn diogelwch. Fel math o at-daliad iddo am ei ddyoddefiadau, ac oblegid ei gymhwysderau diamheuol i'r swydd, cysegrwyd ef yn Esgob Llandaf, Rhagfyr 2, 1660, gan Archesgob Caerefrog, ac Esgobion Llundain, Rochester, Salisbury, ac Worcester. Bu farw yn y flwyddyn 1667.

LLOYD, JENKIN, A.C., oedd fab hynaf ac etifedd David Lloyd, Ysw., o'r Fairdref-fawr, Llandyssul. Yr oedd yn un o'r Profwyr yn y Weithred er lledaenu yr Efengyl, ac yn ol rhai, yn gaplan i Cromwell. Gweinidogaethai yn ei blwyf ei hun, ond yn amser y werin-lywodraeth trodd allan yn bregethwr teithiol. Yn y flwyddyn 1658, cyhoeddodd gyfrol yn Saesoneg, dan y teitl, *Christ's Valedictions; or Sacred Observations on the Last Words of our Saviour delivered on the Cross.* Hwn mae yn debyg oedd yr unig waith a gyhoeddodd, ac ymddengys oddiwrtho fod ei awdwr nid yn unig yn ysgrifenydd galluog a medrus, ond hefyd yn dra efengyl-

aidd ei syniadau. Ni wyddis yn sicr yr amser y bu farw, ond mae yn lled debygol mai ryw amser cyn rhoddi Deddf yr Unffurfiad mewn grym, yn y flwyddyn 1662.

LLOYD, HUGH, oedd fab Llywellyn Llwyd ab Dafydd ab Llywellyn, o Gastell-hywel, ac yr oedd yn hanu o Cadifor ab Dyfnwal yn y ddeuddegfed ganrif, trwy Tomos Gruffydd, arglwydd Llanbedr. Efe oedd sylfaenydd teulu enwog Maesyfelin, ond cartrefai y pryd hyny yn Llanllur. Yr oedd yn llenwi y swydd o uchel sirydd Ceredigion yn y flwyddyn 1567. Bu iddo dair merch a phedwar mab. Y meibion oeddynt Morgan, Gruffydd, Tomos, a Risiart.

LLOYD, MORGAN, mab hynaf y diweddaf, a barhaodd yn mlaen linach Llanllur, a bu yn sirydd ei sir enedigol ddim llai na phedair o weithiau, sef yn y blynyddoedd 1576, 1584, 1594, a 1599. Priododd Elizabeth, merch a chydetifeddes Lewis ab Henri ab Gwilym. O Morgan Llwyd yr hanodd teuluoedd Wernfylig a Ffoshelig.

LLOYD, GRIFFITH, oedd ail fab Morgan Llwyd ab Huw o Lanllur. Derbyniodd ei addysg yn Ngholeg yr Iesu, Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn D. LL. Cafodd hefyd y Broffeswriaeth Freiniol o D. C. L., oddiwrth yr hon y derbyniai £40 yn flynyddol. Penodwyd ef i'r swydd hon, Mai 16, 1577. Bu am beth amser hefyd yn Ganghellwr Esgobaeth Ty Ddewi. Dyrchafwyd ef yn Benaeth Coleg yr Iesu yn 1572, 1576, a 1584. Yr oedd yn neillduol haelionus i'r coleg hwn, a gadawodd yn ei ewyllys amryw ffermydd yn mhlwyfi Nantcwnlle a Llanddewi-brefi tuag at ei waddoli. Priododd ferch a chydetifeddes John Restal, yr hwn oedd Brif Farnydd Siroedd Deheuol Cymru; a bu yntau ei hunan yn Brif Farnydd Siroedd Maesyfed, Brycheiniog, a Morganwg.—*Arch. Cambrensis*, 1860. Bu farw Tachwedd 26, 1586, a chladdwyd ef yn eglwys St. Bennet, Llundain.—Gwel *Bp. Kenneth's Biographical Sketches in the Lansdowne MSS., British Museum; Wood's Athenæ Oxonienses.*

LLOYD, THOMAS, trydydd mab Morgan Llwyd, a ddygwyd i fyny i'r weinidogaeth. Derbyniodd ei addysg, mae yn debyg, yn Rhydychain, lle graddiwyd ef yn y Celfyddydau. Cafodd ei benodi yn drysorydd Ty Ddewi yn y flwyddyn 1574, a bu fyw yn hir i wasanaethu y swydd hòno. Priododd â Frances, merch Marmaduke Middleton, Ysw., a chwaer Marmaduke Middleton, Esgob Ty Ddewi. Bu farw yn y flwyddyn 1612, a chladdwyd ef yn yr Eglwys Gadeiriol, lle y gweinyddasai am gymaint o amser. Mae ei fedd-faen i'w weled yno yn awr ar yr ochr ogleddol i'r allor, gydag argraff Lladinaidd arno. Priododd merch y Trysorydd Llwyd

—Lettice, â Thomas Lewis, Ysw., Gernos, Ceredigion, ac o'r undeb yma yr hanodd y Parch. Erasmus Lewis, B.A., yr hwn a fu am 50 mlynedd yn Ficer Llanbedr a Bettws Bledrws.

LLOYD, SYR MARMADUWC, oedd fab i'r uchod, ac efe mae yn debyg oedd y cyntaf o'r Llwydiaid i ymsefydlu yn Maesyfelin. Dygwyd ef i fyny yn gyfreithiwr, ac yr oedd yn aelod o'r Deml. Gwnaed ef yn Brif Farnydd Brawdlysoedd Maesyfed, Brycheiniog, a Morganwg, ac yn un o'r barnwyr o flaen Cadeirydd Cynghor ei Fawrhydi yn nghylch y Terfynau. Yr oedd hefyd yn Brif Ynad Aberhonddu. Gwnaed ef yn Farwn mae yn debyg ar ei ddyrchafiad i fod yn Brif Farnydd. Yr oedd Syr Marmaduwc yn cydoesi â Ficer Pritchard, Llanymddyfri; ac oddiwrth lythyr a ymddengys yn hanes bywyd y Ficer, yn yr argraffiad newydd o *Canwyll y Cymry*, gwelir eu bod ar delerau pur gyfeillgar. Mae y llythyr hwn wedi ei ddyddio Mawrth 21ain, 1626, ac mae yn gyfansoddiad lled hynod a digrifol. Priododd Syr Marmaduwc â Mari, merch John Gwyn Stedman, Ysw., Ystrad Fflur, yr hon oedd yn chwaer i Lettice, mam Syr John Vaughan, Trawsgoed, Frif Farnwr Llys y *Common Pleas.* O'r briodas hon bu iddynt naw o blant—tri mab a chwech o ferched, y rhai a briodasant i rai o'r teuluoedd goreu yn Neheudir Cymru. Eu henwau oeddynt—Francis; Marmaduwc (am yr hwn y gwelir isod); Walter; Jane, yr hon a briododd Tomos Llwyd, Ysw., Plas Llanfaircludogau. O'r llinach yma y tardda teulu Dolau Cothi—Mr. Johnes yw yr wythfed ddisgynydd o Syr Marmaduwc; Margaret, briododd John Vaughan, Ysw., Llanelly; Anne, briododd Nicholas Williams, Ysw., Rhydodyn; Letitia, briododd Phillip Vaughan, Ysw., Timsarau; Elizabeth, briododd Roger Vaughan, Ysw., Merthyr, Brycheiniog; Penelope, briododd Richard Herbert, Ysw., Cwrt Henry. Ni wyddis gyda sicrwydd pa amser y bu y gwr hwn farw; ond oddiwrth hen weithred sydd yn awr ar gael, gwelir ei fod yn fyw yn y flwyddyn 1640.

LLOYD, FRANCIS, (Syr), mab y diweddaf. Etholwyd ef yn aelod dros sir Gaerfyrddin yn ystod bywyd ei dad. Cafodd ei ddyrchafu yn Drefnydd ty Siarl I, a'i wneud yn Farchog. Yr ydoedd Syr Francis yn deyrngarwr brwdfrydig, a dyoddefodd lawer oblegid ei ymlyniad wrth achos y brenin. Ymneillduodd o'r Senedd yn y flwyddyn 1643, a gorfu iddo dalu dirwy drom, sef £1033, i Neuadd y Gofaint Aur. Yr ydoedd ef a'i frawd, Marmaduwc, yn mrwydr St. Ffagan, yr hon a ymladdwyd Mai 8, 1648, gan gymeryd plaid eu brenin. Ar ol yr Adferiad gwnaed Syr Francis yn un o foneddigion Cyfrin-gynghor Siarl II. Priododd yn gyntaf â Mari, ferch John Vaughan, Iarll Carbery (mab yr hwn a noddodd Jeremy Taylor), Gelli Aur, ond ni fu iddo blant o'r undeb yma.

Priododd yn ail â Bridget, ferch Richard Leigh, Ysw., Caerfyrddin, (maer am 1666), o'r hon y cafodd, yn ystod bywyd ei wraig, ddau fab, Lucius a Charles, ac un ferch, Frances, ar ol priodi. O herwydd marw o Lucius o flaen ei dad, daeth yr etifeddiaeth i feddiant yr ail fab,—

LLOYD, CHARLES, (Syr) yr hwn a wnaed yn Farwn gan y Frenhines Anne, ar y 10fed o Ebrill, 1708. Priododd yn gyntaf â Jane, ferch ac etifeddes Morgan Llwyd, Ysw., Greengrove, yr hon a fu farw Gorphenaf 20fed, 1689. Mae cof-faen o fynor gwyn hardd i'r foneddiges hon i'w weled yn nghangell eglwys Llanbedr. Priododd Syr Charles, yn ail, â Frances, ferch Syr Francis Cornwallis, Barwn, Abermarlais. Dilynwyd ef yn yr etifeddiaeth gan ei fab,—

LLOYD, CHARLES, (Syr), yr hwn a fu am dymmor yn A.S. dros fwrdeisdrefi Aberteifi, yn nheyrnasiad Gwilym III. Bu yn sirydd Aberteifi yn 1618, a Chaerfyrddin yn 1716. Bu farw Rhagfyr 28, 1723, yn 61 mlwydd oed.

LLOYD, WALTER, o Ffynnonbedr, oedd yn aelod seneddol dros sir Aberteifi o'r flwyddyn 1734 i 1741. Dygwyd ef i fyny yn gyfreithiwr; a daeth o'r diwedd yn Brif Gyfreithiwr dros siroedd Caerfyrddin, Penfro, ac Aberteifi. Priododd tua'r flwyddyn 1713, âg Elizabeth Evans, Ffynnonbedr, ac yno wedi hyny y gwnaeth ei gartref. Bu iddynt naw o blant. Dilynwyd ef yn yr etifeddiaeth gan ei fab hynaf,—

LLOYD, JOHN, yr hwn a fu yn A.S. dros sir Aberteifi o'r flwyddyn 1747, hyd ei farwolaeth yn 1755. Daliodd hefyd swydd ei dad fel Cyfreithiwr Cyffredinol. Priododd yn y flwyddyn 1750, â merch Syr Isaac Le Hoop, a derbyniodd gyda hi £80,000 o waddol. Yn yr un flwyddyn hefyd, daeth i feddiant o ystad Maesyfelin trwy ewyllys ei frawd-yn-nghyfraith, Syr Lucius Christianus Llwyd. Bwriadai Sior II. ei wneud yn farchog dan y teitl o Arglwydd Brynhywel (oddiwrth enw hen drigfan Llwydiaid Lanbedr), ond o herwydd iddo farw yn 1755, ni chafodd yr anrhydedd hwnw. Yr oedd ei wraig hefyd yn *Maid of Honour* yn llys ei Fawrhydi. Gan i John Llwyd farw yn ddiblant, dilynwyd ef yn yr etifeddiaeth gan ei frawd,—

LLOYD, HERBERT, (Syr), yr hwn hefyd a etifeddodd ystadau Llechwedd-deri a Maesyfelin. Derbyniodd hefyd un y Foelallt gan ei dad, ac yno y bu fyw am dymmor. Bu yn briod ddwy waith; ei ail wraig oedd Anne, merch William Powell, Nanteos, a gweddw Richard Stedman, Ystrad Fflur. Gwnaed ef yn Farwn gan Sior III. yn y flwyddyn 1763

(Ionawr 26ain). Dywed Meurig, yn ei *Hanes Ceredigion*, iddo dderbyn yr anrhydedd yma ar ei waith yn cyflwyno anerchiad llongyfarchiadol i'w Fawrhydi ar ei esgyniad, oddiwrth fwrdeisdref Aberteifi. Yr oedd hyn modd bynag gryn amser ar ol esgyniad y brenin i'r orsedd. Cynnrychiolodd Syr Herbert fwrdeisdrefi Ceredigion yn y senedd o'r flwyddyn 1761 i 1768. Bu farw Awst 19eg, 1769, yn Llundain, a chladdwyd ef yn Llanbedr ar y 3ydd o Fedi. Claddwyd ef yn y nos, mewn rhwysg mawr. Goleuid yr holl ffordd o'r palas i'r eglwys gan fflam-oleuadau (*torches*). Yr oedd Syr Herbert yn wr o ddylanwad ac awdurdod mawr yn ei ardal, ac ymddengys nad oedd chwaith yn fyr o'i ddefnyddio. Yr oedd ei air yn gyfraith, a llywodraethai ei israddiaid a'i ddeiliadon â gwialen haiarn. Yr oedd ei ddull o fyw yn Ffynnonbedr ar raddfa gyffelyb i eiddo yr hen Farwniaid. Pan yr elai yn ol ac yn mlaen o Lanbedr i Lanymddyfri, ar ei ffordd i Lundain, byddai ei denantiaid yr holl ffordd yn dyfod yn osgorddlu i'w hebrwng yn mlaen gyda'u ceffylau a'u hychain. Ymddengys na fu ei undeb â'r wraig ddiweddaf yn hapus iawn, a threuliodd hi ei hoes mewn canlyniad gan mwyaf yn y Foelallt, Llanddewi brefi, a chladdwyd hi yn Ystrad Fflur, lle gwelir cof-faen hardd iddi. Ati hi y cyfeiria Edward Risiart yn un o'i Fugailgerddi pan y dywed:—

> "Daw Anna i dywynu cyn nemawr cân imi,
> Di weli blwy' Dewi'n blodeuo."

Nid oedd Syr Herbert, modd bynag, heb fod rhai rhinweddau da yn perthyn iddo. Fel hyn y canai bardd Castell-hywel am dano:—

> "Y gorau'i ddoniau o ddynion—aned,
> A'r mwyna o gyfeillion;
> Tarrig lew o'et i'r glewion,
> Ond i'r gwâr mor wâr a'r o'n."

Gwel *Archæologia Cambrensis*, 1859; *Hanes Llanbedr*, gan y Parch. D. Ll. Isaac; *Lewis Dwnn's Heraldry, &c.*

Llwyd, Llywarch, oedd frenin Ceredigion tua diwedd yr wythfed ganrif, a thad Morydd.—*Myf. Arch.*, ii., 477.

Llwyd, Siancyn Dafydd, oedd un o arglwyddi Llanbedr yn y ddeuddegfed ganrif.—Gwel *Rhys Dafydd Thomas*.

Llywellyn ab Gwilym Fychan, oedd dywysog enwog, gwladgarwr gwresog, a bardd medrus, yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Yr oedd yn byw yn y Ddolgoch, Cryngae, ac Emlyn, a gelwid ef yn gyffredin yn arglwydd Ceredigion. Yr oedd yn noddwr mawr i'r Eisteddfodau, a chynnaliwyd amryw o honynt yn ei balasau; ac yn un o honynt, a gyn-

nelid yn Emlyn, y canodd Dafydd ab Gwilym ei duchangerdd i Rhys Meigan, yr hon a effeithiodd gymaint ar ei gydymgeisydd fel y bu farw yn y fan! Yr oedd Llywellyn yn ewythr i Dafydd ab Gwilym, yn gystal ac yn athraw barddonol iddo, a chydag ef y treuliodd ei ddyddiau boreuol. Lladdwyd y tywysog hwn gan haid o ladron o Saeson Penfro, y rhai a ruthrasant ar y Ddolgoch. Oddiwrth yr englyn canlynol o awdl Farwnad Dafydd ab Gwilym i'w ewythr, gellir casglu mai yn monachlog Llandudoch y claddwyd y pendefig urddasol hwn:—

"Truan, ac eirian a garo—dadl
  Aed i Landudoch heno:—
Doethineb neud aeth yno,
Diwid grair, dan dywod gro."

MEREDITH, WILLIAM, Ficer Silian, a drowyd allan gan y Lledaenwyr o dan Cromwell, am feddwdod, a defnyddio y Llyfr Gweddi Cyffredin.—*Walker's Sufferings of the Clergy.*

MORGAN, GRIFFITH, a ddeolwyd gan yr unrhyw o Barsonoliaeth Bangor a Henllan am "ddiffyg dawn, meddwdod, a throseddiad."

MORGAN, DAFYDD SIENCYN, cerddor tra enwog tua diwedd y ganrif ddiweddaf. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1751 yn Llangranog, Ceredigion. Bu ei dad yn glochydd eglwys y plwyf hwnw am flynyddoedd. Bu farw ei fam pan oedd ef yn bur ieuanc, ac ymbriododd ei dad eilwaith â mam yr enwog Christmas Evans. Yr oedd ei dad yn dipyn o gerddor, a chydag ef y cafodd Dafydd bron yr holl ddysg a gyrhaeddodd mewn cerddoriaeth yn gystal a phethau eraill. Pan yn ugain oed, ymunodd â chartreflu milwrol sir Benfro, gyda y rhai y treuliodd amryw flynyddau. Gan ei fod yn dra hoff o gerddoriaeth, cafodd gyfleusderau rhagorol gyda *band* ei gatrawd i ychwanegu at ei wybodaeth o'r gelfyddyd hòno. Ar ol dychwelyd i'w gartref, dechreuodd astudio o ddifrif, ac nid hir y bu cyn dyfod i gryn sylw yn mysg cerddorion ei gymydogaeth. Gwnaed ef yn fuan yn flaenor canu yn eglwys y plwyf, a dechreuodd fyned oddiamgylch i gynnal "ysgol gân" (yr hyn oedd yn beth hollol newydd cyn hyn yn y rhanau hyny o'r wlad). Ymdaenodd ei glod yn fuan, nid yn unig trwy Ceredigion, ond hefyd trwy ranau helaeth o'r Gogledd. Ac ar geisiadau taer ei gyfeillion a'i edmygwyr cerddorol, teithiodd amryw weithiau trwy Aberystwyth, Machynlleth, Dolgellau, Bangor, ac mor belled a Mon, gan dreulio amryw fisoedd ynddynt i gadw ysgolion canu yn y gwahanol gapeli ac eglwysydd. Ymwelai hefyd yn fynych â Morganwg a Mynwy, lle yr oedd ei enw yn uchel iawn. Yn ychwanegol at ei lafur gyda'r ysgolion hyn, cyfansoddai lawer iawn o ddarnau cerddorol at wasanaeth

y cynnulleidfaoedd yr ymwelai â hwy, ac enwai y tônau yn gyffredin oddiwrth enw y fan y cyfansoddid hwy. Daeth i gysylltiad âg amryw lenorion a cherddorion ei wlad, megys Ifor Ceri, Ieuan Glan Geirionydd, ac eraill, gyda y rhai yr oedd yn dra chyfeillgar, a chyfansoddodd lawer o ddarnau cerddorol ar eu cais i eiriau o'u heiddo. Yr oedd yntau ei hunan yn awdwr amryw Emynau tlysion ac efengylaidd. Cyfansoddodd hefyd amryw ddarnau moesol a difyrus ar fesur Triban Morganwg, ond nid oes ond ychydig o honynt ar gael, a hyny am nad argraffwyd ond ambell un o honynt. O ran corff, yr oedd Dafydd Siencyn Morgan yn ddyn tàl, iach, a chadarn; ei ben yn fawr anghyffredin; talcen uchel, llygaid treiddgar, a llais clir, gweddol swynol. Arweiniai y canu yn gyson pan fyddai gartref, yn Llechryd, hyd ddydd ei farwolaeth, a bu yn hynod ddefnyddiol ac ymdrechgar i godi canu i'w safle briodol yn y cysegr yno yn gystal ag yn y wlad yn gyffredinol. Bu farw yn ngwanwyn 1841, yn 91 oed, a chladdwyd ef yn mynwent Llangoedmor, ger Aberteifi; ond fel llawer o feibion athrylith, nid oes yno gymaint a chareg i nodi "man fechan ei fedd."

> "Orenwog wr yn y gân,—difai oedd
> Dafydd Siencyn Morgan;
> Adwyth nad ydyw, weithian,
> Ei ŵyl fedd ond gwaela' fan."

**Morgan, David**, Trallwm, oedd weinidog tra defnyddiol gyda'r Methodistiaid Calfinaidd. Ganwyd ef yn mhlwyf Llanrhystyd, ar y 27ain o Dachwedd, 1794. Prentisiwyd ef yn saer llongau, a thra yn dilyn yr alwedigaeth hòno yn Abergwaun, pan yn 21ain oed, cafodd ei argyhoeddi o druenusrwydd ei gyflwr wrth natur, ac ymunodd â'r Methodistiaid yn y lle hwnw. Dechreuodd bregethu, Mawrth 29ain, 1818; a chan nad oedd wedi derbyn ond ychydig fanteision addysg yn flaenorol, y mis Mehefin canlynol aeth i'r ysgol i'r Neuaddlwyd at yr hybarch Dr. Phillips, lle y bu yn aros am dymmor. Oddeutu y pryd hwn, meddiannwyd ef gan ysbryd cenadol cryf, a bu am beth amser yn llafurio fel cenadwr cartrefol yn Mhenybont, sir Faesyfed; ac mae yn debyg mai efe oedd y cenadwr cartrefol cyntaf o eiddo y Methodistiaid yn y Goror. Gadawodd Benybont i fyned i Goleg Hackney, i'r dyben o gymhwyso ei hunan i fyned allan yn genadwr i'r gwledydd tramor; ond o herwydd rhyw anghydwelediad rhwng y Methodistiaid a Chymdeithas Genadol Llundain, gadawodd ef y coleg a dychwelodd i Gymru. Yn fuan wedi hyny, sef yn Gorphenaf, 1822, priododd Mary, merch y diweddar Mr. John Bebb, Trallwm, o'r hon y bu iddo chwech o blant, o'r rhai nid oes yn awr ond dau yn fyw. Dechreuodd fasnach yn y dref hòno, yr hon a ddygwyd yn mlaen ganddo yn llwyddiannus hyd o fewn pedair blynedd i'w farwolaeth.

Wedi rhoddi ei fasnach heibio, ymroddodd fwy nag erioed i waith y weinidogaeth:— darllenai ac astudiai gyda'r diwydrwydd mwyaf, ac addawai iddo ei hunan well manteision nag a gawsai erioed o'r blaen i fod yn ddefnyddiol. Ond yn nechreu gauaf 1862, ymaflodd afiechyd y galon yn ei gyfansoddiad, a darostyngwyd ef mewn byr amser i wendid anarferol, fel na fu yn alluog i godi ond ychydig wedi hyny. Dihoenodd fel hyn am ddau fis ar bymtheg, pryd y darfu i angeu ei ryddhau oddiwrth bob poen, Mawrth 14, 1864. Yn ystod ei afiechyd hirfaith yr oedd yn hynod siriol, ac amlygai bob amser yr hyder a'r sicrwydd mwyaf fod ei "farn a'i fater yn dda," ac yr oedd y teimlad hwn yn cryfhau yn ddyddiol fel yr oedd yn gweled ei ddiwedd yn agoshau. Bu farw yn orfoleddus, a'i eiriau olaf oeddynt, "*It is all right!*" Hebryngwyd ei weddillion marwol i orwedd i fynwent Eglwys Crist, Trallwm, ar y 18fed o Fawrth, 1864, gan dyrfa luosog o weinidogion a blaenoriaid y sir ac eraill; ac o barch i'w goffadwriaeth cauodd amryw o fasnachwyr y dref eu siopau ar yr amgylchiad. Yn ei bregeth angladdol, yr hon a draddodwyd gan y Parch. Joseph Thomas, Carno, yn mysg pethau eraill, ceir y sylwadau canlynol ar Mr. Morgan:—"Fel *dyn*, yr oedd yn serchog, cyfeillgar, caredig, a boneddigaidd. Yr oedd dwy elfen i'w gweled yn amlwg yn ei gymeriad nad ydynt ond anfynych yn cyd-drigo, sef tynerwch a gwroldeb. Yr oedd yn meddwl drosto ei hun, ac yn ddigon gwrol yn wastad i draethu ei feddwl. Yr oedd hefyd yn un a allai ddal i gael ei wrthwynebu heb dramgwyddo. Gallai ef gytuno i anghytuno. Fel *Cristion*, yr oedd yn un ag oedd bron bob amser yn byw uwchlaw ammheuaeth am ddiogelwch ei gyflwr, ac yr oedd felly yn neillduol tua therfyn ei yrfa. Fel *gweinidog*, yr oedd delw yr argyhoeddiad tanllyd a brofodd ef ei hunan, i'w gweled yn amlwg yn ei bregethau. Cafodd weledigaethau eglur ar drefn Duw, ac yr oedd i'r gweledigaethau hyny eu dylanwad ar ei weinidogaeth hyd y diwedd. Daioni Duw, cariad Crist, dyddanwch y saint yn wyneb eu profedigaethau, oedd prif bethau ei weinidogaeth. Bu yn hynod lafurus, a thaflodd ei enaid i bob ysgogiad Methodistaidd. Gofalodd, cynlluniodd, gweddïodd, a chyfranodd lawer, a bu yn "ffyddlon yn yr holl dŷ."—*Y Drysorfa*, Hydref, 1864.

Madog ab Selyf, arglwydd Ceredigion yn y drydydd ganrif ar ddeg. Yn y flwyddyn 1270, talodd warogaeth i Llywelyn yn ol telerau y siarter a ganiatawyd gan frenin Lloegr i'r dyben hwnw, yr hon oedd yn cadarnhau i Llywelyn y teitl o Dywysog Cymru. Parhaodd yn ei arglwyddiaeth hyd y flwyddyn 1300, ac yr oedd efe hefyd yn enwog fel bardd.—*Meyrick's Cardiganshire*, xlii.

Middleton, Richard, mab Marmaduwc, Esgob Ty Ddewi. Addysg-

wyd ef yn Ngholeg yr Iesu, Rhydychain, lle, yn 1586, y graddiwyd ef yn B. A. Wedi diweddu ei addysgiaeth yno, urddwyd ef, a chafodd Archddiaconiaeth Aberteifi. Ymddengys hefyd iddo gael ei benodi yn Gapelwr i Siarl, Tywysog Cymru. Ysgrifenodd—1. *Key of David*, Llundain, 1691; 2. *The Heavenly Progress*, 1617; 3. *The Care and Comfort of Life*, Llundain, 1613.

MORGAN, ABEL, oedd fab i Morgan Rhydderch, brawd Shon Rhydderch, yr Argraffydd, yn y Mwythig. Ganwyd ef yn yr Alltgoch, plwyf Llanwenog, yn y flwyddyn 1673. Yr oedd ei dad yn ddiacon gyda'r Bedyddwyr yn Rhydwilym, sir Benfro, a dygwyd Abel i fyny gyda'r un enwad. Cafodd alwad i fod yn weinidog yn y Blaenau yn 1697. Llafuriodd yno yn barchus a defnyddiol iawn hyd 1711, pryd y penderfynodd ymfudo i Pennsylvania, lle yr oedd amryw o'i berthynasau wedi ymsefydlu yn barod. Cychwynodd ef a'i deulu tuag yno, yr 28ain o Fedi, y flwyddyn hòno. Cymerodd y fordaith iddo yn agos i bum mis, a chollodd ei wraig a phlentyn cyn cyrhaedd pen ei daith. Ar ol ymsefydlu yno, penodwyd ef yn weinidog Penybec, yr eglwys hynaf o Fedyddwyr yn nhalaeth Pennsylvania. Bu yn dra diwyd a llwyddiannus gydag achos y Bedyddwyr yn y rhanau hyny o'r wlad. Gorphenodd ei daith yn 1722, yn 49 oed. Gelwir ef gan ysgrifenwyr Americanaidd, "Yr anghymharol Abel Morgan." Cyfieithodd Gyffes Ffydd y Bedyddwyr i'r Gymraeg, a chyfansoddodd amryw gatecismau; ond ei brif orchest lenyddol oedd cyfansoddi Cydgordiad, neu Fynegair Cymreig, y cyntaf a gyfansoddwyd erioed. Ni fu byw i'w ddwyn trwy y wasg, onidê, dichon y buasai yn gyflawnach a pherffeithiach nag ydyw. Trwy lafur a gofal ei ddau frawd, ac eraill, argraffwyd ef yn Philadelphia, gan Samuel Keimer, a Dafydd Henry, yn 1730. Cyflwynwyd ef i David Lloyd, Ysw., prifynad talaeth Pennsylvania, a chynnwysa anerchiad at y cyhoedd gan John Cadwalader, Cymro cyfoethog o Philadelphia.

MORGAN, DAVID, Llanfyllin, un o gedyrn Ymneillduaeth, a anwyd yn Nolwen, Talybont, Rhagfyr 27, 1779. Tua'r flwyddyn 1807, dechreuodd bregethu, ac am amryw flynyddau parhai i bregethu yn gyson yn Nhowyn Meirionydd a'r eglwysi cymydogaethol. Yn 1812, dewiswyd ef yn fugail ar yr eglwys yn Machynlleth, a bu yn llafurio yn ddiflino yno am 22 o flynyddau. Chwanegwyd 500 o aelodau at yr eglwys yn ystod ei weinidogaeth, a bu yn foddion i sefydlu chwech o eglwysi yn y plwyfydd cymydogol. Yn 1836, ymadawodd am Manceinion; ond gan nad oedd bywyd dinesig yn dygymmod âg ef, efe a symudodd yn 1839 i Lanfyllin, lle y llafuriodd hyd o fewn tair wythnos i'w farwolaeth, pan yr analluogwyd ef gan wendid a henaint i ddilyn ei ddyledswyddau gweinidogaethol,

ac yr ymfudodd i Groesoswallt, lle y bu farw, Mehefin 15fed, 1858, wedi cyrhaedd yr oedran patriarchaidd o 79 mlynedd. Ychydig cyn ei farwolaeth darparasid blwydd-dâl (*annuity*) iddo, a hyny trwy haelioni yr eglwysi Cymreig, yn cael eu cynnorthwyo gan y cyfeillion yn Lloegr; ond bu efe farw cyn cael mwynhau dim o ffrwyth eu caredigrwydd. Yr oedd Mr. Morgan yn efrydydd caled, ac ysgrifenodd lawer i'r cyfnodolion Cymreig ar wahanol destunau, yn enwedig y *Dysgedydd*. Ysgrifenai yn fisol i'r cyhoeddiad hwnw bennod ar "Hanes yr Eglwys," a chyhoeddwyd hwy wedi hyny ganddo yn ddwy gyfrol. Ei weithiau eraill ydynt, *Traethawd ar Ymneillduaeth; Hanes Ymneillduaeth yn Nghymru; Cyflwr Gwreiddiol Adda a'i Gwymp, yn nghyda'i nodweddiad fel Cynnrychiolydd ei Hiliogaeth; Esboniad ar y Datguddiad, yn nghydag amryw fân-draethodau, pregethau, &c.* "Mae yr holl weithiau yna, fel pob peth arall cynnyrchedig gan ysgrifell Mr. Morgan, yn arddangosiad o feddwl cryf a threiddiol —barn addfed a llwyr annibynol—medr a chraffder rhagorol mewn rhesymeg—iaith bur a choethedig, etto nerthol a chadarn, os nad yn rhy lem wrth ymdrin â phleidiau o wahanol dybiau. Yr oedd ei nodweddiad pregethwrol agos yr un fath a'i nodweddiad awdurol. Yr oedd diwydrwydd a dyfalwch yn nglŷn â'i natur; ni wyddai beth ydoedd diogi. Gwyddai yn dda pa fodd i brynu yr amser. Yr oedd yn fynych yn ei fyfyrgell am 3 o'r gloch yn y bore, a hyny hefyd ar ol dydd o lafur caled mewn pregethu. Dyn ydoedd o gyfansoddiad haiarnaidd—o ddeall grymus—o ddyfalbarhad anwrthwynebadwy—yn amddiffynwr cyndyn o'r egwyddor wirfoddol, fel yr ennillodd iddo ei hun trwy y Dywysogaeth y llysenw, "Morgan yr Ymneillduwr mawr." Etto, ar yr un pryd, yr oedd yn Gristion twymgalon a charedig—yn gymwynaswr i'w wlad a'i genedl—yn bregethwr difrifol a serchog o'r efengyl—yn fendith i'r eglwys, ac yn addurn arbenig i'r cyfundeb Cynnulleidfaol."—*The Congregational Year Book,* 1859.

Morgan, Enoch, oedd frawd i Abel Morgan, a ganwyd ef yn y flwyddyn 1676. Ymfudodd i Pennsylvania yn 1701. Bu yn weinidog ar eglwys y Bedyddwyr yn *Welsh Tract,* yn y dalaeth hòno, lle y gorphenodd yrfa lafurus a llwyddiannus yn y flwyddyn 1740. Gadawodd fab ar ei ol, o'r enw Abel Morgan, yr hwn a fu am amser maith yn weinidog ar eglwys fawr a chyfoethog o Fedyddwyr yn Middletown, Jersey Newydd. Mae yr ysgrifenwyr Americanaidd, yn ddieithriad, yn rhoddi y ganmoliaeth uchaf iddo fel pregethwr ac ysgolhaig. Bernir fod y Cadfridog Daniel Morgan, yr hwn oedd enedigol o dalaeth Jersey, yn hanu o'r un teulu.

Morris, David, ydoedd bregethwr defnyddiol yn nechreu y diwygiad Methodistaidd. Ganwyd ef yn Lledrod, yn y flwyddyn 1744, a dechreu-

odd bregethu pan yn 21ain ml. oed. Ymddengys na chafodd ddim manteision dysgeidiaeth yn ei ieuenctyd, ond trwy ei ymdrechion a'i ymroddiad daeth yn alluog i ddarllen ac ysgrifenu y ddwy iaith yn lled rwydd. Ac ystyried ei anfanteision daeth yn feddiannol ar gyfran lled helaeth o wybodaeth dduwinyddol. Pan etto yn ddyn ieuanc, aeth yn dew anarferol—cymaint felly fel yr oedd yn destun syndod i bawb a'i gwelent, a theimlai anhawsder mawr yn fynych i fyned i mewn trwy ddrysau y pulpudau. Fel canlyniad o hyn, goddiweddid ef yn aml gan syrthni a chysgadrwydd, ac nid anfynych y cysgai wrth farchogaeth ei geffyl, neu tra y dechreuai brawd arall yr oedfa iddo. Yr oedd hyn, fel y gellid meddwl, yn achos anghysur mawr, ac yn peri anghyfleusdra nid bychan iddo. Er hyny teithiai lawer oddiamgylch, ac ymwelai â'r Gogledd yn fynych iawn, ac ymledodd ei glod yno fel pregethwr, a chai gynnulleidfaoedd mawrion i'w wrando lle bynag yr elai. Mae yr adgof am ei weinidogaeth rymus ac effeithiol etto heb lwyr ddarfod yn mysg rhai o'r hynafiaid yn y rhanau hyny o'r wlad. "Fe fyddai gweinidogaeth danllyd a nerthol Dafydd Morris, pan y deuai i Wynedd, yn gyffelyb i adeg y mellt a'r taranau. Safai dynion anystyriol yn syn gan fraw; delid hwy gan ddychrynfeydd fel pe b'ai y Barnwr yn ymddangos; ac âi y rhuthr heibio gyda chawodydd bendithiol o'r gwlaw graslawn. Mawr y son sydd hyd heddyw am bregeth o'r eiddo yn Mon, yn agos i Bont Ripont, yr hon a elwir hyd heddyw, *Pregeth y golled fawr*. Ei destun oedd, 'Pa lesâd i ddyn os ennill efe yr holl fyd, a cholli ei enaid ei hun? neu pa beth a rydd dyn yn gyfnewid am ei enaid?' Tòrai y pregethwr allan mewn gwaedd groch a dolefus, 'O bobl y golled fawr!' nes oedd y gwrandawyr yn plygu o'i flaen, fel y gwna y gorsen gan nerth y gwynt. Chwanegwyd llawer iawn at yr eglwysi mewn canlyniad, a hir a hyfryd a fu y son am y bregeth gan yr hen bobl tra y buont byw." Gwelir oddiwrth hyn mai prif nodwedd ei weinidogaeth ydoedd *grymusder*, ac yr oedd ei ddull sobr-ddwys a difrif o gyhoeddi y genadwri a thuedd uniongyrchol ynddo i ddeffroi yr anystyriol a'r difater am ei gyflwr. Byddai yn arferol o *ysgrifenu* prif faterion ei bregethau, ac mae hyn yn rhoddi cyfrif am y destlusrwydd a'r trefnusrwydd a'u nodweddent ragor eiddo llawer o'i gydbregethwyr. Ysgrifenodd lawer iawn o bregethau yn ystod ei oes, a dywedai Mr. John James, Castell Newydd, iddo ei wrando saith ugain o weithiau yn ystod un flwyddyn, ac fod gwahanol bregeth ganddo bob tro. Yn mlynyddau olaf ei fywyd, cyfansoddodd lawer iawn, ac mae amryw o honynt ar gael yn awr mewn llawysgrifau. Cysegrodd Dafydd Morris ei oes i lafur teithiol gyda'r weinidogaeth:—gwnaeth fwy felly o wasanaeth i achos Methodistiaeth y cyfnod hwnw na neb arall o'i gydlafurwyr; a chymaint y gwerthfawrogid ei ddawn, fel nad elai nemawr Gymdeithasfa heibio yn un rhan o'r wlad heb iddo ef gymeryd rhan arbenig ynddi.

Er mwyn cysegru ei hunan yn fwy llwyr i wasanaeth ei Arglwydd, ymryddhaodd yn y fl. 1774 oddiwrth ei orchwylion bydol. Ychydig cyn ei farwolaeth symudodd i fyw i ardal Twrgwyn, lle y bu farw, ar y 17eg o fis Medi, 1791, yn 47 ml. oed, wedi bod yn pregethu tua 26 o flynyddoedd. Bu iddo dri o feibion—dau o ba rai a gladdwyd yn eu hieuenctyd; ond bu y llall fyw ar ei ol, a phrofodd ei hunan yn weinidog defnyddiol a llwyddiannus fel ei dad. Hwn ydoedd—

MORRIS, EBENEZER, a ganwyd ef yn Lledrod, yn y fl. 1769. Cafodd y fraint o dderbyn addysg led dda yn ieuanc mewn ysgol Ramadegol o gryn fri a gedwid yn Troed-yr-Aur, gan un offeiriad o'r enw Davies. Nid ymddangosai ynddo y pryd hyny yr un arwydd o dduwioldeb; ond pan tua 18 oed, argyhoeddwyd ef o druenusrwydd ei gyflwr trwy offerynoldeb Dafydd William Rhys, un o bregethwyr boreuol y Methodistiaid; ymunodd â'r eglwys, a dechreuodd bregethu pan nad oedd etto ond tua 19eg, oblegid arddangosai gymhwysderau neillduol at y gwaith. Yn fuan wedi hyny cymerodd daith trwy y Gogledd yn nghwmni y Parch. David Parry, Brycheiniog. Ar farwolaeth ei dad, yn y fl. 1791, symudodd i hen gartref ei dad, yn mhlwyf Troed-yr-Aur, lle y treuliodd y gweddill o'i oes.

Mae yr hyn a ddywedwyd eisoes am ei dad fel pregethwr yn wir, i raddau mawr, am y mab hefyd. Prif nodwedd ei weinidogaeth yntau ydoedd grymusder, a daeth yn boblogaidd anarferol trwy Dde a Gogledd. Meddai lais cryf a pheraidd, yr hwn oedd yn hollol o dan ei lywodraeth, fel y gallai ei gyfaddasu at y gwahanol faterion fyddai dan sylw gyda'r deheurwydd mwyaf. Yr oedd ei iaith yn nodedig am ei choethder, a byddai ei ymadroddion bob amser yn hynod am eu priodoldeb a'u grymusder. Tueddai ei ymddangosiad yn y pulpud hefyd i hawlio gwrandawiad astud, oblegid dywedir ei fod o ran ffurf corfforol yn hardd a lluniaidd dros ben. Yr oedd ei wynebpryd yn agored a theg, yn llawn gonestrwydd a challineb, a meddai ar bob cymhwysder golwg a gwedd i beri sylw a pharch. Yr oedd ei ddawn yn hollol naturiol, ac nid oedd dim tebyg i falchder na rhodres yn agos iddo. Ni pharhai ei bregethau ond anfynych dros hanner awr o amser; ac fel ei dad gwnai ddefnydd mynych ynddynt o'r Ysgrythyrau, a byddai ei sylwadau ar y rhanau hyny a ddyfynai yn gynnwysfawr, a grymus neillduol. Ei brif amcan yn wastad fyddai dwyn y gwirionedd a'r gwrandawyr i gyfarfyddiad â'u gilydd—llefarai "fel un ag awdurdod ganddo," fel ag i beri i'r gwrandawyr deimlo mai wrthynt hwy, ac am danynt hwy y llefarai. Ac fel y sylwai un hen flaenor a'i clywsai rai cannoedd o weithiau, ni byddai byth yn terfynu ei bregeth "*heb gael gafael yn y bobl.*" "Dysgleiriai rhyw luchedau tanllyd yn fynych yn ei bregethau, a fyddent yn wir anorchfygol. Teimlai ei wrandawyr yn aml, pan y gollyngai allan fygythion Duw yn erbyn anwirfyd,

mewn llais grymus, a chyda gwedd arswydlawn, eu bod megys ar ddibyn dystryw, a theimlent eu gwallt yn sefyll yn syth, a'u cnawd yn crynu gan fraw. Cerddai nerth ac awdurdod anarferol yn fynych gyda rhyw air a draethai;—gair a adroddai drosodd a throsodd, nes y byddai pob wyneb yn llif o ddagrau. Cofus gan yr ysgrifenydd ei wrando yn Nghymdeithasfa y Bala, flynyddoedd lawer yn ol, pan yn pregethu ar y testun, 'Hwn a osododd Duw yn iawn,' &c., ac yn adrodd eilwaith ac eilwaith y gair Iawn! Iawn! Iawn! gyda llais grymus, ac ysbryd toddedig, nes oedd y miloedd pobl wedi eu meddiannu â theimladau annhraethadwy."

Yr oedd ei amgylchiadau teuluaidd yn gyfryw ag na adewid iddo ond ychydig amser i astudio ei bregethau, ac felly nid ryw lawer o ôl celfyddyd oedd i'w weled arnynt, ond yr oedd ei synwyr naturiol cryf a'i farn gywir yn gwneud i fyny am y diffygion eraill. Teithiai lawer trwy y wlad, ac nid ystyrid un Gymanfa yn gyflawn heb gael ei bresenoldeb ef ynddi. Anfynych yr ennillodd neb y fath boblogrwydd, a hyny yn ngwyneb y fath anfanteision ag ef, ac yr oedd ei gymeriad moesol yn ddifrycheulyd. Yr oedd ei lafur gweinidogaethol, fel y gellid dysgwyl, yn fawr iawn.—"Gellir dweyd yn gadarn," medd un oedd yn dra chydnabyddus âg ef, "ei fod, at eu gilydd, yn pregethu unwaith bob dydd am flynyddau diweddaf ei oes. Arferai bregethu mewn amser ac allan o amser; ïe, nid oedd yn ol i'r diwygwyr penaf yn hyn."

Cymerodd Mr. Morris ran arbenig yn y ddadl ar neillduad gweinidogion i weinyddu y sacramentau yn mysg y Methodistiaid, yn y Gymanfa a gynnaliwyd yn Aberteifi ar yr achos, yn y fl. 1810; ac er ei fod y pryd hyny heb ei gyflawn urddo, etto yr oedd ei ddylanwad ar ei frodyr yn fawr iawn, fel y rhoddid y gwrandawiad a'r sylw mwyaf i bobpeth a ddywedai. Llafuriodd lawer mewn cysylltiad â Mr. Williams, Lledrod, John Thomas o Aberteifi, Mr Gray, a'r Parch. David Evans, Aberaeron, i ledaenu achos crefydd trwy y wlad, ac ychydig fu mor llwyddiannus yn eu gweinidogaeth. Bu farw yn 56 mlwydd oed, yn y flwyddyn 1825, wedi bod yn pregethu am 37 o flynyddoedd.—*Meth. Cymru*, cyf. ii., tudal. 91; *Evangelical Magazine*, April, 1826.

MORRIS, LEWIS. Er mai un o'r Monwysiaid, o ran ei enedigaeth, oedd yr hynafiaethydd a'r bardd enwog Lewis Morris, etto, yn gymaint ag iddo dreulio cyfran o'i oes yn Ngheredigion, credwn nad yw gair neu ddau am dano yn anmherthynasol i'n testun. Mab ydoedd Lewis Morris i Morris Pritchard Morris o bentref Eirianell, yn mhlwyf Penrhos Llugwy, Mon, lle y ganwyd ef, Mawrth 1, 1702. Ychydig fanteision addysgawl a fwynhaodd efe yn ei ieuenctyd; ond ymddengys iddo wneud y defnydd goreu o honynt, fel y gellir casglu oddiwrth y ffaith iddo gael ei ddwyn i fyny yn y gelfyddyd o fesur tir, ac iddo fod yn dal amryw

swyddi o bwysigrwydd ac ymddiried o dan y llywodraeth. Y gorchwyl cyntaf a ymddiriedwyd iddo yn y cymeriad olaf, ydoedd casglu y tollau yn Nghaergybi. Yn 1737, penodwyd ef gan y Morlys i wneud ymchwiliad ar arfordir Cymru, yr hyn a wnaeth i foddlonrwydd, a chyhoeddwyd rhan o'r gwaith yn y flwyddyn 1748. Tua'r un amser, daliai hefyd y swydd o arolygydd cyllid tirol y brenin, casglydd y tollau yn Aberdyfi, a goruchwyliwr mwnau y brenin yn Nghymru. Yr oedd ei wybodaeth o fwnyddiaeth yn eang iawn, a pharotodd waith helaeth ar y gangen hòno, ond ni chyhoeddwyd ef. Yr oedd hefyd yn dra hyddysg yn y gelfyddyd feddygol: talai sylw mawr i lysieuaeth, a throai y cyfan i fod yn wasanaethgar er llesâu ei gymydogion tlodion pan mewn afiechyd. Talai lawer o sylw i athroniaeth naturiol a mesuroniaeth; a chasglodd yn nghyd lawer o gywrein-bethau, megys cregin, *fossils*, *&c.* Cyrhaeddodd raddau uchel hefyd o wybodaeth mewn cerddoriaeth, a gallai chwareu amryw offerynau cerdd, megys y delyn, y crwth, &c. Nid oedd chwaith mewn un modd yn anenwog fel bardd, fel yr ymddengys oddiwrth amryw ddarnau o'i eiddo a welir yn y *Dyddanwch Teuluaidd*, o gasgliad Dafydd Jones o Drefriw. Ond fel hynafiaethydd a hanesydd Cymreig y mae ei enw yn fwyaf adnabyddus yn mysg ei gydwladwyr. Darllenodd a chwiliodd lawer ar y pynciau hyn, a bwriadai gyhoeddi ffrwyth ei ymchwiliad mewn dwy gyfrol, o dan y teitl, "*Celtic Remains;*" ond ni chafodd fyw i ddwyn y gwaith i'r cyfryw ffurf orphenedig fel ag y gellid ei argraffu. Diau y buasai y gwaith hwn yn gaffaeliad mawr i lenyddiaeth hynafiaethol ein gwlad. Mae ei gasgliad o lawysgrifau Cymreig, y rhai a gynnwysant tua phedwar ugain o gyfrolau, yn awr yn yr Amgueddfa Brydeinig. Yr oedd Lewis Morris yn wladgarwr yn ystyr helaethaf y gair, a gwnaeth fwy, ond odid, na neb yn ei oes mewn ffordd o gefnogi llenyddiaeth ac awenyddiaeth ei wlad. Ni ddylid anghofio mai iddo ef yr ydym yn ddyledus am ddwyn allan gyntaf i sylw un o'r beirdd goreu a gynnyrchodd Cymru erioed, sef yr anfarwol Goronwy Owen, awdwr *Cywydd y Farn*, i'r hwn y bu yn noddwr gwresog ac yn gyfaill ffyddlawn ar hyd ei oes. Gohebai Lewis Morris lawer â phrif ddysgedigion y deyrnas, megys Mr. Pegge, Dr. Percy, Mr. Carte, ac eraill, y rhai a ymgynghorent âg ef ar bynciau yn dwyn cysylltiad â hanesiaeth leol; a gwelir rhai o'r llythyrau hyn, y rhai ydynt yn dra dyddorol, yn argraffedig yn y gyfrol gyntaf o'r *Cambrian Register*—yr ail gyfrol o ba un a gynnwysa hanes ei fywyd. Bu yn briod ddwywaith, sef yn gyntaf âg Elizabeth Griffiths, Tywrdyn, yn agos i Gaergybi; ac yn ail âg Ann Lloyd, Penbryn, Ceredigion. Cymerodd y briodas olaf le yn y flwyddyn 1749, a symudodd yntau i Penbryn, lle y treuliodd y gweddill o'i oes, ac y bu farw Ebrill 11, 1765, a chladdwyd ef yn Llanbadarn Fawr.

**Morris, William**, trydydd fab Lewis Morris, Penbryn. Ail gyhoeddodd *Survey of the Coasts of Wales*, 1748, gan ei dad, a darlunlen o Fon ganddo ei hun, yr hwn sydd ar raddeg ddigon eang i gynnwys pob tŷ yn yr ynys; hefyd, *Short History of the Manor of Creuddyn*, 1751.

**Morydd**, mab Llywarch Llwyd, brenin Ceredigion, marwolaeth yr hwn a gofnodir fel wedi cymeryd lle y diwrnod y bu diffyg ar y lleuad, Rhagfyr 8, 830.—*Myf.* ii. 477.

**Non**, a gyfenwid *Fendigaid*, oedd seintes enwog yn byw tua diwedd y bummed ganrif. Merch ydoedd i Gynyr o Gaer Gawch, yn Mhenfro, neu Geredigion, fel y myn rhai. Priododd â Sandde ab Caredig ab Cunedda, o'r hwn y bu iddi fab, sef yr enwog Dewi Sant. Mae Eglwys Llanuwchaeron, a chapel Llanon (o'r hwn nid oes dim olion yn bresenol), yn y sir hon, wedi eu cysegru iddi.—*Rees' Welsh Saints; Iolo MSS.*, 545.

**Oliver, Thomas**, oedd enedigol o blwyf Lledrod, a threuliodd y rhan olaf o'i oes yn ficer Dudley, sir Gaerwrangon. Gadawodd ar ei ol swm o arian a thir, er gwaddoli ysgol ramadegol i ddysgu nifer penodol o blant tlodion ei blwyf genedigol. Yn yr ewyllys, yr hon a ddyddiwyd Mai, 1745, gadawodd i'r dyben hwn fferm fechan, yr hon a ddaethai yn etifeddiaeth iddo yn y plwyf hwnw, yn nghyda'r swm o bedwar cant o bunnau i'w dodi allan ar diroedd eraill. Rhoddodd y rhai hyn yn nwylaw ymddiriedolwyr a ddewiswyd ganddo, ac ymddiriedwyd y gwaith o benodi athraw i'r ysgol i John Lloyd, Ysw., Ffosybleiddiaid, a'i etifeddion ar ei ol. Ond gan i Mr. Oliver farw cyn pen y flwyddyn ar ol gwneud y weithred hon, syrthiodd yn ddirym yn ngolwg y gyfraith. Ond darfu i'w weddw drachefn adnewyddu y gwaddoliad trwy dynu gweithred newydd yn y *Chancery*. Yn ychwanegol at Ynysygarn, (eiddo Mr. Oliver ei hun), prynwyd dwy neu dair o ffermydd helaeth yn mhlwyfydd Llandyssul, Llanrhystyd, a Thregaron. Athraw cyntaf yr ysgol hon oedd yr hybarch Edward Richard; ac ymddengys mai esiampl haelionus Mr. Oliver fu yn foddion i'w dueddu yntau i waddoli ysgol gyffelyb yn ei blwyf ei hun.—*Meyrick's Cardiganshire*, p. 327.

**Owain ab Tythwalch**, Arglwydd Ceredigion yn y ddegfed ganrif. Ei unig ferch ac etifeddes, Morfydd, a briododd â Gwydder Sant, a bu iddynt fab, sef Gwaethfoed Fawr. O hono ef yr hana teulu parchus presenol Gogerddan.

**Padarn**, oedd sant enwog yn byw yn nechreu y chweched ganrif, mab

Pedrwn, neu Pedredin, fab Emyr Llydaw, a chefnder St. Cadfan, gyda'r hwn y daeth drosodd o Lydaw i Frydain tua'r flwyddyn 516. Bu am ychydig amser ar ol ei ddyfodiad yn aelod o Goleg Illtyd. Sefydlodd eglwys ei hunan, yn gynnwysedig o 120 o aelodau, yn y lle a alwyd wedi hyny, oddiwrtho ef, Llanbadarn Fawr. Mewn amser, gwnaed ef yn esgob yno, ac mewn rhai llawysgrifau, gelwir ef yn Archesgob Llanbadarn. Ni wyddis gyda sicrwydd dros faint o amser y parhaodd y lle yn sedd esgobol; ond crybwyllir yn y Croniclau Cymreig, yn y flwyddyn 720, am eglwysi Llandaff, Mynyw, a Llanbadarn, wrth yr hyn y deallir y diriogaeth esgobol a gynnwysent. Ymddengys i Padarn arolygu yr eglwys yn y lle am tua un mlynedd ar hugain; ac yn ystod yr amser hwn, iddo lafurio yn ddiwyd iawn, gan bregethu ar hyd y wlad a chynnorthwyo y tlodion, o ba achos y gelwid ef yn un o dri "gwesteion gwynfydedig" Prydain. Dywed Ioan o Tynemouth yn ei Gronicl, iddo adeiladu mynachlogydd ac eglwysi trwy holl wlad Ceredigion. Ar ol llafurio gyda llwyddiant mawr, aeth drosodd drachefn i Lydaw, a threuliodd ddiwedd ei oes yn mysg y Ffrancod. Efe ydoedd sylfaenydd eglwysi Llanbadarn-tref-eglwys, neu Llanbadarn-fach, a Llanbadarn-odin, yn Ngheredigion; yn nghydag eraill yn Maesyfed. Ei ddyddiau gwyl, yn ol y Croniclau Cymreig, oeddynt Ebrill 16 a Tachwedd 12.—*Rees' Lives of the British Saints; Iolo MSS.*, 449; *Myf. Arch.*, ii., 10.

PARRY, STEPHEN, Ysw., Neuadd Trefawr, ydoedd Ustus Heddwch, ac am beth amser yn Aelod Seneddol dros fwrdeisdrefi Ceredigion, sef o'r flwyddyn 1714 hyd ei farwolaeth yn 1724. Yn 1722, argraffwyd llyfr yn dwyn y teitl, *Dwysfawr rym Buchedd Grefyddol*, gan A. T., wedi ei gyflwyno i Stephen Parry, Ysw.—*Llyfryddiaeth y Cymry; Traethodydd*, 1853.

PETER, DAVID, oedd weinidog enwog yn mysg yr Annibynwyr. Ganwyd ef yn Aberystwyth, yn y flwyddyn 1755. Derbyniodd ei addysg yn y Coleg Presbyteraidd yn Nghaerfyrddin, i'r hwn y dewiswyd ef yn mhen amser wedi hyny yn athraw duwinyddol. Yr oedd ar yr un pryd yn weinidog ar yr eglwys a ymgyfarfyddai yn Lammas Street, y dref hòno. Daliodd y ddwy swydd hyn am yr yspaid maith o ddeugain mlynedd, a chyflawnodd hwy gyda ffyddlondeb diball. Derbyniodd nifer mawr o wŷr ieuainc eu haddysg yn yr athrofa yn ystod yr amser y bu ef yn ei harolygu, a throdd llawer o honynt allan yn mysg y gweinidogion mwyaf llwyddiannus a feddai y Dywysogaeth. Bendithiwyd ei weinidogaeth mewn modd nodedig, fel y cynnyddodd aelodau yr Annibynwyr yn y dref hòno o ddeugain i dros chwe' chant o rifedi. Mae ei enw yn ddigon adnabyddus fel awdwr *Hanes Crefydd yn Nghymru*, yr

hwn a gyhoeddwyd ganddo yn y flwyddyn 1816. Cyfieithodd o'r Saesonaeg *The Protestant Dissenter's Catechism*, o waith Samuel Palmer, a chyhoeddwyd ef yn 1803. Argraffwyd pregeth o'i eiddo, ar Esaiah xxi. 11, yn Nghaerfyrddin. Bu farw y dyn enwog hwn Mai 4, 1837, ac mae ei goffadwriaeth yn barchus gan ei gydwladwyr hyd heddyw.

PHILLIPS, CATHERINE, ydoedd ail wraig J. Phillips, Ysw., o'r Priordy, Aberteifi. Merch ydoedd i farsiandwr yn Llundain, lle y ganwyd hi yn y flwyddyn 1631. Ymbriododd â'r uchod pan yn 16 oed, a daeth i fyw i Aberteifi. Yr oedd Mrs. Phillips yn farddones o gryn enwogrwydd yn ei dydd, ac ysgrifenai lawer dan y ffugenw "*Orinda;*" ac ymddangosodd cyfrol o'i barddoniaeth dan yr enw hwnw yn 1667. Ysgrifenodd hefyd gyfrol o lythyrau at ei chyfaill Syr Siarls Cottorel, yn dwyn y teitl, *Letters from Orinda to Poliarchus*, yr hon a gyhoeddwyd yn 1705. A chyda chynnorthwy Iarll Dorset a Waller, cyfieithodd *Tragedy of Pompey*, o Ffrancaeg Corneile. I'r gwaith yma ysgrifenodd Iarll Roscommon *proloque*, ac anrhydeddodd hi yn mhellach trwy ddynwarediad o'i gwaith, yr hwn a dynai allan o'r ail awdl ar hugain o ail lyfr Horas. Dysgasai hefyd yr Italaeg pan yn dra ieuanc, trwy gynnorthwy ei chyfaill Syr Siarls Cottorel. Ysgrifenwyd awdl ar farddoniaeth Orinda gan y bardd Cowley, yr hwn hefyd a gyfansoddodd farwnad iddi. Treuliodd gyfran o'i bywyd yn yr Iwerddon, i ba le y gorfyddasid i'r teulu encilio oblegid amgylchiadau dyryslyd y gwr. Yn ystod ei harosiad yno, ennillodd iddi ei hunan luaws mawr o gyfeillion a noddwyr o radd uchel, megys Duc Ormond, &c. Pan ar ymweliad â Llundain, yn y flwyddyn 1664, cafodd y frech wen, o'r hon y bu farw, yn 33 mlwydd oed.

PHILLIPS, THOMAS, D.D., Neuaddlwyd. Er nad oedd y gwr enwog hwn yn enedigol o sir Aberteifi, etto, gan mai ynddi hi y treuliodd y cyfan bron o'i oes, ac yr ennillodd y fath enwogrwydd, nis gellir myned heibio iddo yn ddisylw. Ganwyd Dr. Phillips Mawrth 29, 1772, mewn amaethdy o'r enw Scythlyn, plwyf Llanfihangel-ar-arth, sir Gaerfyrddin. Yr oedd ei rieni yn aelodau o'r Eglwys Gynnulleidfaol yn Pencadair, ac yr oedd ei dad yn swyddwr ynddi. Derbyniodd yr addysg oreu a allai yr ysgolion cymydogaethol ei gyfranu, ac ymddengys iddo wneud cynnydd rhagorol. Teimlodd argraffiadau crefyddol cryfion pan yn dra ieuanc, ond yr oedd tua deunaw oed cyn ymuno â'r eglwys. Nid hir y bu cyn y canfyddwyd ynddo gymhwysderau neillduol at waith y weinidogaeth; ac yr oedd tuedd ynddo er yn ieuanc i bregethu. Ac felly, pan yn 19 oed, anfonwyd ef i ysgol yr enwog Barch. D. Davies, Castell-hywel, lle y treuliodd tua blwyddyn. Ar ol hyny aeth i athrofa Caerfyrddin, lle bu tua dwy flynedd a hanner. Wedi terfynu ei amser yno, bu yn gweinid-

ogaethu am tua hanner blwyddyn yn Ebenezer, Pontypool; ond nid ymsefydlodd yno fel gweinidog rheolaidd. Yn fuan derbyniodd alwad unfrydol gan Eglwys y Neuaddlwyd, â'r hon y cydsyniodd; ac yno y treuliodd y gweddill o'i oes, er iddo dderbyn llawer iawn o alwadau o dro i dro oddiwrth eglwysi lluosocach a chyfoethocach. Yn y flwyddyn 1810, agorwyd athrofa Ramadegol a Duwinyddol yn Penybanc—adeilad bychan a godwyd gan Mr. Phillips ei hun, i'r dyben o gadw ysgol ddyddiol ynddo i'w blant ei hun ac eraill. Ar y sefydliad hwn, penodwyd Mr. Phillips yn athraw, a mawr fu y llwyddiant a ddilynodd ei ymdrechion gyda'r rhai a ymddiriedwyd i'w ofal. Yr oedd ynddo bron bob cymhwysder ellid ei ddymuno er gwneud athraw llwyddiannus; a dywedir fod dros ddau gant o'r ysgolheigion wedi troi allan yn weinidogion yr efengyl, naill ai yn yr Eglwys Sefydledig, neu gyda'r Ymneillduwyr. Yn y flwyddyn 1831, derbyniodd y radd o Ddoctor mewn Duwinyddiaeth, gan Goleg Jersey Newydd, yn America. Cynnygiasid yr un anrhydedd iddo yn flaenorol gan Glasgow, ond gwrthododd ef. Fel dyn, o ran gwneuthuriad ei gorff, a'i ymddangosiad personol, yr oedd yn hardd a phrydferth, tua chwe' throedfedd o daldra; ei lygaid yn dduon fel y fran, yn llewyrchu diniweidrwydd, hynawsedd, a sirioldeb, a'i holl edrychiad yn arddangos gostyngeiddrwydd a chyfeillgarwch. Yr oedd ganddo feddwl dewr a phenderfynol—y cyfryw ag a'i cynnaliai yn ngwyneb pob rhwystr a phrofedigaeth. Er ei fod yn hynod ddidderbyn-wyneb, medrai argyhoeddi ei gyfeillion o fai yn effeithiol a didramgwydd. Fel *Cristion*, yr oedd yn ofalus iawn am roddi y pwys mwyaf ar bethau pwysicaf crefydd, gan roddi eu lle priodol iddynt. Mewn cyfeillach gallai fod yn hynod ddifyrus ac ysmala; ond pan y deuai pethau crefydd dan ei sylw, byddai difrifoldeb a sobrwydd yn ei eiriau a'i wedd, nid yn unig yn yr areithfa, ond mewn cyfeillachau cyfrinachol hefyd. Fel *pregethwr*, cyrhaeddodd raddau anghyffredin o boblogrwydd. Meddai ar ddawn a dull priodol iddo ei hun, fel yr oedd bron yn anmhosibl ei efelychu na'i ddynwared, ac mae bron mor anmhosibl a hyny i roddi darluniad cywir o hono. Ni pherthynai iddo lawer o hyawdledd, yn ystyr gyffredin y gair; byddai ei draddodiad yn hollol naturiol; ni wnai unrhyw ysgogiad corfforol, oddieithr symudiad achlysurol ei law ddehau, ac yr oedd bob amser yn meddiannu ei hunan pan yn pregethu wresocaf. Yr oedd ei bregethau i gyd yn llawn efengyl—Crist a'i groes fyddai eu swm a'u sylwedd; ac yr oeddynt yn hynod sylweddol, syml, a dealladwy. Ei lais oedd beraidd a swynol, heb swn uchel, na'r mesur lleiaf o dôn canu. Yn ystod tymmor ei weinidogaeth, derbyniodd rhwng dwy a thair mil o bersonau i gymundeb eglwysig; a rhwng dyledswyddau yr Ysgol, y gofal dros yr eglwysi, y darllen, y myfyrio, a'r cyfansoddi, treuliodd fywyd llawn gweithgarwch. Yr oedd yn nodedig am ei sel dros y Gymdeithas Genadol: pregethodd a dadleuodd

ei hachos ar hyd a lled y wlad; a chafodd ef y fraint o weled tri o aelodau ei eglwys yn cael eu hordeinio a'u hanfon allan i faes y Genadaeth, sef Jones, Bevan, a Johns. Y mae Dr. Phillips yn awdwr y llyfrau canlynol:— 1. Pregeth ar 1 Cor. xv. 3. 12plyg. Caerfyrddin, 1803.—2. Pregeth ar Galatiaid iii. 19. 12plyg. Caerfyrddin, 1808.—3. Brenhiniaeth Crist, wedi ei hystyried mewn pregeth ar Luc i. 33. 12plyg. Caerfyrddin, 1812.—4. Natur Cyfammod Eglwys, 12plyg. Caerfyrddin, 1815.—5. Ychydig Fasgedeidiau o Sypiau Grawnwin, 12plyg. Aberystwyth, 1818.—6. Ychydig o Loffion Grawnwin, 12plyg. Caerfyrddin, 1826.—7. Esboniad Byr ar y Testament Newydd, 4plyg. Caerfyrddin, 1831.—8. Gweddi yr Arglwydd wedi ei hystyried yn ddwys a'i hegluro yn amlwg, 18plyg. Caerfyrddin, 1834. 9. Ychydig o Hymnau Efengylaidd ar destunau Ysgrythyrol a Phrofiadol, 12plyg. Llanelli, 1842. Bu farw Mr. Phillips, Rhagfyr 22, 1842. Bu iddo naw o blant—pump o feibion, a phedair o ferched. Daeth dau o'r meibion yn weinidogion defnyddiol—un o honynt sydd yn bresenol yn Ty'nygwndwn, sef y Parch. Benjamin Phillips; ac am y llall, sef John Phillips, bwriadwn wneud ychydig grybwyllion.

PHILLIPS, JOHN. Efe ydoedd y *mab* hynaf, a ganwyd ef yn Penybanc, plwyf Hen Fynyw, y 30ain o Fehefin, 1805. Cafodd ei fagu, fel y gallesid dysgwyl, megys dan aden crefydd o'r cryd, ac aml y dywedai fod cynghorion tyner a gweddïau taerion ei rieni wedi effeithio yn fawr ar ei feddwl er ffurfio meddyliau parchus ynddo am grefydd er yn fachgen. Ymddengys hefyd i anerchiad ymadawol Mr. a Mrs. Bevan—y cenadon i Madagascar, ar eu hymadawiad o'r Neuaddlwyd, gael effaith barhaol ar ei feddwl ieuanc, fel y penderfynodd ymuno âg achos Duw yn y lle, ac ymgysegru yn gwbl i'w wasanaeth. Felly derbyniwyd ef yn aelod cyflawn, Mawrth, 1818, pan yn 13eg oed. Tua'r amser yma, dygwyddodd amgylchiad ag a fu bron a phrofi yn angeuol i John Phillips. Un tro pan oedd llong newydd yn cael ei gwthio i'r môr yn Aberaeron, aeth ef a nifer mawr o'i gydfyfyrwyr i lawr i làn y môr er cael gweled yr olygfa; ac fel yr oedd yn arferiad cyffredin ar y cyfryw achlysur, yr oedd ei dad yn pregethu yno. Wedi gollwng y llong i'r dwfr, aeth ef a'i gyfeillion ynddi tua'r Ceinewydd, ac wedi cyrhaedd yr angorfa yno, disgynasant yn y gwahanol gychod er mwyn cyrhaedd y làn. Aeth y cychaid cyntaf i dir yn ddiogel, ond suddodd y cwch yr oedd Mr. Phillips ynddo, a boddodd pedwar o honynt. Yr oedd Mr. P. ar y pryd yn eistedd ar ystlys y cwch, yn ochr un John Medlicot, myfyriwr, ac aethant ill dau i lawr law-yn-llaw. Boddodd ei gydymaith, a chydag anhawsdra mawr y gallodd yntau ymryddhau o'i afaelion; ond gan ei fod yn nofiwr da, cyrhaeddodd y làn yn ddiogel—wedi ei achub megys o safn angeu. Bu yr amgylchiad gofidus hwn yn fendith fawr iddo—credai fod gan Dduw

ryw ddyben mawr yn arbed ei fywyd fel hyn, ac felly penderfynodd ymgyflwyno o hyny allan yn llwyr i'w wasanaeth. Y bregeth gyntaf a draddodwyd ganddo, Chwefror 21, 1822, ar y testun, "Profwch a gwelwch mor dda yw yr Arglwydd," &c., Salm xxxiv. 8. Mabwysiadodd y testun hwn o herwydd daioni Duw iddo yn yr amgylchiad cyfyng ag oedd newydd fod ynddo. Mwynhaodd fanteision dysgeidiaeth yn helaeth gyda'i barchedig dad, a chyrhaeddodd gryn wybodaeth o'r Saesoneg, y Groeg, a'r Lladin, yn nghyda phethau eraill. Aeth wedi hyn i'r Drefnewydd, lle y treuliodd bedair blynedd drachefn yn yr athrofa oedd yno, dan ofal y Parch. E. Davies, i'r dyben o gymhwyso ei hunan yn mhellach i waith y weinidogaeth. Yn ystod ei arosiad yno, ennillodd barch cyffredinol oddiwrth ei gydefrydwyr, yn gystal ag oddiwrth eglwysi y dref a'r gymydogaeth, y rhai a wasanaethai yn achlysurol. Wedi gorphen ei dymmor yno, derbyniodd alwad unfrydol gan eglwys y Drewen, sir Aberteifi, lle yr oedd tua 600 o aelodau, i ddyfod i'w bugeilio, â'r hyn y cydsyniodd. Felly neillduwyd ef i holl waith y weinidogaeth, Gorphenaf 31, 1828, yn mhresenoldeb 26 o weinidogion. Llafuriodd yn y Drewen a'i chyffiniau yn ddiwyd a ffyddlawn am agos i bum mlynedd. Pregethai yn aml ar y Sabbath dair gwaith, yn Saesoneg a Chymraeg bob tro. Yr oedd Mr. Phillips yn gallu pregethu yn Saesoneg yn neillduol dda, a deuai llawer o Saeson y gymydogaeth i'w wrando—amryw o ba rai oeddynt aelodau yn ei eglwys. Yr oedd yn hynod lafurus gyda'r Ysgol Sabbathol, ac yr oedd ganddo ddawn neillduol a medrusrwydd tuhwnt i'r cyffredin o'i frodyr i holi ac egwyddori. Bu yn foddion i sefydlu achos newydd yn agos i Bontarseli, lle y codwyd addoldy, a elwir Bryn Seion, lle y pregethai yn fynych. Nodwedd arbenig yn Mr. Phillips fel pregethwr ydoedd, ei allu anghyffredin i drin pynciau dyrys ac athrawiaethau dyfnion yn y cyfryw fodd ag a ddeallid gan gorff mawr ei wrandawyr. Ychydig a ennillasant y fath boblogrwydd mewn cyn lleied o amser, a'r fath barch cyffredinol gan bob dosbarth y deuai i gyfarfyddiad â hwy. Nid oedd ei iechyd un amser yn dda; ond tua'r flwyddyn 1833, dechreuodd ddadfeilio yn gyflym, fel ag y gorfu iddo roddi i fyny y weinidogaeth gyhoeddus, a dychwelyd i dŷ ei dad. Bu y cyfnewidiad a'r gorphwysdra yno oddiwrth ei lafur yn foddion i'w adferu i raddau, ac yn mis Gorphenaf, y flwyddyn hòno, ar gais y Parch. Mr. Luke, o Wlad yr Haf, aeth drosodd i Loegr, sef i Wiviliscomb, i gadw ysgol. Ar yr 8fed o Hydref canlynol, ymunodd mewn priodas yno â Meistresan Salina Davie, merch ieuangaf Giles Davie, Ysw., o Lyme Regis, sir Dorset, yr hon oedd yn fenyw rinweddol a chrefyddol iawn. Ond ni fu yr undeb hwn ond o fyr barhad. Symudasant i Lyme Regis i fyw, gan feddwl y buasai ei iechyd yn well; ond er pob ymdrech, gwaethygu wnaeth; a phrydnawn Sabbath, tua'r un mynyd o'r dydd ag y ca'dd

ei eni, y 23ain o Dachwedd, 1834, hunodd yn yr Iesu. Ei eiriau diweddaf oeddynt, "Arglwydd Iesu, derbyn fy ysbryd." Yn mynwent Lyme Regis, yn ymyl llawer a fu yn enwog yn eu dydd mewn crefydd a duwioldeb, gosodwyd yntau i orphwys mewn parch hyd foreu udganiad yr udgorn.

PHYLIP BRYDYDD, oedd fardd o Geredigion, ac yn byw yn y flwyddyn 1250, ond ni wyddis yn mha le.—*Meyrick's Cardiganshire*, p. 261.

POWELL, THOMAS, (Marchog), Llechwedd Dyrus, oedd yn *Serjeant at Law*, a Barwn y Trysorlys, yn amser Iago II. Priododd Elizabeth, merch ac etifeddes David Lloyd, Aberbrwynen, trwy yr hyn yr aeth yr ystâd uchod i feddiant Nanteos, lle yr erys hyd heddyw. Eu mab hwy, William Powell, Ysw., oedd yn un o Farnwyr Llys y King's Bench, 1704.

POWELL, MORRIS, parson Bettws-Bledrws, a drowyd allan o'i eglwys gan y Lledaenwyr dan Cromwell, am gadw tafarndy cyffredin, a defnyddio y Weddi Gyffredin.—*Walker's Sufferings of the Clergy.*

POWELL, REES, a fwriwyd allan o Lanbedr mewn canlyniad i Ddeddf yr Unffurfiad, ond wedi hyny a gydffurfiodd.

POWELL, WILLIAM, LL.D., Nanteos, lle y ganwyd ef yn y flwyddyn 1705. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn Ngholeg yr Iesu, Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn LL.D. Priododd Elizabeth, merch Athelstan Owen, Ysw., Rhiwsaeson. Bu farw Rhagfyr 21, 1780, a chladdwyd ef yn Eglwys Llanbadarnfawr, lle y gwelir, ar yr ochr ddeheuol i'r gangell, gof-faen hardd iddo.

PRICE, CHARLES, A.C., o deulu Gogerddan, a wnaed yn Brif gantor Ty Ddewi, Mawrth 28, 1693. Bu farw yn y flwyddyn 1696, yn 35 ml. oed, a chladdwyd ef yn Eglwys Golegawl Aberhonddu, lle gwelir cof-faen hardd iddo.—*Willis' Survey of St. Davids*, 151.

PRICE, CHARLES, a fwriwyd allan o Eglwys Aberteifi trwy rym Deddf yr Unffurfiad; ond yr oedd yn enedigol o sir Faesyfed, ac wedi bod yn bregethwr defnyddiol a llafurus yno cyn ei sefydliad yn Aberteifi. Efe oedd sylfaenydd y gymdeithas grefyddol a ymgyfarfyddai yn Llechryd, ac yno yr adeiladwyd y tŷ addoliad cyntaf gan yr Ymneillduwyr yn sir Aberteifi. Wedi ei fwrw allan o'r Eglwys Sefydledig, efe a aeth i Loegr, a bu farw yn Hammersmith.—*Palmer's Nonconformists' Memorial*, vol. iii., p. 496; *Broadmead Records*, p. 517.

**Price, David**, a drowyd allan o Ficeriaeth Llanfihangel-y-Creuddyn, gan y Lledaenwyr, am feddwdod.

**Price, David**, a drowyd allan o Lanarth gan yr unrhyw, o ddiffyg dawn, a defnyddio y Weddi Gyffredin.

**Price, Evan**, etto o Langeitho, gan yr unrhyw am feddwdod, puteindra, a darllen y Weddi Gyffredin.—*Walker's Sufferings of the Clergy.*

**Price, Lewis**, etto, o Langynllo.

**Pryse, Syr Carbery**, oedd fab Carbery Pryse, ac ŵyr y Barwn Pryse o Gogerddan. Mae ei enw yn dra adnabyddus mewn cysylltiad â mwngloddiau sir Aberteifi, ac mae perchenogion tiroedd mwnawl trwy y deyrnas yn ddyledus iddo ef am y ddeddf sydd yn eu galluogi i weithio mwngloddiau ar eu tir eu hunain. Yr oedd gweithfeydd eang yn cael eu dwyn yn mlaen mewn gwahanol ranau o'r sir, y rhai a ddechreuasid gan Syr Hugh Middleton a'i olynydd Mr. Bushel, i'r hwn y caniatawyd yr hawl o fathu arian yn Aberystwyth; etto o herwydd camddealltwriaeth rhwng rhai o'r perchenogion a'u gilydd, ni ddygid hwy yn mlaen gyda chymaint o yni ag o'r blaen. Ond yn y flwyddyn 1690, darganfyddwyd rhai newyddion mwy cynnyrchiol na'r hen rai, ar dir Syr Carbery Pryse, Gogerddan, ac mor gyfoethog yr ystyrid hwy fel y derbyniasant yr enw o "*Welsh Potosi.*" Trwy rym deddf seneddol a wnaed yn 1690, cymerodd Syr Carbery ato amryw gymhariaid, a rhanodd ei dir i bedair mîl o gyfranau; ac wedi sicrhau gwasanaeth un Mr. Waller, mwnwr o'r Gogledd, i fod yn arolygydd, dechreuodd gloddio gydag ysbryd. Wedi gweled o'r gymdeithas freiniol o fwnwyr eu bod yn gyfoethog, hawliasant y mwnau fel yn eiddo cyfreithlon iddynt hwy, gan nad oedd gwahanol adranau y ddeddf yn ddigon amlwg ar y pwnc. Y canlyniad o hyn fu dechreu ymdrafodaeth gyfreithiol rhwng y pleidiau yn y flwyddyn 1692. Yn mysg cymhariaid Syr Carbery yr oedd amryw foneddigion o ddylanwad, megys y Duc o Leeds, ardalydd Caerfyrddin, &c.; a chan gymeryd mantais ar yr amseroedd, cawsant ddwyn deddf i mewn yn 1693, yr hon a alluogai bob perchen tir trwy y deyrnas i weithio a derbyn ennillion eu mwnau eu hunain, ar yr ammod fod i'r brenin, a'r rhai a hawlient o dano ef, i gael y mwn trwy dalu am dano i'w berchenogion o fewn deng niwrnod ar hugain ar ol ei godi, a chyn ei symud yn lle plwm:—plwm yn ol naw punt y dunell, copr yn ol deg punt, &c. Dywedir i Syr Carbery ar ei lwyddiant, i farchogaeth adref (trwy newid ei geffylau ar y ffordd) yr holl bellder o Lundain i Escairhir, mewn wyth awr a deugain, fel ag y taen-

wyd y newydd mewn cyn lleied a hyny o amser yn mysg trigolion y rhan hòno o Geredigion. Gan i Syr Carbery farw yn ddiblant, aeth y mwngloddiau i ddwylaw Syr Humphrey Mackworth, yr hwn a brynodd gyfran Mr. Edward Pryse am £15,000. Dywedai Mr. Waller y gallesid yn mhen ychydig amser, gyda chwe' chant o ddynion, wneud i'r gwaith y pryd hwnw gynnyrchu allan o un wythïen yn unig, elw clir o £75,000 yn y flwyddyn. Bu Syr Carbery Pryse yn cynnrychioli y sir o'r flwyddyn 1689 hyd ei farwolaeth yn 1695.—*Meyrick's Cardiganshire*, p. 223; *Hughes' Representation of Cardiganshire*, p. 17.

PRYSE, SYR RICHARD, oedd fab Syr Richard, Gogerddan, a gwnaed ef yn Farchog, Awst 9fed, 1641. Priododd gyntaf â Hester, merch Syr Hugh Middleton, Barwn; ac yn ail â Mari, merch Arglwydd Rhuthin. Mewn llyfr a ysgrifenwyd yn y flwyddyn 1661, ceir y sylw canlynol:—"Syr Richard Pryse, a young gentleman, not of full age, in the tyme that the discovery of principles was most dangerous, and it is conceived that he hath not as yet any that he is not too much obliged unto. He ranne through several publique offices under all the governments that have been from 1652, to this tyme; but probably more by the direction of his father-in-law, *Mr. Bulstrode Whitlocke, than by his own desires."

PUGH, PHILLIP. Ychydig iawn wyddis am hanes boreuol y gwr hynod a'r gweinidog defnyddiol hwn. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1679, ac yn nghymydogaeth Blaenpenal mae'n debyg; ond treuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn Mlaengwern, plwyf Llanfair Clydogau; ac yr oedd y gadair yr arferai eistedd arni yno hyd yn ddiweddar. Oddiwrth ei ddyddlyfr, gwelir ei fod wedi ei urddo i'r weinidogaeth yn y flwyddyn 1709, sef pan yn ddeg ar hugain oed, a hyny yn y Cilgwyn; ond gweinyddai yr ordinhadau yn gylchynol yn Abermeurig, Ciliau Aeron, a Llwynpiod. Derbyniasai ei addysg foreuol o dan Mr. Samuel Jones, Brynllywarch, yr Anghydffurfiwr enwog; ac wedi hyny yn Abergafeni, dan Mr. Roger Griffiths. Ei gydweinidogion yn y lleoedd a enwyd oeddynt Mr. David Edwards a Mr. Jenkin Jones. Yr oedd Mr. Pugh yn berchen cryn lawer o gyfoeth,—yn meddu rhai tiroedd yn etifeddiaeth. Yn y flwyddyn 1753, adeiladwyd capel bychan, â thô brwyn iddo, o'r enw Llwynpiod, a symudwyd yr eglwys o Llwynrhys—lle buasai arferol o ymgynnull er tua y flwyddyn 1600, iddo. Adeiladwyd y capel hwn ar draul Mr. Pugh, a chododd un wedi hyny yn Blaenpenal. Yr oedd Mr. Pugh yn bregethwr tanllyd, yn ateb i'r oes yr oedd yn byw ynddi; ond

*Camgymeriad yw hyn mae yn debyg; y mab arall a briododd ferch yr achod.—*Meyrick's Cardiganshire*, p. 390.

nid pregethwr yn unig ydoedd;—yr oedd hefyd yn ymdrechgar iawn i egwyddori yr ieuenctyd, ac felly, yn gweithio allan, i raddau, egwyddorion yr Ysgol Sabbathol. Yr oedd hefyd yn ysgolhaig rhagorol, fel y gwelir oddiwrth ei ddyddlyfr, rhanau o'r hwn sydd wedi eu hysgrifenu mewn llaw fer hardd, ac yn yr ieithoedd Lladin a Groeg; a'r cyfan, heblaw hyn, mewn Saesoneg rhwydd a rheolaidd. Oddiwrth y cofnodion sydd ynddo, gwelir ei fod wedi bedyddio chwe' chant a phedwar ugain o blant o'r flwyddyn 1709 hyd y flwyddyn 1760. Wrth ystyried nad oedd ef ond un o'r tri gweinidog oedd yn gofalu dros yr eglwysi yr oedd yn gysylltiedig â hwy, a phan yr ystyriom ragfarn cyffredinol y wlad yn erbyn ymneillduaeth yn yr oes hòno, ymddengys y rhifedi yn neillduol fawr. Bu y gwr enwog a defnyddiol hwn farw mewn oedran teg, tua'r flwyddyn 1760, wedi cyrhaedd un mlynedd a phedwar ugain o'i oedran, ac wedi treulio 52 o'r cyfryw yn y weinidogaeth. Gorwyr iddo ef ydyw David Pugh, Ysw., Greenhill, A. S. dros sir Gaerfyrddin.

**Rees, Joseph**, gweinidog gyda'r Trefnyddion Calfinaidd yn Mhontrhydfendigaid. Ganwyd ef yn Tygwyn, plwyf Llanfair-orllwyn, yn y flwyddyn 1796, yn mis Ionawr. Enwau ei rieni oeddynt Thomas a Mary Rees. Yr oedd ei dad yn un o'r rhai hyny a ddaethant allan gyda'r Methodistiaid ar y cychwyn; ond pan aeth y corff i ordeinio gweinidogion eu hunain, fe giliodd yn ol i'r Eglwys. Dygwyd ei wraig i fyny gyda'r Annibynwyr yn Horeb, lle yr oedd ei thad yn ddiacon; ond wedi priodi, yn hytrach na throi gyda'i gwr i'r Eglwys, darfu iddi fwrw ei choelbren gyda'r Annibynwyr. Yr oedd Thomas Rees a'i wraig yn ddarllenwyr mawr: tra yr oedd y naill yn dra chyfarwydd â bron bob llyfr Cymraeg, yr oedd y llall yn dra hyddysg mewn llenyddiaeth Seisnig, ac yn deall Lladin yn bur dda. Dygwyd Joseph, modd bynag, i fyny gyda'i daid tra y bu byw; ond gan iddo farw pan oedd ei wyr yn saith oed, rhoddwyd Joseph o dan ofal ei nain-yn-nghyfraith, yn agos i gapel Horeb, lle bu nes oedd yn unarddeg oed. Wedi hyny symudodd at ei dad a'i fam, a rhoddwyd ef i ddysgu y grefft o wehyddiaeth; ond gan nad oedd yn cael iechyd da wrth y gwaith hwnw, aeth i'r ysgol i ddysgu rhifyddiaeth, gan feddwl ymgynnyg am swydd yr *excise*, ond o herwydd iddi fyned yn heddwch rhyngom a Ffrainc yr adeg hòno, methodd gyrhaedd ei amcan. Yna fe ddysgodd y gelfyddyd o saernïaeth gyda'i dad; ac yn y flwyddyn 1817, priododd âg Elizabeth, merch David Jones, Arddgoed, ger Bronwydd. Yr oedd y pryd hwn yn hynod ymdrechgar gyda'r Ysgol Sabbathol, a darllenai lawer iawn, yn enwedig llyfrau duwinyddol a hanesyddol. Ond hyd yn hyn nid oedd wedi plygu i alwadau yr Efengyl, er ei fod yn fynych yn teimlo yn ddwys o dan y weinidogaeth. Ond un Sabbath aeth i'r Twrgwyn i wrando ar y Parch. Thomas Richards, Abergwaen, lle y cafodd

lawn olwg ar ei gyflwr fel dyn colledig; a bu am dymmor yn ofidus iawn ei feddwl, yn methu gweled un waredigaeth yn ymgynnyg iddo. Ond aeth i wrando y Parch. Lewis Powell o'r Mynyddbach (yn awr o Gaerdydd) yn pregethu yn Nghastell Newydd Emlyn, pryd yr agorwyd drws o waredigaeth iddo, ac mewn canlyniad taflodd ei goelbren i blith y Trefnyddion yn nghapel y Drindod. Yr oedd hyn yn y flwyddyn 1823, ac yn mhen chwe' blynedd wedi hyny, dechreuodd bregethu. Gweithiai yr amser hwn gyda y boneddwr, Mr. Parry, Gernos; ond wedi marw y gwr hwnw, rhoddodd ei amser a'i feddwl yn fwy llwyr at y weinidogaeth; ac yn y flwyddyn 1839, ar gais yr eglwys yn y lle, symudodd i Bontrhydfendigaid, lle yr ymsefydlodd fel bugail. Yn 1841, ordeiniwyd ef yn Nghymanfa Llangeitho. Bu yn hynod ddiwyd yn ei faes newydd, gan ymdrechu â'i holl egni i borthi y praidd a gyflwynwyd i'w ofal. Ac er gwneud hyny yn fwy effeithiol, darllenai lawer ar weithiau yr hen Buritaniaid, yn enwedig Dr. Owen, Charnock, a Howe, ac yr oedd yn hollol gartrefol yn ngweithiau y tri hyn. Yr oedd yn dra hoff hefyd o eiddo Leighton, Chalmers, ac Edwards o'r America. Tua diwedd y flwyddyn 1845, neu ddechreu yr un ganlynol, mewn canlyniad i dderbyn anwyd trwm, ymaflodd y darfodedigaeth ynddo; ac ar y 30ain o Fedi, 1847, terfynodd ei hoedl yma gan bwyso ar yr adnod hôno, "Yr Hwn a osododd Duw yn Iawn." Yr oedd yn bregethwr cryf, llawn o sylwedd. Tueddai ei bregethau i ddysgu y gwrandawyr, gan gyfeirio at eu deall a'u cydwybodau; ond pe pregethasai fwy i'r serch, diau y buasai yn fwy poblogaidd. Yr oedd ei feddwl o *gast* hollol athronyddol—nid oedd nesaf i ddim o'r *bardd* ynddo, er na ddarllenodd nemawr o weithiau ar athroniaeth erioed —dim ond Locke a Reid. Llafuriodd yn galed am wybodaeth, a llwyddodd i gyrhaedd gradd helaeth o honi.

**Rhydderch, Shon**, y bardd, y gramadegwr, a'r argraffydd, oedd frodor o gymydogaeth Llandyssul, ac yr oedd yn byw tua dechreu y ganrif ddiweddaf. Yn yr Amwythig y dygai yn mlaen ei alwedigaeth o argraffydd, a chyhoeddodd yno amryw lyfrau Cymraeg gwerthfawr. Yn y flwyddyn 1718, cyhoeddodd lyfr o'i eiddo ei hun, dan y teitl, "Gramadeg Cymraeg o gasgliad, myfyrdod, ac argraffiad J.R., ac ar werth ganddo ef yn y Mwythig." Cyhoeddodd eilwaith Eiriadur Saesoneg a Chymraeg yn 1725. Ymddengys iddo ddechreu un arall, oblegid ymddangosodd un yn 1731, o'i swyddfa, ar dudalen cyntaf pa un yr hysbysid i'r gwaith i gael ei ddechreu gan Shon Rhydderch, a'i orphen gan y Parch. J. Williams, Willey, sir Amwythig. Yr oedd yn gyfaill mawr i Iago ab Dewi, a cheir peth o'i waith yn yr ysgrif-lyfrau a adawodd y bardd hwnw ar ei ol.

**Rhydderch, Sion**, a anwyd yn yr Alltgoch, yn agos i Lanbedr, yn y flwyddyn 1683. Crynwr ydoedd o ran ei grefydd, a dyoddefodd gryn lawer mewn canlyniad. Gosodwyd ef unwaith yn ngharchar Tregaron o herwydd ei ffyddlondeb i'w gredo.—Gwel *Besse's Sufferings of the Quakers*, vol. ii., p. 748; *Collection of Testimony*, 1760.

**Rhydderch ab Ieuan Llwyd**, oedd fardd o'r dosbarth cyntaf, yr hwn oedd yn byw yn yr oes nesaf ar ol Dafydd ab Gwilym. Trigianai yn Gogerddan, ac yr oedd yn berchen yr ystâd hòno, a dygwyd ef i fyny yn Rhydychain. Yn mysg gweithiau eraill o'i eiddo, ceir pryddest hynod iawn yn y Saesoneg, yr hon sydd yn dangos y dull o seinio yr iaith yn yr amser hwnw, o'r hyn mae yn debyg na cheir yr un enghraifft arall gyffelyb yn y byd. Yr oedd i Rhydderch ferch nodedig am ei phrydferthwch, o'r enw Llio, i wallt yr hon y canodd Dafydd Nanmor Gywydd, yr hwn sydd yn dechreu fel hyn:—

"Llio Eurwallt, lliw Arian,
Llewych Mellt, ar y Lluwch mân:
Mae ar ei Phen Seren Serch,
Eliw rhuddaur, Llio Rhydderch."

Ceir Cywydd hefyd o waith yr un gwr i Rhydderch, yr hwn sydd yn dechreu:—

"Hawddammor, blaenawr y blaid,
I'r Siryf a'r Cwrseriaid;
Dafydd a rydd, dydd a dŵr
Llwyd nerthog, lid nai Arthur."

**Rhys Dafydd Thomas**, oedd un o arglwyddi Llanbedr yr amser y pregethid yno gan Baldwin, Archesgob Caergaint, a Giraldus Cambrensis, o blaid Rhyfel y Groes.

**Rhys, Evan Thomas**, o Lanarth, oedd fardd rhagorol, ac yn byw tua chanol y ganrif ddiweddaf. Ni wyddis nemawr ddim o hanes bywyd yr hen fardd, gan na ysgrifenwyd yr un cofiant o hono erioed, ac nis gallwyd cadw ond ychydig, mewn cymhariaeth, o'i gyfansoddiadau rhag myned gyda ffrwd amser i ebargofiant. Cymaint a wyddis am dano yw, iddo gael ei eni yn Llwyndafydd, plwyf Llandysilio-gogo, yn Ngheredigion. Enw ei dad oedd Thomas Rhys Siams, crydd wrth ei alwedigaeth; ac ymddengys iddo ymdrechu yn galed i roddi addysg dda i'w fab—gwrthddrych y cofiant hwn. Dywedir mai ei amcan oedd ei ddwyn i fyny yn offeiriad, ac nid yw hyny yn annhebygol, oblegid yr oedd Evan Thomas Rhys yn deall llawer ar yr ieithoedd Lladin a Groeg. Ond gan i'w dad farw pan nad oedd ef ond tua deunaw oed, gorfu iddo yntau

droi at y gelfyddyd o wneud esgidiau; ac mae yn debyg mai yn Llanarth yr ymsefydlodd ar ol yr amgylchiad yma, hyd ddiwedd ei oes. Dyn bychan o gorffolaeth ydoedd, yn llai na'r cyffredin, a lled ddiolwg. Ond yr oedd y fath hyd yn ei freichiau, fel y dywedir y gallai ddattod botymau penliniau ei glôs pan yn sefyll yn syth! Er ei fod yn fychan, etto yr oedd o gyfansoddiad cadarn, ac mor sionc a heinyf fel y dywedir y byddai yn arferol o gerdded o Lanarth i Lundain—pellder o ddau cant a thair ar hugain o filldiroedd—mewn tri diwrnod! Oblegid ei fod yn feddiannol ar ddealltwriaeth a synwyr cyffredin mor gryf, yn nghyda'i ymddygiad didramgwydd, yr oedd yn dra pharchus yn ngolwg ei gymydogion; ac appelient ato yn fynych ar achosion dyryslyd neu gamddealltwriaeth yn y plwyf, a byddai ei farn ef yn gyffredin yn derfyn ar yr anghydfod. Arminiad selog o ran ei farn ydoedd Evan Thomas Rhys, a dadleuai yn gadarn o blaid yr hyn a ystyriai yn wirionedd. I Lwynrhydowen y byddai arferol o fyned i wrando, ac y mae yn debyg ei fod ef yn un o'r aelodau cyntaf yn y lle hwnw; a chanodd farwnad i'r gweinidog yno, sef y Parch. Jenkin Jones, yr hon a ymddengys yn mysg ei gyfansoddiadau cyhoeddedig. Dywedir ei fod wedi talu ymweliad â Llundain amryw weithiau ar negeseuon prydyddawl, ac hefyd ei fod wedi bod unwaith mewn Eisteddfod yn y Gogledd; ond nis gwyddom pa sail sydd i hyn. Ymddengys fod rhyw offeiriad cymydogol (Llanarth mae yn debyg) yn noddwr caredig ac yn gyfaill ffyddlawn iddo, ac mai ar gais y gwr hwnw y cyfansoddodd gryn lawer o'i ddarnau, a'i fod yn cael ei ddigolledu yn haelionus ganddo am ei amser, &c. Ei gydoeswyr a'i gymydogion awenyddol oeddynt, Shôn Siencyn, Aberteifi, neu "Shôn y crydd bach," fel y gelwid ef, a Nathaniel ei frawd, â'r rhai y cymdeithasai ac y gohebai yn fynych. Ni wyddis yn sicr pa bryd y dechreuodd ei awen ymddadebru, ond ymddengys iddo gyfansoddi ugeiniau o bryddestau tra yn bur ieuanc, y rhai ydynt wedi eu colli yn anadferadwy. Yn y flwyddyn 1842, gwnaed casgliad o gymaint o'i gyfansoddiadau ag a allwyd ddyfod o hyd iddynt mewn hen lawysgrifau ac ar "lafar gwlad," a chyhoeddwyd hwy, yn nghyda gwaith amryw o'i gydfeirdd, yn llyfryn o dan y teitl, *Diliau yr Awen.* Mae y caneuon hyn oll yn hynod am eu hystwythder a'u naturioldeb, ac y mae rhai o honynt yn llawn ffraethineb. Mae y cyfan yn profi fod y bardd o Lanarth yn feddiannol ar y wir awen, ac ni bu yn segur ganddo chwaith, fel y dywed Daniel Ddu:—

"Cerniai a baeddai gybyddion—diffydd:—
Ffrwynai â ch'wilydd y ffroenuchelion."

Dyfynwn y ddau bennill canlynol fel enghraifft o'i ddull yn canu. Y mae yn ymddangos fod "yr hen ddioden" ac yntau, er gwaethaf holl ddarlithoedd ac edliwiadau Grace ei wraig, yn dyfod i gydgyfarfyddiad

mwy mynych nag oedd ddymunol er ei les a'i heddwch teuluaidd. Wedi cyfarfod mewn tafarndy unwaith â'i gydyfwyr, adroddodd iddynt ei gyffes a'i benderfyniad fel hyn:—

"Yn enw'r gallu mi ymro'
  I beidio tra b'wyf byw,
Byth mwyach redeg yn ei rhwyd,
  Rhag myn'd yn llwyd fy lliw;—
Nid oes ond taliad tost am drin
  Y ddiod gethin gas;
'Rwy'n gwel'd y gwaith, a dweyd y gwir,
  Yn groes i natur *Grace*.

Yn barchus, foneddigion gwiw,
  Tr'wy' byw mi gym'ra'ch *part*,
Waith llawer meithgen drom ges i,
  Wrth fynych godi'r *quart;*
Pan b'awn a'm bwriad megys cawr,
  I fwrw i lawr i'm bol,
Mewn enyd bach, wfft iddi byth!
  Hi neidiai'n syth i'm siol."

Mae y ddwy linell a ganodd ar yr achlysur o glywed am farwolaeth ceisbwl o'r gymydogaeth, yn dra adnabyddus, ac yn enghraifft o'i ffraethineb a pharodrwydd ei awen—dyma hwy:—

"Mae eisiau bailïod, mae'n debyg gen i,
Mewn rhyw fyd, yn rhywle, heb law ein byd ni."

Pan yn prydyddu byddai gwythïen las fawr yn codi ac yn chwyddo uwch un o'i lygaid, fel gele fawr, nes byddai rhyw olwg ryfeddol arno!

RHYSTUD, sant a flodeuai yn nechreu y chweched ganrif. Mab ydoedd i Hywel Fychan ab Emyr Llydaw. Yr oedd yn un o'r rhai a ddilynasant Cadfan o Lydaw i Brydain, ac yr oedd yn frawd i Sulien a Christiolus. Efe oedd sylfaenydd Eglwys Llanrhystyd, ac yr oedd hefyd yn esgob Caerlleon-ar-wysg. Ei ddydd gwyl oedd dydd Mawrth o flaen y Nadolig.—*Iolo MSS.*

RICHARDS, EBENEZER, Tregaron. Er na anwyd y gwr enwog hwn yn Ngheredigion, etto gan mai ynddi y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes, a chan mai â'r lle uchod mae ei enw megys wedi ei gysegredig gysylltu, ni ddylid myned heibio iddo yn ddisylw. Mab ydoedd Ebenezer i Mr. Henry Richards, pregethwr defnyddiol gyda'r Methodistiaid; a ganwyd ef yn Nhrefin, sir Benfro, Rhagfyr 5, 1781. Fel y gallesid dysgwyl, dygwyd ef i fyny yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd. Yr oedd, modd bynag, tuag ugain oed pan deimlodd argyhoeddiadau cryfion a

bechod, sef pan yn y Dinas, lle yr aethai i gadw ysgol. Bu ei feddwl am beth amser mor ddyryslyd o dan yr argyhoeddiad yma, fel y gorlethwyd ef i lawr yn llwyr, nes ei orfodi o'r diwedd i roddi i fyny ddyledswyddau yr ysgol. A chan gyfeirio at y noson y tywynodd goleuni yr efengyl, dywed yn ei ddyddlyfr:—"Gorphenaf 1, 1801. Y noswaith hon oedd y fwyaf ofnadwy yn fy mywyd, ond yr wyf yn gobeithio mai ynddi hi y dechreuodd *dydd* na bydd terfyn arno byth." Yn fuan wedi hyn, dechreuodd bregethu. Yn 1806, aeth i Aberteifi, yn y swydd o *tutor* yn nheulu Major Bowen, Llwyn-y-gwair, lle yr arosodd dair blynedd; ac ar derfyn yr amser hwnw, priododd foneddiges o Dregaron, ac yn y lle hwnw yr ymsefydlodd dros y gweddill o'i oes. Mr. Richards oedd yr ieuangaf o'r tri gweinidog ar ddeg a ordeiniwyd yn Llandeilo yn y flwyddyn 1811. Bu am beth amser yn ysgrifenydd Cymanfa y sir; ac yn 1813, penodwyd ef yn ysgrifenydd Cymanfa Methodistiaid y Deheudir, a chyflawnodd ddyledswyddau y swydd hòno gyda medrusrwydd mawr hyd ddiwedd ei oes. Ychydig o weinidogion fuont mor ddefnyddiol a dylanwadol a Mr. Richards, a llai fyth y gwelwyd ynddynt y fath gydgyfarfyddiad dedwydd o ragoriaethau personol. Efe oedd un o'r offerynau cyntaf i sefydlu yr Ysgolion Sabbathol yn y Deheudir. Er rhoddi drychfeddwl o'r llafur gorfawr yr aeth trwyddo, dyfynwn y cyfrif canlynol o'i ddyddiadur:—

| | |
|---|---|
| Nifer y gweithiau y pregethodd ... ... | 7,048 |
| Etto y gweinyddodd Swper yr Arglwydd ... | 1,360 |
| Etto etto Bedydd ... | 824 |
| Y Cyfarfodydd Cyhoeddus y cymerodd ran ynddynt | 651 |
| Y milltiroedd a drafaeliodd ... ... ... | 59,092 |

Blinid Mr. Richards yn ei flynyddau olaf gan fath o hûn-glwyf (*lethargy*), yr hwn a derfynodd yn angeuol iddo yn Mawrth, 1837, pan yn 56 mlwydd oed. Claddwyd ef yn mynwent Tregaron. Mab iddo ef ydyw y tra adnabyddus Barch. Henry Richard, Ysgrifenydd Cymdeithas Heddwch.—Gwel ei *Fywgraffiad* gan ei feibion.

RICHARD, EDWARD, y bardd a'r ysgolhaig rhagorol, a anwyd yn Ystradmeurig, Ceredigion, Mawrth, 1714. Yr oedd ei rieni o amgylchiadau lled isel yn y byd. Dilledydd oedd ei dad, a chadwai dafarn hefyd, ac adnabyddid ei fam yn gyffredin wrth yr enw "Modryb Gwen," gan ysgolheigion Ystradmeurig. Yr oedd mab arall iddynt o'r enw Abraham, yr hwn ar ol treulio ychydig amser yn athrofa Henffordd, ac ysgol ramadegol Caerfyrddin, a aeth i Rydychain, ac a dderbyniwyd i Goleg yr Iesu. Cyfranodd lawer ei hunan at ei draul yn y brifysgol trwy ddysgu ychydig efrydwyr a gasglai yn nghyd yn ystod ei wyliau i hen eglwys Ystradmeurig. Bu hyn yn gyfleusdra rhagorol i'w frawd Edward, ac ni

chollodd afael o hono, ond gosododd i lawr yno sylfaen yr enwogrwydd hwnw a ennillodd wedi hyny fel ysgolhaig clasurol. Ar ol marwolaeth ei frawd, yr hwn a golbodd ei fywyd trwy syrthio o ben craig yn y gymydogaeth, danfonwyd Edward i ysgol Caerfyrddin, yr hon oedd y pryd hyny o dan arolygiaeth y Parch. Mr. Maddox. Oddiyno symudodd i Bontygido, yn mhlwyf Llanarth, lle y bu am dymmor o dan ofal y Parch. Mr. Pugh—gwr a ystyrid yn ysgolhaig Groegaidd rhagorol. Yn y flwyddyn 1734 yr agorodd ei ysgol yn Ystradmeurig, yr hon a ddaeth wedi hyny i gymaint o enwogrwydd trwy y wlad. Ond wedi ei dwyn yn mlaen am dymmor gyda gradd neillduol o lwyddiant, gwnaeth benderfyniad nas gallai dim ond meddwl gostyngedig ac anrhydeddus ei annog, a dim ond ysbryd eon ei gario allan. Yn ddisymwth hollol gollyngodd ymaith ei ysgolheigion, gan gyfaddef wrthynt yn wyneb-agored nad oedd efe yn ystyried ei hunan yn gymhwys i wneud cyfiawnder â hwy, ac o ganlyniad ei fod am gyrhaedd gradd uwch o ddysgeidiaeth cyn anturio yn mhellach i ddysgu eraill. Wedi cymeryd y cam hunanymwadol yma, ail ddechreuodd efrydu y Groeg a'r Lladin gydag aiddgarwch ac ymroddiad digyffelyb am ddwy flynedd o amser. Heb neb yn gydymaith iddo ond y Parch. Evan Evans (*Ieuan Brydydd Hir*), yr hwn a fuasai yn un o ysgolheigion ei frawd, gwelid ef yn ddyddiol, am bedwar o'r gloch yn y boreu, haf a gauaf, yn ystod yr holl amser hwnw, yn cyfeirio ei gamrau tua hen Eglwys y plwyf—y lle a ddewisasai i ddilyn ei efrydiaeth. Creodd yr ymddygiad cydwybodol hwn o'i eiddo, fel y gellid dysgwyl, deimlad cryf o'i blaid, fel pan yr ail agorodd yr ysgol yn 1746, heidiodd lluaws o efrydwyr iddi o bob rhan o'r Dywysogaeth. Y flwyddyn flaenorol darfu i'r Parch. Thomas Oliver, periglor Dudley, ond genedigol o Ledrod, adael yn ei ewyllys dyddyn a swm o arian er sefydlu ysgol rad yn ei hen gymydogaeth. O herwydd rhyw ddiffyg neu gilydd, dyryswyd amcan gwreiddiol y gwladgarwr, ond darfu i'w wraig wedi hyny ei gario allan yn llwyddiannus. I'r ysgol hon, yr hon oedd yn mhlwyf Lledrod, penodwyd Mr. Richard yn athraw. Trwy ei gynnildeb a'i ddarbodaeth ofalus, llwyddodd yma i gasglu ychydig gyfoeth. O'r diwedd daeth i'r penderfyniad o sefydlu ysgol gyffelyb yn Ystradmeurig, er addysgu gwŷr ieuainc yn y Lladin ac egwyddorion yr Eglwys Sefydledig. I'r dyben hyny, neillduodd dyddyn at ei gwaddoli, yn y flwyddyn 1757, yn nghydag amryw eraill yn 1771, a gadawodd yn ei ewyllys holl gynnwys ei lyfrgell at wasanaeth yr athraw a'r ysgolheigion. Parhaodd yr ysgol i flodeuo mewn modd neillduol ar ol oes Mr. Richard, a chodwyd ynddi lawer o enwogion o dro i dro. Yn 1764 bu farw ei fam, yr hyn a effeithiodd yn fawr ar ei deimladau, ac a fu yn achlysur i gyfansoddi un o'r cerddi hyny, yr hon o ran dwysder teimlad, tynerwch, a melusdra, nid oes o fewn holl gylch llenyddiaeth Cymru yr un i'w chyf-

tadlu â hi. Cyfeirio yr ydym at ei Fugeilgerdd. Cyfansoddodd amryw wedi hyny. "Y mae '*Caniadau Byrion*,'" ebe un, neu "Fugeilgerddi y diweddar Iorwerth Risiart o sir Aberteifi, yn rhagori cymaint ar y testun fel nad oes neb hyd yn nod yn yr oes hon wedi dringo yn agos ato; ïe, mewn gair, mae ei Fugeilgerddi fel pe baent ar gopa craig fawr, heb i'r un bardd anturio dyfod yn agos atynt." Dywedir fod y fath swyn yn nghynnyrchion cyntaf ei awen, fel yr arferai yr hen bobl ddifyru eu gilydd wrth eu hadrodd a'u canu, er na fynai efe eu cyfaddef yn ei henaint, ac ni welwyd mo honynt yn mhlith yr ysgrifeniadau a adawyd ganddo ar ei ol. Yn ychwanegol at ei gyrhaeddiadau eraill, yr oedd Mr. Richard yn hanesydd a hynafiaethydd Cymreig rhagorol, fel yr ymddengys oddiwrth amryw lythyrau o'i eiddo yn y *Cambrian Register*. Dygai yn mlaen ohebiaeth gyson gyda'r hynafiaethydd enwog Lewis Morys, Dr. Phillips, ac eraill. Yn mysg ei noddwyr a'i gyfeillion yr oedd rhai o wŷr mwyaf y wlad, megys J. Lloyd, Ysw., Ffosybleiddiaid, a Richard Stedman, Ysw., o Fynachlog Ystrad Fflur.

Bu yr athraw dyfnddysg, y bardd penigamp, y dyngarwr a'r gwladgarwr hyglod, Iorwerth Risiart, farw ar y pedwerydd o Fawrth, 1777. Claddwyd ef yn Eglwys Ystradmeurig, ar ochr orllewinol y pulpud, yn agos i'r mur gogleddol, a dodwyd careg goffadwriaethol iddo ar fur y llyfrgell.—*Yr Ymofynydd*, Ionawr, 1864; *Meyrick's Cardiganshire*; *Yr Eos*, sef Gwaith Prydyddol Mr. Edward Richard o Ystradmeurig, gyda hanes ei fywyd, Llundain, 1811.

**Roberts, Humphrey**, ficer Llansantffraid, Ceredigion, a fwriwyd allan o'i eglwys gan Brwywyr Lledaeniad yr Efengyl, am feddwdod a diffyg doniau.

**Roberts, Isaac**, oedd enedigol o Benllwyn, sir Aberteifi. Gwelid er yn ieuanc ei fod yn feddiannol ar alluoedd meddyliol tuhwnt i'r cyffredin. Yr oedd yn aelod dichlynaidd gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, ac am y pum mlynedd olaf o'i fywyd, bu yn pregethu yn eu mysg gyda chymeradwyaeth mawr. Treuliodd ryw gymaint o amser yn Ngholeg y Bala, ond o herwydd gwaeledd ei iechyd, gorfu iddo roddi i fyny ei efrydiaeth yno yn Nadolig, 1862; ac wedi hir a phoenus gystudd, yr hwn a ddyoddefodd gydag amynedd a thangnefedd Cristion, ehedodd ei ysbryd i'r wlad lle na ddywed neb, "Claf ydwyf," Medi 30ain, 1864. Yr oedd y pryd hyn yn nghanol ei ddyddiau, a phob argoelion ynddo y deuai cyn hir yn addurn i'w wlad. Heblaw ei fod yn bregethwr gobeithiol iawn, yr oedd hefyd yn fedrus iawn fel ysgrifenydd, bardd, a cherddor, ac ysgrifenodd gryn lawer o dro i dro i'r gwahanol gyfnodolion. Yr oedd yn frawd i'r Parch. John Roberts (Ieuan Gwyllt), a'r Parch. Robert Roberts, Carneddi, (gynt o Aberteifi).

**Roberts, John**, parson Aberporth, a fwriwyd allan gan y Dirprwywyr am feddwdod.

**Rogers, John**, Ysw., M. D., a anwyd yn Llanllur, plwyf Nantcwnlle, yn y flwyddyn 1786. Derbyniodd ei ddysgeidiaeth yn ysgol enwog Ystradmeurig, o dan yr hyglod John Williams, tad yr Archddiacon, yr hwn, trwy briodi merch Lewis Rogers, Ysw., Gelli, ydoedd yn berthynas agos iddo. Bu wedi hyny yn dilyn ei efrydiaeth feddygol yn Guy's Hospital ac yn Edinburgh, lle y derbyniodd ei radd o M. D. Bu ei yrfa fel meddyg yn ei wlad ei hun yn hynod lwyddiannus, a chyrchid ato gan dlawd a chyfoethog am iachâd, o bell ac agos. Yr oedd ei haelioni i'r tlawd yn ddiarhebol:—rhoddai gyffyriau ac ymgeledd iddynt yn rhad ac am ddim. Llawer siwrnai hir-faith a gymerodd i fyned i ymweled â rhai o'i gymydogion a fyddent mewn angen am ei gynnorthwy, heb ddysgwyl yr un atdaliad ond y pleser hwnw a fwynhai yn ei galon oddiwrth y ffaith iddo fod yn gwneud daioni. Wrth ddychwelyd adref o ymweled ag un o'i gleifion, y goddiweddwyd ef gan yr amgylchiad pruddaidd a daenodd gwmwl o dristwch cyffredinol dros yr holl wlad. Cofir y dydd hwnw, sef y 5ed o Orphenaf, 1846, yn fywiog gan lawer, fel y dydd y dygwyddodd llif anarferol yn y rhan hòno o'r wlad. Yr oedd Mr. Rogers a'i was ar y pryd yn marchogaeth ar eu ceffylau yn agos i bentref Talsarn, pan ddaeth y dwfr o un o'r ffrydiau cyfagos ar draws eu ffordd, gyda grym anwrthwynebol, gan eu hysgubo ill dau gydag ef; a phan eu cafwyd yr oeddynt, fel y gallesid dysgwyl, wedi boddi. Claddwyd Mr. Rogers yn Nantcwnlle.

**Rowlands, Daniel**, y diwygiwr enwog, a anwyd yn y flwyddyn 1713, yn Pantybeudy, plwyf Nantcwnlle, sir Aberteifi. Addysgwyd ef yn Ysgol Ramadegol Henffordd, ac urddwyd ef yn ddiacon, Mawrth 10fed, 1733, ac yn offeiriad Awst 31ain, 1735. Gwasanaethodd wedi hyny fel curad yn ei blwyf genedigol a Llangeitho am y cyflog o £10 y flwyddyn, o dan ei frawd; ac wedi hyny cyn diwedd ei oes, i'w fab hynaf ei hun. Pan ddechreuodd ar y weinidogaeth, yr oedd yn ddyn annychweledig, yn hollol ddifater am bethau crefydd a byd tragwyddol, ac o ganlyniad yr un mor ddifater am eu gwneud yn hysbys i eraill. Ymgymerasai â'r swydd bwysig yr oedd ynddi heb ddim o'r cymhwysderau angenrheidiol, na chwaith yr un dymuniad am eu meddu. Yr amser hyny talai yr enwog Barch. Griffith Jones, Llanddowror, ymweliad achlysurol â Llanddewi brefi, i bregethu. Aeth Rowlands yno i'w wrando un Sabbath, yn mysg y lluaws a gyrchai bob amser i wrando yr efengylydd hwnw—o ran cywreinrwydd, efallai, yn gymaint a dim, yn nghydag oddiar ddymuniad, mae lle i feddwl, i ddeall yn mha beth yr oedd poblogrwydd

y gwr hwnw yn gynnwysedig, fel ag y gallai yntau hefyd ennill ychydig sylw yn ei ardal fel pregethwr. Modd bynag am hyny, bendithiwyd y bregeth fel ag y dwysbigwyd, ac yn raddol dychwelwyd ef. Yr oedd hyn tua'r flwyddyn 1735. Gwelwyd cyfnewidiad amlwg ynddo ar ol hyn. Yr oedd difrifwch a dwysder yn argraffedig arno, yn enwedig pan yn y pulpud, a phregethai wrth y bobl fel un yn teimlo erbyn hyn bwysfawredd ofnadwy y genadwri a draethai. Yr oedd ei bregethau y pryd hyn, ac am rai blynyddau ar ol hyn, yn ddangoseg lled gywir o'i deimladau ei hun. Nid oedd ef ei hun etto wedi profi nemawr o dangnefedd yr efengyl: —Wrth "y mynydd teimladwy sydd yn llosgi gan dân, a chwmwl, a thywyllwch, a thymhestl, a sain udgorn, a llef geiriau," yr oedd ei arosiad, ac nid oedd hyd yn hyn wedi cyrhaedd "i fynydd Seion, ac i ddinas y Duw byw, y Jerusalem nefol;" a'r hyn a welsai, a glywsai, ac a deimlai ei hun, a fynegai i'w wrandawyr. Ac o ganlyniad yr oedd ei weinidogaeth yn danllyd anghyffredin—yn llawn mellt a tharanau arswydus. "Teimlai ei wrandawyr fel pe crynai y ddaear dan eu traed, gan rym y bygythion a gyhoeddai. Clywid ganddo bellach beth ni chlywsid o'r blaen. Yr oedd difrifwch a gonestrwydd yn ei lais, a diragrithrwydd i'w ganfod yn ei wedd. Er fod ei fater yn ofnadwy, yr oedd ei ysbryd yn doddedig gan dosturi, a'i lef yn swynol gan fawr ofal calon. Dilynid ei weinidogaeth bellach gan effeithiau rhyfeddol. Daethai ar y trigolion diofal fel braw disymwth; deffroid hwy megys gan ruad taranau trymion. Meddiennid y cannoedd a'r miloedd a ddeuent weithiau i'w wrando, â braw aruthrol, a syrthiai llawer o honynt i lawr fel meirwon. Gellid canfod arswyd a dychryn wedi ei bortreiadu ar wynebau y dyrfa fawr; brethid eu cydwybodau gan saethau llymion; a llifai eu dagrau yn afonydd dros eu gruddiau, fel cawodydd o wlaw ar ol taranau mawrion." Parhaodd yr effeithiau hyn i ddilyn ei bregethau, i raddau mwy neu lai, dros ystod ei holl weinidogaeth. Oddeutu pum' mlynedd, modd bynag, y parhaodd yn ei ddull taranllyd, oblegid wedi teimlo tangnefedd a chysur yn ei galon ei hun, dechreuodd ei gyhoeddi i'w wrandawyr, gan eu harwain oddiwrth ddychrynfeydd mynydd Sinai i dawelwch hyfrydlawn gororau Seion. Ac at hyn y mae Williams, Pantycelyn, yn ei Farwnad iddo, yn cyfeirio pan y dywed:—

"'Nol pregethu'r ddeddf dymhestlog
Rai blynyddau yn y bla'n,
A rhoi llawer yn friwedig,
'Nawr cyfnewid wnaeth y gân."

Fel y gallesid dysgwyl, ymdaenodd ei glod fel pregethwr trwy hyd a lled y wlad, fel yr aeth ei gynnulleidfaoedd yn lluosog anarferol, a derbyniai geisiadau taer yn barhaus i fyned i bregethu i wahanol eglwysi yn Ngheredigion a Chaerfyrddin. Yr hyn a'i harweiniodd gyntaf o'i gym-

ydogaeth ei hun oedd yr amgylchiad canlynol. Yr oedd gwraig yn byw yn Ystradffin, ag iddi chwaer yn nghymydogaeth Llangeitho; a phan ar ymweliad â hi un tro, aeth i wrando yr "offeiriad *crac*," fel y gelwid ef, a'r canlyniad fu iddi gael ei hargyhoeddi yn ddwys o dan ei bregeth. Ac er syndod i'w chwaer, daeth yno y Sabbath drachefn o Ystradffin—pellder o tuag ugain milldir o ffordd anhygyrch, i'r dyben o'i wrando eilwaith. Parhaodd i wneud hyny yn gyson am dymmor. Ac un Sabbath, ar ol y bregeth, anturiodd ei gyfarch fel hyn:—"Os gwir, Syr, ydych chwi yn ei ddweyd, y mae llawer yn fy nghymydogaeth i mewn cyflwr peryglus iawn, ac yn myned yn gyflym i'r trueni tragwyddol. Er mwyn eneidiau gwerthfawr, deuwch drosodd i bregethu iddynt." Parodd y cyfarchiad hwn iddo synu; ond efe a'i hatebodd yn y fan, yn ei ddull cyflym ei hun, "Dof, os cewch genad offeiriad y plwyf." Felly cafwyd y cydsyniad yma, aeth yntau drosodd, ac argyhoeddwyd llawer o dan y bregeth hòno, a pharhaodd yntau i fyned yno yn fynych wedi hyny. Ac yn ngeiriau y bardd wedi hyny:—

"Aeth y swn dros fryniau Dewi,
Megys fflam yn llosgi llin,
Nes dadseinio creigiau Tywi,
A hen gapel Ystradffin."

Yn y cyfamser, yr oedd diwygiwr hynod arall wedi troi allan yn sir Frycheiniog, sef yr enwog Howel Harris, yr hwn heb foddloni ar rybuddio ei gydgymydogion ei hun o'u perygl, a droisai allan yn bregethwr teithiol ar hyd y Dywysogaeth, ac yr oedd dylanwadau anarferol yn cydfyned â'i lafur lle bynag yr elai. Ac yr oedd Rowlands bellach yn rhagweled mai myned allan i'r "prif-ffyrdd a'r caeau" fyddai raid iddo yntau cyn hir; ac yr oedd amgylchiadau yn prysuro ei ymadawiad â'r Eglwys Sefydledig. Felly o *orfodaeth*, yn hytrach nag o *ddewisiad*, y bu hyn. Tua'r flwyddyn 1763, felly y gorfu iddo adael yr Eglwys lle y buasai yn gweinidogaethu gyda'r fath arddeliad am tua 25 mlynedd. Yr oedd cyfarfodydd eglwysig (*societies*) a chynghori yn cael eu cario yn mlaen er's chwe' blynedd cyn hyn, mewn hen ysgubor ar dyddyn a ddelid gan Mr. Rowlands, o'r enw Meidrim, yn agos i'r pentref. Codwyd capel bychan drachefn yn 1760; ond y flwyddyn ar ol y neillduad, adeiladwyd addoldy mawr a helaeth, ac yn hwnw y parhaodd i lafurio gyda'r un llwyddiant am tua 27 mlynedd eraill o'i oes. Yn y flwyddyn 1751, cymerodd rhyw anghydwelediad le rhwng Rowlands a'i gydlafurwr Howel Harris, trwy yr hyn y bu iddynt ymadael â'u gilydd, ac felly rhanwyd eu dysgyblion yn ddwy blaid, yr hyn a fu yn niwaid mawr am amser i'r achos da a ddechreuasid trwy eu hofferynoldeb. Parhaodd Llangeitho, yn ystod bywyd Mr. Rowlands, ac am flynyddau wedi hyny, i fod yn gyrchfan cannoedd o bobl o'r ardaloedd cylchynol; ac ar Sabbath

cymundeb, nid anfynych y gwelid minteioedd yn cynniwair yno o eithafoedd y Gogledd. Tebygai Rowlands mewn llawer o bethau i Whitfield; ond gwahaniaethent yn hyn,—tra yr oedd gweinidogaeth yr olaf yn fwy effeithiol er deffroi, yr oedd yr eiddo ef yn fwy parhaol o ran ei heffeithiau. Dywedir nad oedd dim llai na 100 o bregethwyr yn priodoli eu dychweliad, mewn rhan neu yn gyfangwbl, i'w weinidogaeth ef. O'r rhai hyn yr oedd yr enwog Charles o'r Bala yn un; ac nid yr anrhydedd lleiaf iddo oedd cael bod yn dad ysbrydol y gwr defnyddiol hwnw. Bu farw y gweinidog hynod hwn yn y flwyddyn 1790, ac yr oedd ei farwolaeth yn golled, nid yn unig i achos Methodistiaeth, yr hwn a wasanaethodd mor ffyddlon, ond hefyd i achos crefydd trwy y Dywysogaeth. Gadawodd un mab, sef John Rowlands, yn weinidog yn yr Eglwys Sefydledig, yr hwn a fu yn gweinidogaethu yn Llangeitho.—Gwel *Bywgraffiad y Parch. Daniel Rowlands*, gan y Parch. John Owen, Thrushington; *Nonconformity in Wales; Methodistiaeth Cymru*, cyf. i. a ii., &c.

Rowlands, David, a anwyd mewn ty bychan dinod o'r enw Ffosyffin, yn mhlwyf Llanddewi brefi, Ceredigion, yn y flwyddyn 1783. Treuliodd ei ddyddiau boreuol mewn ysgol blwyfol yn y plwyf hwnw, lle y gwnaeth gynnydd rhagorol mewn dysgeidiaeth. Bu yn cadw ysgol ei hunan wedi hyny yn Nhregaron, Llangeitho, Pancader, a Llanllawddog. Wedi hyny aeth i ysgol enwog Ystradmeurig, yr hon oedd y pryd hyny dan ofal y Parch. David Williams, lle y treuliodd bum' mlynedd. Yn ystod y gwyliau, cadwai ysgol mewn gwahanol fanau, er mwyn bod yn alluog i ddwyn ei draul tra o dan addysg yno. Yn y flwyddyn 1806, cafodd ei urddo a'i benodi yn gurad yn Llanfihangel-y-Creuddyn. Symudodd oddiyno yn 1808 i guradiaeth Carno a Llanwnog, sir Drefaldwyn. Yn fuan wedi hyn bu farw y Cenadwr yn Sant Ioan, Newfoundland, a chymeradwywyd Mr. Rowlands i sylw'r Gymdeithas fel un cymhwys i lanw ei le. Y canlyniad fu iddo gael ei benodi, ac felly cychwynodd am faes ei lafur, Mehefin 24ain, 1810. Mae yn ymddangos fod ei lafur a'i ymdrech yn y lle hwnw yn fawr iawn, a bod graddau mawr o lwyddiant yn eu dilyn. Ond yr oedd ei iechyd yn gwaethygu yn raddol, fel y gorfu iddo yn y diwedd, sef tua'r flwyddyn 1816, roddi ei swydd i fyny yno, a dychwelyd i wlad ei enedigaeth. Ar ol cyrhaedd yn ol, penodwyd ef i guradiaeth Sant Pedr, Caerfyrddin, a thrwy ganiatâd yr Esgob, dechreuodd gynnal gwasanaeth hwyrol yn yr Eglwys hòno. Tra ar ymweliad â Llanwnog, yn Mehefin, 1818, cafodd *fit* o beswch, yn mha un y torodd un o'i waed-lestri. Trwy ymdrech fawr ar ran y meddygon, daeth lawer yn well, a dychwelodd i Gaerfyrddin, ond ni chafodd ei lwyr adferu. Penodwyd ef y pryd hyny gan yr Esgob i Ficeriaeth Tregaron, gan feddwl y buasai awyr ei fro enedigol yn ei gyflawn adferu, ond nid felly

y bu, oblegid cyn iddo gymeryd meddiant o'i fywoliaeth, tòrwyd ef i lawr. Felly bu farw, Ebrill 29fed, 1820, yn 37 oed. Claddwyd ef Mai 6ed, yn nghangell Eglwys Sant Pedr, gyda phob arwydd o alar cyffredinol ar ei ol. Yr oedd Mr. Rowlands yn fardd coeth, a dywedir y gallai gyfansoddi yn rhwydd er yn blentyn. Bu am dymmor yn ysgrifenydd gweithgar i GYMRODORION DYFED. Yr oedd yn ddyn hynod o ddidwyll, cydwybodol, a diwyd yn ngwaith y weinidogaeth, a'i holl ymgais oedd cyflawni ei swydd santeidd-lan gyda ffyddlondeb.

ROWLANDS, NATHANIEL, oedd fab y Parch. Daniel Rowlands, Llangeitho, lle y ganwyd ef yn y flwyddyn 1749. Gorphenodd ei addysg yn Ngholeg Eglwys Crist, Rhydychain, lle y graddiwyd ef. Wedi ei ordeinio, aeth yn gapelwr i Dug Ormond a'r Arglwyddes Huntingdon. Pregethai mewn undeb â'r Methodistiaid Calfinaidd, ac ystyrid ef yn un o'r pregethwyr mwyaf poblogaidd yn eu mysg. Ond ar ol neillduad y corff hwnw oddiwrth yr Eglwys Sefydledig, yn y flwyddyn 1811, tòrodd ef y cysylltiad â hwy yn llwyr, a glynodd yn yr Eglwys. Ond o herwydd rhyw afreoleidd-dra yn ei fuchedd, ni weinyddai ynddi er y flwyddyn 1807. Gwasanaethodd y rhan olaf o'i oes mewn capel a godwyd iddo yn Hwlffordd, i gynnulleidfa o Fethodistiaid a barhäent o hyd wrth weinidogaeth yr Eglwys. Yr oedd yn briod â merch Howel Davies, yr offeiriad poblogaidd. Bu farw yn y Parc, sir Benfro, yn 82 mlwydd oed, a chladdwyd ef yn Henllan-amgoed.—*Meth. Cymru*, cyf. iii.

ROWLANDS, WILLIAM. Er nad oedd y gwr hwn yn ystyr cyffredin y gair yn ddyn cyhoeddus, etto gan ei fod yn un o'r dynion mwyaf gweithgar a ffyddlon yn y cylch yr oedd yn troi ynddo, ystyriwn ef yn deilwng o goffhad. Ganwyd ef Mai 1af, 1778, yn nghymydogaeth Blaenplwyf, o deulu hynod grefyddol. Argyhoeddwyd ef pan tua 21ain oed, ac ymunodd â'r Methodistiaid Calfinaidd yn y lle hwnw, ac efe oedd un o'r aelodau cyntaf yno. Yn y flwyddyn 1804, neillduwyd ef gan y Cyfarfod Misol yn flaenor, a pharhaodd i gyflawni dyledswyddau y swydd hòno gyda ffyddlondeb mawr am yr yspaid maith o 55 o flynyddau. Penodwyd ef yn Ysgrifenydd y Dosbarth i'r Ysgol Sabbathol yn 1819; ac yn 1823, rhoddwyd ef yn y swydd o ofalu am gyhoeddiadau pregethwyr a'u dosbarthu, yr hyn oedd yn waith gofalus a llafurus iawn; ac yn 1840, dewiswyd ef yn Drysorydd y Sir. Pan ddaeth y Gymdeithas Ddirwestol gyntaf i sylw, yr oedd William Rowlands yn un o'r rhai cyntaf i'w phleidio yn y rhan hòno o'r wlad, a pharhaodd yn ddirwestwr selog hyd ei fedd. Bu yn ffyddlon iawn yn cyrchu i'r cyfarfodydd Misol, a hyny i bellder mawr, a bu mewn wyth o honynt ar gyfartaledd, bob blwyddyn trwy ei oes, hyd ei flynyddoedd olaf; a mynych yr elai mor bell a'r Bala i Gy-

manfa. Yn ei ddyddlyfr, yr hwn a gadwodd gyda'r gofal mwyaf, o'r flwyddyn 1824 hyd derfyn ei oes, gwelir ei fod wedi gwrando 4707 o bregethau, ac y mae yr holl destunau hyn i lawr ynddo. Nid oes hanes trwy ei holl oes grefyddol, iddo fod yn absenol o gyfarfodydd yr eglwys am ddau gyfarfod yn olynol; ac anfynych iawn y byddai yn absenol o un, er fod ganddo fasnach fawr a fferm i edrych ar eu hol. Ymdrechodd gryn lawer gydag achos sylfaeniad Athrofa Trefecca; cyfranodd yn haelionus ati ei hunan, a bu yn offeryn i gasglu llawer oddiwrth eraill ati. Ac yn wir nid oedd un achos da nad oedd ef â'i holl egni yn ei bleidio. Efe fyddai yn dechreu y canu am flynyddoedd meithion yn nghymanfaoedd y sir, a byddai ei lais mor glir fel yr adnabyddid ef o bellder mawr yn mysg yr holl filoedd fyddai yn cydganu ar y pryd. Ychydig yn wir a gysegrodd oes mor faith ac mor llwyr at achosion crefydd ag ef, ac a fuont mor ffyddlawn gyda'r gwaith. Gorphenodd y Cristion didwyll hwn ei yrfa y 26ain o Awst, 1859, yn 81 oed.—Gwel *Cofiant William Rowlands*, gan y Parch. Robert Roberts, Llangeitho.

SAUNDERS, DAVID, oedd weinidog tra defnyddiol gyda'r Bedyddwyr. Brodor ydoedd o Landyssul. Derbyniwyd ef trwy fedydd yn aelod o'r eglwys yn y lle, Gorphenaf, 1784, gan Mr. Timothy Thomas, ac ordeiniwyd ef yn weinidog yn Aberduar, Hydref 22ain, 1800. Symudodd oddiyno i Gapel Seion, Merthyr, Gorphenaf 13eg, 1815, lle y bu yn gweinidogaethu hyd y flwyddyn 1836, pryd y gorfu iddo, o herwydd afiechyd, roddi i fyny ei ddyledswyddau cyhoeddus. Bu ei yrfa fel gweinidog yn y lle hwn yn hynod lwyddiannus, a bedyddiodd yn ystod yr ugain mlynedd y bu yno, dros 500 o aelodau.—Gwel *Hanes y Bedyddwyr* gan Jones, tudal. 584. Yr oedd Mr. Saunders yn fardd lled dda, ac yn awdwr amryw o draethodau, ac ysgrifenai yn bur fynych i'r *Seren Gomer*. Yn 1791 cyhoeddwyd marwnad o'i waith i'r Parch. William Williams, Pantycelyn; ond ei brif waith oedd ei "*Antigraphon*, neu Wrthgraffiad Seion yn achos y camachwyniad a gafodd yn ddiweddar gan awdwr mewn llyfr newydd a elwir, *Amddiffyniad i'r Eglwys Gristionogol yn bedyddio plant bychain*, gan D. Saunders, Aberduar. Caerfyrddin, argraffwyd gan I. Ross tros Dafydd William, 1780."—*Llyfryddiaeth y Cymry.*

SHADRACH, AZARIAH. Er nad oedd yn enedigol o'r sir hon, etto gan mai ynddi hi y treuliodd y rhan hiraf a phwysicaf o'i fywyd, ac y cyrhaeddodd gymaint o enwogrwydd, ni ddylid myned heibio i'w enw yn ddisylw. Ganwyd y dyn hynod hwn yn Carn-deio-fach, plwyf Llanfair, yn agos i Abergwaun, sir Benfro. Symudodd ei rieni oddiyno pan oedd ef yn saith oed, i blwyf Borton, ar lan afon Penfro—lle hollol Seisnig-

aidd, ac yno y dysgodd ef gyntaf yr iaith Saesneg, fel y tystiai ef ei hun, gan iddo fod yno "yn chwareu gyda phlant bach y Saeson dros dair blynedd." Ond yr oedd yn ddeg oed cyn gwybod gair ar lyfr, nac adnabod un lythyren. Yr amser yma symudodd at fodryb iddo yn Nhrewyddel, ac yn y lle hwn, wrth fugeilio ar lan y Fagwyreinion, ymbalfalodd ei ffordd i ddarllen Cymraeg. Yn y lle hwn, o dan weinidogaeth y Parch. John Phillips, yr argyhoeddwyd ef, ac yr unodd â'r eglwys. Yn fuan wedi hyn daeth arno awydd mawr am bregethu, ac wedi bod yn ngwasanaeth y Parch. John Richards, Rhosycaerau—gweinidog yr eglwys Annibynol yn y lle hwnw, am flwyddyn o amser, ac yn derbyn hyfforddiadau ganddo, cafodd ei ddymuniad, a dechreuodd ar y gwaith. Cawn ef wedi hyn yn cymeryd taith trwy y Gogledd, ac ar annogaeth y Parch. Dr. Lewis, yn ymsefydlu yn yr Hirnant, yn agos i Lanrhaiadr-Mochnant, yn y cymeriad o bregethwr ac ysgolfeistr. Symudodd oddiyno yn lled fuan i'r Dderwen Las, ac oddiyno drachefn i Benybont, Gelligoch, ac yn y lle olaf y dechreuodd fod yn awdwr, oblegid tra yno y cyhoeddodd ef ei *Allwedd Myfyrdod.* Ac yn niwedd 1802, urddwyd ef yn weinidog yn Nhrefriw a Llanrwst. Yn 1806, cawn ef drachefn yn symud yn ol i'r Deheudir, ac yn ymsefydlu fel gweinidog yn Nhalybont, yn nghyda chymeryd gofal eglwys Llanbadarn Fawr. Yn y flwyddyn 1815, bendithiwyd ei lafur yn y lle blaenaf hwn mewn modd arbenig trwy ddiwygiad grymus a gymerodd le yno, pryd y chwanegwyd lluaws mawr at yr eglwys. Yn 1819, trwy ymdrechion a hunan-ymwadiad mawr ar ei ran, sefydlodd eglwys yn nhref Aberystwyth, a chasglodd bob dimai a aeth i adeiladu y capel yn y lle, ei hunan, mewn manau eraill! Penodwyd gweinidog arall yn olynydd iddo yno yn 1835. Bu y gwas ffyddlon, diwyd, a llwyddiannus hwn farw Ionawr 12fed, 1844, yn 69 mlwydd oed, a chladdwyd ef yn mynwent Eglwys St. Michael, Aberystwyth. Fel *awdwr* mae enw Azariah Shadrach yn dra adnabyddus, ac y mae rhyw hynodrwydd neillduol yn perthyn i *enwau* ei lyfrau yn gystal a'u *cynnwysiad.* Gwelir enwau rhai o honynt yn y penniill canlynol sydd ar ei fedd-adail:—

"Bu ei dafod a'i ysgrifell
Yn cyd-daenu efengyl Crist;
*Perlau'r Groes*, ac *Aur Caersalem*
Gynnygiai i dylodion trist;
*Drych* a *Cherbyd* a *Goleuni*,
*Myfyrdodau* lu ar g'oedd:
Un-ar-hugain rhif ei lyfrau—
Bunyan Cymru'n ddiau oedd."

Gwel *Bywyd a Gweithiau Azariah Shadrach*, gan y Parch. Josiah Jones, Machynlleth.

**Siancyn, Dafydd Llwyd**, oedd un o arglwyddi Llanbedr-Pont Stephan, pan ymwelwyd â'r lle gan yr Archesgob Baldwin a Giraldus Cambrensis, yn y flwyddyn 1188, ar yr achlysur o bregethu "Rhyfel y Groes." Prif anneddle arglwyddi Llanbedr oedd Mynydd Hywel, yr hwn a safai ar yr ochr orllewinol i'r afon Croyddin, yn agos i'r amaethdy a elwir yn awr Pontfaen, ychydig islaw tref Llanbedr. Mae traddodiad yn nodi allan weddillion rhodfa o ddrws gorllewinol yr eglwys, yr hwn a arweiniai ar hyd pont gèryg i'r plas. Mewn cân o eiddo Lewys Glyn Cothi, wedi ei chyfeirio i un Hopcyn ap Sion, Llys Newydd, un o arglwyddi Llanbedr, ceir y llinellau canlynol, oddiwrth yr hyn y gwelir faint eu hargl wyddiaethau:

"I Hopcyn, er hyn, y rhawg
Ydd a gwledydd goludawg;
Gwlad Geredig, a Chadell;
Gwyr; a Sir Gaer y sy well.
Iddaw y mae, arglwydd mèn,
Daiar Llanbedr, oll unben.
Saint Clêr, dan ei faner fe,
A swyddau Cemaes iddo;
Bro Went, Morganwg o'r bron,
Bro Wyr, ac Aber Aeron."

**Sitsyllt**, oedd fab Clydawg, brenin Ceredigion, a dilynodd ef yn ei diriogaeth. Efe ydoedd tad Arthen. Bu farw yn y flwyddyn 804. —*Meyrick's Cardiganshire*, xxvi.

**Sulien**, oedd fab Rhyddmarch, a duwinydd enwog. Gelwir ef gan yr hanesydd Caradawg, yn "faethmab Eglwys Llanbadarn Fawr, yr hwn oedd y doethaf mewn cynghor, y duwinydd mwyaf dysgedig yn esgobaeth Ty Ddewi, ac un o'r rhai mwyaf diflino yn ystod ei fywyd yn gwrthwynebu drygioni a thrais." Bu farw yn 1145.—*Myf. Arch.*, ii., 561. Yr oedd hefyd Sulien neu Silin arall, sef Sant yn blodeuo yn y chweched ganrif, i'r hwn y cyflwynwyd Capel Sant Silin, yn mhlwyf Llanfihangel Ystrad, Ceredigion.—*Rees' Welsh Saints*.

**Symmons, Charles**, D.D., a anwyd yn Aberteifi, yn y flwyddyn 1749. Ei dad oedd John Symmons, Ysw., a bu yn cynnrychioli Aberteifi yn ystod tri Senedd-dymmor olynol, sef yn y blynyddoedd 1741—47—54. Dygwyd ef i fyny yn Ysgol Westminster, o'r lle y symudodd i Athrofa Glasgow, ac oddiyno eilwaith i Gaergrawnt. Yn 1776, graddiwyd ef yn y lle olaf yn B.D. O herwydd rhyw sylwadau o'i eiddo a gyhoeddodd mewn pregeth, y rhai a ffafrient y blaid wrthwynebol, sef y Whigiaid, rhoddwyd attalfa ar ei obeithion am dderbyn unrhyw ddyrchafiad yn yr Athrofa hòno, ac felly ymadawodd am Goleg yr Iesu, Rhydychain, lle y derbyniodd ei radd o Ddoethawr Duwinyddiaeth yn 1794. Wedi ei

ordeinio, penodwyd ef i fywoliaeth Narberth a Llanbedr. Ysgrifenodd gryn lawer o farddoniaeth, a chyhoeddwyd amryw ddarnau o'i eiddo. Ei brif waith oedd cyhoeddi gweithiau rhyddieithol Milton, gyda bywgraffiad o'r awdwr. Bu farw yn Caerbaddon yn 1826.—*Williams' Eminent Welshmen.*

TALIESIN, oedd yr enwocaf o'r hen Feirdd Prydeinig, ac yr oedd yn blodeuo tua 540. Mab ydoedd i St. Henwg, Caerlleon-ar-wysg, ab Fflwch Lawdrwm ab Cynin, &c., ac yn hanu felly o Llyr Llediaith. Cafwyd ef mewn cwracl pan yn blentyn gan Elffin yn ngored Gwyddno, yn agos i Aberdyfi.—Gwel *Elffin.* Cymerwyd ef i lys ei noddwr a'i dad, lle yr addysgwyd ef gyda'r gofal mwyaf, a daeth mewn amser yn brif-fardd, a rhestrir ef yn y "Trioedd" gyda Merddyn Emrys, a Merddyn ab Madog Morfryn, fel y tri "privardd bedydd." Rhanodd ei amser boreuol rhwng llysoedd Urien Rheged a Gwyddno Garanhir; ond wedi gorlifo o'r môr etifeddiaeth yr olaf, ar annogaeth y Brenin Arthur, aeth i breswylio i'w lys ef i Gaerlleon-ar-wysg, a pharhaodd y brenin hwnw yn noddwr caredig iddo tra bu yno. Mae llawer o'i ganiadau wedi eu hargraffu yn y *Myfyrian,* yn nghydag eraill o ddyddiad diweddarach, y rhai yn gyfeiliornus a briodolir iddo ef. Dywed rhai iddo dreulio rhan o'i oes ar làn Llyn Geirionydd, yn sir Gaernarfon; tra mae lle arall yn sir Aberteifi yn hawlio yr un anrhydedd. Y lle hwnw sydd yn agos i Dalybont, ac adnabyddir ef hyd heddyw fel "Gwely neu Fedd Taliesin," a chyfodwyd cof-faen yn ddiweddar ar y fan, lle y tybir fod gweddillion y prif-fardd yn gorwedd. —*Iolo MSS.*, 459, 467, 659; *Myf. Arch.*, ii., 19; *Guest's Mabinogion,* vol. iii., &c., &c.

THOMAS, DAVID, oedd enedigol o Geredigion, ond ni wyddis o ba le ynddi; ond yr oedd yn byw yn nechreu y ganrif ddiweddaf. Trodd ar gân y bennod gyntaf o Lyfr y Pregethwr, yr hwn a orphenwyd gan Edward Evan o Aberdar, a Lewis Hopcyn o Lynogwr. Cyhoeddwyd y gwaith hwn, yr hwn sydd ar fesur cywydd, yn y flwyddyn 1767, yn Bristol, gan P. Ffarley. Mae iddo y rhagymadrodd a ganlyn:—"Mal y deallo'r darllenydd yr hyn a fu achos a chymmelliad i'r gorchwyl ymma o gyfansoddi Llyfr y Pregethwr ar fesur Cywydd. Cymered sylw o'r ymadrodd canlynol. Digwyddodd i wr ieuanc o sir Aberteifi a'i enw Dafydd Thomas, ddyfod i wared i Forganwg oddeutu'r flwyddyn 1727. Un ydoedd o berchen cynheddfau naturiol cryfion; a chwedi cael cyfran weddol o fanteision gwybodaeth. Efe a dderbyniwyd yn aelod i gynulleidfa'r Parchedig Rhys Prys o'r Ty'n Tonn. Yr ydoedd ganddo dalent o awen, a rhwyddineb ymadrodd. Efe a ymosododd i ddyscu Rheolau Grammadeg, a iawn ysgrifeniaeth, oddeutu'r flwyddyn 1730; ac a ddaeth yn gryn gyfarwydd

a dychmygfawr mewn barddoniaeth Gymreig. Bum ar brydiau yn ei gyfeillach ef, pan oeddwn tuag at ddwy ar bumtheg neu ddeunaw oed, ac am hyny yn rhy ysgafn a phenhoeden i sylwi na dal gafael ar unpeth o werth a theilyngdod. Efe a briododd, ond ni chafodd efe nemawr hyfrydwch oddiwrth y cyflwr hwnw. Ei ddyddiau diweddaf a dreuliodd gyda Dafydd Martin, yn Ystrad Dyfodwg. Efe a orphenodd ei yrfa yn y flwyddyn 1735; ac wrth chwilio ac edrych ar ei escrifeniadau ef, mi a gefais y Bennod gyntaf o Lyfr y Pregethwr, wedi ei chyfansoddi ar fesur Cywydd; yr hyn cynhyrfodd i ofyn cynnorthwy gan fy nghyfaill a'm cydnabod Lewys Hopcyn, i orphen a chyflawni bwriad yr hwn oedd wedi ei attal gan farwolaeth."

Thomas Emlyn Thomas, a anwyd yn Nhroed-yr-aur, yn y flwyddyn 1822. Derbyniodd ei ddysgeidiaeth yn Ffrwd-y-fal a Chaerfyrddin. Cyfansoddodd lawer o farddoniaeth a thraethodau, yn ei oes fer, y rhai sydd i'w gweled yn *Seren Gomer*. Bu farw Ebrill 24, 1847, yn 24ain oed.

Thomas, Francis, y "Crythor dall" o Aberteifi, oedd fardd lled wych, yn byw tua chanol y ganrif ddiweddaf. O ran ei farn, Arminiad selog a chydwybodol ydoedd. Mae dwy gân o'i eiddo i'w gweled yn argraffedig yn *Mlodau Dyfed*, sef, "Cynghor i Fab Ieuanc," a "Hanes cyflwr dyn yn mhob rhan o'i oes, sef, 1. Ei Fabandod; 2. Ei Ieuenctid; 3. Ei ganol oed; 4. Ei Henaint." Mae rhai o'i ysgrifau, yn cynnwys ei ganeuon, yn awr yn meddiant y Parch. David Lloyd Isaac, Llangathen.

Thomas, Jenkin, o'r Cwmdu, ger Emlyn, a anwyd yn y flwyddyn 1688, yn Felin Drewen. Ei dad-cu ydoedd Morgan Rhydderch, brawd Shon Rhydderch yr argraffydd yn yr Amwythig, ac mae yn debyg mai y diweddaf fu ei athraw barddonol. Crydd wrth ei alwedigaeth ydoedd Jenkin Thomas, a daliai dyddyn bychan gyda hyny ar lân Ceri. Bu iddo saith o blant, a bu yn ymdrechgar neillduol i roddi addysg dda iddynt, a daeth amryw o'r meibion yn feirdd da. Ymddengys iddo dreulio y rhan foreuaf o'i oes yn lled anystyriol; ond wedi ei argyhoeddi, trodd allan yn grefyddwr difrycheulyd, ac yn mhen enyd o amser cymeradwywyd ef gan yr Eglwys, sef Llechryd, i ddechreu pregethu. Mewn rhai llyfrau gosodir ef allan fel gweinidog Trewen, ond y tebygolrwydd yw mai pregethwr cynnorthwyol ydoedd yno, yn gystal ag yn Pencadair a manau ereill. Bu farw oddeutu y flwyddyn 1768. Wrth ystyried yr anfanteision y llafuriai danynt, yn nghyda'r oes yr oedd yn byw ynddi, nis gallwn lai na chydnabod ei fod yn berchen athrylith lled loew, a chwaeth lled goethedig. Ar destunau dwys yn gyffredin, megys, profedigaethau teuluaidd, marwolaeth cyfeillion, &c., y canai y rhan fynychaf. Cyfansoddodd farwnadau

i Shon Rhydderch, Enoch Francis, ac eraill o'i gydoeswyr llenyddol. Y mae amryw o'i gyfansoddiadau i'w gweled yn *Blodau Dyfed*, ac yn mysg eraill, ceir yno Gywydd Marwnad i Ifan Gruffydd, Twrgwyn, o'r hwn y mae y dyfyniad canlynol:—

"E brofwyd hwn yn Brif-fardd,
Dir ei fod yn Gadair Fardd.
Fe wnai gerdd yn Bencerddiawl,
Cyson oedd ei dôn ddi-dawl;
Tebyg oedd ei gyhoedd gân,
Lwys ergyd, i lais organ;
Fe eiliai gân o fawl gwych
Ar dôn fwyn i'r da'n fynych:
Ail oedd ei wen awen o,
A'i wybodaeth i Bedo.
Gwnai gynilwaith perffaith, pur,
A didwyll, ail i Ddafydd.
Gosodai fel gwê sidan,
Blethiadau'n glymiadau glan;
'Roedd yn ei gân ruddyn gwych,
Y tri enaid tirionwych."

**Thomas, John**, ydoedd un o enwogion y Methodistiaid yn y sir hon. Ganwyd ef yn y fl. 1760; a phan yn 34 ml. oed, dechreuodd bregethu, a threuliodd 55 o flynyddau yn y weinidogaeth yn eu plith. Efe ydoedd yr olaf o'r pregethwyr a neillduwyd ganddynt yn y fl. 1811. Ymddengys mai lled helbulus a gwasgedig ei amgylchiadau y treuliodd efe ddyddiau boreuaf ei oes; ond tueddwyd ef yn lled ieuanc at grefydd, ac ymunodd â'r Bedyddwyr. Ni fu ei arosiad gyda hwy ond rhyw bedair blynedd, a bwriodd ei goelbren yn mysg y Methodistiaid. Teithiai yn mhell ac yn agos, i'r dyben o wrando rhyw hoff bregethwr, ac eisteddai yn gyson dan weinidogaeth fywiog Mr. David Morris, Twrgwyn, gan dderbyn, fel y tystiai wedi hyny, bleser ac adeiladaeth nid bychan. Gwniedydd wrth ei alwedigaeth ydoedd John Thomas, a chan fod iddo deulu lluosog yn dibynu yn hollol arno am eu cynnaliaeth, gorfodwyd ef i fyned i Lundain i weithio ei grefft, gyda'r amcan o wella, os oedd modd, ychydig ar ei amgylchiadau. Tra yno elai yn fynych i wrando yr enwog Romaine yn pregethu, a bu hyny yn dra bendithiol i'w enaid. Wedi treulio ychydig amser yn Llundain, dychwelodd at ei deulu i Aberteifi, lle y treuliodd y gweddill o'i oes. Yn y fl. 1794, profodd yr eglwys yn y dref hòno a'r gymydogaeth adfywiad grymus, a derbyniodd J. Thomas radd helaeth o hono. Y canlyniad o hyn fu iddo gael ei dueddu at y weinidogaeth gyhoeddus, oblegid buasai yn ddiacon ffyddlon yno er's blynyddau. Wedi ei gyflawn urddo, annogwyd ef i fyned ar daith trwy wahanol siroedd y De. Ar yr achlysur yma, cafodd y Parch. D. Jones, Llangan, gyfleusdra i'w glywed yn pregethu, a sylwai, "Y mae yr hen apostol Iago wedi

adgyfodi yn y gorllewin, a gwae i grefydd benrhydd mwy." A chan mor hallt ac argyhoeddiadol oedd ei weinidogaeth, ac mor ddidderbynwyneb y dynoethai arferion llygredig yr oes, aeth yn ddywediad cyffredin, "nad oedd dim lle i bechadur gael ei fywyd dan ei bregethau." Ychydig a fanteision i gyrhaedd gwybodaeth gafodd J. Thomas, ond er hyny i gyd, trwy ddyfal barhad ac ymdrech diflino, daeth yn feddiannol ar ystôr helaeth o wybodaeth gyffredinol. Pan yn y pulpud, byddai ei olwg bob amser yn llawn symledd a difrifoldeb. Nid oedd rhodres yn perthyn iddo ef o gwbl. Traddodai ei faterion mewn iaith ddestlus a choethedig, ac yr oeddynt yn nodedig am eu trefnusrwydd. Y deall a'r gydwybod, yn hytrach na'r teimlad, a amcanai ei gyrhaedd yn ei bregethau. Yn ei flynyddau diweddaf ymryddhaodd yn hollol oddiwrth ei alwedigaeth fydol, a chysegrodd ei holl amser i ddyledswyddau y weinidogaeth. Oblegid llesgedd a gwaeledd ei iechyd, cyfyngid ei lafur yn y diwedd i'w gymydogaeth ei hun. Pan y teimlai ei ddiwedd yn nesâu, dywedai wrth gyfaill a ddaethai i ymweled âg ef, "Mae fy ngyrfa bron ar ben, a'm pregethu wedi darfod; nid oes genyf ond tragwyddoldeb o'm blaen; mae fy Meistr yn fy ngalw adref." Felly bu farw y gweinidog llafurus a defnyddiol hwn i Grist, ar y 3ydd o Chwefror, 1849, yn 89 mlwydd oed.—*Meth. Cymru*, cyf. ii., tudal. 103.

THOMAS, RODERICK, oedd weinidog tra defnyddiol a chymeradwy yn mysg yr Anghydffurfwyr yn amser Cromwel, a gweinidogaethai y pryd hyny yn Eglwys Llanfihangel-y-creuddyn. Mewn canlyniad i Ddeddf yr Unffurfiad, bwriwyd ef allan o honi. Trwy eu herfyniadau taer, llwyddodd ei gynnulleidfa ganddo unwaith drachefn i gydymffurfio trwy arfer y defodau a'r drefn gwasanaeth yn ol y Ddeddf Unffurfiad, ond edifarhaodd eilwaith am ei waith, ac felly bwriodd ei goelbren yn mysg yr Ymneillduwyr. Nid yw yn hysbys yn mha le y treuliodd y rhan ddiweddaf o'i oes.—*Palmer's Nonconformists' Memorial*, vol. iii., p. 497.

TURNOR, JOHN, a anwyd yn y flwyddyn 1761, yn Llangoedmor, ger Aberteifi. Pan yn ddwyarbymtheg oed, aeth ar fwrdd y llong ryfel *Fate*, ac yn fuan cymerodd ran mewn brwydr boeth a ymladdwyd â'r Ffrancod ar dueddau yr India Orllewinol, lle yr arosodd hyd y flwyddyn 1783, pryd y gwnaed heddwch rhwng y ddwy genedl. Yn 1785, ar gais Gwilym Henri (wedi hyny William IV.), cymerodd swydd ar fwrdd y *Pegasus*. Cawn ef wedi hyn yn dal swyddi o ymddiried ar fyrddau gwahanol longau. Yn yr ymdrechfa a gymerodd le wrth feddiannu Toulon, dangosodd Turnor, yr hwn oedd erbyn hyn yn gad-raglaw, wroldeb digyffelyb, ac mewn canlyniad gwnaed ef yn gadben un o'r llongau a gymerasid oddiar y gelyn, a derbyniodd £12,000 fel ei gyfran o'r yspail. Yn

1794, symudwyd ef i'r *Glory*, a'r flwyddyn ganlynol i'r *Monarch*. Yn 1799, gwnaed ef yn gadben y *Trident*, lle bu hyd ei farwolaeth, yn 1803, yr hyn a gymerodd le yn Ynys y Tywysog Edward, yn India'r Gorllewin.

TURNOR, DAVID, A.C., oedd o'r un teulu a'r uchod. Ei dad oedd Dafydd Turnor o'r Crugmawr, Llangoedmor. Enw ei dad-cu ydoedd Lewis Turnor, ac ymddengys ei fod yn hynod am ei onestrwydd, fel yr aeth y dywediad, "Mor onest a Lewis Turnor," yn ddiareb yn y gymydogaeth hòno. Derbyniodd ei ddysgeidiaeth yn Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn B.C., ac yn olynol A.C. Urddwyd ef 1773, ac yn 1790, penodwyd ef i fywoliaeth Rudbacston, yn sir Benfro, yr hon a gyfnewidiodd yn mhen amser am Faenor Deifi, yn yr un sir. Yn 1795, gwnaed ef yn Ddeon Gwladol y Ddeoniaeth; a'r flwyddyn ganlynol, cafodd Ebrwyaeth Penbryn, Ceredigion, lle y bu farw yn 1799 yn dra disymwth, ar ddydd Sul, yn yr Eglwys, ar ol gweinyddu y Cymun. Yr oedd hefyd yn gaplan i Iarll Cawdor, a bu am beth amser yn Ynad Heddwch dros y sir.

Symudasai y Turnoriaid i'r wlad yn amser Siarl II., ac yr oeddynt erbyn hyn wedi ymfrodori yn Nghymru.—*Cam. Register*, 1818.

TYFRIOG nèu TYFRYDOG, sant yn byw tua diwedd y chweched ganrif. Mab oedd i Dingad ab Nudd Hael, ac efe oedd sylfaenydd Eglwys Llandyfriog, neu Llandyfrydog, yn y sir hon.

TYGWY neu TEGWY, sant a flodeuai tua diwedd y chweched ganrif. Mab oedd i Dingad ab Nudd Hael, a sylfaenydd Eglwys Llandygwy, neu Llandygwydd.

TYSILIO, sant, bardd, ac ysgrifenydd, tua chanol y seithfed ganrif. Ei dad oedd Brochwael Ysgythrog, Tywysog Powys, a'i fam oedd Arddun, ferch Pabo Post Prydain. Priodolir Hanes Eglwysig Prydain ac un o'r Croniclau Cymraeg iddo, a gwelir y gwaith olaf yn gyhoeddedig yn y *Myfyrian Archaiology*, dan yr enw Brut Tysilio. Mae Eglwys Llandysilio-gogo, yn y sir hon, yn gyflwynedig iddo. Ei ddydd gwyl yw Tachwedd 8fed.

TYSSUL ab Corun ab Ceredig ab Cunedda Wledig, oedd sant yn blodeuo yn y chweched ganrif. Efe oedd sylfaenydd Eglwys Llandyssul, yn y sir hon. Coffèir ef Ionawr 31.—Gwel *Myf. Arch.; Rees' Welsh Saints; Iolo Morganwg's Welsh MSS.; Achau y Saint.*

VAUGHAN, HARRY, YSW., oedd yn byw yn Plas Cilcenin, tua chanol

yr eilfed ganrif ar bymtheg; a bu ddwywaith yn sirydd Ceredigion, sef yn nheyrnasiad Siarl I. a Chromwel. Mewn * ysgrif a gyfansoddwyd tua'r flwyddyn 1661, rhoddir y cymeriad canlynol iddo:—"Harry Vaughan, anything for money, a proselyte, and favourite to all the changes of times; a Sheriff for his late Majesty, afterwards for Cromwell, justice of the peace under each, tyrant in power, mischievous by deceit; his motto—*qui nescit, dissimulare, nescit vivere.*"—Gwel *Cambrian Register*, vol. i.

VAUGHAN, SYR JOHN, Marchog, ac wedi hyny Prif Farnwr Llys y *Common Pleas*, oedd fab Edward Vaughan, Ysw., o'r Trawsgoed, o Lettice, ferch John Stedman, Ysw., Ystradfflur, a ganwyd ef yn y flwyddyn 1608. Treuliodd bum' mlynedd o dan addysg yn Ysgol y Brenin, Caerwrangon; a phan yn bymtheg oed, anfonwyd ef i Goleg Eglwys Crist, Rhydychain. Pan yn ddeunaw oed gwnaed ef yn aelod o'r *Deml;* ond yn hytrach nag astudio y gyfraith, dewisai ef wyddoniaeth a barddoniaeth. Ar ol gwneud cydnabyddiaeth â'r dysgedig Selden, tueddwyd ef, ar annogaeth y gwr hwnw, i ymroi at astudio yn fanwl gyfreithiau ei wlad, i'r hyn yr ymgyflwynodd yntau dros weddill ei oes. Ar y 3ydd o Ebrill, 1640, etholwyd ef i gynnrychioli bwrdeisdrefi Ceredigion yn y Senedd, a rhoddodd i fyny ar hyny ei broffeswriaeth gyfreithiol. Ystyrid ef yn ddyn tra dysgedig gan ei gyd-seneddwyr, ac yn areithydd rhagorol. Pan dòrodd y Rhyfel Cartrefol allan, ymneillduodd ef o fywyd cyhoeddus, gan gymeryd nawdd ar ei etifeddiaeth yn Nghymru, lle y treuliodd 20 mlynedd mewn llwyr ddiogelwch. Ar ol yr Adferiad, etholwyd ef yr ail waith i gynnrychioli y sir, sef yn y flwyddyn 1661. Dangosodd Siarl II. iddo fawr anrhydedd o herwydd ei ffyddlondeb i'r goron:—gwnaeth ef yn Farchog; ychydig ddyddiau yn flaenorol penodwyd ef yn *Serjeant at Law in the Court of Chancery*, a thranoeth gwnaed ef yn Brif Farnwr Llys y *Common Pleas*. Yn ol Wood, "yr oedd yn ddyn o fawr deilyngdod, yn gyfreithiwr enwog, ac yn mhob ffordd yn foneddwr trwyadl." † Ysgrifen-

* "A True Character of the Deportment for these 18 years last past, of the principal Gentry within the counties of Caermarthen, Pembroke, and Cardigan, in South Wales."

† Yn yr Ysgrif a ddyfynwyd yn flaenorol, rhoddir y desgrifiad canlynol o hono:—"John Vaughan, one that will upon fits talk loud for Monarchy; but scrupulous to wet his finger to advance it. He served Burgess for Cardigan in the long Parliament; but quitted it upon Strafford's trial: named by his Majesty one of the Commissioners to attend the treaty in the Isle of Wight, but refused it; personally advised Cromwell to put the crown on his own head; purchased Mevenith, one of his late Majesty's manors, within the county of Cardigan; personally assisted in the taking of Aberystwyth, a garrison then kept by his late Majesty. These services kept him from sequestration; bore offices in the late several governments. He is of good parts; but puts too high a value on them, insolently proud and matchlessly perni-

edd a chyhoeddodd, "Reports and Arguments, being all of them special cases, and many wherein he pronounced the resolution of the whole Court of Common Pleas, at the time he was Lord Chief Justice there," fol. London, 1677. Cyhoeddwyd hwn gan ei fab, Edward Vaughan, Ysw. Bu farw Syr John Vaughan y 10fed o Ragfyr, 1674, a chladdwyd ef yn eglwys y Deml, yn agos i'w hen gyfaill, John Selden, ac mae cofffaen hardd i'w gweled yno iddo. Mae darlun o'r Barnwr hwn i'w weled yn Philip Yorke's Royal Tribes of Wales.—Gwel *Hughes' Parliamentary Representation of Cardiganshire*, pp. 13, 14, 15; *Wood's Oxon; Cambrian Register*, i., 196; *Meyrick's Cardiganshire*, 320—1—2.

VAUGHAN, EDWARD, mab yr uchod, a bu yn aelod dros sir Aberteifi o'r flwyddyn 1679 i 1681. Rhydd Burnet, yn ei *History of his Own Times*, y cymeriad canlynol iddo:—"Yr oedd Vaughan, mab y Prif Farnwr, yn ddyn o uniondeb mawr, yn meddu cryn lawer o falchder, ond gwnaeth wasanaeth mawr. Y rhai hyn oedd y dynion (gan gyfeirio at rai o brif ddynion cyhoeddus y dydd) a gadwasant y genedl rhag Llys twyllodrus ac ansefydlog, a rhag Ty y Cyffredin llygredig. A thrwy eu diysgogrwydd a'u medrusrwydd, daethant o fod yn lleiafrif mewn gwrthwynebiad, o'r diwedd i fod yn fwyafrif anrhydeddus." Priododd Edward Vaughan, Ysw., â Letitia, merch Syr William Hooke, Marchog, Llundain, ac un o'u plant oedd,—

VAUGHAN, JOHN, yr hwn a grëwyd gan William III., trwy freinteb wedi ei ddyddio Mehefin, 1695, yn Farwn ac Isiarll (*Viscount*), dan y teitlau, Isiarll Lisburne, Arglwydd Vaughan, a Barwn Fethers, yn yr Iwerddon. Bu yn cynnrychioli bwrdeisdrefi Ceredigion yn y blynyddau 1688—9; a'r sir yn y blynyddau 1694, 1695. Priododd Mallet Wilmot, trydedd ferch Iarll Rochester, a bu farw yn 1721.—*Hughes' Parliamentary Representation of Cardiganshire.*

VAUGHAN, JOHN CROSBY, (Cadben), a anwyd yn y Brynog, dyffryn Aeron, Chwefror 24ain, 1830. Derbyniodd ei addysg yn y Coleg Milwraidd Breiniol, Sandhurst, o'r lle y derbyniodd gomisiwn heb ei brynu yn yr 16eg gatrawd. Symudodd wedi hyny i'r 38ain gatrawd, a phan dôrodd y rhyfel allan rhwng y deyrnas hon a Rwssia, daeth galwad am wasanaeth y gatrawd hôno i fyned i'r Crimea. Yn ystod y rhyfelawd hwnw, enwogodd y milwr ieuanc ei hunan yn fawr, nid yn unig o herwydd ei wroldeb, ond oblegid ei nodweddiad hynaws a charedig. Cafodd ei ddyrchafu

cious; by lending eight hundred pounds to Colonel Philip Jones, and other favourites of the late times, procured the command of the county he liveth in to continue on his friends and dependents to this day."

yn gyflym i wahanol swyddi; a chyn bod yn 25ain oed, yr oedd yn Gadben ar y 38ain gatrawd. Ond ni orfucheddodd y dyrchafiad olaf hwn ond ychydig amser, oblegid ar nos y 15fed o Fehefin, 1855, pan ar ddyledswydd yn y gwrthgloddiau yn yr ymosodiad ar Sebastopol, clwyfwyd ef yn farwol, er galar cyffredinol i'r gatrawd a lywyddai, yn gystal ag i gylch eang o gyfeillion a adawsai ar ol yn ngwlad ei enedigaeth. Dilynwyd ef yn yr etifeddiaeth gan ei frawd, Cadben Vaughan.

WILLIAMS, DAVID, yr ysgolhaig a'r ysgrifenydd medrus, a anwyd mewn pentref bychan yn agos i Aberteifi, yn y flwyddyn 1738. Wedi derbyn elfenau ei ddysgeidiaeth yn agos i'w gartref, anfonwyd ef i Goleg Caerfyrddin, i barotoi ar gyfer y weinidogaeth, i'r hon y mynai ei rieni ei wthio yn groes, i raddau, i'w ewyllys. Dangosodd yn ieuanc ei fod yn feddiannol ar alluoedd meddyliol tuhwnt i'r cyffredin. Wedi gorphen tymmor ei efrydiaeth, aeth i gymeryd gofal Eglwys o Ymneillduwyr yn Frome, Gwlad yr Haf. Oddiyno symudodd i Exeter, ac oddiyno drachefn i High gate, ond ni fu ei arosiad yn un o'r manau hyn ond byr. Yn 1770, dechreuodd ar ei yrfa lenyddol fel awdwr trwy lythyr galluog dros ben cyfeiriedig at y Chwareuydd Garrick, yn yr hwn yr ymosodai yn llym ar y gwr enwog hwnw. Yn fuan wedi hyny cyhoeddodd "The Philosopher in the Conversation," a'r "Essays on Public Worship, Patriotism, and Projects of Reformation." Ennillodd y gweithiau hyn gryn enwogrwydd i'w hawdwr, yn enwedig gan mai pynciau o'r natur yma oedd yn cynhyrfu y wlad ar y pryd. Cyhoeddodd wedi hyny ddwy gyfrol o bregethau ar "Ragrith Crefyddol." Ar ol hyn, ymddengys iddo roddi i fyny ei ddyledswyddau gweinidogaethol, ac hyd yn nod dôri pob cysylltiad rhyngddo â'r Ymneillduwyr, ac yn wir, â'r enw o Gristion; oblegid trodd allan wedi hyn yn ammheuwr, os nad yn rhywbeth gwaeth. Ac yn y flwyddyn 1773, cyhoeddodd draethawd ar "Addysg," a chymerodd ddyddordeb neillduol yn addysgiaeth y genedl. Yn fuan wedi hyny, agorodd fath o sefydliad yn Chelsea, er cario allan ei gynlluniau o addysgiaeth, y rhai a fenthyciasai oddiar Commenius a Rousseau. Cymerodd ran neillduol hefyd mewn gwleidyddiaeth, a daeth yn gyfaill mawr i'r enwog Benjamin Franklin, yr hwn a gymerai nodded yn ei dŷ amser yr oedd teimlad y wlad mor gryf yn ei erbyn, yn nechreu y rhyfel Americanaidd. Ebrill 7, 1776, agorodd addoldy, yn agos i Cavendish Square, ar egwyddorion proffesedig didduwiaeth. Ni fu, modd bynag, ond ychydig lwyddiant ar yr achos yno, ac yn mhen tua phedair blynedd, rhoddodd yr anturiaeth i fyny, ar ol colledu ei hunan yn fawr mewn ystyr arianol Trodd ei sylw drachefn yr ail waith at y pwnc o Addysg a llenyddiaeth, a chyhoeddodd, "Lectures on Education," yn dair cyfrol; "A Plan of Association on Constitutional Principles," yn 1780; ac yn 1782, "Letters on Political Subjects," y rhai

a dderbyniasant gylchrediad helaeth, ac a gyfieithwyd i'r Ffrengaeg. Ei weithiau eraill oeddynt, "Lessons to a Young Prince;" "History of Monmouthshire," dwy gyfrol 4plyg; "The Claims of Literature;" "Regulations of Parochical Police;" "Egeria, or Elementary Studies for Political Reformers." Cyhoeddodd hefyd argraffiad ardderchog o "Hanes Hume;" ond mewn canlyniad i'r rhan a gymerodd yn y chwyldroad Ffrengig, gorfu iddo roddi i fyny y gwaith hwnw. Par ei enw byth yn anrhydeddus fel sefydlydd y "Drysorfa Lenyddol," dyben yr hon oedd estyn cynnorthwy i awduron haeddiannol mewn henaint neu dlodi. Sylfaenodd hi yn y flwyddyn 1789, ac y mae wedi parhau mewn gweithrediad hyd yn awr, a chyfranogodd ef ei hunan o'i manteision tua diwedd ei oes, yr hyn a gymerodd le Mehefin 29, 1816.

WILLIAMS, DAVID, oedd un o bregethwyr neu "gynghorwyr" cyntaf y Methodistiaid Calfinaidd yn y sir hon, a bu fyw gyfran o'i oes yn nghymydogaeth Lledrod, oblegid cawn ei enw yn y flwyddyn 1744, fel blaenor y gymdeithas grefyddol a ymgyfarfyddai yn y plwyf hwnw. Dechreuodd bregethu yn lled ieuanc, ac yr oedd yn un o'r pedwar a ddewiswyd gan y Parch. Daniel Rowlands i fyned ar ymweliad â'r Gogledd bob chwarter, ac yno y gelwid ef "Dafydd William o'r Deheudir." Bu yn llafurio am dymmor fel cenadwr yn Morganwg, lle yr aethai ar gais Mr. Rowlands. Bu iddo bump o feibion, y rhai a ddaethant i gryn enwogrwydd. Yr ail ydoedd,—

WILLIAMS, EVAN. Ymsefydlodd ef yn Llundain gyda'i frawd Thomas, fel cyhoeddwyr a gwerthwyr llyfrau. Yr ydys yn ddyledus iddynt hwy am ddwyn allan lawer o lyfrau o bwys i'r Cymry; megys Geirlyfr y Dr. W. O. Pughe, ac eraill o weithiau a chasgliadau yr awdwr enwog hwnw, a thair cyfrol o'r *Cambrian Register*. Bu Mr. Evan Williams yn golledwr mawr wrth ddwyn allan rai o'r llyfrau hyn, yn neillduol y Geirlyfr, i'r hwn, oblegid yr orgraff yr oedd ynddo, y bu raid bathu llythyrenau newyddion; a'r *Cambria Depicta*, gan E. Pugh, gyda 71 o arluniau. Bu farw yn Heol Penton, Llundain, yn Medi, 1835, yn 86 oed, wedi bod dros 40 mlynedd yn llyfrwerthydd a chyhoeddydd Cymreig yn y Strand, ac o'r rhai hyny 35 mlynedd yn aelod gweithgar o'r Ysgol Rad Gymreig. Dygid y fasnach yn mlaen ar ol ei farwolaeth gan ei frawd,—

WILLIAMS, THOMAS, yr hwn oedd cyhoeddydd cyntaf yr *Evangelical Magazine*. Treuliodd y rhan olaf o'i oes fel arianydd yn Aberystwyth lle y bu farw, Ebrill 15, 1839, yn 84 mlwydd oed. Mae cof-lech hardd, gyda darlleniad helaeth am dano, ar y mur yn Eglwys St. Michael, yn y dref hòno. Yr oedd Mr. Williams hefyd yn Ustus Heddwch, ac mewn parch cyffredinol gan bob dosbarth o'r trigolion.

WILLIAMS, JOHN, brawd hynaf y ddau ddiweddaf. Ganwyd ef yn agos i Mabws, Llanrhystyd, yn y flwyddyn 1745. Fel ei frodyr, derbyniodd yntau ei ddysgeidiaeth yn Ysgol enwog Ystradmeurig, o dan yr hyglod Edward Richard. Am y manylion canlynol o barth i Mr. Williams, yr ydym yn ddyledus i'r Parch. Lewis Evans, prif athraw presenol Ystradmeurig, yr hwn yn garedig a'n hanrhegodd â chopi o ysgrif o eiddo Mr. Williams a ysgrifenwyd ganddo, Gorphenaf 24, 1813. Rhoddwn yr hanes i lawr yn ei eiriau ef ei hunan:—"Hydref, 1765. Gadewais yr Ysgol hon (Ystradmeurig), ac ail ymgymerais â'm gorchwyl blaenorol o ysgolfeistr yn nhŷ cwrdd Woodstock, plwyf Ambleston, Penfro. Wedi hir flino ar Fethodistiaeth, ceisiais sefyllfa arall, yn enwedig un yn Nhy Ddewi, ond methais. Llettywn gyda Mr. John Harries, y pregethwr Methodistaidd —dyn rhyddfrydig a theilwng er gwaethaf ei sectyddiaeth; ond ymgadwn rhag y tŷ cwrdd a'r Methodistiaid, ac oddiar argyhoeddiad cyrchwn yn gyson bob Sabboth i eglwys Ambleston.

"Yn ngwyliau Nadolig yr un flwyddyn, yr un Mr. J. Harries a'm hysbysodd fod ysgolfeistr yn eisieu yn Aberteifi, ac a'm cymhellodd i gynnyg am y lle, yr hyn a wnaethum, a llwyddais, yn benaf trwy ddylanwad James Lloyd, Ysw., o'r Mabws; James Bowen, Ysw., Llwyngwair; a Thomas Colby, Ysw., Rhosgilwen. Dechreuais ar fy ngwaith yno, Ionawr, 1766, pan nad oeddwn prin 20 oed. Yma llafuriais yn dra diwyd, a chyda llawer o lwyddiant, hyd Nadolig, 1770.

"Nadolig 1768, urddwyd fi yn Ddiacon gan Esgob Moss, yn St. George's, Hanover Square, Llundain; ac yn Medi, 1770, urddwyd fi yn offeiriad gan yr un. Fy nheitl y ddau dro ydoedd y Ferwig ac Aberteifi.

"Yn Rhagyr, 1770, y Parch. Wm. Lucas, rheithor, Peterston, yr hwn ychydig cyn hyny a briodasai Ann, merch Lloyd Morgan, Ysw., Aberteifi, a gafodd i mi ail Guradiaeth Ross, sir Henffordd, (oblegid cedwid dau gurad yno) ar gyflog o £40 y flwyddyn, ac ysgol wedi ei gwaddoli â £10 yn flynyddol, a'r hyn a wneid o'r ysgolheigion gyda hyny. Y rheithor y pryd hwnw oedd Dr. Egerton, Esgob Lichfield a Coventry. Dechreuais ar y gwaith Ionawr, 1771, ac yno yr arosais hyd Hydref, 1776. Yn ngwanwyn 1771, penodwyd Dr. Egerton i esgobaeth Durham, a rhoddwyd rheithoriaeth Ross i Mr. Theophilus Meredith, yr hwn a'm cadwodd i fel ei gurad, ac a roddodd gryn hyder ynof ar gyfrif fy ngonestrwydd a'm ffyddlondeb, a fy nghyflawniad doeth o'm dyledswyddau. Bu yn offeiriad yno dros bedair blynedd; a'r flwyddyn ddiweddaf, yn gymaint ag y pregethai yn fynych ei hun, myfi oedd ei unig gurad, yn ol £70 y flwyddyn, yn nghyda'r tâl am gladdu, &c., pryd y rhoddais yr ysgol i fyny i un arall. Yn Hydref, 1775, bu ef farw, a dilynwyd ef gan Dr. Morgan, yr hwn drachefn a'm cadwodd yn ei wasanaeth. Ond profodd y gwaith yn awr yn ormod i mi, gan na chawn un cynnorthwy gan yr offeiriad, yr hwn a

drigai yn Henffordd. Annogwyd fi i fyned ychydig oddiamgylch, ac felly telais ymweliad â'm brawd D. yn Marlborough, a threuliais gydag ef dros dair wythnos. Dychwelais yn ol heb fod ddim gwell. O'r diwedd cynghorwyd fi gan fy meddygon i symud i fy ngwlad enedigol, yr hyn a wnaethum yn nechreu mis Hydref, 1776, ac aethum at fy mrawd W. i Abergwaen, lle y treuliais chwe' mis neu fwy. Yn ngwanwyn y flwyddyn ganlynol aethum i dŷ fy nhad (yr oeddwn wedi bod yn ei weled o'r blaen), ac yno yn nghydag yn y Mabws y treuliais yr haf hwnw. Rhwng y naill beth a'r llall adfeddiannais yn raddol fy iechyd a'm cryfder arferol.

"Mawrth, 1777, bu farw fy hen athraw hybarch Edward Richard, ac felly daeth yr ysgol yn Ystradmeurig yn wag. Tra yn parotoi i fyned i Loegr, lle yr oeddwn newydd gael curadiaeth dda, fy nghyfaill a'm hen gydysgolhaig, y Parch. R. Lloyd, ficer Llanbadarn Fawr, a'm bannogodd i gynnyg am yr Ysgol. Ar ol ychydig ystyriaeth, tueddwyd fi i wneud hyny, ac ysgrifenais neu gelwais ar yr ymddiriedolwyr. Penodwyd dydd yr etholiad i fod Awst 19eg, yn Nanteos, lle a'r pryd y cefais fy ethol yn feistr gan dri o'r ymddiriedolwyr oeddynt bresenol, sef, Wm. Powell, Nanteos, LL. D.; James Lloyd, Mabws, Ysw.; a Thomas Hughes, Hendrefelin, Ysw.; ac ar yr un amser, James Lloyd, Mabws, Ysw., a'm penododd yn Athraw Ysgol Lledrod, ar yr hon yr oedd ef yn unig ymddiriedolwr. Yn 1785, yn fuan ar ol y Pasg, daethum yn gurad y plwyf hwnw trwy benodiad y Parch. Mr. Griffiths, ficer Llanfihangel-y-creuddyn, (nid oedd trwydded yn angenrheidiol yr amser hyn), ac wedi hyny gwasanaethais ei olynydd, y Parch. Isaac Williams, lle y parheais am 9 neu 10 mlynedd, ar gyflog yn ystod y blynyddau cyntaf o £10 y flwyddyn, ac wedi hyny, 12 gini. Bum wedi hyny yn gwasanaethu Llanafan am 3 neu 4 blynedd, yn ol y cyflog o 15 gini y flwyddyn. Yn Ebrill, 1793, cefais gan Dr. Horsley ficeriaeth Llanfair-orllwyn, oddiwrth yr hon y derbyniwn yn y blynyddau olaf tua £80 yn flynyddol. Yn 1795, darfu i Iarll Lisburne fy mhenodi i guradiaeth barhaus Blaenporth. Yn 1799, cymerais drwydded, a gwasanaethais guradiaeth Ysbytty Ystwyth, ac Ystradmeurig, ond rhoddais y blaenaf i fyny yn fuan, a gwasanaethais yr olaf am 5 neu 6 blynedd, yn ol y cyflog o £15 y flwyddyn. Yn Mai, 1804, penodwyd fi gan Dr. Burgess i ficeriaeth Nantmel, sir Faesyfed, yn nghyda Llanyre, a hefyd yn gorweinydd Trallong yn eglwys Golegawl Aberhonddu." Yr oedd Mr. Williams yn awdwr y "*Dissertation on the Pelagian Heresy*," a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1808, ac ystyrid ef yn un o ysgolheigion clasurol goreu ei oes, a meddai gymhwysderau arbenig at y swydd o gadw ysgol. Daliodd y swydd o Brif athraw Ysgol Ystradmeurig am yr yspaid maith o 40 mlynedd, a bu farw dydd Gwener y Groglith, Mawrth 20fed, 1818.

WILLIAMS, JOHN, A. C., Archddiacon Ceredigion, a mab y diweddaf, a anwyd yn Ystradmeurig ar yr 11eg o Ebrill, 1792. Ei fam oedd Jane, merch Lewis Rogers, Ysw., Gelli, sirydd Aberteifi am y flwyddyn 1753. O dan y fath athraw galluog a'i dad, ac yn feddiannol ei hunan ar dalentau anghyffredin, rhoddodd John Williams yn fuan ernes o'r enwogrwydd hwnw a gyrhaeddodd mewn oedran addfetach. Ac mor gyflym fu ei gynnydd mewn dysgeidiaeth, fel pan yn unarbymtheg oed, aeth yn athraw clasurol cynnorthwyol i'r Parch. Thomas Horn, Ysgol Chiswick, lle y bu am flwyddyn. Y ddwy flynedd ddilynol a dreuliwyd ganddo i gynnorthwyo ei dad yn Ystradmeurig, lle yr oedd nifer anghyffredin o ysgolheigion y pryd hyn, sef yn agos i naw ugain. Aeth oddiyno am ychydig amser i Ysgol Ludlow, lle yr ennillodd Ysgoloriaeth; ac yn Nhachwedd, 1810, aeth i Goleg Baliol, Rhydychain. Dilynodd ei efrydiaeth yno gyda diwydrwydd mawr a llwyddiant hefyd, fel y gosodwyd ef yn Ngwanwyn 1814, yn un o bedwar yn y dosbarth cyntaf. Mewn athroniaeth a hanesyddiaeth y rhagorai fwyaf y pryd hyn, ond daeth wedi hyny yn rhifegwr ardderchog. Yn yr un dosbarth ag ef yno yr oedd yr enwog Dr. Arnold, yr hwn fel yntau a ddaeth wedi hyny yn un o brif ddysgawdwyr y Deyrnas. Penodwyd ef y pryd hyn yn brif gynnorthwywr Dr. Gabell, penaeth Coleg Caerwynt, a llanwodd y swydd hòno am bedair blynedd, gan roddi boddhad cyffredinol. Ordeiniwyd ef yn Ddiacon gan Esgob Ripon, a thrwyddedwyd ef i guradiaeth Durley, Hants, ac yn fuan wedi hyn urddwyd ef yn Offeiriad gan Esgob Caerwynt. Ar ol ymadael â Dr. Gabell, aeth yn gynnorthwywr i'r Meistri Richards, Hyde Abbey School, Caerwynt. Yn ystod y ddwy flynedd y bu yn aros yn y lle hwn, ennillodd serch amryw gyfeillion dysgedig, oddiwrth gymdeithas pa rai y derbyniodd lawer o fudd a chynnorthwy gyda'i efrydiaeth. Yn 1820, cynnygiodd y Dr. Burgess, Esgob dysgedig Ty Ddewi, iddo ficeriaeth Llanbedr-Pont-Stephan, gan ddatgan ar yr un pryd ei ddymuniad ar iddo gario yn mlaen yr Ysgol a sefydlasid yno gan y ficer diweddaf. Gan fod Mr. Williams fel ei dad yn llawn o ysbryd gwir wladgarwch, ni phetrusodd dderbyn y cynnygiad hwn, gan y gobeithiai gael cyfleusderau uniongyrchol i fod o les i'w gydwladwyr. Ac felly rhoddodd i fyny yn llawen brif arolygiaeth Hyde Abbey School, yn nghyda Rheithoriaeth St. Lawrence, Caerwynt, lle yr oedd newydd gael ei benodi, a chychwynodd yn ol am wlad ei enedigaeth. Yr amser hyn yr oedd Dr. Burgess yn fawr ei awydd am adeiladu Coleg yn Llanddewi-brefi, ond bu Mr Williams yn foddion i ddylanwadu ar feddwl yr Esgob, fel ag i newid y cynllun gwreiddiol, ac felly adeiladwyd y Coleg yn Llanbedr. Nis gellid chwaith lai nag edrych ar Ysgol Ramadegol y dref hòno fel cnewyllyn y Coleg, ac fel *feeder* rhagorol iddo, ac felly mewn gwirionedd yr oedd. Yn mysg yr ysgolheigion oedd yno dan ofal Mr. Williams, yr oedd mab hynaf Syr

Walter Scott, ac ar annogaeth y gwr hwnw yr anturiodd yr Archddiacon i gynnyg ei hunan yn ymgeisydd am Reithoriaeth yr Athrofa newydd oedd yn cael ei sefydlu y pryd hyny (1824) yn Edinburgh. Y canlyniad fu iddo fod yn llwyddiannus; ac am ddwy flynedd ar hugain, cyflawnodd orchwylion pwysig ei swydd gyda'r ffyddlondeb a'r diwydrwydd mwyaf, ac ennillodd anrhydedd cyffredinol oddiar law prif ddysgedigion y ddinas ddysgedig hòno. Yn mysg ei gyfeillion yno, ceir enwau, Syr Walter Scott, Macullock, John Gibson, Lockart, Syr Thomas Dick Lander, Arglwydd Cockburn, Arglwydd Jeffrey, Proffeswr Wilson, Milwriad Mure, Syr William Hamilton, Dr. Chalmers, Carlyle, a Syr Daniel Sandford. Efe ddarllenodd wasanaeth y claddu uwch gweddillion marwol Syr Walter Scott yn Dryburgh Abbey. Yn ystod ei arosiad yn Edinburgh yr ysgrifenodd ac y cyhoeddodd ei *Hanes Bywyd Alexander Fawr; Daearyddiaeth Asia;* a'i *Homerus.* Darllenodd amryw bapyrau ar destunau athronyddol ac ieithyddol o flaen Cymdeithas Frenhinol Edinburgh, o'r hon yr oedd yn aelod, ac ysgrifenodd amryw erthyglau ardderchog i'r *Quarterly Review,* yr hwn oedd yn cael ei olygu y pryd hyny gan ei gyfaill a'i hen gydysgolhaig Mr. Lockart. Fel prawf nodedig o'i lwyddiant fel athraw, gellir sylwi fod yn ddiweddar, yn mysg athrawon y ddwy Brif-ysgol yn Edinburgh, rai o ysgolheigion yr Archddiacon, ac nid oedd dim llai na naw o gadeiriau proffeswrol yn yr Athrofeydd Ysgotaidd yn cael eu llanw gan ddynion fuont unwaith naill ai yn ysgolheigion neu ynte yn gydathrawon âg ef. A dywedai Esgob Llundain, rai blynyddau yn ol, mewn araeth gyhoeddus ar ei hen athraw, mai iddo ef, yn fwy na neb arall oedd yn fyw, yr oedd Scotland yn ddyledus am y cyffro adnewyddol a'r symbyliad effeithiol a dderbyniodd ei phrif athrofeydd. Pan sefydlwyd Coleg Llanymddyfri gan y gwladgarwr enwog Syr Thomas Phillips, cynnygiodd y boneddwr hwnw ei lywyddiaeth i'r Archddiacon, a chydsyniodd yntau i'w dderbyn. Bu ei lafur mewn cysylltiad â'r sefydliad ieuanc hwn yn fawr iawn, a gellir dweyd yn ddibetrus mai iddo ef, yn fwy na neb arall, y mae yn ddyledus am yr hyn ydyw heddyw. Wedi treulio pum mlynedd yno, gorfodwyd ef gan waeledd ei iechyd i roddi i fyny ei swydd, a threuliodd y flwyddyn a hanner diweddaf o'i fywyd, gan mwyaf, yn Bushey Heath, Hampshire. Yn 1854, cyhoeddodd ei *Gomer,* yn ddwy ran, yr hwn a ddylai fod yn llaw-lyfr yn meddiant pob efrydydd Cymreig; a hefyd ei *Life of Julius Cæsar.* Yn ystod y flwyddyn olaf hefyd y cyhoeddodd ei lythyrau ar, *A Barbarian Episcopate; Discourses and Sermons on the Unity of the Will of God;* a chyfrol arall yn gynnwysedig o draethodau ac ysgrifau yn trin ar bron bob cwestiwn a berthynai i hanes, cyfreithiau, iaith, a llenyddiaeth Cymry, yn nghyda'r llwythi Celtaidd yn gyffredinol. Yn ychwanegol at y swydd o Archddiacon Ceredigion, yr oedd yn Ganon Ty Ddewi, a chorweinydd

Aberhonddu. Yn mhob symudiad, y byddai ei amcan i wella sefyllfa ysbrydol, dymmorol, a chymdeithasol ei gyd-ddynion, cymerai ef y dyddordeb mwyaf. Yr oedd yn bleidiwr gwresog i'r Cymdeithasau Cenadol a Beiblaidd, a llywyddai yn gyffredin yn eu cyfarfodydd lleol. Trwy ei hirfaith a'i flin gystudd, profodd wirionedd ei egwyddorion fel athronydd Cristionogol, ac ymorphwysai yn hollol am y sicrwydd o fywyd tragwyddol ar haeddiant yr Aberth mawr. Yr oedd ei ffydd hyd y diwedd mor syml a hyderus ag eiddo plentyn bach, ac etto yr oedd ei alluoedd meddyliol mor glir a chryf ag erioed. Bu farw yn ei drigfan yn Bushey Heath, ar y 27ain o Ragfyr, 1858, yn 66 mlwydd oed, a chladdwyd ef, Ionawr 4ydd, yn ngwydd ychydig berthynasau a hen gyfeillion, yn mysg pa rai yr oedd Arglwydd Esgob Llundain, Syr David Davies, Parch. Dr. Williams, Penaeth Coleg yr Iesu, Rhydychain, a'r Hybarch Archddiacon Sinclair. Ac er fod pum' mlynedd er pan adawsai Llanymddyfri, cymaint oedd y parch a fynwesid gan y trigolion tuag ato, fel pan gyrhaeddodd y newydd o'i farwolaeth yno, ymdaenodd rhyw alar cyffredinol trwy y lle, a chauwyd yr holl fasnachdai ar ddydd ei angladd. Gwnaed yr un peth yn Bushey Heath; ac yn Edinburgh, cauwyd i fyny am yr oriau hyny y Brif Athrofa. Ei wraig ydoedd unig ferch Thomas Evans, Ysw., Llanilar, Ceredigion, a bu hi farw Awst 16eg, 1854. Gadawodd bump o ferched ar ei ol; ac un o honynt yw gwraig Robert Cunliffe, Ysw., *Chancery Lane.* Mewn sylw ar ei farwolaeth dywed y *Times:*—"I achos hanesyddiaeth Gymreig a hynafiaeth, o ba rai yr oedd bob amser yn esboniwr mwyaf galluog a llwyddiannus, mae y golled yn anadferadwy. Prif nodwedd ei gymeriad oedd ei gariad angerddol tuag at wlad ei enedigaeth, ei phobl, ei hiaith, ei defodau, a'i thraddodiadau. Ni lafuriodd neb erioed yn fwy selog nag ef, nid yn unig o blaid llwyddiant Cymru, ond hefyd o blaid ei hanrhydedd."

WILLIAMS, ELIEZER, A.C. Er nad oedd y gwr enwog hwn yn enedigol o Geredigion, etto, gan fod ei enw mor adnabyddus fel sylfaenydd Ysgol Ramadegol Llanbedr, teg ydyw gwneud crybwylliad byr am dano mewn cysylltiad âg enwogion y sir hon. Mab ydoedd ef i'r Parch. Peter Williams, awdwr yr Esboniad, a ganwyd ef yn Llandyfaelog, sir Gaerfyrddin, yn y flwyddyn 1754. Anfonwyd ef yn ieuanc i Ysgol Ramadegol Caerfyrddin, ac oddiyno i Goleg yr Iesu, Rhydychain. Yn y flwyddyn 1770, cawn ef yn cynnorthwyo ei dad i ddwyn allan ei Esboniad a'i Fynegair; ac yn fuan wedi hyn, cymerai ran yn nygiad allan yr *Eurgrawn Cymreig*—y cyhoeddiad cyfnodol cyntaf yn y Gymraeg. Awst 3, 1777, urddwyd ef yn ddiacon gan Esgob Ty Ddewi, a phenodwyd ef yn gurad Trelech. Symudodd oddiyno yn mhen ychydig fisoedd i Tetsworth, sir Rhydychain. Rhagfyr 20fed, 1778, urddwyd ef gan Esgob Rhydychain

yn offeiriad; ac yn fuan ar ol hyny, dewiswyd ef yn ail athraw Ysgol Ramadegol Wallingford, ac yn ychwanegol at hyny, gwasanaethai guradiaeth Acton, pentref yn y gymydogaeth. Yn y lle hwn daeth i gydnabyddiaeth â Dr. Shute Barrington, y pryd hyny Esgob Llandaff. Pan ddyrchafwyd ei arglwyddiaeth i esgobaeth Caercaradog, cynnygiodd i Mr. Williams y swydd o gaplan; ond yn gymaint a bod ganddo bethau eraill mewn golwg, gwrthododd y cynnygiad caredig. Yn y flwyddyn 1780, aeth yn gaplan ar fwrdd y llong *Cambridge*, yr hon a lywyddid gan y Llyngesydd Keith Stewart, ac ar yr un pryd, gwasanaethai fel athraw i Arglwydd Garlies, wedi hyny Iarll Galloway, yr hwn oedd yn nai i'r llyngesydd, ac yn swyddog yn yr un llong. Ar ol bod am ddwy neu dair blynedd ar y môr, ar annogaeth Iarll Galloway, ymgymerodd â'r swydd o athraw yn nheulu y boneddwr hwnw. Trwy ddylanwad ei arglwyddiaeth, cyflwynwyd ef gan yr Arglwydd Ganghellydd Thurlow i ficeriaeth Caio a Llansawel, yn y flwyddyn 1784. Tua'r flwyddyn 1794, cyhoeddodd amryw draethodau, ar hanes teulu ei noddwr, y rhai a dderbyniasant gymeradwyaeth wresog y wasg Seisnig. Yn nechreu y flwyddyn 1796, cawn ef yn ddarlithydd yn All Hallows, Llundain, ac yn ysgrifenydd a llyfrgellydd i un Mr. Blakeney. Ar farwolaeth y gwr hwnw, yn y flwyddyn 1799, symudodd i Chadwell, Essex, lle bu yn gurad ac yn gaplan i'r milwyr yn Tilbury Fort. Ysgrifenai Mr. Williams lawer i'r gwahanol gyfnodolion, megys y *Cambrian Register*, *Gentleman's Magazine*, &c., yn gyffredin o dan y ffugenw "E. o Lanbedr." Cymerodd ran yn y ddadl â Dr. Priestley, a bu o fawr gynnorthwy i Dr. Burgess er dynoethi heresiau niweidiol Belsham. Cyfieithodd amryw o Salmau Dafydd, yn nghyda darnau o weithiau y beirdd Groegaidd, i'r Saesoneg; ac yn 1801, cyhoeddodd lyfr o dan y teitl, *Nautical Odes*, &c. Yn y flwyddyn 1805, penodwyd ef gan Dr. Burgess i ficeriaeth Llanbedr; ac yn fuan wedi ymsefydlu o hono yno, agorodd Ysgol Ramadegol, yr hon a drwyddedwyd gan yr Esgob er cymhwyso dynion ieuainc i'r weinidogaeth yn yr Eglwys Sefydledig. Daeth yr Ysgol hon yn fuan yn enwog trwy y Dywysogaeth, a gellir dweyd am dani, iddi fagu mwy o offeiriaid nag un Ysgol Gymreig arall yn y cyfnod hwnw, llawer o ba rai a droisant allan yn weinidogion defnyddiol ac enwog. Wedi arolygu yr Ysgol hon am yn agos i bedair blynedd ar ddeg, bu farw Ionawr 20, 1820. Cyhoeddwyd ei draethodau, ei lythyrau, a'i farddoniaeth Saesoneg, yn nghyda bywgraffiad o hono, yn gyfrol hardd, 8plyg, yn y flwyddyn 1840, gan ei fab, y Parch. St. George Armstrong Williams.

Williams, Isaac, B.D., oedd drydydd mab Isaac Lloyd Williams, Ysw., Cwmcynfelyn, yn agos i Aberystwyth, lle y ganwyd ef, Rhagfyr 12fed, 1802. Addysgwyd ef, yn nghyda'i dri brawd, yn ysgol enwog Harrow, lle

yr ennillodd amryw wobrwyon. O Harrow symudodd i Goleg y Drindod, Rhydychain, ar ei waith yn ennill Ysgoloriaeth yno. Yn mhen amser, etholwyd ef yn Gymrawd ac yn Athraw yn y Coleg hwnw. Yn 1823, enwogodd ei hunan trwy ennill y wobr gynnygiedig am y *Latin Verse.* Gan fod ei iechyd mor wanaidd, analluogwyd ef i fyned i mewn am *Honours*, ac felly cymerodd y radd gyffredin o B. D., yn 1826. Adnabyddir Mr. Williams fel un o ysgrifenwyr y "Traethodau i'r Amseroedd," a chymerodd ran arbenig yn y mudiad eglwysig oedd y pryd hyny ar droed yn Rhydychain. Gyda phump eraill, ysgrifenodd y *Lyra Apostolica;* ac wedi hyny cyhoeddodd amryw gyfrolau o farddoniaeth, yn llawer o ba rai y dangosai y teimladau mwyaf gwresog tuag at "wlad y bryniau," a chyfeillion a chyrchfanau boreu ei oes. Ond feallai mai fel ysgrifenydd rhyddieithol y safai Mr. Williams uchaf, a nodweddir ei holl ysgrifeniadau gan deimlad gwir grefyddol. Saif ei *Harmonies of the Gospels* yn hir fel safon i efrydwyr y Beibl, ac fel caffaeliad gwerthfawr i lyfrgell y duwinydd. Mewn gwleidyddiaeth, yr oedd Mr. Williams yn Geidwadwr trwyadl:—arddangosir ei serch a'i ymlyniad wrth Siarl i., mewn dull tyner nodedig, yn y gân a gyhoeddodd dan y teitl, *The Cathedral.* Yr oedd ei iechyd yn ystod yr 20 mlynedd olaf o'i fywyd, yn achos o bryder gwastadol i'w gyfeillion lluosog, yn mysg pa rai y gellir enwi Keble, Froude, Pusey, Newman, &c. Ac er na chymdeithasai ef â'r olaf ar ol ei enciliad i'r Eglwys Babaidd, etto coleddent y teimladau mwyaf caredig tuag at eu gilydd, a pharodd ymweliad Dr. Newman âg ef ychydig ddyddiau cyn ei farwolaeth, y boddhad mwyaf iddo. Bu farw Mr. Williams yn Stinchcombe, sir Gaerloyw, Mai 1, 1865, a chladdwyd ef yn mynwent unigol y pentref tawel hwnw. Mewn erthygl a ymddangosodd arno yn y *Guardian*, ceir y sylwadau canlynol:—"Mae un enw etto a fawr edmygid ac a gerid wedi myned oddiwrthym, ond un ydoedd wedi treulio bywyd mor neillduedig, fel y bu i'r rhan fwyaf megys ysgrifenydd yr amser aeth heibio, tra ar yr un pryd yn fyw yn eu plith. Er fod ei enw yn gysylltiedig unwaith â'r hyn a wnai eraill yn destun dadleuaeth, etto yr oedd ei hunan yn byw mewn awyrgylch yn mhell uwchlaw nwydau neu deimladau plaid. Pa un ai fel bardd neu dduwinydd, prif nôd ei holl ysgrifeniadau oedd rhoddi y sylw a'r parch mwyaf defosiynol i bethau Duw. Yr oedd ei fodolaeth yn ein plith yn debyg i dystiolaeth clochdy y llan, yn cyfeirio at Dduw mewn tawelwch uwchlaw twrf a gwagedd dinas drystiog a ffwdanus. Yr oedd ymweled âg ef yn debyg i ddiangfa un o ganol berw heol lawn o drigolion, a'u holl fryd ar fasnach mewn pethau daearol, i rodfeydd goruwch ddaearol tawel ei Eglwys Gadeiriol ef ei hun. Mae ei ymadawiad ef yn golled, nid i un blaid dduwinyddol, ond i'r da a'r difrifol yn mysg pob dosbarth o Gristionogion. A bydd i Eglwys y wlad hon gyfrif yn wastad yn mysg y cadarnaf, y mwyaf anwyl, a'r mwyaf meddylgar, o'i

hysgrifenwyr defosiynol, enw Isaac Williams." Wele yn canlyn restr o'i weithiau:—I. RHYDDIAITH—1. *The Harmony of the Four Evangelists;* 2. *The Holy Gospels;* 3. *The Nativity;* 4. *The Ministry,* 2 vols.; 5. *The Passion;* 6. *The Holy Week;* 7. *The Resurrection;* 8. *The Apocalypse;* 9. *The beginning of the Book of Genesis;* 10. *The Way of Enternal Life,* (translated and adapted to the use of the English Church); 11. *A Short Memoir of the Life of Rev. R. Sacking;* 12. *The Psalms Interpreted of Christ,* 1st vol. (Bu farw cyn gorphen y gwaith yma). II. YN MYSG EI BREGETHAU cyhoeddodd—1. *Plain Sermons* (sixth vol.); 2. *Two Volumes of Sermons on the Catechism;* 3. *Three Volumes of Sermons on the Epistles and Gospels;* 4. *On the Characters of the Old Testament;* 5. *Female Characters of Holy Scripture.* III. Ei weithiau BARDDONOL oeddynt—1. *The Cathedral;* 2. *Thoughts in past years;* 3. *The Baptistery* (2 vols.); 4. *The Christian Scholar;* 5. *The Christian Seasons;* 6. *The Creation;* 7. *The Altar;* 8. *Sacred Verses;* 9. *Hymns on the Catechism;* 10. *Hymns from the Parisian Breviary* (cyfieithiad); 11. *Ancient Hymns for Children* (cyf.)

WILLIAMS, ISAAC, oedd ail fab i David Williams, Ysw., o Tyddyn neu Ty'nywern—trefdadaeth ei hynafiaid, yn mhlwyf Llanrhystyd. Yr oedd yn ficer Llanbadarn Fawr pan nad oedd ond 25 mlwydd oed. Oddiyno symudodd i Lanrhystyd, lle y bu yn ficer am 47 mlynedd. Dywedid yn gyffredin trwy y wlad mai y dyn mwyaf synhwyrol a fagwyd erioed yn y plwyf hwnw oedd efe. Perchid ef yn fawr gan uchel ac isel, ond yn enwedig gan Esgobion Ty Ddewi, y rhai a roddent ymddiried mawr ynddo ar gyfrif ei ddoethineb a'i gymeriad diargyhoedd. Un o honynt, sef, Arglwydd George Murray, a'i penododd ef yn un o'i Gaplaniaid teuluol. Yr oedd yn noddwr a chynghorydd rhagorol i fyfyrwyr ieuainc, ac yn gyfaill ffyddlon i offeiriaid ei ddeoniaeth. Efe oedd yr unig Ddeon Gwladol a *Surrogate* Uwch-Aeron y pryd hyny. Ystyrid ef fel y darllenwr goreu o wasanaeth yr Eglwys o neb yn y wlad, ac fel y dywedai un hynafgwr am dano, "Yr oedd yn darllen fel yr olew." Bu iddo dri o feibion—yr hynaf William, a ddygwyd i fyny yn feddyg yn Ysbyty St. Thomas a Guy's, Llundain; ac ar ol hyny a ymsefydlodd yn Nghaerfyrddin fel meddyg, ac a adnabyddid wrth yr enw "Williams o'r GREEN POST." Yr ail fab ydoedd Isaac Lloyd Williams, Cynghorwr, o Lincoln's Inn, ac yr oedd yn dad i'r Parch. Isaac Williams, am yr hwn y gwneir crybwylliad yn y gwaith hwn. Y trydydd ydoedd David Williams, yr hwn a aeth pan yn ddeunaw mlwydd oed i Ysgol Ystradmeurig, ac a fu yn derbyn addysg yn yr hen Eglwys bresenol am ddwy flynedd a hanner. Oddiyno fe aeth i Goleg Oriel, Rhydychain. Mab iddo ef yw Esgob presenol Quebec. Yr oedd iddo hefyd ddwy ferch. Ann, yr hynaf, a briododd â'r Parch. Lewis Evans, Llanfihangel-geneu'r-glyn; ac Elizabeth, yr hon a

briododd â William C. Gilbertson, Ysw., o'r Cefngwyn—dwy o wragedd na chyfarfyddir ond anfynych â'u rhagorach. Trigianai Mr. Williams yn Ystrad Teilo, a mynych byddai rhai o'r esgobion yn llettya yno, gan dderbyn mawr garedigrwydd oddiar ei law. Ymadawodd â'r bywyd hwn yn y flwyddyn 1811, yn 77 mlwydd oed, a chasglwyd ef at ei dadau i fynwent Llanrhystyd.

WILLIAMS, JOHN, LL.D. Ganwyd y gwr enwog hwn yn Llanbedr-pont-Stephan, Mawrth 25, 1727. Derbyniodd elfenau ei addysg yn y dref hòno; a phan yn bedairarbymtheg oed, aeth i Goleg Caerfyrddin, i'r dyben o gymhwyso ei hunan i'r weinidogaeth yn mysg yr Ymneillduwyr. Treuliodd wedi hyny ryw gymaint o amser yn athraw clasurol mewn ysgol gyhoeddus yn Birmingham; ond ar alwad yr eglwys yn Stamford, sir Lincoln, cydsyniodd i fyned yno i'w bugeilio. Yn 1755, symudodd drachefn i Wokingham, Berks, lle yr arosodd hyd 1767. Yn y lle hwn, cyhoeddodd, *A Concordance to the Greek New Testament, with an English Version to each word, and short critical Notes*—gwaith ag a gymerodd flwyddi o lafur caled i'w awdwr i'w gyflawni. Ar ymddangosiad y gwaith yma, yn 1767, symudodd drachefn i Sydenham, lle y treuliodd wyth mlynedd ar hugain yn weinidog, pryd y rhoddodd i fyny ei ddyledswyddau cyhoeddus, ac yr ymneillduodd dros y gweddill o'i oes i Islington. Yn 1777 etholwyd ef yn arolygwr Llyfrgell y Dr. Williams yn Redcross Street; ac yno mwynhaodd gyfleusderau rhagorol i grynhoi y defnyddiau angenrheidiol at ei waith mawr, yr hwn a gyhoeddodd dan y teitl,—*A Free Enquiry into the Authenticity of the* 1st *and* 2nd *chapters of St. Mathew's Gospel*,—ail argraffiad, 1789. Ei weithiau eraill oeddynt:—1. *Critical Dissertations on Isaiah*, 7th chap. 13th and 16th verses; 2. *Thoughts on the Origin of Language;* 3. *An Address on the Protestant Dissenting Ministers' application to Parliament in* 1773; 4. *Remarks on a Treatise by William Bell, D.D., on the Divine Mission of John The Baptist and Jesus Christ, &c.*; 5. *An Enquiry into the Truth of the Tradition concerning the discovery of America by Prince Madog, son of Owen Gwynedd, about the year* 1170, *in two parts.* Bu farw, Ebrill, 1798. Yr oedd y pryd hyny bron a gorphen argraffu gwaith M. P. Cheilomeus, sef, *Græco—Barbara Novi Testamente, &c.*

WILLIAMS, JOHN LLEDROD, a anwyd yn y plwyf hwnw tua'r flwyddyn 1749. Ychydig iawn a wyddis o hanes boreuol y gwr yma, gan nad ysgrifenwyd yr un cofiant iddo, yr hyn sydd yn ymddangos yn bur hynod pan ystyriom y gwasanaeth mawr a wnaeth efe i achos Methodistiaeth yn y wlad. Yr oedd ei rieni yn aelodau gyda'r Methodistiaid, a bwriadent ddwyn eu mab i fyny yn weinidog yn yr Eglwys Sefydledig; ac felly

anfonwyd ef i Ysgol Ystradmeurig, lle y treuliodd yr amser arferol cyn cael ei ordeinio. Ymddengys iddo barhau am dymmor yn y weinidogaeth yn ddyeithr hollol i ddylanwadau yr Ysbryd—gan bregethu i eraill, a'i hunan yn anghymeradwy. Nis gwyddis yn sicr pa bryd yr argyhoeddwyd ef, ond mae yn ffaith mai gweinidogaeth danllyd Daniel Rowlands fu yn foddion i'w ddwyn gyntaf i ystyried yn ddifrifol ei gyflwr. Bu yn gweinidogaethu yn yr eglwys o gwbl tua deuddeng mlynedd; ac er mai yn Lledrod yr oedd yn sefydlog, etto pregethai yn fynych ar ol ei argyhoeddiad yn y gwahanol eglwysi cymydogaethol. Ond yn y flwyddyn 1781, ymunodd yn gyhoeddus â'r Methodistiaid, a derbyniwyd ef yn aelod yn Swyddffynnon, a llafuriodd gyda hwy yn ffyddlon fel gweinidog am yr yspaid maith o 50 mlynedd. Yr oedd Mr. Williams yn un o'r ychydig offeiriaid a safodd gyda'r corff ar ol yr ymneillduad fu ar bregethwyr y cyfundeb i weinyddu bedydd a Swper yr Arglwydd. Ac nid yn unig daliodd ei dir, ond gwnai a allai o blaid y symudiad, a hyny mor bell a phregethu yn gyhoeddus drosto. Yr oedd yn bresenol yn Nghymanfa y Bala, yn y flwyddyn 1810, pryd y dygodd Mr. Charles yn mlaen ei gynnygiad gyda golwg ar y dull o gydweithredu er dwyn oddiamgylch y neillduad yn y modd mwyaf esmwyth a didramgwydd; a chydag ef yr anfonodd y Gymanfa y llythyr a gynnwysai eu penderfyniad i'r Gymdeithasfa oedd i fod yn Llangeitho. Bu Mr. Williams yn llafurio am y rhan olaf o'i oes yn Llangeitho. Dechreuodd ei yrfa gyda'r Methodistiaid pryd nad oedd ganddynt ond 16 o gapelau yn y sir, a bu fyw i'w gweled, rhwng capelau ac ysgoldai, yn agos i 90 o rifedi. Prif nodwedd ei bregethau ydoedd eu grym argyhoeddiadol:—llefarai mor llym a tharanllyd yn erbyn pob math o annuwioldeb, nes peri braw aruthrol ar y dynion anystyriol a'i gwrandawai. Ond nid maint ei ddawn, yn gymaint a heddychlonrwydd ei ysbryd a gwastadrwydd ei lafur, oedd yr achos o'i fawr boblogrwydd, a'r parch a delid iddo gan ei gydlafurwyr.—*Meth. Cymru*, cyf. ii., 88.

Williams, John Philip, oedd unig blentyn John a Gwenllian Williams, Dreisaf, plwyf Ystradmeurig, lle y ganwyd ef ar y 24ain o Dachwedd, 1817. Pan oedd tua dwy flwydd oed, symudodd ei rieni i fyw i Bontrhydfendigaid. Gan eu bod mewn amgylchiadau cysurus, ac yntau yn unig blentyn, cafodd fwynhau y manteision addysgawl goreu, a hyny am flynyddau, yn Ysgol enwog Ystradmeurig. Ymddengys ei fod yn fachgen gwylaidd a moesol, ac yn rhagori ar lawer o'i gyfoedion—yn llawn diniweidrwydd a sirioldeb, ac felly yn barchus gan ei holl gydnabod. Cymerai lawer iawn o ddyddordeb mewn darllen gair Duw a chlywed ei bregethu. Er fod ei rieni yn arferol o wrando gyda y Methodistiaid Calfinaidd, tueddwyd ef i ymuno â'r Bedyddwyr, a derbyniwyd ef yn aelod

yn eu plith, trwy gael ei fedyddio, y Sul olaf yn mis Mawrth, 1841, yn Ngharmel, Rhydfendigaid. Bu am ryw gymaint wedi hyn yn gwasanaethu mewn *shop* yn Aberystwyth, lle yr ennillodd barch gan bawb a'i hadwaenai. Wedi hyn annogwyd ef i fyned yn efrydydd i Athrofa er cymhwyso ei hun at waith y weinidogaeth, yr hyn a wnaeth trwy osod ei hun o dan ofal Mr. Williams o'r Drefnewydd—cyfieithydd dysgedig yr *Oraclau Bywiol.* Ar ol pregethu amryw weithiau gyda llwyddiant mawr yn Rhydfendigaid, Swyddffynnon, a'r gymydogaeth, derbyniodd alwad gan Eglwys Pantycelyn, ac felly ordeiniwyd ef yn weinidog yno, Rhagfyr 13, 1843. Trwy ei ymdrechion a'i lafur diflino, bu Mr. Williams yn llwyddiannus i sefydlu eglwys yn Salem, a bu yn llafurio yn y ddau le hyd y flwyddyn 1848, pryd y cafodd wahoddiad gan eglwys Blaenywaun i fyned i'w bugeilio. Yn ychwanegol at yr eglwys hon yr oedd ganddo yn ei faes newydd hefyd i ofalu am eglwysi Llandudoch, Gerazim, a Phenuel; ond ó herwydd afiechyd gorfu iddo tua diwedd 1850 roddi yr olaf i fyny. Yn ystod y deuddeng mlynedd y bu yn y lleoedd hyn bedyddiodd Mr. Williams dros naw cant o bersonau. Yn ystod ei weinidogaeth, gorfuwyd helaethu capel Bethsaida, yr hyn a wnaed ar draul o yn agos i £900, a theithiodd Mr. Williams lawer ar hyd y wlad i gasglu y swm angenrheidiol at hyny. Ymwelodd â Morganwg, a thynai sylw rhyfeddol yno, nes cyrchai lluaws ar ei ol, a "phregethai yntau fel angel Duw." Ond fel llawer o'i flaen, ysywaeth, cyfarfu â gwely llaith, yr hyn a effeithiodd arno i'r fath raddau nes troi yn barlys. Bu am ychydig o dan driniaeth feddygol yn Nghaerdydd cyn dychwelyd yn ol i Flaenywaun. Bu wedi hyny yn ffynnonau Llanwrtyd, lle y derbyniodd gryn lesâd, fel ag i ddyfod yn alluog i bregethu ac ail ymaflyd yn ei ddyledswyddau gweinidogaethol. Ar ol hyn symudodd i Gaernarfon, ond nid aeth ei deulu gydag ef. Ni bu ei arosiad yno ond byr, oblegid gorfodwyd ef i roddi i fyny gan afiechyd, a throi ei wyneb unwaith yn rhagor am hen faes ei lafur yn Mlaenywaun. Wedi dihoeni ychydig wythnosau, bu farw y gweinidog rhagorol hwn, Rhagfyr 19, 1861, yn 44 mlwydd oed, a chladdwyd ef y Llun canlynol yn ngwydd tyrfa anarferol o fawr. Ac fel y sylwa ei Fywgraffydd, "Dygwyddodd yn rhyfedd ddarfod i ddau dywysog i gael eu claddu yr un dydd, sef y Tywysog Albert, clod pa un a erys yn barchus trwy holl Brydain; hefyd un o dywysogion mwyaf ardderchog yr areithfa Gymreig, ac esgynloriau cymanfaol y Dywysogaeth. Fel pregethwr, safai yn y rhes flaenaf; nid yn gymaint am ei fedrusrwydd fel beirniad, ond yn ei allu rhyfeddol i siarad â'r teimlad dynol. Medrai godi cymhariaethau naturiol oddiwrth bethau yn yr ymyl—o'r cwch pysgota, oddiwrth forwriaeth, ffermwriaeth, garddwriaeth, &c., a chodai addysgiadau mor naturiol nes swyno, nes cynhyrfu y teimlad, ennill y dagrau, a chael y galon (trwy Ysbryd Duw) i dderbyn y gwirionedd. Yr oedd ei iaith yn goethedig, ei lais yn dra soniarus, cyfoeth

o eiriau a meddyliau yn cydgyfarfod, a'i ddull boneddigaidd gerbron ei wrandawyr, yn ei wneud yn hynod o dderbyniol. Pregethodd laweroedd o weithiau mewn cymanfaoedd pell ac agos; anfonid yn aml am dano i Lynlleifiad, ac weithiau i Lundain, ac fe'i hystyrid yn un o'r rhai mwyaf poblogaidd yn yr enwad Bedyddiedig. Y mae yn syndod o'r mwyaf, am un ag oedd yn gorfod pregethu cymaint, ei fod yn fynychaf yn gallu pregethu mor dda. Yr oedd wedi darllen llawer, ac yn gallu cofio llawer, ac yr oedd ei ddawn mor barod i wneud o'r cwbl i'w haberthu ar allor euraidd y weinidogaeth."—*Gwel ei Gofiant gan y Parch. T. E. James, Glynnedd.*

WILLIAMS, MOSES, oedd fab i Samuel Williams, periglor Llandyfriog a Llangynllo; a ganwyd ef yn Glaslwyn, Mawrth 2, 1685. Derbyniodd ei addysg yn Ysgol Ramadegol Caerfyrddin, ac wedi hyny yn Rhydychain, lle yn 1708 y graddiwyd ef yn B.A. Y flwyddyn hòno, ordeiniwyd ef gan Dr. Trimnel, Esgob Norwich, a gwasanaethodd am ryw dymmor yn Lloegr fel curad. Cafodd ei ddyrchafu gan Esgob Ty Ddewi i ficeriaeth Llanwenog, Mai 31, 1713. Yn y flwyddyn 1716 drachefn, dyrchafwyd ef i ficeriaeth Defynog, sir Frycheiniog, trwy gymeradwyaeth Tywysog Cymru. Priododd yma âg un Margaret Davies, yn y flwyddyn 1718. Yn 1724, newidiodd Defynog am bersonoliaeth Chilton Trinity, a ficeriaeth St. Mary, Bridgewater. Yn 1732, etholwyd ef yn Gymrawd o'r Gymdeithas Freiniol. Fel hynafiaethydd a hanesydd yr oedd Moses Williams yn un ag y gall ei wlad fawr ymffrostio ynddo, oblegid cyfoethogodd fwy, feallai, na neb arall o'i ragflaenwyr ar ei lenyddiaeth, yn y canghenau yr ymgymerodd â hwy. Ei brif waith ydoedd un a gyhoeddodd yn 1726, dan y teitl, *Repertum Poeticum,* sef yw hyny, Alphabetical Index o'r holl lawysgrifau Cymreig. Ymddangosodd darnau o'r gofres hon wedi hyny yn y *Cymmrodorion Transactions.* Costiodd y gwaith yma lafur ac ymchwiliad gorfawr i'w awdwr. Ei weithiau eraill oeddynt *Cyfreithiau Hywel Dda,* cyfrol fawr ddeublyg, wedi ei chasglu a'i chyfieithu i'r Lladin, gan Dr. Wotton, gyda chynnorthwy Moses Williams, 1730; *Cydymaith i'r Allor,* cyfieithedig gan Moses Williams, 1715; *Glossary of Roman Antiquities,* 1724; *Cofres o'r holl Lyfrau printiedig yn yr Iaith Gymraeg.* Math o *Lyfryddiaeth y Cymry* ydoedd hwn i lawr hyd oes yr awdwr, 1717; *Beibl Cysegrlan,* 1718. Hwn ydoedd yr argraffiad cyntaf a gyhoeddwyd dan nawdd y Gymdeithas er lledaenu Gwybodaeth. Dan arolygiad Moses Williams y cafodd ei gyhoeddi; ac adnabyddid yr argraffiad hwn gan yr hen bobl wrth yr enw Beibl Moses Williams. Cyfieithodd hefyd yr Apocrypha, yn nghyda Gweddïau a Chanonau yr Eglwys, ac a'u cyhoeddodd mewn cysylltiad â'r Beiblau. Cyhoeddodd tua deuddeg o weithiau eraill, ar dduwinyddiaeth gan mwyaf. Yr oedd ganddo frawd, Samuel Williams, yn offeiriad yn Llangynllo; ac efe a

gyfieithodd y *Mynegai Ysgrythyrol* ardderchog a gyhoeddwyd mewn cysylltiad â rhai o'r hen Feiblau. Cyfieithodd ei dad hefyd, *Amser a Diwedd Amser*, o waith John Fox, yn y flwyddyn 1707; ac *Undeb yn orchymynedig i Ymarfer*, o waith D. Phillips, D.D., Parson Maenor Deifi, yn y flwyddyn 1710. Gadawodd Moses Williams bedair cyfrol fawr, mewn llawysgrif, i'r Bodleian Library, y rhai sydd yn cynnwys cofrestr o'r holl lyfrau oedd y pryd hyny yn y llyfrgell enwog hòno. Gadawodd hefyd yn ei ewyllys nifer mawr o lyfrau a llawysgrifau i'w noddwr, Arglwydd Macclesfield. Bu farw yn St. Mary, Bridgewater, a chladdwyd ef, Mawrth 2, 1742.

WILLIAMS, DAVID, (Iwan), oedd fab i Mr. Williams, Penbontbren, Llanbedr. Pregethai gyda'r Bedyddwyr, a bu am gryn amser yn cadw ysgol gyda mawr lwyddiant a chlod. Yr oedd yn ddyn o ddyfnder synwyr ac o archwaeth neillduol at wir brydyddiaeth. Y mae rhai o'i ganiadau mor gyson â natur ag unrhyw gerddi yn ein hiaith; ond ni hoffai Iwan fesurau caethion barddoniaeth, er ei fod yn eu deall yn dda. Yr oedd yn gyfaill mawr i Daniel Ddu, ac ysgrifenodd lawer i'r *Seren Gomer* a chyhoeddiadau eraill. Bu farw yn ieuanc, pan tuag 28ain oed, yn y flwyddyn 1823.

# ATTODIAD.

DAVIES, DAVID, (Glan Cunllo). Ganwyd y bardd a'r llenor gwych hwn yn Pantsais, plwyf Llangynllo. Derbyniodd elfenau ei ddysgeidiaeth yn Bwlchygroes, ysgoldy perthynol i'r Annibynwyr, wrth y capel. Treuliodd ei unfed flwyddyn ar ddeg yn y gwely gan afiechyd, yr hwn a ymsefydlodd yn ei lin, ac a adawodd ei nôd arno, fel ag y bu yn gloff hyd ddiwedd ei oes. Wedi tyfu i fyny, ymgymerodd â'r gwaith o gadw ysgol, a bu yn y swydd hòno yn Pencader, Peniel, Caio, Llansawel, ac yn ddiweddaf yn Llangadog. Ymddengys mai y wobr gyntaf a ennillodd ydoedd yn Eisteddfod Llandyssul, yn y flwyddyn 1860; ond o hyny hyd ei farwolaeth ennillodd ugeiniau o wobrwyon mewn Eisteddfodau ar wahanol destunau—barddonol a rhyddieithol. Yr oedd ei lafur llenyddol bron yn anhygoel; ysgrifenai bron yn ddiorphwys, ac ar bron bob testun; ac ychydig o'i gyfoedion barddonol a fuont mor llwyddiannus. Ysgrifenodd amryw ffugchwedlau o bryd i bryd, ac yr oedd yn ohebydd cyson i amryw newyddiaduron. Yr anrhydedd llenyddol diweddaf a gyrhaeddodd ydoedd yn Eisteddfod Genedlaethol Caerfyrddin, 1867, lle yr ennillodd wobr o 10 gini a thlws am y "Traethawd Bywgraffyddol a Beirniadol ar Iolo Morganwg." Yr oedd wedi cyfansoddi ar amryw o'r prif destunau eraill, a safai yn uchel iawn yn y gystadleuaeth. Ysgrifenasai yr oll pan oedd ei gyfansoddiad yn ymddattod yn gyflym dan bwys ei afiechyd nychlyd, sef y darfodedigaeth; ac yn wir, nid oedd ei holl fywyd ond un frwydr barhaus âg afiechyd. Gydag anhawsdra mawr y daethai i'r Eisteddfod, a gorfu iddo droi tua chartref cyn gwybod tynged ei gyfansoddiadau. Bu yn dihoeni am tua deufis wedi hyny, a bu farw Tach. 17, 1867, yn 30 mlwydd oed, a hyny er galar mawr i wraig a phlant adawodd ar ei ol, yn nghyda chylch eang o gyfeillion llenyddol yn ngwahanol ranau y Dywysogaeth.

DAVIES, PARCH. JOHN, D. D., a anwyd yn mhlwyf Llanddewi-brefi, Rhagfyr, 1795. Ei dad ydoedd James Davies, uchelwr, yn byw ar ei dir ei hun yn Hendre Phillip; a'i fam ydoedd Jane, merch i Mr. Richards, Garnlwyd, plwyf Llanbadarn-odwyn. Derbyniodd ei addysg, gan mwyaf, yn Ysgol Ramadegol Llanbedr, o dan y Parch. Eliezer Williams. Wedi treulio rhai blynyddau yn Nghymru, bob yn ail yn dysgu ac yn cael ei ddysgu, aeth i Loegr yn Ionawr, 1815, fel athraw cynnorthwyol mewn ysgol. Bu yn mynychu Rhydychain am dymmor neu ddau, ac yna

symudodd i Gaergrawnt, lle y graddiwyd ef yn B. D. yn 1830, ac yn D.D. yn 1844. Ordeiniwyd ef gan Esgob Norwich, a bu am rai blynyddau yn beriglor St. Pancras, Chichester; ac yn 1840, cafodd berigloriaeth Gateshead. Daliai hefyd yr un pryd y swydd o feistr Ysbyty St. Iago, yn esgobaeth Durham; ac yn 1853, gwnaed ef yn ganon anrhydeddus yn yr un esgobaeth. Bu farw Hydref 21, 1861, yn Ilkley Wells, sir Gaerefrog. Yr oedd Dr. Davies yn awdwr amryw lyfrau dysgedig. Ei waith mawr cyntaf ydoedd llyfr yn dwyn y teitl, "An Estimate of the Human Mind, being a Philosophical Enquiry into the Legitimate Application and Extent of its Leading Faculties, as connected with Principles and Obligations of the Christian Religion." Cyhoeddwyd hwn yn Nghaergrawnt yn 1828, a daeth ail argraffiad allan yn 1847. Cyhoeddodd hefyd "First Impressions,"—cyfres o lythyrau wedi eu hysgrifenu o Ffrainc, Switzerland, a Savoy, yn cynnwys ei syniadau am y gwledydd hyny a'u golygfeydd. Ymddangosodd amryw draethodau a phregethau o'i eiddo o bryd i bryd, ac arddengys yr awdwr ynddynt oll feddwl coeth, a dysgeidiaeth o'r radd uchaf.

FRANCIS, PARCH. BENJAMIN, A.C., gweinidog enwog gyda'r Bedyddwyr, oedd fab ieuengaf Enoch Francis o Bencelli, ger Castell Newydd Emlyn, lle y ganwyd ef yn y flwyddyn 1734. Derbyniwyd ef yn aelod cyflawn yn mysg y Bedyddwyr pan yn bymtheg oed; a phan yn bedairarbymtheg, fel ei dad o'i flaen, dechreuodd bregethu. Aeth i'r Athrofa yn Nghaerodor yn 1753, lle y bu am bedair blynedd. Bu yn pregethu am ryw dymmor yn Mristol a Sudbury; ond sefydlodd yn Horsley, sir Gaerloyw, lle yr ordeiniwyd ef yn 1758, ac yno y treuliodd dros 40 mlynedd yn y weinidogaeth. Pan aeth ef gyntaf i Horsley, nid oedd rhifedi yr aelodau ond triugain a chwech, ond buan y cynnyddasant yn rhai cannoedd o rifedi, a helaethwyd yr addoldy dair gwaith. Deuai ei wrandawyr yn nghyd o bymtheg o'r plwyfi cylchynol, a rhai o honynt ddeng milldir neu ychwaneg o bellder. Yn y flwyddyn 1765, adeiladodd addoldy yn Minchin-Hampton, tua thair milldir o Horsley, a bu yn darlithio yno yn gyson am 35 o flynyddau. Ymwelai yn fynych â'r Dywysogaeth i bregethu yn y gwahanol Gymanfaoedd, yn gystal ag yn mhrif drefydd Lloegr a'r Iwerddon. Bu farw Rhagfyr 14, 1799, yn 66 oed. Yr oedd Mr. Francis yn awdwr amryw emynau melus—Cymraeg a Saesoneg, y rhai sydd mewn bri mawr hyd heddyw, yn enwedig yn mysg y Bedyddwyr. Cyhoeddodd y llyfrau canlynol:—1. "Aleliwia, neu Hymnau i Addoliad Cyhoeddus," 1744; 2. Ail Ran o'r unrhyw, 1786; 3. "Marwnad ar Farwolaeth y Parch. John Thomas, gynt o Faes y Dorglwyd," 1787; 4. "Cân am Fedydd, a achlysurwyd gan Draithawd y Parch. B. Evans dros Daenelliad Babanod;" 5. "Iachawdwriaeth," 1793;

6. "De Ultimo Justices—neu Gân am y Farn Ddiweddaf, &c.; wedi ei gyfansoddi a'i gydmaru â gwaith Saesneg Mr. B. Francis, gan M. Williams, Caerfyrddin;" 7. "Cân ar Farwolaeth Mr. William Jones," 1799; 8. "Marwnad Harry John o Benygarn." *

GWYNNE, (Cadben). Alban Lewis Thomas Jones Gwynne, Ysw., Mynachdy, oedd fab hynaf y Milwriad Alban Thomas Jones Gwynne, a ganwyd ef yn y flwyddyn 1809. Derbyniodd ei addysg foreuol yn Ysgol Ramadegol Llanbedr, ac wedi hyny yn Caerwynt (Winchester). Tua'r flwyddyn 1828, ymunodd â'r fyddin—y 62ain gatrawd. Gwasanaethodd yn yr Iwerddon am ddwy flynedd, ac yn yr India am chwe' blynedd. Dychwelodd gartref oblegid afiechyd; a chan iddo fethu newid i gatrawd mewn gwasanaeth cartrefol, efe a ymneillduodd o'r fyddin. Yn 1847, priododd (yn Eglwys blwyfol Lewisham, Caint,) â Jane Crawshay, unig ferch Crawshay Bailey, Ysw., Nantyglo, sir Fynwy, o'r hon y bu iddo ddau fab a thair merch. Gwasanaethodd Cadben Gwynne y swydd o Uchel-Sirydd i Mr. Jones, Deri, ar waith y boneddwr hwnw yn dyfod yn ymgeisydd dros y sir yn ystod blwyddyn ei swyddogaeth ef. Bu farw yr 8fed o Orphenaf, 1865, yn Ynys Jersey. Ychydig ddynion ennillasant yn eu bywyd y fath barch cyffredinol gan bob dosbarth a'r diweddar Gadben Gwynne, a llai byth a'i haeddasant. Yr oedd yn un o'r dynion mwyaf gostyngedig, caredig, a thyner-galon, ag oedd yn ddichonadwy eu cyfarfod; ac yn ei farwolaeth cafodd ei luaws deiliadon, yn nghyda thlodion y gymydogaeth, yn gystal a chymdeithas yn gyffredinol, i'r hon yr oedd yn addurn, golled anadferadwy. Fel tir-feistr, yr oedd yn wir bron heb ei gyffelyb ar gyfrif ei dynerwch a'i gydymdeimlad â'r gwan a'r anghenus. Yr oedd ei glust bob amser yn agored i wrando cwyn y tlawd, a'i law yn barod i gyfranu i'w reidiau, a'r "cwyn ni wyddai a chwiliai allan." Mae yn ffaith na ddarfu iddo erioed droi cymaint ag un deiliad o'i fferm o herwydd methu talu am dani. Yr oedd ei ymddygiad bob amser tuag at ei isafiaid yn debycach i eiddo cydradd a chyfaill nag i feistr. Yn fyr, yr oedd yn foneddwr yn ystyr helaethaf a mwyaf priodol y gair. Yr ydoedd hefyd yn wladgarwr o'r iawn ryw—yn caru ei wlad, ei iaith, a'i genedl, ac yn barod bob amser i gefnogi pob symudiad a'i amcan i lesoli ei gydwladwyr.

HUGHES, PARCH. WILLIAM, A.C., diweddar ficer Llanddewi Aberarth, a anwyd yn y Wern, Llanarth, Ebrill 5ed, 1810. Hanai o deulu parchus, a bu ei dad am flynyddau lawer yn offeiriad Ciliau Aeron. Addysgwyd Mr. Hughes yn Ysgol Ramadegol Llanbedr, ac wedi hyny yn

* Trwy ryw amryfusedd diangodd y ddau uchod rhag cymeryd eu lle priodol yn nghorff y gwaith.

Nghgoleg St. Ioan, Caergrawnt. Derbyniwyd ef i'r lle olaf, Medi, 1829; a derbyniodd ei radd o A.C. yn Mai, 1833. Ordeiniwyd ef yn Ddiacon yn mis Medi, y flwyddyn hòno; ac yn Offeiriad y flwyddyn ganlynol. Bu am dymmor yn gwasanaethu fel curad i'w dad yn Ciliau Aeron. Ar y 6ed o Chwefror, 1836, penodwyd ef gan Esgob Ty Ddewi i fywoliaeth Ciliau Aeron; ac ar y 6ed o Hydref, 1847, trwyddedwyd ef i guradiaeth barhaus Llanddewi Aberarth. Gwasanaethodd y ddwy Eglwys hyd Hydref, 1862, pryd y rhoddodd y flaenaf i fyny; ond parhaodd i weinidogaethu yn yr olaf hyd ei farwolaeth. Yn Medi, 1853, gwnaed ef yn *Surrogate*, a bu yn dal y swydd o Ddeon Gwladol Uwch-Is-Aeron am amryw flynyddau. Cymerodd ei farwolaeth le Mawrth 31, 1867; a gadawodd ar ei ol deulu lluosog i alaru eu colled anadferadwy. I ddefnyddio geiriau un oedd yn dra adnabyddus o hono:—"Ymdaenodd y newydd am y dygwyddiad galarus yn mhell ac agos, ac mewn miloedd o galonau y teimlwyd y galar sydd yn cydfyned â cholli cyfaill cywir a dyn da. Nid oedd y gofid dwfn a amlygai ei hunan yn gyfyngedig i un enwad neu ddosbarth; teimlid ef gan bawb, canys hawliai pawb, a hyny yn gyfiawn, iddynt eu hunain ran yn ei gydymdeimlad a'i garedigrwydd pan yn eu mysg. Trwy ei farwolaeth mae bwlch mawr wedi cael ei wneud yn y cylch y troai ynddo. Ei farn, ei ddoethineb ymarferol, a'i graffder, a appelid atynt mor fynych gan y cyfoethog, ag y ceisid ei gydymdeimlad, ei gynghor, a'i gynnorthwy gan ddosbeirth isaf cymdeithas. I'r praidd i'r rhai yr oedd yn arweinydd ysbrydol a bugail, yr oedd ei symudiad yn golled annhraethol, oblegid yr oedd pobl ei ofal yn wrthddrychau parhaus ei bryder a'i lafur diorphwys. Safai yn uchel iawn yn ngolwg offeiriaid y sir. Gwerthfawrogid ei gynghor ganddynt yn gymaint ag y ceisid ef; a gwir ddywedwyd gan amryw o honynt ddydd ei gladdedigaeth, fod yr Eglwys yn rhan ogleddol y sir wedi colli ei harweinydd gwerthfawrocaf a doethaf." Yr oedd yn hynod gydwybodol a ffyddlon yn nghyflawniad ei ddyledswyddau; a thrwy ei ysbryd cymmodlawn, ei dymher fwyn, a'i foneddigeiddrwydd, ennillodd yn llwyr ymddiried ei frodyr yn y weinidogaeth. Yr oedd yn dra rhyddfrydig ei syniadau ar bynciau crefyddol, ac felly perchid ef yn fawr, nid yn unig gan aelodau ei Eglwys ei hun, ond hefyd gan yr ymneillduwyr o bob enwad, y rhai oll a gydunant i'w edmygu fel cymydog, fel cyfaill, ac fel Cristion.

Cludwyd ei weddillion marwol i gladdfa y teulu yn Llanarth, ar y 5ed o'r mis canlynol, a hyny gan dyrfa anarferol o luosog: tystid fod yr orymdaith y fwyaf a welwyd yn y gymydogaeth yn ystod yr hanner can' mlynedd diweddaf. Yr oedd 30 o offeiriaid yn bresenol, a thros 50 o gerbydau o wahanol fathau. Darllenwyd cyfran o'r Ysgrythyr a gweddïwyd wrth y tŷ gan y Parch. E. Morgan, Ciliau Aeron. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth angladdol yn yr Eglwys gan y Parch. D. J. Jones, ficer

y plwyf, a'r Parch. H. Morgan, Hen Fynyw; a phregethwyd ar yr achlysur gan y Parch. James James, Llanbadarn-tref-eglwys. Traddodwyd pregethau angladdol iddo ar y Sabbath yn yr holl Eglwysi cymydogaethol.

JONES, PARCH. LEWIS, a anwyd yn sir Aberteifi, yn y flwyddyn 1793. Addysgwyd ef yn Ysgol Ramadegol Ystradmeurig, a symudodd oddiyno i fod yn athraw yn Ysgol Ramadegol Clitheroe, sir Gaerhirfryn, lle y bu am rai blynyddau. Trwy ddylanwad y Prebendari Parker, un o lywyddion y sefydliad, cyflwynwyd Mr. Jones i ficeriaeth Almondbury, ger Huddersfield, a sefydlwyd ef yn y fywoliaeth yn y flwyddyn 1822. Yn fuan ar ol hyny rhoddwyd iddo hefyd berigloriaeth Trefdraeth. Un o'r pethau cyntaf a wnaeth yno ydoedd adgyweirio yr Eglwys, yr ysgoldy, a'r periglordy, y rhai oeddynt oll mewn cyflwr tra dadfeiliedig; ac er iddo trwy ei ofal a'i wyliadwriaeth ychwanegu yn fawr at werth y fywoliaeth, etto ni dderbyniodd efe ddim erioed oddiwrthi. Wedi hyny cyflwynwyd ef i guradiaeth barhaus Upperthong, ger Holmfirth, fel olynydd i'r Parch. James Tedmore. Yr oedd sefyllfa foesol a chrefyddol trigolion Almondbury yn hynod druenus pan aeth Mr. Jones yno ar y cyntaf i weinidogaethu, heb nemawr ddim cyfleusderau eglwysig nac addysgiadol o fewn y plwyf, yr hwn oedd yn eang iawn, ac yn cynnwys 30,140 erw o dir. Dechreuodd yntau ar ei waith gydag ymroddiad teilwng o'i swydd, a chyda chynnorthwy cyfoethogion cymydogaethol ac eraill, bu yn hynod lwyddiannus; a chyfodwyd yn yr ardal ddim llai na phymtheg o Eglwysi newyddion, yr un nifer o ysgoldai, ac yn agos cymaint o bersondai. Ymdrechodd hefyd yn fawr o blaid addysgu y werin; ac fel prawf o hyny, gellir cyfeirio at Ysgolion Cenedlaethol Almondbury, y rhai a godwyd ac a gynnaliwyd ganddo ef hyd ei farwolaeth. Yr oedd Mr. Jones yn ddiflino yn ei ymweliadau â thlodion a chleifion ei blwyf, y rhai a gawsant fawr golled yn ei farwolaeth. Cymerwyd ef yn glaf gan ymosodiad o'r geri marwol, a hyny ar ei ddychweliad adref wedi bod yn cymeryd rhan yn ngosodiad sylfaen Eglwys newydd Shelley; ac er pob ymdrech o eiddo y meddygon, ehedodd ei ysbryd i'r orphwysfa nefol, ar ol bywyd llafurus a defnyddiol, Awst 26, 1866, yn 73 mlwydd oed.

OWEN, PARCH. JOHN, ficer Thrussington, oedd ail fab Mr. Owen Owen, Cilirwysg, plwyf Llanfihangel Ystrad, lle y ganwyd ef yn y flwyddyn 1788. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn Ysgol Ystradmeurig. Urddwyd ef yn Llanelwy, yn y flwyddyn 1811; a gwasanaethodd guradiaeth Hirnant am tua dwy flynedd. Yn 1814, penodwyd ef i guradiaeth St. Martin, Leicester, a bu yn gwasanaethu amryw Eglwysi yn y gymydogaeth hòno cyn derbyn o hono ficeriaeth Thrussington. Llanwai hefyd y swydd o

Ddeon Gwladol, a pherchid ef yn fawr fel gweinidog ffyddlon i Grist, fel duwinydd rhagorol, ac fel awdwr amryw lyfrau gwerthfawr mewn amddiffyniad i'r Eglwys Sefydledig yn erbyn Pabyddiaeth. Perthynai Mr. Owen i'r dosbarth Efengylaidd yn yr Eglwys, a safai yn uchel iawn yn ngolwg ei frodyr yn y weinidogaeth. Yn mysg ei weithiau mae y rhai canlynol:—"Letters on the Writings of the Fathers of the First Two Centuries," 1838; "Memoir of the Rev. Daniel Rowlands," 1840; "Memoir of the Rev. Thomas Jones of Creaton," 1851; "Lectures on Popery," 1843; "A New Translation of Luther on the Galatians," 1845. Ond yr hyn a roddodd fwyaf o gyhoeddusrwydd iddo fel awdwr ydyw ei gyfieithiadau o Esboniad Calfin, y rhai a ddaethant allan fel y canlyn:—"Y Prophwydi lleiaf," 5 cyf., 1849; "Y Rhufeiniaid," 1849; "Jeremiah," 5 cyf., 1855; "Yr Hebreaid," 1853; "Yr Epistolau Cyffredinol," 1853. Bu farw Gorphenaf 25, 1867, yn 80 oed, yn nhŷ ei fab-yn-nghyfraith, y Parch. Henry Smith, gweinidog Eglwys Crist, St. Alban, yr hwn fel y deallwn sydd yn parotoi cofiant iddo.

Phillips, Parch. John, A. C., oedd fab David a Mary Phillips, Pontrhydfendigaid; a ganwyd ef tua diwedd y flwyddyn 1810. Yr oedd ei nain, o du ei fam, yn gyfnither i'r Parch. John Williams, Lledrod. Yr oedd Mr. Phillips fel hyn, nid yn unig yn hanu o deulu crefyddol, ond cafodd ei ddwyn i fyny i ofni yr Arglwydd o'i febyd, a hyny dan ofal ei nain yn y Tymawr, lle y treuliodd ran helaeth o'i ddyddiau boreuol. Tua dechreu y flwyddyn 1825, teimlwyd adfywiad grymus yn yr ardaloedd hyny, a bu Mr. Phillips yn wrthddrych argraffiadau crefyddol dyfnion iawn. Wedi bod yn cynnorthwyo ei rieni i ofalu am eu *shop* nes oedd tuag 16eg neu 17eg oed, aeth i'r ysgol i Langeitho, yr hon y pryd hwnw oedd dan ofal Dr. Edwards, yn awr o'r Bala. Buasai am ychydig amser yn flaenorol yn Ysgol enwog Ystradmeurig, yr hon oedd yn agos i'w gartref. Yn fuan ar ol ei fynediad i Langeitho, ar annogaeth Mr. Williams, Lledrod, yr hwn oedd y pryd hwnw yn byw yn yr ardal hòno, dechreuodd bregethu. Y bregeth gyntaf a draddododd oddiar Job xx. 29, ac argyhoeddwyd pawb a'i gwrandawai mai cenad anfonedig Duw oedd efe. Tua diwedd y flwyddyn 1829, penodwyd ef gan Gyfarfod Misol sir Aberteifi i fod yn genadwr yn Rhaiadr, sir Faesyfed. Yn fuan ar ol hyn aeth ar daith trwy y Gogledd, ac fel y sylwa Dr. Edwards, (gwel y *Drysorfa* am Ragfyr, 1867), "Mae yn debyg na fu un pregethwr erioed yn tynu mwy o sylw, ac yn crëu mwy o gynhwrf, na Mr. Phillips yn y daith hòno." Mr. Jones o Runcorn, ar ol ei glywed yn pregethu yn Nghymdeithasfa Llanrwst, yr hon a gynnaliwyd Ionawr 3 a 4, 1833, a sylwai wrth gyfaill, "Yr oedd bachgen ieuanc o'r Deheudir yn pregethu yn olaf y nos gyntaf yn y Sasiwn, ar y geiriau, 'Onid oedd raid i Grist

ddyoddef y pethau hyn, a myned i mewn i'w ogoniant?' ac yr oedd yn pregethu yn anarferol dda, ei fater yn gymhwys, ei lais yn seiniol ac yn ystwyth, a'i holl ddull yn gwneud i'r bobl wrando a theimlo. Gallem ddysgwyl iddo, pe cai fyw, fyned yn bregethwr poblogaidd hynod; ond y mae yn rhy amlwg fod angeu wedi gosod ei farc ar y fath wr ieuanc gobeithiol, ac na chaiff efe fyw nemawr etto." Coleddid ofnau cyffelyb o barth i iechyd Mr. Phillips gan amryw o'i gyfeillion yr adeg hòno, ond gwelodd y nefoedd yn dda ei arbed am fod gwaith arbenig ganddi iddo i'w gyflawni. Yn niwedd Hydref, 1833, aeth ef a'i hen athraw a'i gyfaill, Mr. Edwards, i brif Athrofa Edinburgh, lle y treuliasant ranau o dair blynedd gyda'u gilydd. Gyda golwg ar yr amser hwnw, dywedai Dr. Edwards, "Bum yn cydlettya âg ef yn Edinburgh am ranau o dair blynedd; ac yn yr holl amser hwnw ni welais ddim a barodd i mi unwaith ammheu uniondeb a phurdeb ei egwyddorion. Byddwn bob amser yn tueddu i feddwl fod Mr. Phillips yn fwy dyn mewn ymddyddan nag yn y pulpud. Gwyr pawb pa fath un ydoedd fel pregethwr; ond nid oes neb wedi ei weled yn gyflawn na chafodd dreulio llawer o amser yn ei gyfeillach. Heblaw ei fod yn bwyllog a boneddigaidd, yr oedd yn meddu hefyd ar lawer o graffder a llawer o gryfder. O'm rhan fy hun, nid wyf yn gwybod am ddim a wnaeth fwy o les i mi na'r ymddyddanion beunyddiol a fu rhyngom yn y dolydd y tu deheuol i Edinburgh." Yn mis Mai, 1835, mewn cydsyniad â galwad yr eglwys yn y lle, symudodd Mr. Phillips i Dreffynnon i gymeryd arno ofal bugeiliol yr eglwys hòno, ac mae yn debyg mai efe oedd yr unig un ar y pryd yn y cyfryw gysylltiad yn mysg y Methodistiaid Calfinaidd yn Ngogledd Cymru. Llafuriodd yn galed yn y lle hwn, a dilynwyd ei ymdrechion â llwyddiant anghyffredin. Mewn canlyniad i'w gysylltiad priodasol, symudodd yn nechreu 1843 i'r Tabernacl, Mon, ac oddiyno i Fangor yn 1847. Yn awr, cawn ef yn dyfod allan mewn cymeriad arall, yn ychwanegol at ei gymeriad gweinidogaethol, sef fel goruchwyliwr dan Gymdeithas yr Ysgolion Brutanaidd a Thramor. Nis gallwn wneud yn well yn y fan hon na gwneud defnydd o eiriau Mr. Morris Davies, Bangor, yr hwn oedd yn gymydog a chyfaill neillduol i Mr. Phillips:—"Llafuriodd Mr. Phillips yn galed a ffyddlawn gydag achos Addysg, i ddeffroi'r wlad i ystyried yr angen am dano, a thrwy sefydlu ac arolygu Ysgolion Brutanaidd, a chyfarwyddo pwyllgorau lleol i adeiladu ysgoldai prydferth a chyfleus, a'u cynnorthwyo i gael athrawon cymhwys i'r cyfryw ysgolion. Yr anhawsdra i gael athrawon wedi eu hyfforddi i'r gwaith, a arweiniodd i sefydliad y Coleg Athrawol yn Bangor, gyda'r hwn y llafuriodd Mr. Phillips yn effeithiol am flynyddoedd, nes gorphen yr adeilad prydferth, a gosod i fyny y peirianwaith hyfforddiadol ynddo mewn llawn a llwyddiannus weithrediad. Dangosodd ddoethineb a medrusrwydd anarferol yn y llwybr a gymerodd i gael lle cyfleus i

adeiladu y Coleg, yr hwn a gafwyd ar ammodau tra manteisiol, gan y pendefig anrhydeddus, yn bresenol, Arglwydd Penrhyn; ac hefyd i symud rhagfarn boneddigion y wlad, yr hyn oedd yn peri i lawer o honynt ofni rhoddi eu cefnogaeth i'r sefydliad. Yr oedd casglu y swm dirfawr o arian oedd yn rheidiol i godi y fath adail cadarn a golygus, yn gofyn penderfyniad ac ymroddiad anghyffredin; daeth trwy y gorchwyl er pob rhwystrau a digalondid, a hyny mewn amynedd digyffro, yn hynod o dangnefeddus; a chafodd y fraint o weled yr anturiaeth wedi ei chwblhau, a'r tŷ cysegredig i athrawon y genedl wedi ei agor yn ddiddyled. Bydd y tŷ hwn yn gofgolofn ardderchog iddo tra saif o hono faen ar faen." Er casglu y swm angenrheidiol, sef £11,000, teithiodd a llafuriodd yn galed iawn; ac nid oes nemawr bentref yn y Dywysogaeth na thalodd ymweliad âg ef ar ran y Coleg, neu ynte er rhoi cyfarwyddyd a chynnorthwy i sefydlu ysgol ynddo. Bu yn arolygu y sefydliad hwn gyda ffyddlondeb mawr hyd ddiwedd ei oes. Enwogodd Mr. Phillips ei hunan yn fawr hefyd fel darlithydd, a thraddododd amryw ddarlithoedd campus ar wahanol destunau y dydd, megys, "Yr Hungariaid—Ymosodiad y Pab ar Brydain—Pabyddiaeth, Eglwysyddiaeth, ac Ymneillduaeth—Dychweliad yr Iuddewon," &c.

Ychydig cyn ei farwolaeth, ymneillduodd Mr. Phillips a'i deulu i fyw i Brynteg, yn agos i Bentraeth, Mon, lle y bu farw, ar ol tair wythnos o afiechyd, Hydref 9, 1867, yn 56 mlwydd oed. Claddwyd ef yn mynwent Llaneugrad, ac ni welwyd y fath dorf luosog mewn angladd er adeg claddedigaeth y Parch. John Elias. Bernir fod o dair i bedair mil o bersonau yn bresenol, a gwneid y dorf fawr i fyny o wreng a boneddig, plant a phobl mewn oed. Yr oedd tua 150 o gerbydau yn yr orymdaith, ac oddeutu 60 o weinidogion. Darllenodd y Parch. Owen Thomas ranau pwrpasol o'r ysgrythyrau wrth y tŷ, a gweddïodd; ac anerchwyd y dorf gan y Parch. Dr. Edwards. Darllenwyd y gwasanaeth yn yr Eglwys gan y Parch. J. Morris, mewn dull tra difrifol. Yna cyfarchwyd y dorf gan y Parch. H. Rees; ac wedi gweddïo a chanu, ymwasgarodd y llu galarwyr.

**Propert, John, Ysw.**, M.D., Trysorydd a Sylfaenydd y Medical Benevolent College, sydd esiampl nodedig o ddyn wedi ymddyrchafu o sefyllfa isel i un o enwogrwydd, cyfoeth, ac anrhydedd, a hyny yn hollol trwy ei ymdrechion ei hun. Ganwyd ef ar y 19 o Orphenaf, 1793, yn Blaenpistill, ger Aberteifi. Gosododd ei dad, Mr. Thomas Probert, ef yn Ysgol Ramadegol Aberteifi, o dan y Parch. Thomas Morgan. Pan yn bymtheg oed aeth yn fanerwr yn nghatrawd y cartreflu; ond gan nad oedd ganddo ond gobaith gwan am ddyrchafiad, gadawodd y gwasanaeth hwnw, a rhwymodd ei hun gyda Dr. Noot, Aberteifi. Trwy gynnorthwy

perthynas, aeth yn ddisgybl i Abernethy, ac yn 1814 ennillodd ei freinteb (*diploma*). Ymsefydlodd yn ei alwedigaeth, ac o'r amser hwnw allan, yr oedd ei yrfa fel meddyg yn un o lwyddiant nodedig. Ond yr hyn a'i hynodai yn fawr, ac a roddai iddo y fath le uchel yn ngolwg ei gymrodorion, ydoedd ei deimlad cyhoeddus cryf, a'r dyddordeb mawr a gymerai yn llwyddiant ei frodyr. Gwaith mawr ei fywyd oedd sylfaeniad y MEDICAL BENEVOLENT COLLEGE yn Epsom, yr hyn a wnaed yn 1853. Dygodd Mr. Propert i'r gorchwyl elusengar hwn yni anghyffredin, gafaelgarwch bwriad na wyddai sut i roi i fyny waith wedi unwaith ymgymeryd âg ef, a phoblogrwydd personol a dylanwad cymdeithasol yn y brif ddinas, trwy yr hyn y cyrhaeddodd o'r diwedd ei amcan. Mae bron yn annichonadwy ffurfio drychfeddwl cywir am y llafur corfforol a meddyliol yr aeth trwyddo, a'r ymgyflwyniad llwyr a ddangosodd ef i'r achos—gweithio nos a dydd, troi ei dŷ yn swyddfa, ei deulu yn ysgrifenwyr, a gwneud hyn yn brif orchwyl ei fywyd.

Cafodd y fath lafur canmoladwy ei gyflawn wobrwyo, a bu fyw i weled y Coleg yn cyrhaedd maintioli cenedlaethol, ac i glywed ei hunan yn cael ei fawrygu drachefn a thrachefn fel cymwynaswr i'w frodyr. O ddydd ei sylfaeniad hyd ddydd olaf ei oes, bu Mr. Propert yn ffyddlon i wrthddrych mawr ei fywyd. Yr oedd y Coleg, yn nghyda'r oll a berthynai iddo, yn fater o gymaint gofal a phryder iddo a'i amgylchiadau cyfrinachol ei hun, ac arno rhoddai ei feddwl ddydd a nos. Ar amgylchiadau eraill hefyd dangosai Mr. Propert y parodrwydd mwyaf i ystyried a chynnorthwyo unrhyw gynllun yn amcanu at wneud lles i'r cyhoedd yn gyffredinol, ac yn neillduol i'w gymrodorion yn y gelfyddyd feddygol. Yr oedd yn gyfaill diysgog ac yn attegydd y MEDICAL PROTECTION SOCIETY, at yr hon y cyfranodd lawer o arian o bryd i bryd, ac nid oedd nemawr achos cyhoeddus a chyfrinachol teilwng o gefnogaeth nad oedd ef yn gyfranydd haelionus tuag ato. Yr oedd Mr. Propert yn wladgarwr mewn gwirionedd. Ni throdd yr un Cymro erioed yn waglaw oddiwrth ei ddrws. Yn wir, yn ystod ei oes hirfaith, rhoes gynghor a meddyginiaeth yn rhad i gannoedd o'i wladwyr. Y cariad hwn at ei wlad a'i harweiniodd i ymgymeryd âg anturiaethau i'r rhai na feddai yr un cymhwysder. Gwyddai nas gallai rhanau gwledig Cymru byth lwyddo heb ffyrdd haiarn; a phan wnaed y cynnygiad i estyn llinell i dref Aberteifi, taflodd ei holl rym a'i ddylanwad o blaid y symudiad. Rhoddodd allan symiau mawrion o arian yn y llinell hon, sef un Caerfyrddin ac Aberteifi, ac o'r diwedd daeth yn Gadeirydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr. Nid oes neb yn ammheu y dyben a'i cynhyrfai. Credai ei fod yn gwneud gwasanaeth i wlad ei enedigaeth, ac yr oedd yn barod i wneud hyny, er colledu ei hun; canys er yr holl bryder, y drafferth, a'r colledion a barodd hyny iddo, dywedai yn fynych y buasai wedi cael mwy na'i ad-dalu trwy weled y llinell wedi ei

hagor i dref Aberteifi. Ond ni fu byw i'w gweled wedi mwy na hanner ei gorphen. Bu farw Medi 8, 1867, wedi cyrhaedd yr oedran o 75 mlwydd.

REES, A. REES, (Rhys Dyfed). Ganwyd y bardd ieuanc awenber hwn yn y flwyddyn 1837, o rieni parchus, yn Felinbrithdir, plwyf Penbryn. Collodd ei dad pan oedd tua saith mlwydd oed, a disgynodd ei ofal ef, yn nghydag amryw frodyr a chwiorydd, ar fam dirion a synwyrgall. Mewn amser dyladwy rhoddwyd ef yn egwyddorwas yn masnachdy Mr. John M. Jones, (Cunllo), Rhydlewis, lle y cafodd bob manteision ac annogaeth i gyrhaedd gwybodaeth. Oddiyno symudodd i Lynlleifiad, ac oddiyno drachefn i Lundain; ond dychwelodd adref yn wael ei iechyd. Gwellhaodd ychydig wedi hyn, ond ni ddaeth o gwbl yn gryf. Treuliodd y pum' mlynedd diweddaf o'i fywyd yn sefydliad Mr. Jones, ac ennillodd ymddiried a pharch pawb yr ymwnelai â hwy. Tua dechreu y flwyddyn 1866, gwelid yn amlwg fod ei iechyd yn gwaethygu, yr hyn oedd yn achos o bryder mawr i'w luaws cyfeillion. Yr oedd ar yr un pryd yn alluog i fod ar ei draed hyd nes torodd ei waed, yr hyn gymerodd le yn hwyr y 30ain o Fehefin, y flwyddyn uchod; ac er gwaethaf holl ymdrechion y meddygon a weinyddent iddo, bu farw yn mhen yr wythnos, sef Gorphenaf 8fed, 1866, yn 29 mlwydd oed. Gyda golwg ar ei gymeriad fel dyn, sylwa un oedd yn ei adnabod yn dda;—"Nid ydym yn meddwl i un dyn erioed, ag oedd ganddo i ymwneud â chynnifer o gymeriadau gwahanol, roddi boddlonrwydd mwy cyffredinol yn y sefyllfa ymddiriedus ag oedd ynddi. Perchid ef yn fawr gan wreng a bonedd, ac yr oedd yr hyder mwyaf gan bawb ynddo. Dangoswyd hyn, i raddau anghyffredin, yn amser ei gystudd, ac ar ddydd ei gladdedigaeth. Yr oedd ei angladd y mwyaf a welwyd yn y gymydogaeth er's mwy na deugain mlynedd, ac yr oedd delw galar yn amlygedig ar bob gwyneb." Rhoddwyd ei ran farwol i orphwys yn mynwent dawel Llangynllo. Fel bardd, meddai ddullwedd a meddylddrychau ag oeddynt yn neillduol iddo ei hun; ac ni wyddom am neb tebycach iddo, na'r awenyddol Gwenffrwd. Yr oedd ei ddarfelydd a'i chwaeth yn mhell uwchlaw y cyffredin. Nid barddoniaeth iselryw ydoedd ei eiddo ef. Gallai anadlu i'w linellau y fath swyn ag oedd yn hollol anwrthwynebadwy; ac fel y sylwa un, "Ni ddaeth yr un linell wael, a braidd na allwn ddweyd yr un gyffredin chwaith, o'i law erioed. Ni chyfarfyddais âg un erioed a'i awen yn fy ngorchfygu yn lan, ond efe. Yr oedd ei holl gyfansoddiadau megys pe wedi derbyn eneiniad ysbrydoliaeth, ac yn dyferu gan wlith Helicon. Medrai roddi llam i lys yr angel, a darlunio ysgogiadau melltenol y seraph, ac ymrodiai yn nghwmni y cerub hyd wyn feusydd paradwys Duw. Deuai i lawr wedi hyny i ymerodraeth anian, ac ymddifyrai yn mhlith y blodau, y rhai a ddyferent eu mel megys ar ei ganiadau. Ah! dyma lle yr oedd llygad yn

gweled anian, a chalon i deimlo anian, a glewder a feiddiai gydfyned âg anian." Cyfansoddodd lawer iawn yn ei oes fèr; ac ychydig cyn ei farwolaeth, bwriadai gyhoeddi cyfrol fechan o'i weithiau. Nid llawer a gystadlodd mewn eisteddfodau; ond ar yr un pryd, ennillodd amryw wobrwyon pwysig. Yn Eisteddfod Whitland, yr oedd yn gydfuddugol â Glan Cunllo ar y prif destun, sef, "Llewelyn y Llyw olaf;" ac efe a ennillodd y wobr am y "Farwnad i Carn Ingli," yn Eisteddfod Genedlaethol Llandudno, am yr hon y derbyniodd ddeg punt a thlws. Yr ymdrechfa lenyddol olaf o'i eiddo ydoedd ar gyfer Eisteddfod Aberteifi, sef ar y testun, "Marwnad i'r Parch. H. J. Vincent, Llandudoch." Ond cyn cael gwybod tynged ei gyfansoddiad, yr oedd y bardd ieuanc athrylithgar, Rhys Dyfed, wedi canu yn iach i holl ofidiau a helyntion y byd drwg presenol, ac wedi cyrhaedd gororau y wlad hòno lle na ddywed un o'i phreswylwyr, "Claf ydwyf."

"Rhys Dyfed, tra rhed dw'r, tra rhodio—tir
Ei wlad hen, wna Cymro;
Ei ddawn a'i alluoedd o,
Fyddant yn faen cof iddo."—Ioan Cunllo.

Williams, Rhys, (Manod Wyllt), oedd fab Dafydd ac Elizabeth Williams, Hendref, Blaenpenal. Ganwyd ef ar y 14eg o Ebrill, 1841, ac yr oedd yn un o ddau efaill. Gan ei fod yn gorfod gweithio ar y fferm gyda'i dad pan oedd yn bur ieuanc, ni chafodd ond ychydig ysgol. Er yn blentyn yr oedd yn nodedig am hawddgarwch ei deimladau, a'i fwyneidd-dra, ac fel y cyfryw hoffid ef yn fawr gan ei gydysgolheigion. Dechreuodd ddangos tuedd at brydyddu pan tua phymtheg oed, a chyfansoddai lawer o bennillion er difyru ei gydweithwyr. Yn fuan ar ol hyn, sefydlwyd cymdeithas lenyddol yn Mlaenpenal, ac yn y cyfarfod cyntaf daeth yntau allan yn fuddugwr. Tua'r amser yma y mabwysiadodd yr enw "Manod Wyllt," a hyny oddiwrth Lyn y Fanod, yr hwn sydd yn agos i'r fan y cafodd ei eni. Er ei fod o hyd yn dilyn ei waith yn gyson, byddai yn cyfansoddi llawer iawn ar gyfer gwahanol gyfarfodydd llenyddol y gymydogaeth, yn y rhai y byddai bron yn ddieithriad yn llwyddiannus ar ryw destun neu gilydd; ond yn Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth yr enwogodd efe ei hunan fwyaf, ac y tynodd sylw cyffredinol ei gydwladwyr llenyddol, y rhai a goleddent feddyliau uchel iawn am dano, yn nghyda dysgwyliadau mawr am enwogrwydd mwy yn ei aros yn y dyfodol. Yr oedd Manod Wyllt, nid yn unig yn fardd rhagorol, ond hefyd yn areithiwr gwych, ac yn meddu ar bob cymhwysder i fod yn siaradwr cyhoeddus. Pan yn areithio yn yr Eisteddfodau a manau eraill, yr oedd yn cael ei lyncu i fyny yn llwyr gan ei bwnc—yr oedd ei lygaid duon megys yn fflachio, ei drwyn o ffurf Rufeinig, ei wallt du fel y fran, a'i farf laes o'r

un lliw, yn ei wneud yn rhyfeddol o brydferth a mawreddog. Yr oedd yr hen Gymraeg yn disgyn o'i enau fel rhaiadr tryloew, ac yr oedd ei bwyslais priodol fel adsain yr "uchel gadr" gyda'r awel, yn synu y gwrandawyr. Pe buasai yn cael oes gyffredin, buasai yn sicr o ddyfod yn un o brif areithwyr ei wlad. Cafodd ei ddwyn i fyny o'i febyd yn y gymdeithas grefyddol yn Mlaenpenal, a phan yn ddeunaw oed cafodd ei dderbyn yn aelod cyflawn, a phrofodd ei hun yn ddefnyddiol iawn yn y cylch hwn. Fel y sylwa y Parch. J. Evans, yn y *Cylchgrawn*—"Yr oedd yn ddyn mawr yn yr Eisteddfod, ac yn fawr hefyd yn yr Ysgol Sabbathol, yn yr hon y dewiswyd ef yn arolygwr; a dywedir ei fod bron yn bob peth a ddymunid fel y cyfryw. Yr oedd yn fawr yn y cyfarfod llenyddol, ac yr oedd yr un mor fawr, os nid mwy, yn y cyfarfod gweddi. Nid oedd byth yn esgeuluso hwnw, os byddai yn ei allu i'w gael. Ymgymysgai â'r hen frodyr a'r chwiorydd yn y capel ac yn y tai, gan gymeryd rhan gyhoeddus yn y gwaith, a hyny er yn ieuanc iawn." Ond tra yr oedd ei wlad yn dysgwyl pethau mawr oddiwrtho fel bardd a Christion, gwelid yn amlwg fod ei iechyd yn dadfeilio yn gyflym; ac erbyn gwanwyn 1866, yr oedd wedi gwaethygu yn fawr dan bwys arteithiau llymion ei glefyd poenus. Yn mis Mai, yn nghanol ei gystudd blin, cyfansoddodd yr englynion rhagorol a ganlyn:—

Annyddan yw fy nyddiau—a niwlog
  Gan alaeth a phoenau;
A'm haul o dan gymylau—
Y nos hir sydd yn neshau.

Tywyllwch sy'n mantellu—fy oriau,
  Oferedd yw gwadu;
Ow! ataf heb arafu
Nesaodd hwyr y nos ddu.

Dan feichiau 'n dwyn aflechyd—a phoen,
  Dyna ffyrdd fy mywyd;
Yn ochain heb fawr iechyd,
Er fy aeth, yr wyf o hyd.

Duw Ior, O! bydd yn dirion—o honof,
  Er anwir ddrwg galon;
Yn nw'r llwyd fy nhrallodion,
Da yw nawdd dy aden Ion.

Dyoddefai boen angerddol yn ei amser olaf—cymaint felly, fel y dymunai yn fynych gael ei ollwng o hono; etto dyoddefai y cyfan yn hynod ddirwgnach, a thystiai ei fod yn berffaith foddlon i ewyllys ei Dad. Casglwyd yn nghyd ei gyfansoddiodau barddonol, a chyhoeddwyd hwy yn llyfryn destlus y flwyddyn diweddaf, a deallwn fod yr oll wedi eu

gwerthu mewn ychydig amser, ac fod galwad etto am ail argraffiad o'r gwaith. Ceir ynddo hefyd, fywgraffiad cryno o'r awdwr, i'r hwn yr ydym yn ddyledus am ddefnyddiau hyn o gofiant.

"Ni chafodd ond byr chwyfiaw—ar edyn
Anrhydedd nes teimlaw
Ei enaid fry yn unaw,
A chor di rif yr ochr draw.

Aethost, etto dy weithiau—arosant
Yn drysor i'r oesau;
Mae dy fad ber ganiadau,
Oll yn win i'n llawenhau."

# LIST OF SUBSCRIBERS.

Alban, Mr. Evan, B. A., Grammar School, New Quay
Alban, Mr. J. P., St. David's College, Lampeter
Alban, Mr. John, Mason's Row, Aberaeron
Apmadoc, Mr. W., Maesteg
Attwood, J., Esq., Solicitor, Aberystwyth
Beynon, Miss Mary, Pencwm, Llanarth
Bowen, Mr. D. G., St. David's College, Lampeter
Bowen, Miss Mary, Gogerddan
Bowen, Rev. J., Penlan, Ystrad, 2 copies
Davies, Mr. David, Relieving Officer, Llanarth
Davies, Mr. David, Dolwen, Lampeter
Davies, Mr. David, Ffospilcorn, Llanrhystyd
Davies, Mr. David, Ystrad House, Ystrad
Davies, Mr. T., Builder, Aberystwyth
Davies, Mr. David, Wenallt, Llangeitho
Davies, Mr. D., Grocer, Alban Sq. Aberaeron
Davies, Mr. David, Llyswen, Aberaeron
Davies, Mr. David, *(Glan Cunllo)*, (dec.) Llangadock, 4 copies
Davies, Mr. D. H., C.M., British School, Penmorfa, 4 copies
Davies, Mr. David, Merthyr Tydvil
Davies, Rev. D., Gelligaer, Rumney
Davies, Rev. D. C., M.A., London
Davies, Mrs., Golden Grove Arms, Llandybie
Davies, Mr. David Jacob, Ffynnonhywel, Llanrhystyd
Davies, Mr. David, Schoolmaster, Cross Inn
Davies, Rev. David, Bethania
Davies, Mr. D. J., Alban Square, Aberaeron
Davies, Capt. Benjamin, Aberaeron
Davies, Mr. Evan, P. O., do.
Davies, Mr. Evan, Schoolmaster, New Quay
Davies, Mr. E. T., St. David's College, Lampeter
Davies, Mr. Edward Lee, Aberaeron
Davies, Mr. Evan, Penlon, Llanarth
Davies, Mr. Evan, Carpenter, Llannon
Davies, Rev. Griffith, Aberystwyth
Davies, Mr. H. E., *(Eryr Glyn Cothi)*, Llanegwad, 6 copies
Davies, Mr. H. D., Woollen Manufacturer, Cardigan
Davies, Mr. Jenkin, Gorswen, Llanbadarn-trefeglwys
Davies, Mr. John, Grocer, Bethania
Davies, Mr. John, Ysguborfach, Llanbadarn-tref-eglwys
Davies, J., Esq., Ffosrhiwgaled, Aberystwyth
Davies, Master Morris, do. do.
Davies, Mr. John, London House, Aberaeron
Davies, Mr. Jenkin, Llyswen, do
Davies, Mr. Jenkin, Tailor, do.
Davies, Mr. John, Bont, do.
Davies, Mr. J. H., Tailor, do.
Davies, Mr. J., Printer, Brynmawr, 6 copies
Davies, Mr. John, Carpenter, Llanarth
Davies, Mr. James, Golden Key, Llandeilo
Davies, Mr. J. R., Printer, Newcastle Emlyn
Davies, Mr. J. L., Emlyn Arms, do.
Davies, Mr. Jenkin, Printer, Lampeter
Davies, Rev. J., M.A., Llanychaiarn
Davies, J. M., Esq., Antaron, Aberystwyth
Davies, Mr. John, Foundry, Aberystwyth
Davies, Mr. John, Boot & Shoemaker, Pennant
Davies, Mr. John, 27 Whiskin Street, Clerkenwell, London
Davies, Mr. John, Edwinsford Arms, Talley
Davies, Mr. John Rees, Tailor, Ffosyffin, Aberaeron
Davies, Mr. Richard, Shop, Lledrod
Davies, Mr. Richard, Neuadd, do.
Davies, Mr. Thomas, Pantteg, Aberaeron
Davies, Mr. Thomas W., Pontrhydygroes
Davies, Mr. Thomas, Frongoch
Davies, Mr. T. J., Chemist, Llandeilo
Davies, Mr. Thomas, Henllan
Davies, Mr. Thomas, Smith, Swyddffynnon
Davies, Mr. Thomas, Brynrheidiol, Aberystwyth
Davies, Mr. T. H., Draper, do
Davies, Rev. Thomas, Llandeilo
Davies, Mr. Thomas, London House, Aberaeron
Davies, Mr. Thomas, Builder, do.
Davies, Rev. Thomas, M.A., Dihewid
Davies, Mr. T., *(Glan Melinddwr)*, Llansawel
Davies, Capt. Rees, North Road, Aberaeron
Davies, Mr. Robert, Park Terrace, Upper Bangor
Davies, Mr. R., Glanwern, Mountain Ash, 2 copies
Davies, Rev. Octavius, B.A., Curate, Aberystwyth
Davies, Mr. Morris, Upper Bangor
Davies, Valentine, Esq., Carmarthen
Davies, Mr. William, Queen Street, do.
Davies, Mr. William, Shoemaker, Llandybie
Davies, Mr. W. S., Draper, Ystrad, Vale of Aeron
Davies, Mr. William, Shoemaker, Regent St., Aberaeron
Davies, Rev. William, Capel Mair, Cardigan
Davies, Mr. Owen, *(Eos Llechid)*, Llanllechid
Davis, Rev. J., B.D., *(Hywel)*, Vicar of Llanhywel & Dyfed
Edmunds, Rev. William, The Grammar School, Lampeter
Edwards, Rev. D., Penrhyncoch
Edwardes, Rev. D., The College, Hurstpierpoint
Edwardes, Mrs., Bryn Ilar, Llanilar
Edwards, Rev. C. S., Cwmbran, Newport, 2 copies
Edwards, Mr. E., Stationer, Aberystwyth, 6 copies
Edwards, Mr. E., *(Ab Myrddin)*, Aberystwyth
Edwards, Rev. M., Keysoe Beds
Edwards, Rev. W. O., B.D., Aberaeron
Edwards, Rev. E. W., Rhiwabon
Edwards, Thomas, Esq., Merchant, Cardigan
Edwards, Mr. B., St. David's College, Lampeter
Edwards, Mr. Thomas, Bargoed, Llanarth
Egwisyn, Aberystwyth
Elias, Mr. Elias, P. O. Figure Four, Aberystwyth
Elias, Mr. T. T., Newcastle Emlyn
Ellis, Mr. Thomas, C. M., N. School, Abergwili
Ellis, Mr. Griffith, Slate Works, Aberystwyth
Evans, Mr. A. Bookseller, Machynlleth, 6 copies
Evans, Mr. John, Monachty Arms, Aberaeron
Evans, Capt. T., "Prince Cadwgan," do.

**Evans**, Mr. Alcwyn C., Carmarthen
**Evans**, B., Esq., Solicitor, Newcastle Emlyn
**Evans**, Mr. David, Tanner, Aberaeron
**Evans**, Mr. David, Penrhiwdrych, Aberaeron
**Evans**, David, Esq., Frondolay, New Quay
**Evans**, Rev. David, Elim, (dec.)
**Evans**, Mr. D. M., Lammas Street, Carmarthen
**Evans**, Rev. D. Silvan, Llanymawddy, 2 copies
**Evans**, Mr. David, Merchant, Aberaeron
**Evans**, Mr. D., P. O., Aberystwyth
**Evans**, Rev. D. M., Salem, Llandeilo Fawr
**Evans**, Mr. D., *(Dewi Dawel)*, Cwmdu, Talley
**vans**, Rev. D., Penarth, Llanfair, Welshpool
**vans**, Mr. D., Merthyr
**Evans**, Mr. D., *(Dewi Rhystyd)*, Pengaer, Llanrhystyd
**Evans**, Mr. David, New Row, Frongoch
**Evans**, Mr. David, Henbant, Lledrod
**Evans**, Rev. D, Wesleyan Minister, Lampeter
**Evans**, Mr. David, Ironmonger, Lampeter
**Evans**, Mr. David, Mason, Aberaeron
**Evans**, Capt. David. "Aeron Belle," Aberaeron
**Evans**, Mr. David, Mason, Llannon
**Evans**, Mr. David, Mynachty, Aberaeron
**Evans**, Mr. David, Drefasisaf, Bethania
**Evans**, Mr. David, Pantwhilog, Llannon
**Evans**, Mr. D. B., Ironmonger, Aberaeron
**Evans**, Capt. J., "Edith May," do.
**Evans**, Mr. E., P. O., Bow Street, Aberystwyth, 2 copies
**Evans**, Rev. E., Llangeitho
**Evans**, Mr. E. Lloyd, Jack Arms, Aberaeron
**Evans**, Mr. Evan, Penybont, Llanafan
**Evans**, Rev. E., Llangwyryfon
**Evans**, Mr. E., Greigwen, Penuwch
**Evans**, Mr. Evan, Gambia, Aberaeron
**Evans**, Rev. Francis, Ulverstone
**Evans**, Mr. J., Schoolmaster, Llansawel
**Evans**, Mr. J. T., Bristol House, Aberaeron
**Evans**, Mrs., North Road, Aberaeron
**Evans**, Rev. J. P., Efenechtyd, Ruthin
**Evans**, J. N., Esq., Pengarreg, Aberaeron
**Evans**, Mr. J. D., Cilfforch, Aberaeron
**Evans**, Mr. J. D., 52 St. Martin's Lane, London
**Evans**, Mr. J., Chemist, Llandyssul
**Evans**, Mr. J., Salutation Hotel, Newcastle Emlyn
**Evans**, Mr., Black Lion Inn, Pontrhydfendigaid
**Evans**, Rev. John, Talybont, 6 copies
**Evans**, Mr. J., Chemist, New Quay
**Evans**, J. M., Esq., Surgeon, Llanrhystyd
**Evans**, Mr. J., Draper, Talybont
**Evans**, Mr. J. W., Medical Hall, Lampeter
**Evans**, Mr. J., Bancrhydd, Frongoch
**Evans**, Mr. John, Pontrhydygroes
**Evans**, Mr. John, Ty'nllan, Lledrod
**Evans**, Rev. J., Abermeurig, Talsarn
**Evans**, Mr. John, *(Eos Aeron)*, Llannon
**Evans**, Mr. John, Perthrhys, Llanychaiarn
**Evans**, Mr. J., Auctioneer, Rhydfechan, Llanarth
**Evans**, Mr. Griffith, Llainbedwfach, Llanarth
**Evans**, Mr. John, Water Street, Aberaeron
**Evans**, Mr. Morgan, Oakford, Aberaeron
**Evans**, Mr. Morgan, Chancery, Aberystwyth
**Evans**, Mr. T., Penralltwen, Aberarth
**Evans**, Mr. T. M., Cwmdu, Talley
**Evans**, Rev. Thomas, Llanddewi Aberarth
**Evans**, Mr. T. T., *(Lluestwr)*, Aberarth
**Evans**, Rev. T., Llanrhystyd
**Evans**, Mr. T., Draper, Newcastle Emlyn
**Evans**, Capt. Thomas, "Catherine Ann," Aberaeron
**Evans**, Mr. Thomas, Llyswen, Aberaeron
**Evans**, Mr. Thomas, Swan, Talley
**Evans**, Mr. Thomas, Cwmcefncoed, Llanarth
**Evans**, Mr. Samuel, Road Surveyor, Llanrhystyd
**Evans**, Mr. Samuel, Frongoch
**Evans**, Rev. Rees, Llandybie
**Evans**, Rev. Lewis, M.A., Ystradmeurig, 4 copies
**Evans**, Mr. William, Merchant, Aberaeron
**Evans**, Mr. William, Cenarth
**Evans**, Rev. W., Llangybi
**Evans**, Mr. W., New Row, Frongoch
**Evans**, Mr. William, Tailor, Llandybie
**Evans**, Mr. W., Police Sergeant, Aberaeron
**Evans**, Mr William, Penlan, Llannon
**Evans**, Rev. William, Aberaeron
**Evans**, Mr. William, Tregynan, Llanrhystyd
**Evans**, Rev. William, Curate, Swansea
**Evans**, Mr. William, Ffospilcorn, Llanrhystyd
**Evans**, Miss, Parkneuadd, Aberaeron
**Evans**, Miss Catherine, Wern, Aberarth
**Felix**, Rev. J., Lledrod
**Foulkes**, Mr. W., Grocer, Clwtybont, Carnarvon, 12 copies
**Francis**, Rev. David, B.A., Curate, Aberaeron
**George**, Mr., Scripture Reader, Carnarvon
**George**, W. G., Esq., Solicitor, Cardigan
**Green**, Rev. W., B.D, Pontyrhun, Merthyr, 2 copies
**Griffiths**, Mr. David, Saddler, Cardigan
**Griffiths**, Mr. David, Schoolmaster, Aberaeron
**Griffiths**, Mr. David, Cefngwyddil, New Quay
**Griffiths**, Rev. D., Curate, Llandeilo
**Griffiths**, Mr. Daniel, Cenarth
**Griffiths**, Rev. G., Machynlleth
**Griffiths**, Mr. J., *(Gohebydd)*
**Griffiths**, Rev. J., Rector of Neath, 2 copies
**Griffiths**, Rev. J. B. D., Vicar of Llandeilo
**Griffiths**, Rev. J. O., Baptist Minister, Llandeilo
**Griffiths**, Mr. J., Writer, Talley
**Griffiths**, Mr. John, Merchant, Aberaeron
**Griffiths**, Mr. Thomas, Bwlchygraig, Lledrod
**Griffiths**, Mr. Thomas, Grocer, Aberystwyth
**Griffiths**, Mr. T. Cunllo, Newcastle Emlyn
**Griffiths**, Mr. T., Nanteos Lodge, Aberystwyth
**Griffiths**, Mr. W., Chemist, Aberaeron
**Griffiths**, Mr. W., Hermon House, Fishguard
**Griffiths**, Mr. J. Lloyd, Aberystwyth
**Gwynne**, W. Cust, Esq., M.D., Mynachty, 2 copies
**Harries**, Mr. Daniel, Black Lion, Llansawel
**Harries**, Mr. D., *(Caeronwy)*, Llandeilo
**Harries**, Mr. David, Llyswen Mill, Aberaeron
**Harries**, Mr. John, Harbour Tavern, Aberaeron
**Harries**, Mr. William, Llanycrwys
**Henry**, Rev. D., Penygroes, Llandeilo
**Herbert**, Mr. Thomas, Pontrhydfendigaid
**Herbert**, Rev. D. W., M.A., Rector of Tremaen, 2 copies
**Herbert**, Rev. W., Llansantffraid
**Herbert**, Mr. W., Llanfihangel-geneu'r-glyn
**Hughes**, Mr. B., Ironmonger, Aberystwyth
**Hughes**, John, Esq., Lluestgwilym, Aberystwyth

Hughes, Mr. Henry, Ty'nbeili, Llanrhystyd
Hughes, T. J., Esq., Castell Du, Lampeter
Hughes, Rev. T. J., Chaplain of County Gaol, Montgomery, 2 copies
Hughes, Rev. J., Myrtle Hill, Llandeilo
Hughes, Rev. J., B.D., Welsh Professor at St. David's College, Lampeter, 2 copies
Hughes, Rev. R., M.A., Incumbent of St. Catherine's, Edge Hill, Liverpool
Hughes, J., Esq., Park Neuadd, Aberaeron
Hughes, Mrs. C., Prince of Wales Inn, do.
Hughes, Mrs., North Road, do.
Hughes, Mr. W., Printer, Dolgelley, 12 copies
Humphreys, Rev. Lewis, Dolgelley
Isaac, Rev. David Lloyd, Llangathen
Isaac, Mr. Llywelyn, Moulder, Aberystwyth
Jackson, Mr. John, C.M., Llaudybie
James, Mr. Charles, New Street, Aberystwyth
James, Mr. Daniel, Builder, Aberaeron
James, Mr. D., Draper, Llandyssul
James, Rev. David, *(Dewi o Ddyfed)*, M A., F.S.A., Pantteg
James, Rev. D. Lloyd, Pontrobert, Welshpool
James, Mr. Evan, *(Alaw Padarn)*, New Cross
James, Mr. Evan, Ty'nyparc, Llanarth
James, Rev. H. Gwerfyl, Baptist Minister, Mold
James, Rev. J., *(Iago Emlyn)*, Clifton
James, Rev. James, Vicar of Llanbadarn-tref-eglwys
James, Mr. James, Pentremawr, Llanrhystyd
James, James, Esq., Surgeon, Aberaeron
James, Mr. Jenkin, Penrhiw, Aberarth
James, Mr. Levi, Ironmonger, Cardigan
James, Mr. John, Cilcert, Hen Fynyw
James, Rev. T. E., Baptist Minister, Glyn Neath, 4 copies
James, Rev. T., M.A., Llandyssul
James, T. Jones, Esq., Surgeon, Aberaeron
James, Rev. T., *(Llallawg)*, F. S. A., F. G. H. S., Netherthong, Huddersfield
James, Mr. Wm , Manchester House, New Quay
James, Mr. Daniel, Schoolmaster, Cilcenin
James, Mr. James, Princess Road, Aberaeron
James, Mr. J., C.M , N. School, Aberaeron
Jenkins, Mr. Wm., *(Gwilym Gwenog)*, Llanwenog
Jenkins, Mr. D , Tyglynuchaf, Vale of Aeron
Jenkins, Rev. D. R., Millbank Cottage, Llanllwch, 2 copies
Jenkins, Mr. David, Carpenter, Frongoch
Jenkins, Mr. David, Printer, Aberystwyth
Jenkins, E. P., Esq., Blaencyswch, Llangybi
Jenkins, Mr. Evan, Nantgwyllt, Talsarn
Jenkins, Mr. John, New Row, Frongoch
Jenkins, Mr. John, C.M., Nantglyn
Jenkins, Mr. Lewis, North Road, Aberaeron
Jenkins, R. D., Esq., Pantirion, Cardigan, 2 copies
Jenkins, Mr. Richard, Foundry, Aberystwyth
Jenkins, Mr. Thomas, Llanddewi Aberarth
Jenkins, Mr. D., Carpenter, Pontrhydfendigaid
Jenkins, Mr. P. R., Auctioneer, &c., Llangeitho
Jenkins, Mr. J., *(Aeronian)*, Talsarn
Johns, Rev. D., Ebenezer, Carnarvon
Jones, Mr. Daniel, Tanyffordd, Llanfairfechan, 12 copies
Jones, Mr. Daniel, Ynyshir, Aberaeron
Jones, Mr. Daniel, Llwynteg, Llannon
Jones, Mr. Daniel, Cowbridge
Jones, Mr. Daniel, Mount Pleasant, Llannon
Jones, Mr. D. D., Draper, do.
Jones, Mr. Daniel, Ty'nlon, Swyddffynnon
Jones, Daniel, Esq., Agent, Mynachty Villa, Aberaeron
Jones, Mr. David, Pengraig Villa, Llanrhystyd
Jones, Mr. David, Capel Bettws
Jones, Mr. David, Cefnfaes, do.
Jones, Rev. D., Blackwood, New Tredegar
Jones, Mr. D. E., Schoolmaster, Llandyssul
Jones, Mr. D. W., Stationer, Llandeilo
Jones, Mr. David, Cefnwig, Aberaeron
Jones, Mr. David, Winllan, Aberarth
Jones, Mr. David, 33 North Parade, Aberystwyth
Jones, Mr. D., Wine & Spirit Merchant, Aberaeron
Jones, Mr. David, Llanbadarn Fawr
Jones, Rev. David, Ty'nclawdd, Swyddffynnon
Jones, Mr. David, Dolau Bach, Llangeitho
Jones, Mr. David, Penlan, Llanrhystyd
Jones, Rev. D. L , M.A., Gwyddelwern, Corwen
Jones, Rev. D. J., Vicarage, Llanarth
Jones, Mr. Evan, Oernant, Llanarth
Jones, Mr. Evan, Timber Merchant, Dyffryn Arth
Jones, Edward, Esq., B.A., Prospect House, Aberystwyth
Jones, Edward, Esq., B.A., Hibernian Schools, Liverpool
Jones, Mr. Evan, Llangeitho
Jones, Mr. Evan, Cribyn
Jones, Rev. Evan, Tyglyn
Jones, Rev. Evan, Llwyncelyn, Aberaeron
Jones, E. B., Esq., Carmarthen
Jones, Mr. Evan, Victoria, Aberaeron
Jones, Mr. Evan, Painter, do.
Jones, Rev E , Baptist Minister, Ruthin
Jones, Rev. E. A. *(Edeyrn)*, Brynmawr
Jones, Edward, Esq., Pencwm, Llanrhystyd
Jones, Rev. H. W., Baptist Minister, Carmarthen
Jones, Mr. Griffith, Printer, Llandeilo
Jones, Mr. Herbert, Tailor, Oakford, Aberaeron
Jones, Mr. Humphrey, Rock Terrace, do.
Jones, Mr. John, Quay Parade, do.
Jones, Mr. John H., Draper, do.
Jones, Mr. John, Harbour Lane, do.
Jones, Mr. John, Stationer, do. 6 copies
Jones, Mr. John, Hafodfawr, Dyffryn Arth
Jones, Mr. John, Llain, New Quay
Jones, Mr. Jenkin, Penlanlas, Cilcenin
Jones, Rev. Jenkin, Llannon
Jones, Mr. John, Winllan, Aberarth
Jones, Mr. John, *(Ifon)*, Aberystwyth
Jones, Mr. John, Bridge End, do.
Jones, Mr. John P., Bellhanger, do.
Jones, Rev. J., B. A., Curate, do.
Jones, Mr. J. R., Talbot Inn, do.
Jones, Rev. John, R. D., Llanfihangel-geneu'r-glyn
Jones, Rev. Josiah, Machynlleth
Jones, Rev. J. F., B. A., do.
Jones, Rev J., Llanbadarn Fawr

Jones, Mr. John, (*Awyrydd*), Treveca College
Jones, Mr. John, Lampeter
Jones, Mr. J. D., Penrallt, Aberarth
Jones, Mr J. J., Auctioneer, Rhydygof, Lampeter
Jones, Mr. J., Draper, Llanarth
Jones, Mr. J., Llaethliw, Aberaeron
Jones, Rev. J., (*Idrisyn*) Llandysiliogogo
Jones, Mr. J., Sailmaker, New Quay
Jones, Mr. J., St. Bees College
Jones, Mr John, Mydrim
Jones, Capt. J "Xanthippe," Aberaeron
Jones, Capt. J, Blaenbaul, do.
Jones, Mr. John, Rhandir Llanwnen
Jones, Mr. John, Anvil Hall, Frongoch
Jones, Rev. John, Llangiwc
Jones, Rev John, New Quay
Jones, Mr. J., (*Ioan Ddewr*) 15 Castle St., Tredegar
Jones, Rev. J. M., Caerhun, Conway
Jones, Mr. J. D., A. R. C. P., Clwyd Bank School, Ruthin
Jones, Rev John, Blaenanerch
Jones, Mr. John D., Commercial Traveller, Aberaeron
Jones, Mr. John, Felin Synod, Llanarth
Jones, Mr. J., P. O. Llanilar
Jones, Rev. J. Francis, Ystradffin
Jones, Rev. J., Llansadwrn
Jones, Mr. John, Smith, Aberaeron
Jones, J Esq., Solicitor, Llandyssul
Jones, Mr. J., Wine & Spirit Merchant, Newcastle Emlyn
Jones, Rev J. P., Newcastle Emlyn
Jones, J. M., Esq., (*Cunllo*) Rhydlewis, do.
Jones, Mr. J. D, Hawen Hall, do.
Jones, Rev Henry, Llangynllo
Jones, Miss Mary, Erw, Cilie Aeron
Jones, Mr Morgan, Glanhaul, Llanafan
Jones, Mr Lewis, Post Office, Cardigan
Jones, Mr Robert, Black Lion Inn, Ystrad
Jones, Mr Richard, 19 Terrace, Aberystwyth
Jones, Mr Richard, 10 Terrace, do.
Jones, Mr. Richard, Llanddoget, Llanrwst
Jones, Mr. R. T., Glasgow University
Jones, Mr. Stephen, Winllan, Aberarth
Jones, Mr Thomas, Auctioneer, Penuwch
Jones, Mr. Richard, Caerffynnon, Ysbytty
Jones, Mr. Thomas, Castle Green, Aberaeron
Jones, Mr. Thomas, Cambrian Inn, do.
Jones, Mr. Robert, (*Adda Fras*), Aberystwyth
Jones, Mr. Morgan, Castle Green, Llansawel
Jones, Mr. Thomas, Ivy Bush, Lampeter
Jones, Rev. Thomas, Cilcenin
Jones, Mr. Thomas, Swan, Llansawel
Jones, T., Esq., Surgeon, New Quay, 2 copies
Jones, Mr. T., Tailor, Llanarthney
Jones, Rev. M. D., Bala
Jones, Rev. T. Selby, Trewen, Newcastle Emlyn
Jones, Mr. T., Castellmynach, 7 copies
Jones, Rev. Thomas, Curate, Llandyssul
Jones, Mr. T., Draper, Newcastle Emlyn
Jones, Mr. Thomas, Dre'newydd, Aberaeron
Jones, Mr. Timothy, Pantteg, Aberaeron
Jones, Mr. T., Dolfrydi, Ystrad
Jones, Mr. Timothy, Rhiwen, Cross Inn
Jones, Rev. Thomas, Ty'nygwndwn, Ystrad
Jones, Mr. T. D., St. David's College, Lampeter
Jones, Mr. T. J., Terminus Hotel, Aberystwyth
Jones, W. H., Esq., Teivi Castle, Lampeter
Jones, William, Esq., Llwynygroes, do.
Jones, Mr. William, King's Head, Llandeilo
Jones, Rev. William, Aberystwyth
Jones, Mr. William, (*Gwilym ab Ioan*), Dowlais
Jones, Mr. William, Hatter, Aberystwyth
Jones, Rev. William, Cardigan
Jones, Mr. W. J., St. Mary Street, do.
Jones, Mr. Timothy, Wern, Aberarth
Jones, Capt. D., "Star of Wales," Aberaeron
Jones, Mr. John, Blaenyrescair, Caron
Jones, Mr. David, Clerk, Aberarth
Jones, Mr. D., Carpenter, Rock Terrace, Aberaeron
Jones, Mr. Daniel, Factory Lane, Aberaeron
Jones, Mr. David, Merchant, 9 Alban Sq., do.
Jones, Rev. Evan, B.D., Llanfihangel-ar-arth
Jones, Mr. Enoch, Penwenallt, Aberarth
Jones, T. Roose, Esq, Carmarthen
Jones, Mr. David, Cefngaer, Aberaeron
Joseph, Mr. W., Foundry, Cardigan
Joseph, Joseph, Esq., F.S.A., Brecon
Julian, Mr. W., Aberystwyth
Lewis, Rev. D., M.A., Llandygwydd, 2 copies
Lewis, Mr. D., (*Dyganwr*), Llanrhystyd
Lewis, Mr. D. B., Newcastle Emlyn
Lewis, Mr. Evan, Grocer, Llanon
Lewis, Mr. Evan, Glanrhyd, Pencareg
Lewis, Mr. Evan, Victoria Inn, Aberaeron
Lewis, Mr. David, Spring Gardens, Lampeter
Lewis, John, Esq., (*Ioan Mynyw*), Tregaron
Lewis, Mr. John, Tanyparciau, Llanrhystyd
Lewis, Mr. John, Pendre, Cardigan
Lewis, Mr. John, Tyisaf, Llangeitho
Lewis, Mr. John, (*Eos Glyn Wyre*), Llanrhystyd
Lewis, Mr. John, Pontweli, Llandyssul
Lewis, Rev. Evan, B.A., Dolgelley, 2 copies
Lewis, Rev. James, M.A., Llanilar
Lewis, Rev. Lewis, B.D., Llanfair, Dyffryn Clwyd
Lewis, Mr. L. D., St. David's College, Lampeter
Lewis, Mr. Lewis, Relieving Officer, Llanrhystyd
Lewis, Mrs., Llanaeron
Lewis, Mrs., Rhiwgoch, Llanrhystyd
Lewis, Mr. L. W., (*Llew Llwyfo*), Denbigh
Lewis, Capt., "Eigen," Aberaeron
Lewis, Mrs., Wernddu, Llanbadarn-tref-eglwys
Lewes, Col., Llanllur, Vale of Aeron
Lewis, Col., Llysnewydd, Newcastle Emlyn
Lewis, Mr. Thomas, Schoolmaster, Aberarth
Lewis Mr. D., Albion House, Aberaeron
Lewis, Mr. John, Pentre, Aberarth
Longcroft, C. R., Esq., Llanina, Llanarth
Llanover, The Right Honourable Lady, Llanover, 2 copies
Llewellyn, Mr. John, Shop, Cilcenin
Lloyd, Mr. Ebenezer, Trefynor
Lloyd, Mr. Hugh, Draper, Llanddewibrefi
Lloyd, Rev. D. L., B.A., Dolgelley, 2 copies
Lloyd, Mr. John, Llwynbedw, Llanarth
Lloyd, Rev. J., Garnfach, Llanrhystyd
Lloyd, Rev. Jacob, Llanafan
Lloyd, Miss, North Parade, Aberystwyth
Lloyd, Rev. D., Trefonen, Oswestry

Lloyd, Mrs., Alban Cottage, Aberaeron
Lloyd, Mr. Thomas, Cottage, Llangeitho
Lloyd, William, Esq., Solicitor, Ruthin
Lloyd, Mr. Thomas, Chandler, Aberaeron
Lloyd, Mr. J., Stonecutter & Engraver, Aberaeron
Lloyd, Mr. W., Parade, Aberaeron
Maddie, Mrs., Dolayron, 2 copies
Mathews, Rev. T., Borth, Aberystwyth
Mathews, J., Esq., Aberystwyth
Morgan, Rev. David, Ysbytty
Morgan, Mr. D., *(Ceitho)*, Llangeitho
Morgan, Mr. David, Foundry, Aberystwyth
Morgans, Mr. D., Alltlwyd Farm, Llannon
Morgans, Mr. D., Tea Dealer, Pontsaeson
Morgans, Mr. Daniel, Felinfawr, Capel Bettws
Morgans, Mr. Ebenezer, Aberystwyth
Morgans, Mr. E., 14 Great Darkgate Street, do.
Morgans, Mr. E., Draper, do.
Morgans, Mr. T., *(Taliesin)*, Baker Street, do.
Morgans, Mr. D., Parkrhydderch, Capel Bettws
Morgan, T. O., Esq., Aberystwyth
Morgan, Rev. E., M.A., Syston, Leicestershire
Morgan, Rev. M., Vicar of Conway
Morgans, Mr. T., Coedmor Arms, Newcastle Emlyn
Morgans, Mr. J., Carpenter, Cenarth
Morgans, Mr. John, Gogerddan
Morgan, Rev. H. R. D., Llanddewi Aberarth, 4 copies
Morgan, Mr. T. R., Savings Department, General P. O., London
Morgan, Mr. T., Cashier, Brymbo Iron Works
Morgans, Mr. R., Chemist, Aberaeron
Morgan, Mr. G., Berthlwyd, Talybont
Morgan, Rev. William, Myddfai
Morgan, Mr. T., Bryndewi, Aberarth
Morgan, Mr. I, Land Agent, Llanbadarn Fawr
Morgan, Rev. John, Pwllheli
Morgan, Mr I., Nantgoy, Llanbadarn-tref-eglwys
Morgans, Miss C., North Road, Aberaeron
Morice, Rev. T. R., M.A., Aberystwyth, 2 copies
Morris, Mr. Daniel, Cilfachau, Llanrhystyd
Morris, Mr. David, C.M., N. School, Llandeilo
Morris, Mr. David, Draper, Cardigan
Morris, Lewis, Esq., Mount Pleasant, Carmarthen, 2 copies
Morris, Mr. Lewis, Chemist, Llannon
Morris, Mr. Henry, 36 Pier Street, Aberystwyth
Morris, Mr. R., Currier, Aberystwyth
Morris, T. C., Esq., Carmarthen
Morris, T., Esq., Blaenwern, Newcastle Emlyn, 2 copies
Morris, William, Esq., *(Gwilym Tawe)*, Swansea
Morris, Mr. William, Llanilar
Morris, Mr. W., Maengwyn Street, Machynlleth
Morris, Rev. Evan, Aberaeron
Morris, Mr John, Crosdy, Llanbadarntrefeglwys
Owen, Rev. D., Eglwysfach, near Conway
Owen, Mr. H., Slate Works, Aberystwyth
Owen, Mr. John, Blaennantgwine, Llandybie
Owen, Mr. Samuel, Foundry, Cardigan
Palmer, D., Esq., B.A., Cardigan
Parry, Mr. R., *(Robin Ddu)*, Abergavenny
Parry, Mr. J., *(Ioan Dderwen o Fon)*, Aberystwyth
Parry, Mr. Owen, *(O. ab Harri)*, Bristol
Parry, Mr. E., Watchmaker, Llandeilo
Penry, Mr. Thomas, Llandybie
Peters, Mr. Peter, Miner, Llanddewibrefi
Phillips, Mr. J. R., *(Ab Geraint)*, Cardigan, 2 copies
Phillips, Mr. D., P. O., Llanrhystyd
Phillips, Rev. E. O., M.A., Aberystwyth, 2 copies
Phillips, Rev. B. P., Ty'nygwndwn
Phillips, Rev. Thomas, D.D., Hereford
Phillips, John, Esq., Surgeon, Newcastle Emlyn
Pierce, Mr. Thomas, Rhydhir, Bow Street
Powell, Mr. T, Prince of Wales, Aberystwyth
Powell, Mr. Thomas, Quay Parade, Aberaeron
Pritchard, Mr. J., Bookseller, Talybont, 2 copies
Protheroe, Miss, Blyne, Llandybie
Pryse, Sir Pryse, Bart., Gogerddan, 2 copies
Pryse, Mr. John, Bookseller, Llanidloes
Pugh, Mr. John, Shoemaker, Llannon
Pugh, Capt. Lewis, Aberaeron
Pugh, Rev. John, Llanbadarn Fawr
Pugh, Mrs. Anne, Tabernacle Street, Aberaeron
Pugh, Mr. David, Milford Tavern, Aberaeron
Pugh, Mr. Thomas, Cadwgan Place, do.
Rees, Mr. David, Ty'nygwndwn
Rees, Mr. David R., Llanbadarn-tref-eglwys
Rees, Rev. D. C., Talybont, Aberystwyth
Rees, Rev. D., Bronnant
Rees, Mr. David, Draper, Lampeter
Reese, Mr. David, Watchmaker, Aberaeron
Rees, Mr. J., Draper, Aberystwyth
Rees, Rev. David, Llanelly
Rees, Mr. David, Swan Inn, Newcastle Emlyn
Rees, Mr. Henry, Shoemaker, Llandybie, 2 copies
Reese, Mr. John, Watchmaker, Machynlleth
Rees, Rev. J., Bangor, Aberystwyth
Rees, Mr. Rees, Llain, Llanarth
Rees, Miss Sarah J., *(Cranogwen)*, Llangranog
Rees, Mr. T., Book Agent
Rees, Mr. Thomas, Forester's Arms, Llanelly
Rees, Mr. John, 10 Carlton Terrace, Newcastle-upon-Tyne
Rees, Mrs., Belle Vue Terrace, Aberaeron
Rees, Mr. W. J., Draper, do.
Rees, William, Esq., Tonn, Llandovery, 2 copies
Rees, Rev. William, Curate, Aberporth
Rees, Mr. R., Schoolmaster, Felindre, Newcastle Emlyn
Rees, Capt. David, Llain, Llanbadarn-tref-eglwys
Rees, Mr. R. Oliver, Dolgelley, 3 copies
Rees, Rev. John, Indept. Minister, Treherbert
Rees, Mr. Owen, Bookseller, Dolgelley
Richard, Mr. R. W., Queen St., Carmarthen
Richards, Mr. R., *(Eosydd)*, Llandeilo
Richards, Mr. Richard, Chandler, do.
Richard, Rev. Henry, London
Richards, Mr. James, Tanbontbren, Llanrhystyd
Richards, Rev. Asa, Llanfabon, Pontypridd
Richards, Mr. Morgan, Llanafan
Richards, Mr. Elias, Levelfawr
Richards, Mr. W., Mason's Row, Aberaeron
Roberts, Mr. E., Lisburne Mines School
Roberts, Mr. J., C. M., British School, New Quay
Roberts, Rev. J., Llangeler
Roberts, Mr. D., C. M., British School, Taliesin.
Roberts, Mr David, Taliesin, 2 copies

Roberts, Mr. Griffith, Hirael, Bangor
Roberts, Rev. J., (*Ieuan Gwyllt*), Llanberis
Roberts, Rev. R. Ll., Fron, Bethesda
Roberts, Mr. R., Plough, Llanbadarn Fawr
Roberts, Mr. D., White Hart, Cardigan
Roberts, Rev. Samuel, M.A., Llanbrynmair
Roberts, Mr. Richard, Gogerddan
Roberts, Richard, Esq., Aberystwyth
Roberts, Mr. Lewis, Factory Lane, Aberaeron
Roderick, Rev. L., Baptist Minister, New Quay
Rogers, J. E., Abermeurig, Talsarn
Rowlands, Mr. John, (*Giraldus*), Bedwas, Cardiff
Rowlands, R., Esq., F. R C. S., Surgeon, Strata Florida
Rowlands, Mr. D., Blockmaker, Cardigan
Rowlands, Rev. J , Bwlchycibau, Llanfyllin
Rowlands, Mr. Daniel, Mabwshen, Llanrhystyd
Samuel, Mr. David, Shoemaker, Aberaeron
Samuel, Mr. Morgan, Draper, Merthyr
Samuel, Mr. T., Merthyr
Samuel, Mr. William, Bridge St., Aberystwyth
Saunders, Rev. J., Aberystwyth
Scott, Mr. W., 3 Pier Street, Aberystwyth
Simon, Mr. T. Tailor, Llanbadarn Fawr
Sinnett, Mr., Ystrad Teilo, Llanrhystyd
Sinnett, Rev. J., Bangor-ar-Deifi
Spurrell, Mr. W., Bookseller, Carmarthen
Thomas, A R., Esq., 17 The Wardwick, Derby
Thomas, Capt. Abraham, Hengyrynt, Aberaeron
Thomas, Rev. B. D , Llandeilo
Thomas, Mr. Charles, Grocer, Llansawel
Thomas, Miss Charlotte, William St., Cardigan
Thomas, Rev. D. Parry, Llanmaes Rectory, Cowbridge
Thomas, David, Esq., Alban Square, Aberaeron
Thomas, Mr. Elias, Draper, Newcastle Emlyn
Thomas, Rev. Evan, Baptist Minister, Cardigan
Thomas, Mr. G., North Parade, Aberystwyth
Thomas, Mr. Isaac, Penarth, Cayo
Thomas, Jenkin J., Esq., Llaethliw, Aberaeron
Thomas, Mr. John, C. M., N. School, Llanddewibrefi
Thomas, Mr. John, Pantyreryrod, Llanarth
Thomas, Mr. John, Oxwich School, Swansea
Thomas, Mr. J., Chemist, Machynlleth
Thomas, Rev. Ll. Ll., R.D., Newport, Pembroke
Thomas, Mr. Phillip, Angel House, Llandybie
Thomas, J., Esq., (*Josephus Eryri*), Liverpool, 2 copies
Thomas, Mr., C.M., N. School, Penparkiau, Aberystwyth
Thomas, Mr. Thomas, Moulder, Aberystwyth
Thomas, Mr. T , Ty'nywern, Pontypridd
Thomas, Mr. T., Foundry, Cardigan
Thomas, Mr. Thomas, Pier Street, Aberaeron
Thomas, Mr Thomas, 164 Field Street, Liverpool
Thomas, Mr. Thomas, Bridge Street, Aberystwyth
Thomas, Mr. T. Alfred, St. David's College, Lampeter
Thomas, James, Esq ,Surgeon, Newcastle Emlyn
Thomas, Rev. W., M.A., Grammar School, Llandyssul
Thomas, W. Gwynne Stedman, Esq., Carmarthen
Thomas, Mr. William, Foundry, Cardigan
Thomas, Mr. W. J., C.M., N. School, Llanarthney
Thomas, Mr. William, Sailmaker, Aberaeron
Thomas, Mr. J. E., 11 Park Street, Westminster
Thomas, Mr. David, Merchant, Carmarthen
Thomas, Mr. T., Compton House, Aberaeron
Thomas, Rev. R., (*Ap Vychan*), Bangor
Thomas, Mr. Daniel, North Road, Aberaeron
Thomas, Capt. Thomas, Pantteg, Aberaeron
Thomas, Mr. Lewis, Builder, do.
Thomas, Rev. Thomas, Corris, Machynlleth
Thomas, Miss Kate, Feathers Hotel, Aberaeron
Timothy, Mr. E., Draper, New Quay
Vaughan, H., Esq., Brynog, Vale of Aeron, 2 copies
Vincent Very, Rev. James, V., Dean of Bangor
Watkins, Rev. W. E., Baptist Minister, Amlwch
Watkins, Mr. G. E., Angel Inn, Newcastle Emlyn
Williams, Miss Catherine, Gogerddan
Williams, Miss Jane, do.
Williams, Mr. David, Llangeitho
Williams, Mr. David, Penlon, Llanddeiniol
Williams, Mr. David, Draper, Llansawel
Williams, Rev. D., B.D., Llanelly
Williams, Mr. D., Stationer, Cardigan
Williams, Mr. James, Ironmonger, do.
Williams, Mr. John, Chemist, do.
Williams, Mr. E. A., Bank, Newcastle Emlyn
Williams, Rev. J., Gartheli, 2 copies
Williams, Rev. J., Newcastle Emlyn, 2 copies
Williams, Rev. J., Eglwysfach, Conway
Williams, J. G., Esq., Gloucester Hall, Aberystwyth
Williams, Rev. J., Aberystwyth
Williams, Mr. John, Saddler, Aberaeron
Williams, Rev John, Dinas Cross, Pembrokeshire
Williams, Mr. Phillip, Printer, Aberystwyth, 2 copies
Williams, Rev. Rees, Ferwig, Cardigan
Williams, Samuel, Esq., St. David's
Williams, Mr. John, Cae bislan, Aberarth
Williams, Mr. Evan, do.
Williams, Rev. T. L., Llanarthney
Williams, Mr. T., (*Harri ael Ingli*), Lampeter
Williams, Mr. Thomas, Foundry, Aberystwyth
Williams, Mr. Richard, do. do.
Williams, Capt. Thomas, "Aeron Queen," Aberaeron
Williams, Mr. Morris, Carpenter, Aberaeron
Williams, Rev. St. George Armstrong, M. A., Rector of Llangybi, Carnarvonshire
Williams, Mr. W. D., C.M., (*Maelog Mon*), Llannon
Williams, Capt. T., Post Office, New Quay
Williams, Mr. W. S., St. Aidan's College, Birkenhead
Williams, Mr. William, Blaenpenal
Williams, Mr. William, Presbyterian College, Carmarthen
Williams, Mr. William, Goyallt, Llangeitho
Williams, William, Esq., Bank, Lampeter
Williams, Mr. W. D., Schoolmaster, Bettws Bledrws
Winwood, Mrs., Tyglyn, Aeron

3 2044 019 912 351

This book should be returned to the Library on or before the last date stamped below.

A fine of five cents a day is incurred by retaining it beyond the specified time.

Please return promptly.

WIDENER

OCT 3 1 1997

FEB 1 0 1998

CANCELLED

BOOK DUE